

# Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol

## Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe

## Adroddiad nad yw'n arbenigol

ar gyfer

Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyfoeth Naturiol Cymru

Tachwedd 2017

white consultants

Ar y cyd ag

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

The Gower Society / Cyfeillion Gŵyr

Cyngor Abertawe Swansea Council

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad .................................................................................... 3**

**2. Ardaloedd Cymeriad Morwedds ........................................................ 14**

| Rhif SCA | Enw |
|---|---|
| 1 | Aberoedd Afon Tywi, Afon Taf ac Afon Gwendraeth |
| 2 | Bae Caerfyrddin - Dwyrain |
| 3 | Cilfach Tywyn ac Aber Afon Llwchwr |
| 4 | Bae Rhosili |
| 5 | Pen Pyrod hyd at Drwyn Porth Einon |
| 6 | Baeau Oxwich a Phorth Einon |
| 7 | Pen Pwll Du i Ben y Mwmbwls |
| 8 | Bae Abertawe - Gorllewin |
| 9 | Bae Abertawe - Dwyrain |
| 10 | Aber Afon Nedd |
| 11 | Margam i Borthcawl |
| 12 | Porthcawl |
| 13 | Traethell Nash |
| 14 | Môr Hafren – De-Ddwyrain |
| 15 | Môr Hafren – Dwyrain |
| 16 | Canol Bae Abertawe |
| 17 | Cyrion Bae Abertawe |
| 18 | Oddi ar yr Arfordir o Drwyn Oxwich i Ben y Mwmbwls |
| 19 | Môr Hafren – Oddi ar yr Arfordir |
| 20 | Môr Hafren – Oddi Ar Arfordir y De-Orllewin |

**3. Rhestr o Dermau ........................................................................ 161**

# 1. Cyflwyniad



# Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe – Adroddiad Anarbenigol

## Cyflwyniad

Mae morweddau, fel tirweddau, yn adlewyrchu'r berthynas rhwng pobl a lle a'r rhan y mae lle'n ei chwarae wrth ffurfio'r lleoliad i'n bywydau bob dydd.

Mae Asesiad Cymeriad Morwedd yn ffordd systematig o ddadansoddi a disgrifio cymeriad ardaloedd arfordirol a morol. Mae'r broses yn helpu'r ffordd rydym yn ymdrin ag ardaloedd morol a daearol drwy eu hystyried mewn ffordd gyfannol, yn hytrach na'u hystyried yn endidau ar wahân.

Mae'r fersiwn anarbenigol hon o'r adroddiad yn cynnwys methodoleg fer, canllawiau ar ddefnyddio'r asesiad cymeriad hwn, 20 o broffiliau Ardaloedd Cymeriad Morwedd (ACMau) manwl, a rhestr o'r termau technegol.

Mae'r asesiadau – 20 proffil yr Ardaloedd Cymeriad Morwedd – yn disgrifio pob ardal unigol yn fanwl, gan nodi'r nodweddion allweddol, y dylanwadau naturiol a diwylliannol, a'r grymoedd dros newid sy'n effeithio ar bob ardal. Dylai hyn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch datblygu a rheoli, gan ddiogelu cymeriad yr ardal.

Ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, cynhaliodd White Consultants Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol ym mis Chwefror 2016 ar gyfer dwyrain Bae Caerfyrddin, Cilfach Tywyn/Aber Afon Llwchwr, y Gŵyr, a Bae Abertawe. Dinas a Sir Abertawe oedd y prif gleient ar ran grŵp llywio o awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cymdeithas Gŵyr a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae ffin orllewinol yr astudiaeth ym Mae Caerfyrddin ac yn ffinio â'r asesiad gorffenedig o forwedd Arfordir Sir Benfro, a oedd yn ystyried y Parc Cenedlaethol a'i leoliad morol. Y ffin ddeheuol yw terfyn y dyfroedd tiriogaethol. Diffinnir y ffin ddwyreiniol gan ymyl Ardal Cymeriad Morol Genedlaethol 26 ar gyfer Bae Abertawe a Phorthcawl, sy'n ymestyn dros y môr hyd at y terfyn tiriogaethol. Esbonnir tarddiad y ffin fewndirol yn yr Adroddiad Technegol. Dangosir ardal yr astudiaeth yn Ffigur 1.

Nod y fersiwn anarbenigol hon o'r astudiaeth yw bod yn fwy hygyrch i bobl nad ydynt yn arbenigwyr – mae'r fersiwn dechnegol yn cynnwys methodoleg fanwl ac atodiadau sy'n manylu ar y prosesau ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r disgrifiadau llawn o'r Ardaloedd Cymeriad Morwedd wedi'u cynnwys yn y fersiwn hon.

Mae'r Adroddiad Technegol ar gael gan yr awdurdodau lleol dan sylw, a chan CNC.

**Methodoleg**

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon o fewn cyd-destun a fframwaith Datganiad Polisi Morol y DU, 2011 ac Asesiad Morwedd Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 2015. Fe'i cynhaliwyd i raddau helaeth yn unol â chanllawiau morwedd cenedlaethol y DU o dan arweiniad Natural England (NECR105) - mae'r canllawiau hyn yn gyffredinol, gan nodi'r egwyddorion a rhoi hyblygrwydd o ran y dull a ddefnyddir. Felly, datblygwyd dull yr astudiaeth hon drwy gyfeirio at y rhannau perthnasol mewn canllawiau hŷn ac astudiaethau eraill, fel Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Sir Benfro.

Mae'r fethodoleg yn adeiladu ar y canllawiau cyfredol, ond mae wedi'i haddasu ar gyfer graddfa benodol yr asesiad, ar gyfer ardal yr astudiaeth a'i lleoliad yng Nghymru. Er mwyn bod yn gydnaws ac yn gyson ag astudiaethau eraill, mae'r astudiaeth hon yn defnyddio dull astudio Sir Benfro, gan wneud rhai gwelliannau cynyddrannol a defnyddio data ychwanegol megis y set ddata rhyngweledau newydd ar gyfer Cymru gyfan.

Mae CNC ac eraill gan gynnwys Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) wedi darparu data ar gyfer yr astudiaeth. Trefnwyd y data hwn yn gyfres o haenau map ar SGDd, fel y gellid nodi'r ACMau.

Mae'n bwysig diffinio'r termau a'r talfyriadau a ddefnyddir yn yr astudiaeth fel y gellir deall y canfyddiadau – mae rhestr o'r termau a'r talfyriadau wedi'i chynnwys fel atodiad i'r astudiaeth hon.

Mae'r ffin fewndirol wedi'i diffinio drwy droshaenu mapiau OS 1:25,000 a haenau gweledol a synhwyraidd a chynefinoedd tirwedd LANDMAP i ddiffinio'r mathau daearol sy'n gysylltiedig, yn uniongyrchol neu'n agos, â'r arfordir e.e. twyni tywod, clogwyni a llethrau arfordirol, safleoedd carafannau. Yr elfennau hyn yw cydrannau'r mathau daearol yn yr ACMau.

Er mwyn diffinio'r lleoliad, defnyddiwyd haen rhyngweledau tir/môr Cymru gyfan i ddangos lefelau cymharol y rhyngweledau. Disgrifir yr ardaloedd hynny sydd â'r berthynas gryfaf â'r môr (e.e. fel cefndir gweledol) yn nisgrifiadau'r ACMau gan gyfeirio at unrhyw nodweddion perthnasol. Mae'r rhain yn elfennau pwysig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad yr ACMau, yn enwedig y rhai arfordirol.

Mae rhan forol ardal yr astudiaeth yn ymestyn 12 milltir forol oddi ar yr arfordir, ac wedi'i diffinio gan linell 90 gradd o'r arfordir ger Talacharn i gyd-fynd ag astudiaeth Sir Benfro i'r gorllewin, ac o Borthcawl i'r dwyrain (gweler Ffigur 1). Mae'r ffin ddwyreiniol wedi'i hymestyn i gynnwys Ardal Cymeriad Morol 26 yn ei chyfanrwydd er mwyn darparu ffin lân ar gyfer unrhyw astudiaeth i'r dwyrain yn y dyfodol. I'r gorllewin, mae'r broses o ddiffinio'r MCMau ac ACMau wedi golygu y bwriedir addasu'r MCMau a'r ACMau yn ardal astudiaeth arfordirol Sir Benfro i ddarparu continwwm rhesymegol ac i adlewyrchu cymeriad y môr yn yr ardal astudiaeth hon.

Diffinnir rhannau morol ardal yr astudiaeth gan y Marc Distyll (MDll) a'r rhannau rhynglanw rhwng y marc hwnnw a'r Marc Penllanw (MPll).

Cafwyd trafodaethau i geisio diffinio "parth arfordirol" fel rhan o'r astudiaeth hon. Roedd y dewisiadau rhwng maint y cymeriad tirwedd arfordirol oedd yno a maint y rhyngweledau tir a môr oedd yno, neu ryw gyfuniad. Gan fod rhyngweledau yn aml yn estyn am rai milltiroedd yn fewndirol, penderfynwyd na fyddai 'parth arfordirol'

â ffin fewndirol (at ddibenion polisi cynllunio) yn briodol. Fodd bynnag, caiff maint y cymeriad tirwedd arfordirol (megis clogwyni, twyni, morfeydd heli) ei ddiffinio'n ofodol fel rhan o'r astudiaeth hon. Mae mapio'r rhyngweledededd yn darparu haen 'lleoliad' ychwanegol ond ar wahân sy'n gallu helpu wrth asesu effaith ceisiadau cynllunio ar forwedd.

Mae'r ardaloedd hyn o ryngweledededd wedi'u diffinio'n fras yn y mapiau ar gyfer pob ACM. Yn ogystal, dylid cynnwys ardaloedd lle gallai adeiladau fod yn rhyngweladwy ag ACM oherwydd eu taldra mewn parth arfordirol. Golyga ein dull y bydd yr ACMau a'r disgrifiadau yn ategu yn hytrach na dyblygu'r asesiadau cymeriad tirwedd a'r asesiadau LANDMAP, a gellir eithrio ardaloedd ar y mewndir sydd â chysylltiad gweledol neu ffisegol cyfyngedig â'r môr rhwng yr arfordir ac ardaloedd o weledededd uchel.

Defnyddir teipoleg mathau morol, rhynglanw a daearol gyda chyfundrefn enwi arfaethedig a ddatblygwyd ar gyfer astudiaeth Sir Benfro yn yr astudiaeth hon hefyd. Mae'r rhain yn 'flociau adeiladu' cymharol fach o fathau morol, rhynglanw a daearol sy'n cael eu cyfuno i ffurfio'r ACMau unigol.

Wrth ddisgrifio'r ardaloedd morol, defnyddiwyd tair nodwedd - dyfnder dŵr, gwaddodion ar wely'r môr/creigwely, a hinsawdd/pwysau'r tonnau. Gyda'i gilydd, mae'r nodweddion hyn yn pennu cymeriad penodol yr ardal honno, a'i defnyddiau.

Mae'r ardal rynglanw eisoes wedi'i diffinio'n fanwl yng Ngham 1 yr Arolwg Cynefin Rhynglanw Morwrol. Mae hon yn astudiaeth fanwl iawn, ac fe'i defnyddiwyd i ddiffinio ffiniau'r mathau morol a daearol ar y ddwy ochr. Er mwyn symleiddio'r data cymhleth hwn, fe'i symleiddiwyd i wneud synnwyr ar raddfa'r forwedd (e.e. llaid, tywod a graean, creigiau, morfeydd heli a gwelyau cyrs hallt a riffiau biogenig).

Mae'r mathau daearol yn seiliedig ar fapiau OS 1:25,000 a haenau gweledol a synhwyraidd a chynefinoedd tirwedd LANDMAP sy'n gysylltiedig, yn uniongyrchol neu'n agos, â'r arfordir. Yna, fe'u rhennir i mewn i wahanol ddosbarthiadau ar sail agwedd LANDMAP Lefel 3 (e.e. twyni tywod, clogwyni a llethrau arfordirol, safleoedd carafannau).

Fel rhan o'r asesiad, cynhaliwyd pedwar gweithdy rhanddeiliaid ac ymgynghoriad ar y we, gyda gwahoddiadau'n cael eu hanfon at randdeiliaid posibl.

Darperir cofnod a dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriadau yn yr Adroddiad Technegol. Cafodd y sylwadau hyn, a mewnbwn pellach gan y Grŵp Llywio, eu hymgorffori yn fersiwn derfynol yr adroddiad.

Am fwy o fanylion ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i nodi'r ACMau, cyfeiriwch at yr Adroddiad Technegol llawn.

**Canllawiau ar Ddefnyddio'r Ddogfen**

Mae gan asesiad cymeriad morwedd amrywiaeth o ddefnyddiau, o lywio penderfyniadau ynghylch polisi a rheoli datblygu, cynorthwyo datblygwyr a'u hymgynghorwyr a hysbysu'r cyhoedd.

- Mae'n offeryn ar gyfer rheoli newid yn yr amgylchedd arfordirol a morol, gan gwmpasu pedwar awdurdod cynllunio lleol arfordirol.
- Mae'n gyfwerth ac yn gorgyffwrdd â gwybodaeth bresennol ynglŷn â thirwedd gan gynnwys gwybodaeth LANDMAP ac asesiadau cymeriad tirwedd.

Er y ceir gorgyffwrdd gofodol ar yr arfordir, mae'r wybodaeth a ddarperir yn ategu asesiadau'r tir gan ei fod yn canolbwyntio ar gymeriad y môr a'r arfordir, yn hytrach na'r dirwedd, ac yn bwysicaf oll, mae'r ddogfen yn archwilio'r berthynas rhwng y tir a'r môr. Mae rhai ardaloedd yn cynnwys dynodiadau tirweddol megis AHNE Gŵyr neu Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Dylid cyfeirio at y ddogfen ochr yn ochr ag asesiadau ac astudiaethau eraill mewn perthynas ag unrhyw gynllunio, strategaethau neu ddatblygiad arfordirol neu forol.

Mae'r Adroddiad Technegol yn cynnwys y canlynol:

- Y prif adroddiad gyda chyflwyniad, methodoleg, trosolwg a chanllawiau i'w ddefnyddio.
- 20 o broffiliau Ardaloedd Cymeriad Morwedd (ACMau) unigol
- Atodiadau ar deipolegau morweddau, y data a ddefnyddiwyd, ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid, datganiadau manwl ynghylch y dull a ddefnyddiwyd a rhestr termau.

Mae'r Adroddiad Anarbenigol yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyniad, methodoleg, a chanllawiau i'w ddefnyddio.
- 20 o broffiliau Ardaloedd Cymeriad Morwedd (ACMau) unigol
- Rhestr termau.

Dylid darllen yr holl asesiadau ACM perthnasol a'u hystyried yng nghyd-destun y prif adroddiad. Mae'r asesiad yn integreiddio ystyriaethau naturiol a diwylliannol ac yn cynnwys dealltwriaeth o sut y mae pobl yn profi ac yn gweld lleoedd. Mae'r astudiaeth yn nodi'r elfennau, arweddau a nodweddion allweddol sy'n dod ynghyd i greu ymdeimlad cynhenid o le a chymeriad ACM.

Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys arfordir sydd heb ei ddatblygu ac arfordir sydd wedi'i ddatblygu. Mae'r rhan fwyaf o ddinasoedd a threfi Cymru mewn lleoliadau arfordirol, ac mae llawer ohonynt yn cynnwys safleoedd tir llwyd. Felly, mae'r astudiaeth yn hynod berthnasol i bolisi cynllunio trefol ac i waith adfywio, yn ogystal â chadwraeth tirweddau/morweddau.

Mae'r asesiad yn darparu tystiolaeth ofodol sylfaenol ar raddfa awdurdod lleol. Mae'n ategu Asesiad Morwedd Cenedlaethol Cymru, asesiad ar lefel strategol a nododd 29 Ardal Cymeriad Morol (ACM) i lywio Cynllun Morol Cymru. Mae pedair o'r ACMau yn cwmpasu ardal yr astudiaeth hon, felly o gymharu â'r 20 a nodir yn yr astudiaeth hon, ceir gwahaniaeth sylweddol o ran diffiniad gofodol. Yn ogystal, mae'r ACMau yn cwmpasu'r ardal forol hyd at y marc penllanw yn unig. Felly, mae'r asesiad lleol hwn o'r forwedd yn gwneud cysylltiad cryfach a manylach â'r arfordir a'r gefnwlad, ac felly mae'n ddefnyddiol at ystod ehangach o ddibenion.

Mae ardaloedd lle dylid ystyried cymeriad morwedd yn cynnwys:

- Mewn ACM
- Ardaloedd sy'n ffinio ag ACM lle gallai fod cysylltiad anuniongyrchol
- Ardaloedd sy'n rhyngweladwy ag ACM fel y nodir ar y mapiau rhyngwelededd
- Ardaloedd lle byddai strwythur presennol neu arfaethedig yn rhyngweladwy ag ACM oherwydd ei uchder uwchben y ddaear.




*Ardaloedd lle dylid ystyried cymeriad ACM*

**Llywio Datblygiad Polisi**

Cynhaliwyd yr astudiaeth o fewn cyd-destun a fframwaith:

- Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir y DU 2009
- Datganiad Polisi Morol, 2011
- Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru

Mae hefyd yn berthnasol i reoli adnoddau yn gynaliadwy o fewn cyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Paratowyd yr asesiad cymeriad morwedd i fod yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yr Awdurdodau Cynllunio Lleol perthnasol ac ar gyfer cynlluniau a strategaethau eraill.

Yn unol â'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, dylid ystyried morweddau ac amgylcheddau morol yn rhan o'r diffiniad o dirwedd. Mae Datganiad Polisi Morol y DU (2011) yn nodi:

*'y dylid ystyried bod morwedd yn golygu tirweddau â golygfeydd o'r arfordir neu'r môr, ac arfordiroedd a'r amgylchedd morol cyfagos gyda chysylltiadau diwylliannol, hanesyddol ac archaeolegol â'i gilydd'.*

Nid yw'r CDLlau ond yn berthnasol i'r tir o fewn ffiniau awdurdod cynllunio lleol (ACLl) hyd at y marc distyll (MDll). Fodd bynnag, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod angen i gynlluniau a pholisïau lleol ystyried pwysau ar y tir a'r môr ac effeithiau cysylltiedig ar yr arfordir.

Gall pwysau ar y môr gynnwys gwaredu gwastraff, pysgota môr, mwy o hwylio hamdden, treillio sianeli mordwyadwy, chwaraeon dŵr ac ymdrochi, echdynnu agregau morol, neu gynhyrchu ynni llanw a thonnau.

Gall pwysau ar y tir gynnwys datblygiadau mawr ar yr arfordir, gwaith harbwr, cyfleusterau hamdden, cynhyrchu ynni gwynt ac amddiffynfeydd arfordirol.

Dylai'r polisïau anelu at warchod neu wella cymeriad a thirwedd arfordir sydd heb ei ddatblygu, a dylid cynnwys ystyriaeth o'r Arfordir Treftadaeth dynodedig yn y CDLl. Er nad yw'r dynodiad hwn yn effeithio ar statws yr ardal o ran cynllunio, mae'r arweddau sy'n cyfrannu at y dynodiad yn bwysig wrth lunio polisïau. Gall yr asesiad cymeriad morwedd gynorthwyo wrth ddisgrifio rhinweddau'r Arfordir Treftadaeth yn well. Dylid nodi lleoliadau arfordirol yr ystyrir eu bod yn addas neu'n anaddas i'w datblygu, neu sydd ynghlwm wrth gyfyngiadau sylweddol, ar fapiau cynigion. Mae'r asesiad cymeriad morwedd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth er mwyn llywio'r polisïau gofodol hyn.


Mae ardaloedd cymeriad morwedd (ACMau) arfordirol yn cynnwys yr arfordir o fewn ffiniau'r ACLl yn ogystal â'r môr cyfagos. Mae'r rhain yn amlwg yn berthnasol i ACLlau a'u polisïau. Yn ogystal, mae'r ardaloedd a ddiffinnir yn rhai rhyngweladwy â'r môr ac sy'n agos at yr arfordir fel y'u diffinnir ar fapiau'r ACMau hefyd yn berthnasol o ran polisïau arfordirol. Mae'r ACMau ymhellach allan ar y môr nad ydynt yn ffinio'n uniongyrchol â'r arfordir yn dal i fod yn berthnasol o ran ystyriaethau polisi gan eu bod yn cyfrannu at gymeriad yr olygfa o'r môr agored o ardaloedd arfordirol. Gall rhai ACMau fod wedi'u cynnwys ym mholisïau mwy nag un ACLl.



*Mae ardaloedd cymeriad morwedd alltraeth yn cyfrannu'n sylweddol at yr olygfa hon oddi ar Fynydd Rhosili*

Yn y tymor byrrach, dylai unrhyw bolisïau cynllunio lleol sy'n ymwneud â thirwedd fod yr un mor ystyriol o'r forwedd lle bo hynny'n berthnasol (e.e. ar yr arfordir neu lle maent yn rhyngweladwy â'r môr/arfordir). Er mai statws anffurfiol sydd gan y ddogfen, gellir ei chyflwyno gerbron pwyllgorau aelodau ACLlau perthnasol i'w nodi. Awgrymir y dylai'r ddogfen fod ar gael wedyn gan swyddogion tirwedd a chynllunio perthnasol ym mhob ACLl, yn ogystal â chan CNC fel dogfen gefndir. Gallai hyn wedyn helpu i lywio polisïau datblygol a rheoli datblygu.

Yn y tymor canolig a'r tymor hwy, gellir defnyddio morwedd fel term mewn polisïau ochr yn ochr â thirwedd, a gobeithir y bydd y rhannau perthnasol o'r asesiad cymeriad morwedd yn ffurfio rhan o sail dystiolaeth y CDLl, ac yn sail i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol. Yn y pen draw, dylai'r asesiad gael ei fabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol er mwyn rhoi'r pwys mwyaf iddo yn nhermau cynllunio. Gwnaed hyn ar gyfer asesiadau morwedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ffaith bod rhanddeiliaid wedi ymgynghori ar yr asesiad cymeriad morwedd hwn ac wedi cael cyfle i roi mewnbwn ehangach drwy wefan ymgynghori yn golygu bod gan yr asesiad rywfaint o gonsensws eisoes. Fodd bynnag, mae'n amlwg y byddai angen ymgynghori ar y ddogfen yn ffurfiol ym mhob ACLl er mwyn iddi gael statws canllawiau cynllunio atodol.



*Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer morweddau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

Mae'r asesiad cymeriad morwedd yn ystyried grymoedd dros newid ym mhob ACM. Gall y gwahanol fathau hyn o bwysau fod yn ddefnyddiol wrth lywio polisïau cynllunio, megis lle mae effeithiau pwysau datblygu yn amlwg. Gan fod yr asesiad yn giplun mewn amser, gall hefyd fod yn ddefnyddiol wrth fonitro newid.

Gallai'r asesiad cymeriad morwedd fod yn ddefnyddiol wrth nodi problemau a llywio polisïau rheoli megis yng Nghynlluniau Rheoli AHNE Gŵyr yn y dyfodol. Gellir hefyd ymgorffori'r rhinweddau penodol a nodwyd yn yr asesiad yng Nghynllun yr AHNE yn y dyfodol. Dylai unrhyw adolygiad o ffiniau ardaloedd dynodedig ystyried yr ACMau.

Dylid ystyried yr asesiad mewn briffiau datblygu a chanllawiau dylunio ar gyfer pob datblygiad arfordirol. Dylai cyflawni datblygiad sy'n gwarchod ac yn gwella'r ACM ac sy'n parchu ei sensitifrwyddau a'i nodweddion allweddol fod yn nod sylfaenol bob amser.

Mae'r strategaethau eraill y gallai'r asesiad ddylanwadu arnynt o ran maint gofodol a nodweddion yn cynnwys:

- Strategaethau ynni adnewyddadwy
- Strategaethau mwynau a gwastraff
- Strategaethau hamdden a thwristiaeth
- Polisïau a strategaethau carafannau a gwersylla

- Cynlluniau Bro a strategaethau adfywio
- Strategaethau rheoli cynaliadwy sy'n ymgorffori'r dull ecosystemau
- Lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymatebion ymaddasu
- Cynlluniau amddiffyn a rheoli arfordirol
- Cynlluniau rheoli traethlin
- Cynlluniau cymunedol

**Defnydd ar gyfer Rheoli Datblygu**

Mae'r asesiad cymeriad morwedd yn offeryn defnyddiol ar gyfer rheoli datblygu, i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac er mwyn cynorthwyo datblygwyr, tirfeddianwyr a'u hymgynghorwyr.

Yn gyffredinol, mae'r arfordir sydd heb ei ddatblygu yn faes cyfyngedig o ran polisïau cenedlaethol a lleol. Dylai gwaith datblygu arfaethedig ar yr arfordir ystyried yr asesiad cymeriad morwedd ar y cyd â pholisïau tirwedd a chadwraeth presennol, gan gynnwys dynodiadau perthnasol megis AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr. Dylai penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu sy'n effeithio ar yr AHNE ffafrio cadwraeth harddwch naturiol. Dylid nodi hefyd, o ran gwaith datblygu a gweithgarwch arfaethedig mewn ardaloedd y tu allan i'r AHNE, y dylent ddal i ystyried yr effeithiau ar ei phwrpas a'i lleoliad. Gan fod y moroedd a'r aberoedd o amgylch yr AHNE yn agored ac yn adlewyrchol, gall unrhyw effeithiau amharu ar ardaloedd sydd gryn bellter i ffwrdd.

Fel y nodir uchod, yn gyffredinol, y marc distyll cymedrig yw'r terfyn o ran cwmpas rheoli cynllunio daearol, ond rhwng y marc penllanw a'r marc distyll, mae angen i'r system gynllunio weithredu ar y cyd fel arfer ag amrywiaeth o reolaethau eraill dros ddatblygu arfordirol a morol, megis trwyddedu. Yn gyffredinol, mae penderfyniadau ynghylch cynigion datblygu ymhellach allan ar y môr na'r marc distyll cymedrig y tu hwnt i gwmpas y system gynllunio ddaearol. Fodd bynnag, gall datblygiadau ar yr arfordir gael effaith ar yr amgylchedd morol a dylid eu hystyried yng nghyd-destun yr asesiad cymeriad morwedd. Yn aml, mae gan ddatblygiadau morol elfen arfordirol hefyd.

Ar gyfer y datblygiadau morol eu hunain, nid yr ACLlau yw'r awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau, ond maent yn ymgyngoreion statudol. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn delio â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol  ar ran Llywodraeth Cymru. Gall ACLlau a CNC awgrymu pa wybodaeth y dylid ei hystyried, a dylai hyn gynnwys yr asesiad cymeriad morwedd lleol fel yr asesiad morwedd gofodol morol mwyaf manwl. Gall ACLlau baratoi Adroddiadau ar yr Effaith Leol i nodi sut y credant y bydd y datblygiad yn effeithio ar eu hardal, a bydd CNC hefyd yn darparu cyngor. Dylai'r asesiad cymeriad morwedd lywio adroddiadau o'r fath.

Yn gyffredinol, mae'r asesiad cymeriad morwedd yn darparu tystiolaeth sylfaenol a all lywio ble a pha fath o ddatblygiad a fyddai'n debygol o fod yn dderbyniol o ran y forwedd, y dirwedd a'r effaith weledol. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i ystod eang o raddfeydd datblygu – o anheddau unigol ar arfordiroedd gwledig a strwythurau megis gorsafoedd badau achub i forlynnoedd llanw ar raddfa fawr, fel yr un a gynigir ym Mae Abertawe, a datblygiadau alltraeth. Bydd lefel y manylion sydd eu hangen yn dibynnu ar raddfa ac effaith debygol unrhyw ddatblygiad penodol, a bydd yr ACLl yn

eu diffinio fel rhan o'r broses sgrinio a chwmpasu. Bydd yr allbwn angenrheidiol yn amrywio o ddatganiad o'r effeithiau tebygol ar gymeriad y forwedd hyd at asesiad llawn o'r effaith ar y forwedd, y dirwedd a'r olygfa (AEFDO) fel rhan o ddatganiad amgylcheddol.

Mae angen ystyried cymeriad morwedd pan geir datblygiad arfaethedig o fewn ffiniau ACM neu pan geir rhyngwelededd rhwng y datblygiad ac ACM/au. Gellir diffinio hyn drwy ddefnyddio Parthau Gwelededd Damcaniaethol a gynhyrchir gan gyfrifiadur neu drwy ddulliau eraill sy'n darparu tystiolaeth gadarn a chyfiawnadwy. Yna, mae'n rhaid i ddatblygwyr a'u hymgynghorwyr ystyried yr effeithiau ar gymeriad y forwedd a sut y dylai'r dyluniad ymateb er mwyn gwarchod neu wella rhinweddau'r ACM, neu o leiaf i leihau'r effeithiau.

Mae'r dull ar gyfer asesu'r effeithiau ar gymeriad morwedd yn debyg i'r un ar gyfer asesu'r effeithiau ar gymeriad tirwedd a nodir yn y Canllawiau ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Olygfa (CAEDO) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Tirwedd (gweler tudalen 76 yn y Trydydd Argraffiad cyfredol, 2013). Awgrymir fod yr effeithiau ar ardaloedd cymeriad morwedd unigol yn cael eu hasesu yn yr un modd â'r effeithiau ar ardaloedd cymeriad tirwedd neu ardaloedd agwedd LANDMAP. Yn dibynnu ar raddfa'r datblygu, gallai fod angen isrannu'r ACMau yn ardaloedd llai, y gallai fod ganddynt nodweddion ychydig yn wahanol (a lefel wahanol o effeithiau o bosibl). Byddai angen gwneud hyn yn unol â'r dull presennol o asesu cymeriad morwedd.

Mae'n bwysig pwysleisio, oherwydd natur agored a chymeriad digyffwrdd y môr, yn gyffredinol, y gallai effeithiau datblygu morol ynddo gael mwy o effaith ar ardaloedd cyfagos sy'n rhyngweladwy ag ef na phe bai'n ardal cymeriad tirwedd arall gyda phatrymau sefydledig. Yn yr un modd, gallai datblygu ar ardaloedd o'r arfordir neu'r gefnwlad sy'n weladwy o'r môr gael effeithiau sylweddol ar gymeriad ac ar ddefnyddwyr y môr, hyd yn oed os digwydda y tu allan i ACM. Mae'r effeithiau'n cynnwys nid yn unig yr effaith weledol ond hefyd yr effeithiau ar brosesau arfordirol a allai newid cymeriad yr ardal yn fwy sylfaenol. Er enghraifft, gallai datblygiadau morol amharu ar brosesau gwaddodi presennol a'u newid gan arwain at ddiffyg tywod mewn rhai rhannau o'r arfordir tra bo tywod yn cronni mewn mannau eraill.

Mae'r asesiad cymeriad morwedd yn darparu rhestr o ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd neu'n ei leihau. Dylid ystyried y rhain wrth ddiffinio lefel sensitifrwydd ar gyfer ardal cymeriad morwedd benodol mewn perthynas â math penodol o ddatblygiad.

Mae'r asesiad yn rhestru nodweddion allweddol ac wedi'i lywio gan ddisgrifiadau manwl. Dylid ei asesu pe byddai'r nodweddion allweddol hynny'n cael eu dileu neu eu newid yn sgil y datblygiad arfaethedig, neu pe byddai'r datblygiad ei hun yn dod yn nodwedd allweddol. Po fwyaf yr effaith, y mwyaf tebygol yw hi o fod yn arwyddocaol. Wrth ystyried cymeriad ACM a sut y gallai datblygiad effeithio arni, dylid ystyried y disgrifiadau manwl yn llawn hefyd, ynghyd â'r nodweddion allweddol.

Dylid asesu datblygiad i weld p'un a yw'n cydymffurfio neu'n mynd yn groes i bolisïau sy'n ymwneud â chymeriad tirwedd/morwedd, tirweddau dynodedig fel AHNE Gŵyr, a'i effaith ar ymwelwyr a harddwch. Mewn perthynas â thirweddau dynodedig, dylid ystyried yr effaith ar eu rhinweddau hwy a sut y cânt eu diogelu neu eu gwella.

Dylai'r datblygwr gyflogi penseiri tirwedd siartredig â chymwysterau addas a phrofiad o asesu morweddau i gynnal AEDOau. Yn yr un modd, ar gyfer datblygiadau ar

raddfa fwy, gall yr ACLlau hefyd gael eu cynghori gan arbenigwyr â chymwysterau addas i sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu cynnal yn unol ag arferion da ac yn dod i gasgliadau rhesymol y gellir dibynnu arnynt ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**Hysbysu'r cyhoedd**

Mae'r asesiad cymeriad morwedd yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r cyhoedd o'r amgylcheddau arfordirol a morol. Ceir trosolwg gyda chyfres o fapiau sy'n dangos patrwm y cyfyngiadau a'r defnyddiau yn ardal yr astudiaeth. Ar gyfer pob ACM, ceir crynodeb a chyfoeth o wybodaeth ddisgrifiadol a manwl ynglŷn â dylanwadau naturiol a diwylliannol a ffactorau canfyddiadol. Golyga hyn y gall y cyhoedd ddefnyddio'r asesiad ar wahanol lefelau o fanylder a chymhlethdod i ddysgu mwy ynglŷn â'r ardal.

Mewn perthynas â chynigion datblygu, gall y cyhoedd ddefnyddio'r wybodaeth i ffurfio barn ar yr effeithiau ar gymeriad morweddau.

Mae'r Adroddiad Technegol ar gael o wefannau'r ACLlau, a chan CNC. Gallai fod rôl i gyrff eraill fel Cymdeithas Gŵyr o ran cadw copïau digidol a chaled o'r adroddiad fel y gellir cyfeirio ato.




*Aber Afon Nedd pan fo'r llanw'n isel wrth edrych tuag at Fedd y Cawr o dan groesfan yr M4 - enghraifft o ACM fwy trefol*

# 2. Ardaloedd Cymeriad Morwedd



| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **1** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Aberoedd Afon Tywi, Afon Taf ac Afon Gwendraeth** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 1: Aberoedd Afon Tywi, Afon Taf ac Afon Gwendraeth**



*Talacharn - gyda'r castell ar y chwith ac wrth edrych tuag at gartref Dylan Thomas*


*Aber Afon Tywi yn Llansteffan - gan edrych i'r de-ddwyrain tua Glanyfferi*


*Aber Afon Gwendraeth i'r gorllewin o Gydweli - gan edrych tua'r gogledd-orllewin*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM, a elwir hefyd yn Rhwydwaith y Tair Afon, yn cynnwys aberoedd Afon Tywi, Afon Taf ac Afon Gwendraeth a'r afonydd eu hunain hyd at eu terfynau llanw yng Nghaerfyrddin, Sanclêr a Chydweli. Mae'r afonydd yn troelli drwy dirwedd donnog o hen dywodfaen coch ac yn cyfuno mewn morwedd aberol trawiadol â banciau tywod a thraethellau llanw symudol gyda morfeydd heli ar yr ymylon dwyreiniol a gorllewinol. Caiff yr ehangder gwastad hwn, sy'n newid o hyd, ei amgylchynu gan lethrau arfordirol serth, rhai ohonynt yn goediog, gydag arweddau hanesyddol dramatig megis Castell Llansteffan a Chastell Talacharn yn rhannau blaenllaw o'r golygfeydd. Roedd Castell Llansteffan yn arfer bod yn bwynt strategol ar gyfer rheoli croesfan y fferi dros Afon Tywi i Lanyfferi. Yn ddiwylliannol, mae'r ardal yn enwog am ei chysylltiadau â Dylan Thomas a oedd yn byw yn Nhalacharn am ran olaf ei fywyd. Mae'r dyfroedd llanw'n llawn bywyd gwyllt, gyda silfeydd ac ardaloedd silio ar gyfer pysgod, pysgod mudol, a gwelyau cocos. Caiff y dyfroedd eu defnyddio gan gychod hamdden bach ond gallant fod yn beryglus mewn amodau penodol, ac mae'r ambell longddrylliad mewn mannau'n dystiolaeth o hyn. Yn gyffredinol, gwneir defnydd lefel isel o rai traethau at ddibenion hamdden ac mae maes carafannau i'w weld yn amlwg ar lan Afon Gwendraeth. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn defnyddio'r aber a'r twyni tywod cyfagos i hyfforddi, ac mae'r brif reilffordd yn dilyn ymyl y dŵr ar yr ochr ddwyreiniol. Fel arall, mae naws gymharol heddychlon i'r ardal.

## Nodweddion allweddol

- Tair afon lanw â chyrsiau troellog a glannau lleidiog sy'n ymestyn ymhell i'r mewndir drwy dirwedd donnog heb unrhyw groesfannau.
- Aber cyfunol llydan o fanciau tywod symudol a sianeli llanw cul gydag ychydig greigiau i'r dwyrain yng Nghraith Salmon Point, a morfeydd heli ar yr ymylon dwyreiniol a gorllewinol.
- Llethrau arfordirol trawiadol, rhai ohonynt yn goediog a rhai'n laswelltir mosäig, ar Drwyn Wharley ac yng nghyffiniau Llanismel yn amgylchynu'r aber gyda thwyni tywod isel a gwastadeddau i'r de-ddwyrain a'r de-orllewin.
- Mae aber Afon Taf ac Afon Tywi yn SoDdGAau ac yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig/Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd.
- Bywyd gwyllt toreithiog gan gynnwys silfeydd ac ardaloedd silio ar gyfer pysgod megis draenogiaid môr, ac mae pysgod mudol fel sewin ac eogiaid yn nofio i fyny'r afonydd, yn enwedig Afon Tywi.
- Mae arweddau hanesyddol trawiadol, yn benodol Castell Llansteffan a Chastell Talacharn, i'w gweld yn amlwg uwchben y dyfroedd arfordirol a cheir tystiolaeth o fasnach hanesyddol yng Nghei Cydweli, i lawr yr afon o Gastell Cydweli. Mae coredau a thrapiau pysgod yn arweddau hanesyddol yn yr aberoedd.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal yn enwog o ganlyniad i farddoniaeth Dylan Thomas a oedd yn byw yn Nhalacharn am ran olaf ei fywyd.
- Gall y dyfroedd llanw fod yn beryglus a chânt eu defnyddio yn bennaf ar hyn o bryd gan nifer bach o gychod hamdden bach i ganolig eu maint sy'n defnyddio angorau bychain.
- Caiff cocos a chregyn gleision eu casglu yn yr aber, a chaiff eogiaid a physgod eraill eu pysgota yn uwch i fyny'r afon, weithiau gan ddefnyddio'r cyryglau nodweddiadol.

- Mae'r ychydig ddefnydd hamdden o'r arfordir yn cynnwys maes carafannau hirfain, peth defnydd o'r traethau a gweithgareddau traeth cysylltiedig.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn llwybr pwysig ger ymyl y dŵr, gyda llawer o olygfeydd trawiadol.
- Nid yw'r llethrau arfordirol a'r rhan fwyaf o ymyl y dŵr wedi cael eu difetha, gan mai ychydig iawn o ddatblygu a gafwyd yma.
- Mae gan yr ardal ymdeimlad cryf o le ac yn gyffredinol mae'n ardal heddychlon, gyda mynediad cyfyngedig.
- Ceir golygfeydd hir, amrywiol a digyffwrdd, gyda modd gweld penrhyn Gŵyr o rai ohonynt.

## Dylanwadau naturiol

Daw aberoedd llanw Afon Tywi, Afon Taf ac Afon Gwendraeth allan o Fae Caerfyrddin, sy'n wynebu'r de. Mae sianel yr aber yn llifo rhwng y banciau tywod/traethellau llanw hir a symudol sy'n ymestyn allan i'r bae tua'r dwyrain (ACM2 - Traeth Cefn Sidan) a'r gorllewin (Sir Benfro SCA41 - Traeth Talacharn). Mae Trwyn y Tywyn a Thrwyn Ginst yn arwain at draethellau rhwystr yng ngenau'r aber (sy'n cynnwys llongau drylliedig).

Mae aberoedd Afon Taf ac Afon Tywi yn torri i lawr i mewn i hen dywodfaen coch Defonaidd ag iddo streic o'r dwyrain i'r gorllewin ac sy'n goleddfu tua'r de, gyda gorchudd clog-glai Cwaternaidd wedi'i warchod yn y cymoedd. Mae creigiau ychydig yn feddalach yng Nghwm Gwendraeth; creigiau o'r cyfnod Garbonifferaidd Cynnar i Hwyr, yn enwedig calchfaen, cerrig llaid, a thywodfeini, gyda gorchudd rhewglai. Mae sianeli llanw cul yn torri drwy wastadeddau tywod rhynglanwol llydan, rhwng morfeydd heli eang, yn enwedig yng Nghwm Gwendraeth a Chwm Taf. Yn aber Afon Gwendraeth, mae Craith Salmon Point, Craith Pastoun a Chraith Sant Ismael yn ardaloedd o glogfeini creigiog a banciau cregyn gleision. Mae'r aberoedd yn goleddfu ychydig (<1º) allan tua'r bae, ac maent yn facrolanwol (amrediad llanw <8m), gydag amlygiad cryf i donnau (cerhyntau > 2 not). Daw'r gwynt a'r tonnau mynychaf o'r de-orllewin.

Mae'r aberoedd yn suddfannau gwaddod. Mae cludiant gwaddod mewn ffrydiau llanw i lawr yr afonydd yn amrywio o dymor i dymor ac mae cludiant aberol yn ymestyn allan i'r bae. Cludir gwaddod i'r aberoedd o'r dyfnfor ac o'r glannau drwy'r traethellau ffiniol a thraethau, ac fe'i dyddodir ar y tafodau symudol a'r banciau tywod yn yr aber neu yn y morfeydd heli. Mae gwyntoedd ar y tir yn cyfrannu at dwyni i'r de-ddwyrain (Twyni Pen-bre) a'r gorllewin (Twyni Talacharn). Mae'r gwaddod yn symud drwy ddaliant a thrwy dyniant.

I'r gogledd, mae'r afonydd yn torri drwy lwyfandir o hen dywodfaen coch o dan laswellt a choetir ar oddeutu 100-130m Uwch Datwm Ordnans, gyda darnau o glogwyni tywodfaen coch gwrthsafol, megis yn Llansteffan, a thraethau tywodlyd. Mae gorchudd o rewglai Cwaternaidd wedi'i warchod yn y cymoedd. Mae'r creigwely caled yn cyfyngu ar led dyffrynnoedd tywodlyd yr afonydd.

Mae aber Afon Taf ac Afon Tywi yn SoDdGAau ac yn rhan o Ardal Cymeriad Morwedd/Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Mae'r tri aber yn rhan o Ardal Adar Bwysig sy'n gartref i 33,000 o adar dŵr ar sail reolaidd dros y gaeaf, megis y fôr-hwyaden ddu. Mae gwangod a llysywod yn silio yn y tri aber ac yn eu defnyddio fel silfeydd, ynghyd â draenogiaid môr. Mae eog, sewin, llysywod a gwangod yn mudo i fyny Afon Tywi.

Mae'r amrediad llanw mawr yn datguddio gwaddodion tywod a llaid sy'n cefnogi niferoedd mawr o ddwygragenogion e.e. cocos a rhywogaethau eraill. Tywod morlannol a thywod lleidiog yw blaendraeth yr aber yn bennaf. Mae'r tywod yn amrywio ac mae'n fân iawn mewn mannau. Mae riffiau biogenig o welyau cregyn gleision ar is-haenau morlannol cymysg i'w cael yng Nghraith Sant Ismael, Craith Salmon Point, Craith Pastoun ac yn aber Afon Taf. Ar Drwyn Sant Ismael, ceir crachod y gogledd a malwod môr spp. ar glogfeini a chreigiau rhynglanwol agored i gymharol agored. Yn yr ardaloedd lle mae'r traeth yn wynebu cerhyntau cryfach neu erydiad, ceir tueddiad i weld ymyl o greigiau morlannol ynni uchel gyda chymunedau cregyn gleision a/neu gregyn llong, megis ger Trwyn Wharley neu raean morlannol diffrwyth, megis i'r de o Ferrybridge. Lle ceir dyddodiad, ceir tueddiad i weld morfeydd heli arfordirol gyda llyrlys (*Salicornia* spp.) ar eu hymylon a'u gwelyau cyrs hallt. Mae'r rhain i'w cael ar ymylon yr aberoedd yn enwedig ar Afon Gwendraeth ac Afon Taf.

Mae'r gwastadeddau yn gorsydd pori. Tua'r mewndir, ceir glaswelltir wedi'i wella ar lethrau'r bryn a'r cwm yn bennaf, gyda choetir mewn mannau.



*Mae gwylio adar yn boblogaidd ger aber Afon Gwendraeth.*



*Cerdded ar flaendraeth coediog aber Afon Tywi pan fo'r llanw'n isel.*

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r tri aber troellog a symudol hwn yn llanwol hyd at fwrdeistrefi gyda chestyll - Sanclêr ar Afon Taf, Cydweli ar Afon Gwendraeth, a Chaerfyrddin ar Afon Tywi. Mae gwreiddiau trefol Caerfyrddin yn hŷn, yn dyddio i'r cyfnod Rhufeinig, fel *Moridunum*, prifddinas lwythol y Demetae, a safle milwrol. Yn ystod y cyfnod canoloesol, roedd Caerfyrddin yn un o'r trefi a'r porthladdoedd pwysicaf yng Nghymru, os nad y pwysicaf. Roedd Talacharn, ar lannau gorllewinol Afon Taf ac ar ben dwyreiniol y Landsger, hefyd yn fwrdeistref â chastell. Yn Llansteffan, mae'r castell wedi'i adeiladu ar ben bryngaer o'r Oes Haearn. I'r dwyrain, yn Llanismel, ceir pentref canoloesol anghyfannedd ar y blaendraeth ac o dan ymyl gyfagos yr arfordir.

Mae'r ACM yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Tywi ac aber Afon Taf ac Afon Tywi.

O dan y dŵr ger Llansteffan, credir fod llong môr-ladron wedi'i dryllio, llong y cyfeirir ati yn Nogfennau Gwladol Elisabeth I a oedd yn pwyso oddeutu 30 tunnell ac yn cludo halen a haearn. Mae sianeli Cydweli wedi peri i nifer o longau dirio a suddo – y *Dublin* ym 1789 a'r *Two Brothers* ym 1953. Mae llongau eraill sydd wedi dryllio yn yr ardal hon yn cynnwys llongau o'r Eidal (*Toni*, a suddodd ym 1899) a llongau o Ffrainc (*Jeune Marie*, a suddodd ym 1854; *Bois Rouge*, a suddodd ym 1862) yn ogystal â nifer o awyrennau.

Nododd arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir cymharol uchel ar un adeg gyda photensial uchel fod dyddodion wedi goroesi. Argymhellodd y dylid gwneud pob ymgais i gadw dyddodion yn eu lle. Mae coedwig danfor i'w chael yn y gwelyau mawn yn aber Afon Gwendraeth ger Llanismel yng Nghraith Salmon Point. Mae hyn yn dystiolaeth fod lefelau'r môr yn is yn y cyfnod Mesolithig. Ceir tystiolaeth hefyd o aneddiadau dynol cynnar ar y clogwyni a'r llethrau arfordirol.

Mae llawer o angorfeydd a rhydiau bychain i'w gweld yn yr ardal hon. Mae traffig morol hanesyddol, yn bennaf ar hyd Afon Hafren a chyn belled ag Iwerddon, yn adlewyrchu tirlun amaethyddol toreithiog y gefnwlad, er bod Cydweli yn cynrychioli pen gorllewinol prif faes glo De Cymru, ac yn gartref i weithfeydd brics a thun. Roedd yr ardal yn ganolbwynt i fôr-ladron yn yr 16eg ganrif. Yn fwy diweddar, mae'r ardal wedi ymaddasu i dwristiaeth a manwerthu.

Mae'r aneddiadau yn Llansteffan a Glanyfferi yn adlewyrchu hen groesfan ar Afon Tywi. Roeddent yn arosfannau pwysig ar lwybr arfordirol y Normaniaid o Forgannwg drwy Gydweli i Benfro. Defnyddiwyd y fferi gan Giraldus Cambrensis ym 1188. Adeiladwyd castell Llansteffan, sy'n wynebu Glanyfferi dros yr aber, er mwyn rheoli'r groesfan. Mae'r strwythur hwn o'r 12fed ganrif yn arwedd drawiadol ar y pentir. Datblygodd Glanyfferi fel pentref pysgota, ond fe dyfodd ar ôl agor Rheilffordd De Cymru ym 1852. Mae'r arfdy yn atgof o bwysigrwydd strategol y groesfan.

Mae tref Talacharn yn cadw ei chymeriad fel bwrdeistref Ganoloesol gyda'i chastell. Yng Nghydweli, cafodd yr hen dref gaerog y tu allan i'r castell ei disodli gan ganol mwy diweddar i'r dref, canol ag iddo darddiad canoloesol, ond sy'n cynnwys adeiladau nodweddiadol o'r 18fed, 19eg a'r 20fed ganrif. Roedd y morwyr yn dibynnu ar allu gweld eglwys Llanismel a Thrwyn Wharley a Bryn y Castell i'w harwain drwy'r sianeli.

Yn y Canol Oesoedd, roedd Cydweli'n cystadlu â Chaerfyrddin fel porthladd masnachol, ond arweiniodd siltio'r aber yn yr 16eg ganrif at ei dirywiad, er i'r cei a'r gamlas gael eu hadeiladu yn y 18fed ganrif.



*Ysgythriad o Gastell Cydweli, 1831*

Mae trapiau pysgod a choredau wedi'u canfod ger cydlifiad y tair afon. Ynghyd â Thalacharn, roedd Glanyfferi wrth wraidd y diwydiant cocos ym Mae Caerfyrddin ar un adeg. Gallai menywod casglu cocos o Lan-saint gasglu oddeutu 650 tunnell o gocos y flwyddyn, a gwnaethant hynny tan tua 1900. I fyny'r afon, dywedir mai pysgota eogiaid a sewin mewn cyryglau yw'r diwydiant hynaf yng Nghaerfyrddin.

Mae gan yr ardal hon gyfoeth o gysylltiadau diwylliannol. Ym 1136, bu farw Gwenllian ferch Gruffudd ap Cynan, gwraig Gruffydd ap Rhys, mewn brwydr pan arweiniodd ymosodiad ar gaer Normanaidd Cydweli, ac fe'i lladdwyd wrth ymladd y tu allan i'r dref, mewn man a elwir hyd heddiw yn Faes Gwenllian. Roedd teulu'r Dwniaid o Gydweli yn llinach ranbarthol bwysig, ac mae'r bardd John Donne yn ddisgynnydd i'r teulu hwnnw. Mae'r castell i'w weld yn y ffilm *Monty Python and the Holy Grail*.

Roedd ardal Pen-bre i'r de o aber Afon Gwendraeth yn rhan o amddiffynfeydd gwrthymosodiad hanesyddol pwysig yr Ail Ryfel Byd fel rhan o Linell Atal Caerfyrddin. Disgrifir hyn yn fanylach yn ACM 2.

Mae Talacharn yn gysylltiedig â Dylan Thomas, ac mae ei gartref a'i sied ysgrifennu, a fu'n ei defnyddio o 1949 hyd ei farwolaeth yn 1953, wedi eu cadw fel cysegrfan. Roedd yr olygfa o'r aber yn rhoi cyd-destun ac ysbrydoliaeth i'r bardd. Cred llawer mai Talacharn oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer Llareggub yn *Under Milk Wood* (a berfformiwyd am y tro cyntaf ym 1953) er bod rhai yn dadlau bod y gwaith wedi'i ddechrau yng Nghei Newydd yng Ngorllewin Cymru a honnir mai dyma'r ysbrydoliaeth wreiddiol. Mae'n gysylltiedig â'r ardal o gwmpas Afon Tywi hefyd, gyda'r tŷ Fernhill wedi ei leoli ger Llan-gain yng nghefnwlad yr aber.

Yn y gerdd *Poem in October* (Hydref 1944), credir ei fod yn disgrifio cerdded o Dalacharn (neu Gei Newydd o bosibl o gofio'r dyddiad) ac mae'n dechrau drwy ddweud:
*'Yn fy negfed blwydd ar hugain yn y nefoedd*
*Deffrais i sŵn yr harbwr cyfagos*
*A phyllau'r cregyn gleision ar y lan ym mhlwyf y crëyr*
*Mae'r bore'n galw arnaf*
*Â gweddi'r dŵr a chân yr wylan a'r frân*
*A'r cychod hwylio'n taro ar y wal weog*
*I droedio*
*Yr eiliad honno*
*Ymaith i'r dref gwsg.'*

Seiliodd Richard Hughes, a fu hefyd yn byw yn Nhalacharn, y golygfeydd Cymreig yn *The Fox in the Attic* ar yr aberoedd. Bu Augustus John, Glyn Jones a Robert Graves yn ymweld â'r dref.

Mae arlunwyr wedi bod yn paentio harddwch trawiadol yr aber a'i chestyll rhamantus ers canrifoedd. Cynhyrchwyd rhai o'r paentiadau mwyaf trawiadol gan Turner, a oedd yn arlunydd tirluniau a morluniau digyffelyb. Fe'i gelwir yn aml yn 'arlunydd golau' fel y gwelir yn y lluniau isod.



*'Castell Talacharn', JMW Turner, tua 1831*



*'Castell Llansteffan yng ngolau'r lleuad', JMW Turner*

O ran mordwyo, mae aber Rhwydwaith y Tair Afon ychydig dros 3km o led rhwng Trwyn Ginst a Phen Tywyn. Sianeli naturiol cul cyfyngedig sydd yn yr aber a'r dynesfeydd o ganlyniad i'r banciau tywod helaeth sy'n sychu a thraethell ym Mae Caerfyrddin i'r de (ACM2 a Sir Benfro ACM41). Mae'r llanw'n llifo'n gryf gan greu amgylchedd garw yn ystod gwyntoedd ar y tir. Prin yw'r marcwyr parhaol, megis y tŵr ar Drwyn Ginst a phontŵn y parth perygl cyfagos, a'r nodweddion mwyaf peryglus yn unig sy'n cael eu marcio yn dymhorol gan fwiau. Mae bad achub arfordirol annibynnol yn gweithredu o Lanyfferi i wasanaethu Rhwydwaith y Tair Afon. Mae'r problemau nodweddiadol yn cynnwys cychod yn tirio mewn mannau fel Trwyn y Tywyn a phobl yn mynd yn sownd mewn llaid dwfn.

Caiff cocos a chregyn gleision eu casglu â llaw yn fasnachol, yn ogystal â physgota pysgod cregyn. Mae pobl hefyd yn cloddio yma am rawn cregyn gleision. Mae cyfyngiadau rhwydo ar waith yn yr aber i ddiogelu salmonidau a draenogiaid môr ifanc. Fodd bynnag, defnyddir rhwydi gosod ar draethau hefyd, er mwyn dal draenogiaid môr, er enghraifft. Mae slafan (er mwyn gwneud bara lawr) yn cael ei gasglu mewn mannau. Dywedir mai Afon Tywi yn un o'r afonydd gorau yn y wlad ar gyfer brithyllod môr (sewin), yn ogystal ag eogiaid. Er eu bod yn dod i mewn i'r afon drwy'r aber ac estyniad y llanw, cânt eu pysgota yn rhan ganol yr afon, i'r gogledd o Gaerfyrddin (i'r gogledd o Nantgaredig), weithiau mewn cyryglau hyd heddiw.

Mae de-ddwyrain yr ardal, gan gynnwys aberoedd Afon Tywi ac Afon Gwendraeth, yn rhan o ardal ymarfer milwrol Pen-bre. Mae aber Afon Taf yn rhan o ardal ymarfer milwrol Pentywyn. Mae defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn golygu bod mynediad yn gyfyngedig, a rheolir cynefinoedd yn unol â'r dynodiadau.

Mae mordeithiau yn hwylio o Afon Tywi o angorfeydd yng Nglanyfferi allan i Fae Caerfyrddin. Mae Glanyfferi yn gartref i Glwb Hwylio Afon Tywi gyda glanfa ac oddeutu 20 o angorfeydd siglo ar gyfer cychod bach i ganolig. Mae ysgol Syrffio a Bordhwylio yn gweithredu yma. Dros y dŵr tua'r gorllewin, mae clwb hwylio arall ger Llansteffan gyda llithrfa, glanfa a chyfleusterau storio cychod ar y lan ac mewn sied. Mae'r gweithgareddau yno yn cynnwys hwylio dingi, mordeithiau mewn cychod hwylio a chychod modur, rhwyfo a chanŵio. Mae oddeutu 20 o angorfeydd siglo ger y clwb ac i lawr yr afon. Mae ychydig o gychod bach yn angori yn y sianeli llanw cyfyngedig yn y morfa heli yn Nhalacharn. Defnyddir Afon Taf i rwyfo o Drwyn Wharley tua'r mewndir. Defnyddir aberoedd Afon Tywi ac Afon Gwendraeth i donfyrddio a sgïo dŵr. Mae llinellau trydan dros Afon Tywi yn cyfyngu mynediad tua'r gogledd i gychod mastiog.

Mae Traeth Llansteffan, Traeth Bryn Tywi (maes carafannau Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin) a'r traeth yng Nglanyfferi yn cael defnydd ysgafn. Ni wyddys beth yw ansawdd dŵr ymdrochi'r traethau ond mae'n debygol ei fod yn cael ei effeithio gan sefyllfa'r aber. Caiff barcutiaid pŵer eu hedfan o gwmpas Glanyfferi. Mae pobl yn pysgota môr ar ddwy ochr yr aber. Mae gwylio adar y gwlyptir/adar hela yn boblogaidd yn aberoedd Afon Tywi ac Afon Gwendraeth. Mae pobl yn saethu adar y gwlyptir yn aberoedd Afon Taf ac Afon Gwendraeth.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn darparu golygfeydd ysblennydd i lawr tuag at aberoedd Afon Taf ac Afon Tywi o lethrau coediog i'r gogledd ac i'r de o Dalacharn mewn mannau fel Bryn Sant Ioan, ac o benrhyn Llansteffan. Mae'r llwybr hefyd yn pasio ar hyd ymyl y dŵr ger uchafbwyntiau megis Castell Talacharn a chartref a sied ysgrifennu Dylan Thomas, yn ogystal â Chastell Llansteffan a Glanyfferi i'r dwyrain. Mae'n ymestyn sawl milltir tua'r mewndir drwy gefn gwlad i'r mannau croesi cyntaf yn y ddau gwm. I'r dwyrain, mae'r llwybr yn rhedeg ger Castell Cydweli ac yna'n ôl ar hyd yr aber heibio i Gei Cydweli.

Y tu hwnt i aneddiadau Talacharn, Llansteffan, Glanyfferi a Chydweli a'r maes carafannau arfordirol ym Mharc Gwyliau Bae Caerfyrddin, mae'r aneddiadau yn y gefnwlad yn wledig gyda ffermydd ar y bryniau yn edrych dros rannau llanwol uchaf Afon Tywi ac Afon Taf. Mae estyniad uchaf parth llanw Afon Tywi yng Nghaerfyrddin, a Sanclêr yw'r dref gyfatebol ar Afon Taf. Mae'r rheilffordd yn elfen gref o'r dirwedd ac yn rhedeg ar hyd ochr ddwyreiniol aber Afon Tywi, gan greu rhwystr ffisegol sy'n caniatáu mynediad ysbeidiol yn unig i ymyl y dŵr.



*Y bont afon lanw yng Nghaerfyrddin*



*Yr olygfa o eglwys Llanismel dros Afon Tywi a thuag at Drwyn Wharley*

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae cymeriad yr ACM hon yn newid rhwng estyniad uchaf y llanw a'r man lle mae'r tri aber yn cyfuno. Yn yr ardaloedd allanol, tua'r môr o Dalacharn, Llansteffan, Glanyfferi a Chydweli, mae'r raddfa'n fawr ac mae ymdeimlad cryf o lefel lorweddol y môr, y tywod, y morfeydd a'r gwastadeddau llaid. Mae'r llethrau coediog serth yn ffrâm i olygfeydd trawiadol allan tua'r môr a thros yr aberoedd gan roi ymdeimlad nodweddiadol o le. Atgyfnerthir hyn gan arweddau hanesyddol cryf megis y cestyll yn Llansteffan a Thalacharn ac aneddiadau cysylltiedig â thai sydd wedi eu rendro'n wyn. Mae llethrau llai serth y tir pori'n cydbwyso ac yn wrthlen i'r nodweddion hyn ym mhennau isaf y cymoedd. Mae'r gwastadeddau y tu ôl i Draeth Pentywyn yn newid y berthynas rhwng y tir a'r môr yn sylweddol ac yn darparu golygfeydd dros Fae Caerfyrddin a thuag at y Gŵyr.

Yn uwch i fyny'r aberoedd, mae'r raddfa a'r natur gaeëdig yn lleihau wrth i ochr y dyffryn gilio. Mae mwy o wastadeddau corstir cysylltiedig rhwng y bryniau isel sy'n amgáu'r ardal ac sy'n serth mewn mannau, gyda phatrwm mwy bylchog o lethrau ac is-gymoedd. Mae meindyrau eglwysi yn yr aneddiadau a neuadd y dref yng Nghaerfyrddin yn gyferbwyntiau lleol.

Ceir amrywiaeth weadol doreithiog o gorsydd, tywod gyda chregyn (mewn mannau, mae llu o gregyn cocos i'w gweld), ardaloedd cul o dwyni, a'r llethrau coediog aeddfed neu'r tir pori uwchlaw gwaelod y dyffryn. Yn dibynnu ar gyfeiriad y gwynt, gall ardaloedd isaf yr aberoedd fod yn agored i'r tywydd, ond ceir mwy o gysgod lle maent wedi eu diogelu (yn enwedig o dan lethrau sy'n wynebu'r dwyrain fel yn Nhalacharn) ac maent yn fwyfwy cysgodol i fyny'r afon.

Mae cymeriad wyneb y dŵr yn newid yn sylweddol yn dibynnu ar ffurf y llanw, cyfeiriad y gwynt ac yn ôl y tymor. Yn yr aberoedd bas pan fo'r llanw'n uchel, gall fod yn dawel oherwydd y baster a'r lloches, heb fawr o donnau. Wrth i'r llanw dreio, mae patrwm helaeth, troellog y tywod a'r gwastadeddau llaid yn cael ei ddatguddio. Ar adegau eraill, gall y llanw a'r gwyntoedd ar y tir darfu'n sylweddol ar y dyfroedd bas.

Oddi wrth yr aneddiadau bach, mae'r ardal yn teimlo'n anghysbell ac yn heddychlon gyda chyfuniad o olygfeydd cysgodol o'r môr a'r lleoliad gwledig. Ychydig o ardaloedd sy'n teimlo'n anghysbell oherwydd agosrwydd y pentrefi neu'r trefi a'r golau cysylltiedig, a'r rheilffordd.

Mae'r rheilffordd a'r meysydd carafannau ger y lan, a'r fferm wynt i'r gorllewin, a'r llinellau trydan dros aber Afon Tywi yn weladwy ond nid ydynt yn amharu'n sylweddol.

Mae sŵn o gylchffordd rasio Pen-bre ac ardal ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r de yn tarfu ar y tawelwch ar brydiau.


*Yr olygfa dros aber Afon Tywi tuag at Ynys Bŷr*


*Yr olygfa draw tuag at Gastell Llansteffan o draeth Glanyfferi*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf morwedd gyfnewidiol yr aber a'r afonydd, cefndir cryf y llethrau coediog a'r tir pori, a chorsydd. Mae'n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden ar ffurf gweithgareddau hamdden morol fel hwylio a rhwyfo, cerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir a thraethau. Mae'r cysylltiadau diwylliannol yn gryf iawn gyda'r hen gestyll a'r aneddiadau cysylltiedig, y cysylltiad â Dylan Thomas a defnydd parhaus y cyryglau o'r afon. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o bellenigrwydd a thawelwch, yn enwedig yn yr ardaloedd isaf wrth agosáu at Fae Caerfyrddin.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |


**Crynodeb**

- Y grymoedd naturiol dros newid yw'r aberoedd sydd ar hyn o bryd yn suddfannau gwaddod â phatrymau newidiol o dywod a llaid, twyni tywod sy'n agored i ddifrod mewn stormydd a morfeydd heli isel sydd mewn perygl o lifogydd.
- Bydd cynnydd yn lefel y môr yn effeithio'n fawr ar yr ardal hon, yn enwedig y lefelau arfordirol isel i'r dwyrain a'r gorllewin a allai wynebu llifogydd, yn ogystal â llifogydd o ganlyniad i wely'r aber yn codi yn unol â lefel y môr. Amcanion tymor hir y CRhT yw hwyluso esblygiad naturiol yr aberoedd lle mae'r arfordir ar bwys tir amaethyddol, ardaloedd lled-naturiol a chyfadeiladau hamdden sydd mewn perchnogaeth breifat. Yma, disgwylir i'r amddiffynfeydd presennol ddirywio a methu, a byddai prosesau naturiol yn parhau wrth i lefel y môr godi. Cynigir gwaith rheoledig i adlinio'r arfordir yn Nhalacharn ac i'r de-orllewin o aber Afon Taf. Yr amcan yw dal y llinell er mwyn ceisio diogelu seilwaith hanfodol ac ardaloedd preswyl mwy fel y rhai ger y rheilffordd ar hyd Afon Tywi ac Afon Gwendraeth yn y dwyrain, yn Llansteffan ac ychydig i'r de o Sanclêr.
- Mae cabanau gwyliau ar y bryn i'r dwyrain o Dalacharn yn weladwy iawn a gallent gynyddu o ran gweledоткр/effaith, yn enwedig pe baent yn cael eu gorchuddio â chladin gwyn neu wynebau gwydr.
- Dŵr ffo ac elifion, megis o wrtaith/plaladdwyr a gwaith prosesu bwyd yn parhau i effeithio ar ansawdd y dŵr.
- Defnydd o'r twyni tywod a'r aber allanol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn at ddiben awyrennau a hyfforddiant arall yn amharu ar y tawelwch.
- Mae mynediad cyfyngedig a rheolaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gymorth o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd a bioamrywiaeth. Gall unrhyw newidiadau yn y dyfodol arwain at newidiadau negyddol mewn perthynas â bioamrywiaeth.
- Cyfleusterau hamdden yn ehangu o bosibl, megis safleoedd carafannau a all amharu ar wedd a thawelwch yr ardal.
- Cynaeafu cregyn gleision a chocos yn rhoi pwysau ar yr adnodd.
- Cerbydau modur ar y môr yn amharu ar y tawelwch.

## Sensitifrwyddau allweddol


| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Aber anghysbell a digyffwrdd heb fawr ddim nodweddion fertigol neu synthetig.<br>Pentiroedd a llethrau coediog a'r tir pori digyffwrdd ar y dyffrynnoedd.<br>Buddiannau cadwraeth natur gan gynnwys pysgod mudol a gwelyau pysgod cregyn. | Presenoldeb meysydd carafannau sefydledig ger aber Afon Gwendraeth ac i'r dwyrain o Dalacharn. |

| | |
|---|---|
| Ffocysau allweddol y cestyll ac arweddau hanesyddol a diwylliannol eraill e.e. cartref Dylan Thomas.<br><br>Golygfeydd allweddol o aneddiadau, traethau, cestyll, canolbwyntiau, llwybr yr arfordir a'r rheilffordd.<br><br>Golygfeydd agored a golygfeydd a ddifethwyd i lawr a dros yr aber a thuag at y Gŵyr.<br><br>Ychydig o ddefnydd a chyfleusterau hamdden megis hwylio a rhwyfo. | |




**ACM 1: Aberoedd Afon Tywi, Afon Taf ac Afon Gwendraeth**

| | |
|---|---|
| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **2** |
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Bae Caerfyrddin - Dwyrain** |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

## ACM 2: Bae Caerfyrddin - Dwyrain



*Traeth amgrwm Cefn Sidan wrth edrych tua'r gorllewin o Dwyni Pen-bre ar hyd arfordir Bae Ceredigion*


*Trwyn Whitffordd a Thwyni Whitffordd o ddynesfeydd Cilfach Tywyn*


*Bae Broughton pan fo'r llanw'n isel gydag un o'r ddau barc carafannau yn y cefndir*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM hon yn ffurfio rhan ogledd-ddwyreiniol Bae Caerfyrddin lle mae aberoedd Afon Llwchwr a Rhwydwaith y Tair Afon yn llifo i'r bae. Ceir banciau tywod mawr sy'n sychu yn y dyfroedd bas, gyda sianeli llanw symudol cul rhyngddynt, sy'n gwneud mordwyo'n beryglus ac yn gyfyngedig i gychod bach. Mae dau draeth mawr yn yr ardal hon. Ceir traeth Cefn Sidan yn y gogledd, gydag ardal gul o dwyni tywod a choed conifferaidd y tu cefn iddo ym Mhen-bre, a ddefnyddir fel parc gwledig. Ceir Bae Broughton/Traeth Whitffordd i'r de-ddwyrain, gyda thwyni tywod a choed conifferaidd y tu ôl iddynt ger aber Afon Llwchwr a chlogwyni calchfaen isel, tir amaethyddol a pharciau carafannau y tu ôl iddynt i'r de. Mae'r ardal hon yn cynnwys coedwigoedd tanddwr a gwelyau mawn pwysig. Ceir cryn ddiddordeb yn yr ardal o ran cadwraeth natur, gan gynnwys poblogaethau mawr o adar hirgoes ac adar sy'n gaeafu, y twyni tywod a'r parth rhynglanw lle caiff cocos a chregyn gleision eu cywain. Mae'r traethau eang yn agored i'r prifwyntoedd a cheir golygfeydd panoramig dros Fae Caerfyrddin tuag at ac oddi ar benrhyn Gŵyr a'i fryniau arfordirol.

## Nodweddion allweddol

- Ymyl ddwyreiniol fas Bae Caerfyrddin sy'n goleddfu'n raddol gyda dau aber sylweddol gerllaw sy'n dyddodi tywod a gwaddodion yn y dyfroedd gan greu banciau tywod a sianeli symudol.
- Traeth amgrwm mawr agored Cefn Sidan, gyda thwyni tywod a choed conifferaidd y tu ôl iddo.
- Traeth ceugrwm Whitffordd, gyda thwyni tywod a phlanhigfeydd conifferaidd unionlin y tu ôl iddo.
- Traeth ym Mae Broughton a saif rhwng pentiroedd calchfaen creigiog, gyda chefnwlad amaethyddol y tu ôl iddo.
- Ym Mae Broughton a Thraeth Whitffordd, mae'r parth rhynglanw yn gwarchod coedwigoedd tanddwr a gwelyau mawn pwysig.
- Amrywiaeth o gynefinoedd morol ac arfordirol pwysig sy'n ffurfio rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd, AGA Bae Caerfyrddin, Ardal Adar Bwysig Bae Caerfyrddin, safle RAMSAR ac AGA Cilfach Tywyn, SoDdGAau Arfordir Pen-bre, Bae Whitffordd a Thwyni Pentywyn a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Twyni Whitffordd.
- Mae'r nodweddion o ddiddordeb mewn perthynas â bioamrywiaeth yn cynnwys niferoedd pwysig o adar hirgoes, adar sy'n gaeafu a systemau twyni tywod.
- Mae natur beryglus y tywod symudol a'r dyfroedd bas wedi achosi sawl llongddrylliad dros amser, yn bennaf llongau pren o'r 19eg ganrif. Mae'r goleudy segur nodweddiadol Fictoraidd yn Whitffordd yn atgof o ddefnydd masnachol yr ardal yn y gorffennol.
- Ceir gweddillion ffatri arfau o'r Rhyfel Byd Cyntaf a seilwaith o'r Ail Ryfel Byd ym Mhen-bre.
- Mae arfordir Pen-bre yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol aberoedd Afon Taf ac Afon Tywi. Mae'r arfordir a'r gefnwlad i'r de-ddwyrain yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol y Gŵyr.
- Mae arfordir Gŵyr wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth ac AHNE, ac mae'n rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Gŵyr.
- Gall y dyfroedd llanw fod yn beryglus ac ar hyn o bryd cânt eu defnyddio'n bennaf gan gerbydau hamdden/pysgota bychain o Borth Tywyn neu Ddinbych-y-pysgod/Saundersfoot.

- Caiff cocos a chregyn gleision eu casglu â llaw, a chaiff grawn cregyn gleision eu treillio.
- Mae'r traethau ym Mhen-bre a Bae Broughton gyda'i barciau carafannau yn weddol boblogaidd, gyda Phen-bre yn lleoliad poblogaidd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau megis nofio a bordhwylio.
- Yn y rhannau llai hygyrch o'r traethau mawr agored hyn, ceir llonyddwch a rhai cyfleoedd i wylio adar.
- Mae'r rhan fwyaf o arfordir Pen-bre yn syml ac yn helaeth iawn a heb ei ddifetha gan yr adeileddau sydd wedi'u lleoli'n gynnil ymysg y twyni tywod a'r goedwig gerllaw, oni bai am dŵr rheoli'r Llu Awyr Brenhinol.
- Mae rhannau helaeth o arfordir Gŵyr heb eu datblygu, gyda'r datblygiadau'n gyfyngedig i glystyrau ym Mae Broughton a'r cyffiniau.
- Ceir golygfeydd hir ac amrywiol dros Fae Caerfyrddin a thuag at Ynys Bŷr, tuag at ac oddi ar y Gŵyr, gyda Bryn Llanmadog a Mynydd Rhosili'n arbennig o flaenllaw.
- Mae Goleudy Whitffordd yn dirnod allweddol yng nghanol y gilfach.
- Yn gyffredinol, mae'r ardal yn dawel iawn gydag ardaloedd gwyllt ac anghysbell fel Cefn Sidan a thraeth Whitffordd. Fodd bynnag, mae ambell awyren filwrol a defnyddwyr cylchffordd rasio Pen-bre yn amharu ar synau naturiol y môr.

## Dylanwadau naturiol

I'r gogledd, mae genau aberoedd llanw'r Tair Afon (ACM1) yn torri i mewn i Fae Caerfyrddin. Ceir banciau tywod/traethellau llanw helaeth a symudol ar bob ochr i sianel yr aber.

O Draeth Cefn Sidan i Burry Holms, mae creigwely'r môr a'r ddaeareg ar y tir yn croesi plygiant synffurfiol mewn olyniaeth creigiau ag iddi streic o'r dwyrain a'r gorllewin, gan amlygu cerrig llaid a thywodfeini Haenau Glo o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr yn ei graidd a chreigiau hŷn ymhellach i'r de, gan basio drwy'r Calchfaen Carbonifferaidd i mewn i'r Hen Dywodfaen Coch. Mae rhewglai'n gorchuddio'r creigwely.

Ymhellach o'r lan, mae'r gwely môr tywodlyd yn goleddfu'n raddol tua'r de-orllewin i mewn i Fae Caerfyrddin (<1°), mewn môr bas o ddyfnder <20m. Mae'r cerhyntau llanw yn dilyn cromlin yr arfordir. Mae arfordir hir Traeth Cefn Sidan o flaen y twyni tywod yn agored i wyntoedd a thonnau cryfion, ac mae'r amrediad llanw o hyd at >10m yn golygu bod y llanw'n mynd allan yn bell. Daw'r gwynt yn bennaf o'r gorllewin i'r de-orllewin, gyda rhai croesgerhyntau ar hyd y traeth. Mae'r ffrydiau llanw yn llifo i'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin, ar gyflymder o hyd at 1.5 not yn ffrwd lanw'r gogledd-ddwyrain.

Ceir dyddodiad net o waddod tywod ar hyd Traeth Cefn Sidan, sy'n 7 milltir o hyd, a gludir yno drwy dyniant ac mewn daliant o'r môr, ac oddi yno drwy erydiad twyni, gyda chludiant pellach ar hyd y traethellau i'r ddau ben. Ceir erydiad ar ochr Trwyn Whitffordd o'r bae.

Mae'r ardal rynglanw o Draeth Cefn Sidan i Draeth Pen-bre yn draethau tywod morol eang, a'r tu ôl iddynt ceir twyni, gydag amrywiaeth gyfyngedig oherwydd eu sefydlogrwydd, a Choedwig Pen-bre. Ar ochr arall Cilfach Tywyn (ACM3) ceir traethellau helaeth a sianeli llanw rhyngddynt. Mae'r arfordir rhwng Trwyn Whitffordd a Burry Holms yn draethau tywodlyd (Traeth Whitffordd) gyda meysydd twyni helaeth y tu ôl iddynt (Twyni Whitffordd, Twyni Broughton). Ynghyd â Phentywyn, mae'r rhain yn ffurfio'r system dwyni tywod a thafod fwyaf yng Ngorllewin Cymru. Mae tyrrau o Galchfaen Carbonifferaidd yn ffurfio clogwyni isel ac ogofâu yn y twyni rhwng Twr Hills a Burry Holms. Ar y môr, ar hyd y streic, mae'r graig wydn hon yn ffurfio basleoedd rhwng y Draethell Allanol a Chraig Hall.

Dylanwadir ar gymeriad naturiol y bae gan yr aberoedd mawr sy'n arwain i mewn iddo ac sy'n darparu amrywiaeth o gynefinoedd. Mae Bae Caerfyrddin yn AGA ac mae'n rhan o ACA/Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Mae'r ymyl ddwyreiniol yn rhan o safle RAMSAR ac AGA Cilfach Tywyn. Mae Bae Caerfyrddin yn Ardal Adar Bwysig sy'n gartref i oddeutu 33,000 o adar dŵr sy'n gaeafu ar sail reolaidd, a'r fôr-hwyaden ddu yn benodol. Mae'r aderyn hwn yn plymio i lawr y môr yn y dyfroedd bas i fwyta molysgiaid ac anifeiliaid eraill. Mae Traeth Cefn Sidan yn darparu safle cymharol dawel i adar gael bwrw eu plu. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys niferoedd cenedlaethol bwysig o biod môr a phibyddion y tywod.

Mae Dynesfeydd Môr Hafren, sy'n ACA bosibl ar gyfer Llamhidyddion, yn ymestyn o Fae Caerfyrddin

i'r gorllewin ac yna i'r de. Mae ymchwil wedi dangos bod mannau poblogaidd ar gyfer y mamal hwn, sef y mamal morol lleiaf yn y DU, yn cynnwys pentiroedd megis Burry Holms i'r de, ond maent hefyd yn cynefino yn y bae bas. Gellir gweld heidiau o ddolffiniaid yn y bae o bryd i'w gilydd.

Mae Arfordir Pen-bre, Bae Whitffordd a Thwyni Pentywyn yn SoDdGAau. Mae Twyni Whitffordd yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r systemau twyni tywod o bwysigrwydd eithriadol oherwydd eu planhigion arfordirol prin. Mae Twyni Pen-bre yn un o'r ychydig systemau twyni yng Nghymru sydd wrthi'n tyfu.

Mae'r cynefinoedd rhynglanw yng Nghefn Sidan a Thraeth Bar Caerfyrddin yn dywod mân morlannol gyda mwydod gwrychog. Mae tywod symudol morlannol Bar Caerfyrddin yn gartref i'r lleuen fôr frith *Eurydice pulchra*. Mae'r draethell isforlan fas yng nghanol dynesfeydd Cilfach Tywyn yn gartref i nifer o rywogaethau mwydod a chramenogion.

Ar arfordir gogleddol y Gŵyr tuag at Drwyn Whitffordd ceir cymysgedd o dywod mân isforlan bas eithaf lleidiog (gyda gwelchyn y dŵr *Echinocardium cordatum* a chyllyll môr *Ensis* spp.) a gwelyau cregyn gleision ar riffiau biogenig ag is-haenau morlannol cymysg.

Mae Bae Broughton yn cynnwys creigiau rhynglanwol a sgwriwyd gan dywod o'r cyfnod canol neu gynnar, wedi'u cymysgu â thywod mân a thywod lleidiog. Ceir gwelyau cregyn gleision ar is-haenau morlannol cymysg i'r de-orllewin a gro ar gefn y traeth. I'r de, ceir creigiau rhynglanwol a sgwriwyd gan dywod o'r cyfnod canol neu gynnar a chymunedau cregyn gleision a/neu gregyn llong. Ceir sbyngau, bryosoaid a chwistrelli môr ar greigwely bargodol neu ogofâu'r glannau isaf. Ceir cen du neu *Verrucaria maura* ar y creigiau ymylol morlannol uchaf agored iawn i gysgodol iawn ger blaen y llyfndir tonnau.

Mae'r gefnwlad yn blanhigfeydd conifferaidd neu'n laswelltir amwynder mosäig ym Mhen-bre ac yn laswelltir pori ar y Gŵyr i'r de.



*Traeth Cefn Sidan gyda marcwyr ar gyfer achubwyr bywydau*



*Tu ôl i'r traeth ym Mharc Gwledig Pen-bre yng nghysgod y planhigfeydd conifferaidd*

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ardal hon yn croesi aber y Tair Afon a drafodir yn mewn mwy o fanylder yn ACM1. Mae hefyd yn croesi aber Cilfach Tywyn/Afon Llwchwr, cymhlethfa o fanciau tywod symudol a thair sianel fordwyo, lle byddai llongau'n aros am y llanw yn y draethell cyn parhau i hwylio i fyny'r afon neu hwylio allan ar deithiau hirach.

Yn hanesyddol, mae peryglon penodol yr ardal yn cynnwys traeth peryglus 7km o hyd Cefn Sidan a Chraig Hall, i'r gorllewin o Burry Holms. O'r nifer o longddrylliadau a nodwyd yn yr ardal hon, mae'r mwyafrif ohonynt yn llongau hwylio pren o'r 19eg ganrif. Mae'n bosibl fod *La Jeune Emma*, brig bren a suddodd ym 1828 rhwng Martinique a Le Havre, wrth gludo nith Josephine, Ymerodres Ffrainc a chyn wraig Napoleon I, wedi'i dryllio yn yr ardal hon. Gellir gweld rhan o longddrylliad y *Teviotdale* pan fo'r llanw'n isel. Roedd hon yn llong â chorff haearn, a adeiladwyd gan A Stephens & Sons, Glasgow ym 1882, a suddodd wrth gludo llwyth o lo o Gaerdydd i Bombay ar 15 Hydref 1886. Ceir llongddrylliad anhysbys yn uchel i fyny ar y traeth yng Nghefn Sidan a gellir ei weld 1.5 awr ar ôl llanw uchel. Gellir gweld ei starnbost a llawer iawn o'r trawstiau. Mae'r trawstiau'n fregus iawn. Credir fod y llong hwyliau *SV Paul*, a lansiwyd yn Seattle ym 1919, wedi suddo yma, ond mae'r llongddrylliad wedi symud ac mae bellach yn aber Afon Gwendraeth (ACM1). Cwympodd awyren Hawker Hurricane ym 1941 mewn lleoliad anhysbys yn yr ardal hon.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir cymharol uchel ar un adeg gyda photensial uchel fod dyddodion wedi goroesi. Argymhellodd y dylid gwneud pob ymdrech i gadw dyddodion yn eu lle.

Daeth darn o fawn rhynglanw i'r golwg yng Nghefn Sidan ar ddechrau'r 20fed ganrif a oedd yn cynnwys olion traed ac esgyrn ceirw, gan nodi presenoldeb dynol yn y cyfnod Mesolithig. Ym Mae Broughton a Thraeth Whitffordd, mae'r parth rhynglanw yn gwarchod coedwig danddwr o fonion coed, ardaloedd o fawn a chlai ac esgyrn ceirw coch a chynfuail yn ogystal â choredau pysgod canoloesol a chleddyf o'r 17eg ganrif.

Cafwyd tystiolaeth o'r cyfnod Palaeolithig yn yr ardal, ar ffurf deunydd mewn ogof yn Three Chimneys ar arfordir penrhyn Gŵyr.

Goleudy Trwyn Whitffordd oddi ar bwynt gogledd-orllewinol y Gŵyr yw'r unig dŵr mawr Fictoraidd haearn bwrw ar y dŵr sydd ar ôl ym Mhrydain, ac roedd yn ganolbwynt i'r systemau mordwyo. Caiff ei oleuo o bryd i'w gilydd yn yr haf gan sefydliadau morol lleol. Mae systemau'r bwiau wedi newid dros amser gyda symudiad y sianeli.

Deuai'r rheilffyrdd cynnar â glo i Harbwr Pen-bre. Yng nghefnwlad Pen-bre, sefydlwyd ffatri arfau fawr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ar hen safle ffatri dynameit, i ddiwallu'r galw am ddeunyddiau megis TNT, cordeit a thanwydd, yn ogystal â llenwi sieliau. Roedd y safle hwn ar ardal eang o 760 erw, ac roedd yn cysylltu â phrif reilffordd y GWR gerllaw. O 1940 i 1945, defnyddiwyd yr ardal unwaith eto at ddibenion milwrol, gan gynnwys maes awyr Pen-bre a Ffatri Arfau'r Goron, ffatri lai a fu'n weithredol hyd at 1965. Mae'r ardal yn cynnwys amddiffynfeydd hanesyddol ac archaeolegol bwysig o'r Ail Ryfel Byd. Roedd yr ardal wedi'i hamddiffyn yn dda ac roedd yn rhan hollbwysig o Linell Atal Caerfyrddin. Mae gweddillion y ffatrïoedd arfau, y maes awyr gan gynnwys cytiau Maycrete a chytiau Nissen, adeiladau brics, cyfleuster hyfforddi sêr-gromen a siediau'r Milwyr Gwirfoddol Wrth Gefn, a ddefnyddir bellach gan ffermwyr, yn dal i'w gweld yng Nghoedwig Pen-bre. Mae blocdai a rhwystrau tanciau ar hyd y caeau. Defnyddir llwybr allanol y maes awyr yn rhannol fel trac ar gyfer chwaraeon modur. Mae'r Parc Gwledig yn cynnwys nodweddion hamdden modern megis llethr awyr a chwrs golff.

Yn ôl y traddodiad lleol, roedd Pen-bre yn gartref i chwalwyr a elwir yn 'wŷr y beilli bach' ar ôl arf lleol, bwyell ag iddi grafanc er mwyn agor llwythi, ac roedd yr un mor ddefnyddiol i gael gwared ar dystion dieisiau i weithgarwch y chwalwyr. Rhwng 2010 a 2013, cynhaliwyd yr ŵyl gerddoriaeth i fyfyrwyr, Beach Break Live, ym Mhen-bre. Mae Traeth Cefn Sidan yn atyniad poblogaidd i noethlymunwyr.

Mae Arfordir Pen-bre yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol aberoedd Afon Taf ac Afon Tywi. Dynodwyd arfordir penrhyn Gŵyr yn Arfordir Treftadaeth ac yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Penrhyn Gŵyr oedd yr AHNE cyntaf i gael ei dynodi yn y DU ym 1956 am ei harfordir calchfaen delfrydol a'i hamrywiaeth o ran cynefinoedd naturiol. Mae'r ardal hefyd yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Gŵyr.

O ran mordwyo, mae gan ddynesfeydd aber y Tair Afon sianelau naturiol cul cyfyngedig drwy fanciau tywod helaeth sy'n sychu megis Traeth Cefn Sidan a Bar Caerfyrddin. Mae'r llanw'n llifo'n gryf gan greu amgylchedd bygythiol yn ystod gwyntoedd ar y tir. Prin yw'r marcwyr parhaol, megis y tŵr ar Drwyn Ginst a Thwyni Talacharn, a dim ond y nodweddion mwyaf peryglus sydd wedi'u marcio'n dymhorol gan fwiau. Mae pedwar marc parth perygl melyn o dde Traeth Cefn Sidan i'r gorllewin hyd at Burry Holms, i nodi ardal ymarfer tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Nid yw Traeth Pen-bre wedi'i farcio.

Mae dynesfeydd Cilfach Tywyn yn aber helaeth llydan gyda banciau tywod symudol sy'n sychu megis Traethell Hooper a Thraethell Lynch. Ceir tair sianel a enwir – y sianel ogleddol, y sianel ddeheuol a'r sianel ganol. Dim ond yr olaf sy'n fordwyadwy ond nid oes marcwyr na bwiau arni. Mae'n darparu mynediad i'r marina ym Mhorth Tywyn yn Aber Afon Llwchwr. Mae goleudy Whitffordd i'r de-ddwyrain yn parhau i fod yn arwedd amlwg er nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Mae'r llanw'n llifo'n gryf i mewn i'r gilfach a'r aber ac mae genau'r aber yn amgylchedd anodd mewn gwyntoedd gorllewinol/de-orllewinol gan y gall y môr mawr dorri ar draws y fynedfa.

Caiff cocos a chregyn gleision, a chyllyll môr a gwichiaid o bryd i'w gilydd, eu casglu â llaw ar sail fasnachol. Caiff grawn cregyn gleision eu treillio yng Nghilfach Tywyn ger Trwyn Whitffordd. Mae cyfyngiadau rhwydo ar waith yng Nghilfach Tywyn i ddiogelu salmonidau a draenogiaid môr ifanc. Defnyddir rhwydi gosod ar draethau, er mwyn dal draenogiaid môr, er enghraifft, yn yr ardal hefyd a chofnodwyd achosion o ddal pysgod â sân ar y traethau a'r aber. Ceir peth treillio ysgafn ymhellach o'r lan i ddal rhywogaethau lledod megis cathod môr a lledod coch, yn ogystal â dal cregyn moch â chewyll. Mae pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol a hamdden yn gyffredin ym mhob rhan o'r ardal. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys draenogiaid môr yn arbennig gyda chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf. Caiff llymrïod eu dal â sân ar draethau agored. Mae slafan (er mwyn gwneud bara lawr) yn cael ei gasglu mewn mannau.

Defnyddir rhan ogleddol yr ardal gan y Weinyddiaeth Amddiffyn fel ardal ymarfer ac ymarferion milwrol Pen-bre. Defnyddir yr ardal hon i gynnal ymarferion bomio a phledu o'r awyr, tanio ar y tir, hyfforddi Cadetiaid ac ymarferion glanio tactegol. Caiff cylchffordd rasio Pen-bre ei defnyddio o bryd i'w gilydd. Mae pleserdeithiau awyr yn hedfan o faes awyr Pen-bre yn achlysurol iawn dros benrhyn Gŵyr.

Mae mordeithiau yn hwylio o Afon Tywi ac Afon Llwchwr allan i Fae Caerfyrddin. Ceir pysgota môr ger aber Afon Llwchwr ac ar hyd arfordir Pen-bre a gogledd y Gŵyr. Caiff Traeth Pen-bre ychydig o ddefnydd o ran nofio, torheulo, gyda syrffio a chorff-fyrddio yn y de. Ceir ceufadu môr a physgota môr mewn parthau dynodedig ar y traeth. Mae'r traeth hefyd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer hwylio tir ond mae hyn wedi'i wahardd. Mae gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub bresenoldeb tymhorol ar y traeth. Yn achlysurol, defnyddir ardal arfordirol Cilfach Tywyn i'r de-ddwyrain i fordhwylio, a cheir barcudfyrddio hefyd ger y prif draeth.


Mae gwylio bywyd gwyllt yn boblogaidd ar y traethau sy'n cael llai o ddefnydd, fel rhannau gogleddol a dwyreiniol Pen-bre a Thraeth Whitffordd. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar ac yn rheoli GNG Whitffordd. Mae defnydd o feiciau cwad hefyd wedi'i nodi ar y tywod o amgylch Bae Whitffordd. Caiff Traeth Broughton ychydig o ddefnydd.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn osgoi'r arfordir i'r gogledd oherwydd ardal y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan basio yn hytrach drwy Goedwig Pen-bre. Fodd bynnag, ceir dewis o lwybrau o gwmpas Twyni Whitffordd, gydag un yn cyrraedd pen draw Trwyn Whitffordd i ddarparu golygfa banoramig agored iawn ger genau aber Afon Llwchwr - y pwynt agosaf ar y tir i'r goleudy segur. Yna, mae'r llwybr yn dilyn ymyl yr arfordir gyda golygfeydd deniadol dros Fae Broughton a Bae Caerfyrddin tuag at Arfordiroedd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, fel arfer mewn gwynt cryf o'r de-orllewin.

Ychydig iawn o aneddiadau sydd yn yr ardal cymeriad hon neu gerllaw. Ceir maes carafannau yn agos at y traeth yn Fferm Broughton a Gwersyll Ieuenctid Cristnogol Sant Madog y tu ôl i'r bryniau cyfagos ar Fae Broughton. I'r gogledd, ceir adeiladau gwasgaredig ym Mharc Gwledig Pen-bre. Mae Llanmadog, pentref traddodiadol, a phentrefan bach cyfagos Cwm Ivy, yn byrth allweddol i

ymwelwyr â Thraeth Whitffordd a llwybr yr arfordir.


Twyni Whitffordd o'r môr gyda Bryn Llanmadog yn y cefndir


Y banciau tywod yn y golwg pan fo'r llanw'n isel ar ddynesfeydd Cilfach Tywyn o Drwyn y Twlc uwchben Bae Broughton

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Yr ardal lydan o fôr bas gyda banciau tywod, sianeli, morynnau a thraethau eang yw prif arweddau'r ardal cymeriad hon ag iddi natur agored a gwyntog. Mae'r ddau arfordir yn amrywio ar bob ochr i Gilfach Tywyn. I'r de-ddwyrain, mae'r traeth ceugrwm a'r cefndir bryniog ym Mae Broughton yn rhoi rhywfaint o ymdeimlad caeëdig, gyda'r golygfeydd wedi'u ffocysu ar y bae. Mae Traeth Whitffordd yn gymharol syth ac yn teimlo'n fwy agored a digysgod, gyda thwyni isel y tu ôl iddo. I'r gogledd-orllewin, mae'r traeth amgrwm a'r gefnwlad wastad o dwyni coediog sydd wedi'u harfer ym Mhen-bre yn teimlo hyd yn oed yn fwy agored, ac mae'n anodd gwerthfawrogi hyd y traeth wrth iddo grymu o'r golwg yn raddol.

Mae Bryn Llanmadog, sydd wedi'i orchuddio â gweundir, yn gefndir gweledol ac yn gyfeirbwynt amlwg iawn ar Fae Broughton, ac mae'r pentiroedd creigiog megis Cwm Ivy a Thwr Hills yn gwahanu ac yn amgáu'r traethau ar hyd yr arfordir hwn. Ceir golygfeydd pellach o'r bryniau isel dros Fae Caerfyrddin tuag at Dalacharn, Dinbych-y-pysgod ac Ynys Bŷr ac mae goleudy unigryw Whitffordd yn ganolbwynt gweledol o nifer o leoliadau yn yr ardal hon ac Aber Afon Llwchwr. O'r draethlin ym Mhen-bre, ni cheir unrhyw ffocws gweledol cyfagos, ac er bod y traeth yn teimlo'n agored iawn, mae gan gefnwlad y Parc Gwledig y tu ôl i'r traeth ymdeimlad cynhwysol oherwydd yr adrannu gyda'r byndiau a choetiroedd conifferaidd/pinwydd aeddfed a helaeth.

Rhoddir undod i'r ACM hon drwy ei natur eang a llorweddol fel rhan o Fae Caerfyrddin, gyda dŵr bas a thraethellau yn weladwy pan fo'r llanw'n isel fel y nodir gan donnau'n torri ar y môr. Mae'r lliwiau'n dawel ond ceir adlewyrchiadau oddi ar y tywod gwlyb a'r gorwelion agored.

Mae'r traethau tywodlyd yn eang pan fo'r llanw'n isel, ac yn gadael ambell i bwll a phant gwlypach, ond mae ymyl dywodlyd i'r twyni hyd yn oed pan fo'r llanw'n uchel. Mae'r gweadau ar y traeth yn amrywio hefyd, gyda'r tywod gwlyb a sych a mannau creigiog, a siapiau troellog nodedig y goedwig

danddwr.

Er y caiff y traethau ym Mae Broughton a Thraeth Whitffordd eu defnyddio gan gerddwyr cŵn a theuluoedd, yn bennaf o'r meysydd carafannau cyfagos, mae'n llai prysur o lawer na phrif draethau de Gŵyr, a cheir ymdeimlad eithaf tawel, yn enwedig pan fo'r llanw'n isel. Mae'r traeth ym Mhen-bre yn cael llawer o ddefnydd gan bobl sy'n ymweld â'r Parc Gwledig, ond i'r gorllewin, defnyddir llai ar yr ardal at ddibenion hamdden, ac mae'n fwy heddychlon ac yn fwy anghysbell. Fodd bynnag, caiff y tawelwch ei effeithio'n sylweddol yn ystod gweithrediadau hyfforddi a strwythurau iwtilitaraidd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae hen dŵr rheoli'r Llu Awyr Brenhinol a safleoedd saethu yn dal i'w gweld ar ymylon Traeth Cefn Sidan.

Mae parciau carafannau yn ffactorau sy'n amharu'n weledol ar Fae Broughton, ac mae'r blociau o blanhigfeydd conifferaidd ger cefn Traeth Whitffordd hefyd yn amharu ar yr ymdeimlad naturiol, oherwydd eu ffurf bloc unionlin, sy'n amlwg iawn o sawl man gan gynnwys o Aber Afon Llwchwr (ACM3).

Mae Goleudy Whitffordd yn dirnod allweddol yng nghanol Cifach Tywyn.

Yn gyffredinol, mae'r ardal yn dawel iawn gydag ardaloedd gwyllt ac anghysbell megis Cefn Sidan a thraeth Whitffordd. Fodd bynnag, mae ambell awyren filwrol a defnyddwyr cylchffordd rasio Pen-bre yn amharu ar synau naturiol y môr.



*Llun ongl lydan o Fae Broughton o'r de*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden ar ffurf gweithgareddau hamdden morol megis hwylio o Borth Tywyn, cerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir a nofio a chwaraeon eraill ar y traethau ar yr arfordiroedd gogleddol a de-orllewinol. Mae'n cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf yr ACA, yr AGA a'r SoDdGA, natur gyfnewidiol y forwedd ger genau'r aber, y cefndir cryf o lethrau coediog a thir pori i'r de, a thwyni. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch yn enwedig ar draeth Cefn Sidan a ger Trwyn Whitffordd.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiadau rheolaeth tir | Defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |


**Crynodeb**

- Y grymoedd newid naturiol yw ymylon allanol yr aberoedd cyfagos sydd ar hyn o bryd yn suddfannau gwaddod â phatrymau newidiol o dywod, tywod traethau sy'n amgylchedd deinamig ar gyfer dyddodion gwaddod net a chludiant gwaddod, gyda symudiad ar yr arfordir ac ar hyd y glannau, a thwyni tywod sydd mewn perygl o ddifrod stormydd.
- Bydd cynnydd yn lefel y môr a mwy o berygl o dywydd eithafol yn effeithio'n fawr ar yr ardal hon oherwydd y posibilrwydd y bydd amddiffynfeydd llifogydd/twyni yn methu ac yn achosi llifogydd ar dirwedd wastad Pen-bre. Ceir perygl o erydiad/amlygiad pellach o ran y goedwig danddwr a'r gwelyau mawn.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw rheoli'r broses o adlinio'r arfordir dros amser. Mae'n debygol na fydd yr amddiffynfeydd lleol bychain (morgloddiau cerrig ar wahân) yng Nghefn Sidan/Pen-bre yn gallu ymdopi'n effeithiol ag enciliad parhaus y twyni tywod, ac felly dylid cael gwared arnynt. Mae'r CRhT yn argymell y dylid datblygu mesurau addasu/cydnerthedd i reoli'r perygl o erydiad arfordirol a llifogydd ym maes tanio'r Llu Awyr Brenhinol ger Traeth Pen-bre. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gosod amddiffynfeydd cerrig o amgylch y tŵr rheoli ac maent yn rheoli'r amddiffynfeydd arfordirol o amgylch eu safle er mwyn amddiffyn eu hasedau.
- Mae defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r twyni tywod a'r aber allanol at ddibenion hyfforddi yn lleihau'r ymdeimlad heddychlon.
- Mae mynediad cyfyngedig a phrosesau rheoli'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cefnogi'r gwaith o hybu bioamrywiaeth. Gall unrhyw newidiadau yn y dyfodol arwain at newidiadau negyddol mewn perthynas â bioamrywiaeth.
- Mae cynlluniau sylweddol ar waith i ddatblygu harbwr a chefnwlad Porth Tywyn i gyd-fynd â Llwybr Arfordirol y Mileniwm o Lanelli.
- Cynlluniau arfaethedig i ychwanegu at gyfleusterau hamdden fel y meysydd carafannau, a all fod yn weledol ymyrgar ac amharu ar natur heddychlon yr ardal.

- Cerbydau modur ar y môr yn amharu ar y tawelwch.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Gwerth yr ACA, yr AGA, y Warchodfa Natur Genedlaethol a'r SoDdGAau o ran cadwraeth natur.<br><br>Gwerth y coedwigoedd tanddwr, y gwelyau mawn, y llongddrylliadau a goleudy Whitffordd o ran treftadaeth.<br><br>Y traethau tywodlyd, traethellau a thwyni anghysbell, agored, digysgod, digyffwrdd a heddychlon e.e. gorllewin Cefn Sidan a thraeth Whitffordd.<br><br>Canolbwynt ynysig goleudy Whitffordd.<br><br>Golygfeydd di-dor o'r Gŵyr o arfordir y gogledd a thros Fae Caerfyrddin tuag at Ynys Bŷr.<br><br>Arfordir a môr tywyll heb eu goleuo gan mwyaf.<br><br>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru ac ymwelwyr â'r Warchodfa Natur Genedlaethol a Pharc Gwledig Pen-bre yn dderbynyddion sensitif. | Arfordir syml, gwastad ym Mhen-bre.<br><br>Golygfeydd eang o Ben-bre.<br><br>Parc gwledig prysur a thraeth ym Mhen-bre.<br><br>Sŵn a symudiad awyrennau a strwythurau'r Llu Awyr Brenhinol ym Mhen-bre.<br><br>Sŵn Cylchffordd Rasio Pen-bre. |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe. Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 2: Bae Caerfyrddin - Dwyrain**

| | |
|---|---|
| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **3** |
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Cilfach Tywyn ac Aber Afon Llwchwr** |




**ACM 3: Cilfach Tywyn ac Aber Afon Llwchwr**



*Edrych tua'r gogledd dros Gilfach Tywyn o Drwyn Dalton tuag at Lanelli pan fo'r llanw'n isel - mae'r olygfa'n newid yn sylweddol pan fo'r llanw'n uchel.*



*Y traeth ym Mhorth Tywyn wrth edrych tuag at y Gŵyr a Phen Pyrod.*



*Aber Afon Llwchwr, sy'n fwy caeëdig, wrth edrych tuag at Bont Llwchwr.*

.

## Disgrifiad cryno

Mae Aber Afon Llwchwr yn ymestyn o Bontarddulais hyd at yr arfordir, gan ehangu wrth gyrraedd Cilfach Tywyn ac yna Bae Caerfyrddin. Mae'n fawr ac yn agored, gyna sianel lanw gymharol gul ac ardaloedd eang o fanciau tywod a gwastadeddau llaid sy'n cael eu gorchuddio pan fo'r llanw'n uchel. Ceir gwrthgyferbyniad rhwng arfordir y gogledd ac arfordir y de. Mae'r gogledd yn drefol, gyda llawer o ddiwydiant, tai newydd a datblygiadau hamdden a Pharc Arfordirol y Mileniwm. Gellir gweld yr adeiladau mwy o faint mewn golygfeydd pell o'r de. Ardal wledig a thawel yw'r de ar y cyfan ac mae'n cynnwys y morfa heli mwyaf yng Nghymru sy'n cael ei bori, gyda llethrau serth, rhannol goediog y tu ôl iddo. Mae'r de'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr. Mae'r dyfroedd llanw'n llawn bywyd gwyllt, yn enwedig adar y gwlyptir, ac maent yn adnabyddus am eu gwelyau cocos a chregyn gleision. Mae cychod bach hamdden a chychod masnachol yn defnyddio Porth Tywyn ond cyfyngir ar y defnydd gan y llanw a phan fo'r sianel wedi'i threillio yn llenwi â llaid. Yn ddiwylliannol, y digwyddiad enwocaf yw Amelia Earhart, y fenyw gyntaf i hedfan dros Gefnfor Iwerydd ar ei phen ei hun, yn glanio yma ym 1928.

## Nodweddion allweddol

- Aber/ria lanw fawr dywodlyd yw Cilfach Tywyn ac Aber Afon Llwchwr a nodweddir gan ffawtiau o'r gogledd i'r de yn y creigwely yn y rhannau uchaf ac o'r dwyrain i'r gorllewin wrth i'r afon gyrraedd Bae Caerfyrddin.
- Mae'r dyfroedd llanw bywiog, gyda'u hamrediad llanwol mawr, banciau tywod a gwastadeddau llaid, yn arweddau sy'n rhoi undod gweledol cryf ac sy'n newid ymddangosiad yr ardal yn rheolaidd.
- Mae'r aber yn darparu llu o gynefinoedd â mannau bwydo a gorffwys pwysig i adar. Mae'r dynodiadau sydd ar waith yna'n cynnwys safle RAMSAR ac AGA Cilfach Tywyn, AGA Bae Caerfyrddin ac Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Mae'r rhain yn gorgyffwrdd â dynodiadau SoDdGAau.
- Mae darn gogleddol yr afon lanw yn llifo dros lawr gwastad y dyffryn mewn tirwedd sy'n wledig ac yn donnog ei chymeriad.
- Mae arfordir gogleddol yr aber yn wastad gydag ymyl wedi'i pheiriannu, diwydiant ac aneddiadau trefol. Roedd tref Llanelli, gyda'i harbwr a'i dociau, yn gysylltiedig ag allforio glo a dur a gelwid y dref yn 'Tinopolis'.
- Mae'r diwydiant wedi dirywio ac mae llawer o arfordir y gogledd yn dir sydd wedi'i adfer, gyda Pharc Arfordirol y Mileniwm yn darparu mynediad i'r arfordir, Canolfan Bywyd Gwyllt Llanelli, tai newydd a'r rheilffordd arfordirol sy'n gweithredu fel amddiffynfa arfordirol.
- Mae'r arfordir deheuol yn wledig heb lawer o aneddiadau a mynediad i'r glannau ar wahân i Ben-clawdd a Crofty ac fe'i diffinnir gan y morfeydd heli di-dor mwyaf yng Nghymru.
- Mae'r bryniau'n codi y tu ôl i lannau gwastad yr aber i'r gogledd ger Porth Tywyn ac i'r de y tu ôl i'r morfeydd, gan greu ymyl nodweddiadol a chryf. Mae rhan ddeheuol yr ardal yn gymharol ddigyffwrdd.
- Mae mordwyo'n anodd yn yr ardal oherwydd y sianeli llanw a cheir mynediad yn yr ychydig oriau pan fo'r llanw'n uchel yn unig.
- Mae cocos yn dal i gael eu casglu â llaw mewn sawl man yn yr aber i'r gogledd ac i'r de, a chânt eu prosesu ym Mhen-clawdd.
- Mae harbwr Porth Tywyn yn cael ei ddefnyddio hyd heddiw, bellach fel marina mawr y ceir mynediad iddo drwy sianel wedi'i threillio sy'n tueddu i leidio. Mae cychod hamdden a physgota masnachol bychain yn defnyddio'r harbwr.

- Yn y de, mae gan y morfeydd heli sy'n cael eu pori awyrgylch unigryw a heddychlon iawn, gyda llethrau serth rhannol goediog gogledd Gŵyr y tu ôl iddynt.
- Ceir ymdeimlad cryf o le agored a phwyslais ar y plân llorweddol/gwastad a'r morfeydd, heb unrhyw adeileddau, fwy neu lai, i amharu ar ehangder helaeth yr aber.
- Ceir ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd ar arfordir y de, sydd wedi'i wahanu oddi wrth yr ardaloedd trefol ger Llanelli yn y gogledd.
- Ceir golygfeydd eang a hir i fyny ac i lawr yr aber, gyda'r haul yn tywynnu ar arfordir y gogledd gan amlaf, a bryniau penrhyn Gŵyr mewn silwét neu yn y cysgod.
- Mae Goleudy Whitffordd yn dirnod allweddol allan yng nghanol y gilfach (yn ACM2).
- Mae arfordir y de hyd at Crofty yn rhan o AoHNE y Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

## Dylanwadau naturiol

Mae Aber Afon Llwchwr yn aber/ria llanw tywodlyd sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin gyda'i genau yn y gorllewin rhwng Burry Point a Thrwyn Whitffordd. Mae gan yr aber amrediad llanw mawr o hyd at 8m. Mae'r sianelau llanw dolennog yn llifo drwy'r tywod mân, rhwng bariau tywod llydan, gwastadeddau llaid, a morfa heli isel (Morfa Llanrhidian) ar hyd yr arfordir deheuol a rhan uchaf yr aber. Mae'r ria/dyffryn afon wedi'i rannu i mewn i olyniaeth creigwely Carbonifferaidd ag iddo streic o'r dwyrain i'r gorllewin yn rhan ddeheuol y synffurf, gyda Haenau Glo o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr yng nghraidd y plygiant, ac i'r de ceir creigiau hŷn y Grut Melinfaen o'r cyfnod Namuraidd a'r Calchfaen Carbonifferaidd ymhellach i'r de. Mae ffawtiau o'r gogledd i'r de yn croesi'r creigwely, ac mae sianel yr afon yn troi tuag at y gogledd yn rhan uchaf yr aber ar hyd ffawtlin. Gorchuddir y creigwely i raddau helaeth gan rewglai. Mae'r arfordir gogleddol o Borth Tywyn i Lanelli yn cynnwys tir a wnaed gan ddyn. Mae Trwyn Whitffordd yn dafod tywod mawr, ac mae tywod a gro yn ymestyn tua'r gogledd at Oleudy Whitffordd. Ar yr arfordir gogleddol, mae'r traethau tywodlyd yn cynnwys ardaloedd sydd wedi'u gorchuddio â chlogfeini ym Mhorth Tywyn a Machynys. Mae'r ardaloedd sydd wedi'u gorchuddio â chlogfeini yn ymestyn allan tua'r de ar wastadeddau llaid a thywod o Benrhyn Gwyn (Carreg Fach a Charreg Ddu) yn y gogledd. Yn y de, mae ardaloedd o forfa heli a orchuddir â glaswellt yn ymylu ar yr aber.

Mae'r dyffryn afon yn ardal o ddyddodion gwaddod net. Caiff gwaddod tywod ei gludo gan ffrydiau llanw a chorsydd i mewn i'r aber drwy dyniant a thrwy ddaliant gan gludiant ar y glannau ger Pen-bre a Thraeth Whitffordd, gyda thafodau tywod yn ymestyn ymhell i mewn i'r aber yn y gorffennol. Caiff gwaddod ei gludo yma o'r môr hefyd. Yn y dyffryn tua'r gogledd, mae cerhyntau aberol yn cludo gwaddod i lawr yr afon ac allan at y gwastadeddau tywod a llaid.

Mae Cilfach Tywyn/Aber Afon Llwchwr yn darparu llu o gynefinoedd â mannau bwydo a gorffwys pwysig i adar. Islaw Pont Llwchwr, mae'r ardal yn rhan o safle RAMSAR ac AGA Cilfach Tywyn. Mae Aber Afon Llwchwr yn rhan o AGA Bae Caerfyrddin ac Ardal Cadwraeth Arbennig/Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Mae Cilfach Tywyn ac Aber Afon Llwchwr, Arfordir Pen-bre a Bae Whitffordd yn SoDdGAau.

Mae sianel yr afon yn cefnogi gwangod a llysywod pendwll ac mae dyfrgwn yn defnyddio'r sianel i fwydo. Mae'r ardal yn ardal silio bwysig i ddraenogiaid môr. Mae'r amrediad llanw mawr yn dinoethi gwaddodion o dywod a llaid sy'n cefnogi dwygragenogion, e.e. cocos, a rhywogaethau eraill mewn niferoedd mawr. Mae'r glannau'n cynnwys ardaloedd o gorwellt y gamlas (*Zostera noltei*).

Mae'r ardal gyfan, bron â bod, yn rhan o Ardal Adar Bwysig Cilfach Tywyn sy'n cefnogi niferoedd rhyngwladol bwysig o adar gwlyptir ac adar hirgoes sy'n gaeafu megis piod môr, hwyaid llydanbig, hwyaid llostfain a phibyddion yr aber yn ogystal â rhywogaethau eraill. Maent yn bwydo ar yr ardaloedd rhynglanw mawr a'r morfeydd heli.

Mae'r cynefinoedd rhynglanw ar Drwyn Whitffordd yn cynnwys gwelyau cregyn gleision ar riffiau biogenig morlannol ag is-haenau cymysg, wedi'u cymysgu â thywod mân a lleidiog.

Tywod morlannol lleidiog a thywod mân yw cilfach rynglanw Cilfach Tywyn ar y cyfan, gyda riffiau biogenig tua'r de. Mae'r tywod lleidiog morlannol yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau, yn bennaf molysgiaid (e.e. cocos a chregyn telyn yr aber), mwydod gwrychog (e.e. abwyd llwyd) a chramenogion. Ceir mwydod gwrychog a chregyn telyn tenau/cregyn bylchog yn y tywod mân morlannol. Ceir rhai gwelyau cregyn gleision ar yr is-haenau cymysg morlannol. Yn y tywod lleidiog morlannol ger doc Llanelli, ar hyd yr ymyl ogleddol tuag at Gasllwchwr, ac ochr orllewinol Casllwchwr, ceir rhywogaethau amrywiol o fwydod a molysgiaid. Yng nghanol Cilfach Tywyn, ceir

llawer iawn o ddwygragenogion ar dywod lleidiog glannau'r sianel tuag at Gasllwchwr.

Mae'r ardal yn cynnwys systemau twyni tywod sydd o bwysigrwydd eithriadol oherwydd eu planhigion arfordirol prin a chymunedau'r llaciau twyni, megis tegeirian y fign a chrwynllys y tywod. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys y morfa heli di-dor mwyaf yng Nghymru. Mae'r cynefinoedd trosiannol ar y morfa heli isel yn cynnwys llyrlys. Mae'r bwlch yn y morglawdd yng Nghwm Ivy wedi arwain at orlifiad dŵr halen i mewn i'r gors dŵr croyw. Ymhellach i fyny'r afon, mae llawr ac ochrau'r dyffryn yn welyau cyrs hallt, cyrs pori arfordirol neu laswelltir wedi'i wella.



*Defaid ar y gors bori hallt ymysg y sianeli llanw lleidiog a chymhleth.*



*Mae'r adar hirgoes sy'n bwydo ar y gwastadeddau llaid ym Mhen-clawdd yn dod â'r olygfa'n fyw.*

## Dylanwadau diwylliannol

Credir y bu'r aber yn rhydiadwy ar un adeg, ac mae'n fordwyol o hyd i gychod llai pan fo'r llanw'n uchel; Cei Llangennech oedd y terfyn mordwyol yn y 19eg ganrif, er bod y terfyn llanw ymhellach i fyny'r afon, ger yr Hendy. Roedd pobl yn arfer pysgota o'r cilfachau.

Mae'r llongddrylliadau yn yr ardal yn cynnwys yr *Adventure*, yr *ECT*, y *William and Mary* a'r *Harmony*.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir cymharol uchel ar un adeg gyda photensial uchel fod dyddodion wedi goroesi. Argymhellodd y dylid gwneud pob ymdrech i gadw'r dyddodion yn eu lle.

Gwarchodwyd yr afon gan gaer Rufeinig *Leucarum* (Casllwchwr) ac wedi hynny gan gastell a adeiladwyd yn y 12fed ganrif a'r 13eg ganrif o fewn rhan ddwyreiniol y waliau milwrol Rhufeinig. Cafwyd y cyfeiriad cyntaf at fwrdeistref Casllwchwr ym 1319. Credir y bu'r aber yn rhydiadwy ar un adeg. Crybwyllir Casllwchwr mewn llyfrau porthladdoedd Cymreig o'r 16eg ganrif, ond Porth Tywyn a Llanelli i'r gorllewin a ddaeth yn brif drwybyrth rhanbarthol wrth i'r fasnach lo leol ddatblygu yn y 19eg ganrif.

Casglwyd cocos yn yr ardal ers y Canol Oesoedd o leiaf, gan fenywod lleol ar wastadeddau'r aber rhwng y llanw wrth i'r dynion weithio yn y pyllau glo lleol. Roedd oddeutu 500 o gasglwyr cocos ym mhysgodfa Pen-clawdd ym 1885.



*Casglwr cocos, Geoff Charles, (1961)*



*Awyren Amelia Earhart ar ôl glanio ym Mhorth Tywyn, 1928*

Hyd at yr 20fed ganrif, roedd yr arweddau ger genau gogleddol yr aber yn cynnwys glofeydd bychain, siediau mwyndoddi a'u systemau rheilffyrdd, glanfeydd a phyllau clai a gweithfeydd brics a thun. Mae rhwystrau tanciau o'r Ail Ryfel Byd yn arweddau nodweddiadol yn yr ardal hon.

Datblygodd Llanelli yn dref lofaol ac yna yn gynhyrchydd dur a thunplat. Roedd yn ganolbwynt i ddiwydiant tunplat Cymru yn hanner olaf y 19eg ganrif, pan ddechreuwyd ei galw'n 'Tinopolis'. Fodd bynnag, mae glo wedi cael ei gludo o Lanelli ers cyn yr unfed ganrif ar bymtheg. I gychwyn, roedd gan Lanelli harbwr llanw. Doc Pemberton oedd y doc llanw cyntaf o oddeutu 1794, ac fe'i dilynwyd yn fuan ar ôl hynny gan Ddoc Sir Gaerfyrddin ar Afon Lliedi ar gyfer glo a haearn ym 1799 a Doc y Gwaith Copr ym 1804. Wedi hynny, adeiladwyd nifer o ddociau, gan gynnwys y 'Doc Newydd' neu Ddoc y Great Western ym 1834 a Doc y Gogledd a addaswyd ym 1896. Agorwyd y Doc Newydd i fanteisio ar y galw am lo a gloddiwyd yn Llangennech a oedd yn arbennig o werthfawr i gychod morol, ac roedd Doc y Gogledd yn denu traffig y fasnach glo carreg. Mae'r rhan fwyaf o'r dociau bellach wedi cau a'u mewnlenwi, a dim ond Doc Sir Gaerfyrddin a Doc y Gogledd sydd wedi goroesi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hadnewyddu neu eu haddasu gyda datblygiadau modern. Mae morglawdd estynedig yr harbwr, sydd wedi'i ymestyn i'r de a'i warchod gan forgloddiau slag, yn dal i fod yno.

Allforiwyd glo Cwm Gwendraeth o Borth Tywyn. Mae llawer o'r harbwr, a gynlluniwyd gan Syr Joseph Banks a'i adeiladu ym 1832, yn dal i fod yno. Ceir olion dociau a glanfeydd ôl-ganoloesol yng Nghasllwchwr.

Ar ochr ddeheuol yr aber, ceir bryngaerau o'r Oes Haearn (e.e. Bryngaer Cilifor), cestyll canoloesol (e.e. Castell Weble) ac eglwysi yn y gefnwlad. Arferai'r glofeydd a'r gweithfeydd copr cynnar ym Mhen-clawdd ddefnyddio camlas, doc bach, angorfa/angorfa laid ar gyfer cychod, a glanfa fach uwch ei phen. Chwarelwyd calchfaen yn Llandimôr, ac fe'i hallforiwyd o Gilfach Bennett. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd maes tanio milwrol ar y morfa heli.

Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Gŵyr a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberoedd Afon Taf a Thywi yn gorgyffwrdd â'r ardal.

O ran pobl enwog, Amelia Earhart oedd y fenyw gyntaf i hedfan dros Gefnfor Iwerydd a glaniodd ei awyren 'Friendship' ar ôl y daith hanesyddol hon yn y dyfroedd ger Porth Tywyn ym 1928. Ganwyd Karl Jenkins ym Mhen-clawdd. Mae ei waith ef wedi'i berfformio fwy o weithiau nag unrhyw gyfansoddwr byw arall yn y byd.

Mae tref Casllwchwr yn arbennig o gysylltiedig â'r diwygiad crefyddol ym 1904, a bortreadir weithiau fel ymateb y dosbarth gweithiol i natur fwyfwy dosbarth canol anghydffurfiaeth yng Nghymru. Mae Llanelli'n dal i fod yn dref sy'n cynnwys llawer o siaradwyr Cymraeg. Mae'r faestref newydd ar lannau'r dref wedi bod yn ddadleuol.

O ran mordwyo, y Sianel Ganol yw'r brif sianel heb ei marcio rhwng banciau tywod y Traeth Canol,

Traeth Llanrhidian a Thraeth Cefn Padrig, sy'n symud ac yn sychu. Mae'r llanw'n llifo'n gryf ac mae genau'r aber yn amgylchedd anodd mewn gwyntoedd gorllewinol/de-orllewinol gan y gall y môr mawr dorri ar draws y fynedfa. Defnyddir Pwll Whitffordd fel angorfa mewn tywydd teg. Ceir bwiau yn y sianel ddynesu derfynol cyn y marina ym Mhorth Tywyn, ac mae'r goleudy gwyn isel gyda'i do coch yn nodwedd amlwg. Effeithir y sianel yn sylweddol gan leidio ac mae angen ei threillio yn rheolaidd. Mae giât y sil yn y marina yn cynnal lefelau'r dŵr ac mae'r marina'n cynnwys 450 o angorfeydd a rhywfaint o gapasiti ar gyfer ymwelwyr. Mae cychod pysgota preifat a masnachol yn gweithredu o'r marina yn ogystal â chychod hwylio a chychod modur. Mae llithrfa yn y marina, yn ogystal â chlwb hwylio.

Gorsaf Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub ym Mhorth Tywyn oedd yr orsaf brysuraf ond dwy yng Nghymru yn 2015 gyda chyfanswm o 57 lansiad yn ystod y flwyddyn. Mae hyn oherwydd y nifer o beryglon yn yr ardal, gan gynnwys y banciau tywod ger Hen Harbwr Pen-bre ac oddi ar draeth Llanelli a Machynys, y cerrig brig ger goleudy Whitffordd a'r sarnau o amgylch Burry Holms yn ACM2.

Ymhellach i fyny Cilfach Tywyn, mae'r sianel yn ddolennog gyda defnydd cyfyngedig. Nid yw'r hen ddociau yn Llanelli, 5km ymhellach ar hyd arfordir y gogledd, yn cael eu defnyddio mwyach ac nid oes modd cael mynediad iddynt bellach gyda chwch. Mae tŵr ger y fynedfa a marciau ar y môr hyd heddiw. Mae hen wal hyfforddi fylchog i'r de o'r dociau yng nghanol yr aber wedi'i marcio gan fwi oren lle mae'n cwrdd â'r sianel naturiol, ac mae'n dal i ailgyfeirio llanw a physgod.

Caiff cocos eu casglu ar sail fasnachol mewn sawl man yng Nghilfach Tywyn i'r gogledd a'r de, a chânt eu prosesu yn Mhen-clawdd. Dyma un o'r ychydig leoedd yn y DU lle cânt eu casglu â llaw gan ddefnyddio rhaca a rhidyll, a'u cludo gan geirt asyn. Cesglir cregyn gleision a gwichiaid yn nes at yr arfordir, gyda chregyn gleision yn cael eu rheoli er mwyn sicrhau nad effeithir ar y gwelyau cocos. Caiff grawn cregyn gleision eu treillio ger Trwyn Whitffordd. Mae cyfyngiadau rhwydo ar waith yng Nghilfach Tywyn i ddiogelu salmonidau a draenogiaid môr ifanc. Fodd bynnag, efnyddir rhwydi gosod ar draethau yn yr ardal hefyd, er mwyn dal draenogiaid môr, er enghraifft. Mae slafan (er mwyn gwneud bara lawr) yn cael ei gasglu mewn mannau. Cesglir llyrlys ar y morfa heli. Mae cig oen y glastraeth yn un o gynhyrchion nodweddiadol yr ardal.

Mae mordeithiau yn hwylio o'r marina ym Mhorth Tywyn, yn bennaf i Fae Caerfyrddin. Defnyddir yr ardal rhwng Porth Tywyn a phenrhyn Machynys o bryd i'w gilydd i fordhwylio a barcudfyrddio. Defnyddir yr ardal i'r gogledd o Bont Llwchwr i donfyrddio. Mae clwb hwylio canolig ei faint uwchlaw'r bont sy'n cynnig cyfleusterau storio cychod er bod mordwyo, unwaith eto, yn heriol yn yr ardal hon. Ceir hwylio, mordeithio modur a cheufadu môr yma, yn ogystal â physgota môr o'r traethau.

Ychydig o ddefnydd a gaiff y traeth ym Mhorth Tywyn ar gyfer gwahanol weithgareddau gan gynnwys pysgota môr. Fe'i defnyddir hefyd i lansio jet-sgis. Caiff y traethau ger Doc y Gogledd, Llanelli ac ym Machynys ychydig o ddefnydd hefyd. Mae pobl yn gwylio bywyd gwyllt ar ddwy ochr yr aber, ond gyda ffocws penodol ar y morfeydd heli yn y de. Caiff adar y gwlyptir eu saethu yn de hefyd.

Mae llawer o'r arfordir gogleddol yn dir sydd wedi'i adfer o'r hen ddefnydd diwydiannol ac mae'n cynnwys Parc Arfordirol y Mileniwm. Ceir promenadau ar hyd llawer o'r arfordir, gyda chwrs golff mawr gerllaw. Mae'r llwybr yn boblogaidd i gerddwyr, beicwyr a phobl sy'n gwerthfawrogi bywyd gwyllt yng Nghanolfan Gwlyptiroedd Llanelli. Ceir cwrs golff a maes ymarfer golff sy'n ychwanegu at yr amrywiaeth o weithgareddau hamdden. Ceir 'Parc Dŵr' yma hefyd, yn ogystal â doc bach a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant hwylio a chanŵio. Mae parc ar lannau'r afon yng Nghasllwchwr yn darparu golygfeydd ar draws darn tawelach, cul o'r dŵr mewn cyd-destun lled-wledig.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dilyn glannau gogleddol yr aber cyn belled ag y bo modd, gan basio drwy Borth Tywyn a Pharc Arfordirol y Mileniwm, ac mae'n gyflin â'r brif reilffordd mewn mannau. Mae Penrhyn Gŵyr a bryniau fel Cefn Bryn a Bryn Llanrhidian yn ganolbwynt i'r golygfeydd. Caiff y llwybr ei orfodi i'r mewndir i Dregŵyr, ond yna mae'n ymestyn ar hyd ymyl ddeheuol y morfeydd heli a'r borfa arfordirol isel yn erbyn llethrau serth arfordir gogleddol Penrhyn Gŵyr. Gellir gweld draw dros y gwastadeddau atmosfferig a thuag at Lanelli a Phorth Tywyn, gyda defaid yn pori, da byw eraill ac adar y gwlyptir o bryd i'w gilydd yn dod â'r olygfa'n fyw.

Mae llwybr beicio Llwybr Arfordirol y Mileniwm yn ffurfio rhan o lwybr beicio'r Llwybr Celtaidd (rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol rhif 47) a Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 4 y Rhwydwaith Beicio

Cenedlaethol. Mae'r brif reilffordd yn gweithredu fel amddiffynfa lifogydd arfordirol.

Mae'r arfordir deheuol hyd at Crofty yn rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

Mae'r ACM hon yn gysylltiedig â'r ardaloedd trefol i'r gogledd o Lanelli, Porth Tywyn, Casllwchwr a Phontarddulais, yn ogystal â rhuban o aneddiadau ar arfordir gogleddol Penrhyn Gŵyr ger Pen-clawdd. Ceir rhywfaint o ddatblygiadau diwydiannol y tu ôl i'r llain arfordirol ger Llanelli, megis gwaith dur Trostre. Mae'r A484 yn croesi'r afon yng Nghasllwchwr, gan rannu'r aber i bob pwrpas yn ardal ddwyreiniol ehangach sy'n gysylltiedig â'r môr agored, a llecyn mwy mewndirol ac afonol o Bont Llwchwr i Bontarddulais. Mae'r M4 yn croesi'r llecyn hwn.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Yn rhan orllewinol yr aber, mae'r cymeriad yn agored, yn eang ac yn llorweddol yn bennaf, ac mae'r ardal wedi'i chysylltu'n glir â bae agored Caerfyrddin. Mae bryniau isel penrhyn Gŵyr a'r rhai y tu ôl i Borth Tywyn a Phwll yn fframio'r rhan hon o'r aber. Tua'r dwyrain a'r gogledd, mae'r raddfa'n lleihau, gyda mwy o gysgod ger yr ardaloedd uwch o gwmpas y trefi.

Mae yma nifer o ganolbwyntiau, o natur amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys y blociau o blanhigion conifferaidd y tu ôl i Draeth Whitffordd, goleudy cyfagos Whitffordd, gwaith dur Trostre, tai newydd yn Noc y Gogledd a Chei Machynys, a phont Llwchwr. Ar raddfa leol, mae Castell Weble yn weladwy ar y bryniau ger Llanrhidian. Ceir canolbwyntiau ar hyd Llwybr Arfordirol Llanelli megis y twmpathau cerfiedig yn y parc arfordirol, y caffi yn Noc y Gogledd, a'r Ganolfan Gwlyptiroedd. Mae'r sarnau dros y corsydd o Wernffrwd yn arwedd gynnil nodweddiadol y gellir ond eu gweld o rai mannau uwch yn yr ardal hon, megis Castell Weble.

Mae bryniau isel yn amgáu'r ardal cymeriad. Ar benrhyn Gŵyr, mae'r rhain yn cynnwys llethrau serth gyda choetir aeddfed neu borfeydd mosäig, ac ar yr ochr ogleddol, nodweddir y bryniau gan ddatblygiadau trefol ar y llethrau isaf, megis ym Mhorth Tywyn, a chlytwaith o goedwigoedd, porfeydd a thir âr yn uwch i fyny.

Er y rhoddir undod i'r ardal gan natur eang, helaeth yr aber, gyda'i ddyfroedd llanw bywiog neu fanciau llaid gloywon, mae gan yr arfordiroedd gogleddol a deheuol a'r ardaloedd uchaf wead arbennig ac ymdeimlad arbennig o le. Mae'r morfeydd heli helaeth a'r gwastadeddau llaid ynghyd â'r llethrau serth yn diffinio'r ochr ddeheuol – ochr y Gŵyr. Mae'r patrwm mwy amrywiol a chymhleth o ddatblygiadau trefol a diwydiannol gyda'u parcdiroedd modern yn diffinio'r ochr ogleddol. Maent yn gymharol brysur ac yn cael eu goleuo gyda'r nos, yn wahanol i dywyllwch y rhan fwyaf o arfordir Penrhyn Gŵyr, ac eithrio ger Pen-clawdd. Mae'r morfeydd heli yn hynod o nodweddiadol, tawel ac atmosfferig, gyda llethrau serth y tu ôl iddynt. Uwchlaw pont Llwchwr, mae'r aber yn troi'n fwy gwledig yn gyflym, gan ddolennu'n dawel drwy ochrau amaethyddol y dyffryn ysgafn cyn cyrraedd yr M4 gyda'i sŵn a'i symudiad.

Er bod yr aber yn agored i wyntoedd gorllewinol, gall y corsydd deimlo'n gysgodol iawn a heddychlon iawn yng nghysgod y gwynt. Yn yr un modd, mae'r dŵr yn agored i donnau o'r gorllewin ac yn cynnwys cerhyntau llanw cryf. Fodd bynnag, pan fo'r llanw'n isel ar ddiwrnod tawel, mae'r dŵr yn edrych fel drych llonydd, gyda sianeli'n dolennu rhwng y gwastadeddau llaid a thywod. Mae gan y morfeydd heli batrymau cymhleth o ddŵr hallt neu byllau lleidiog, nentydd a sianeli, gyda defaid yn pori ar y glaswellt morfa yn eu plith.

Mae'r gweithgarwch a'r llonyddwch yn adlewyrchu patrwm defnydd y tir ar ochrau gogleddol a deheuol yr aber, sy'n fannau gwych i ymgymryd â gweithgareddau, gan gynnwys cerdded, beicio a gweithgareddau traeth ym Mharc Arfordirol y Mileniwm, o gymharu â'r mwynhad tawelach a geir yn y corsydd, sy'n fwy heddychlon o lawer.

Ceir golygfeydd eang a hir i fyny ac i lawr yr aber, gyda'r haul yn tywynnu ar arfordir y gogledd gan amlaf, a bryniau penrhyn Gŵyr mewn silwét neu yn y cysgod. Mae nifer o elfennau gwahanol yn amharu ar ansawdd yr ardal, gan gynnwys golygfeydd o'r diwydiant a'i sŵn o'r gogledd, pont Llwchwr a pheilonau, ac effaith datblygiadau trefol sydd i'w gweld o'r rhan fwyaf o leoedd.

Mae Goleudy Whitffordd yn dirnod allweddol yng nghanol y gilfach (yn ACM2).

Mae'r aber yn ardal dywyll fawr sy'n gwahanu'r Gŵyr a Llanelli. Mae goleuadau'r dref, ac yn

enwedig y cwrs golff ar lan y gogledd, yn weladwy ac yn ymyrgar gyda'r nos.



*Yr olygfa o Gastell Weble sy'n dangos ffordd na ellir ei gweld fel arall allan tuag at y gwastadeddau llaid dros y gors bori.*



*Aber Afon Llwchwr wrth edrych tua'r gogledd pan fo'r llanw'n isel, lle gellir gweld yr angorfeydd bach*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf gweithgareddau hamdden morol megis hwylio o Borth Tywyn a Chasllwchwr, cerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir a thraethau ar arfordir y gogledd. Mae'n cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf yr ACA, yr AGA a'r SoDdGA, natur gyfnewidiol y forwedd a'r afonydd, y cefndir cryf o lethrau coediog a thir pori i'r de, a'r corsydd. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan y Gilfach ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch yn enwedig ar y morfeydd heli a thuag at Drwyn Whitffordd.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r | | | | | | | |


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

- Y grymoedd newid naturiol yw'r aberoedd sydd ar hyn o bryd yn suddfannau gwaddod â phatrymau newidiol o dywod a llaid, twyni tywod sy'n agored i ddifrod mewn stormydd a chorsydd isel sydd mewn perygl o lifogydd.
- Mae symudiad gwaddod yn parhau i olygu bod angen treillio er mwyn cadw harbwr Porth Tywyn ar agor.
- Bydd cynnydd yn lefel y môr yn effeithio'n sylweddol ar yr ardal drwy lifogydd yn enwedig yn yr ardaloedd diamddiffyn megis y morfeydd heli.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw dal y llinell ar arfordir y gogledd i warchod yr aneddiadau mawr, yr asedau diwydiannol a'r rheilffordd gyda pheth gwaith adlinio rheoledig ychydig i'r gorllewin o Bont Llwchwr. Mae gwarchodaeth barhaus hefyd wedi cael ei hargymell ar gyfer yr arfordir ger Crofty a Phen-clawdd. Mewn mannau eraill, yr amcan yw hwyluso esblygiad naturiol yr aberoedd lle mae'r arfordir yn gyfagos i dir amaethyddol ac ardaloedd lled-naturiol.
- Gallai cywain cregyn gleision a chocos roi pwysau ar yr adnodd, ond gall y broses eu cefnogi hefyd.
- Bydd cynigion (gan CNC) i sefydlogi'r llif llanw yng Nghilfach Tywyn yn diogelu'r gwelyau cocos.
- Gallai ehangu posibl o ran y diwydiant neu fwy o ddefnydd hamdden dwys ar arfordir y gogledd fod yn weledol ymyrgar a lleihau llonyddwch ar arfordir Gŵyr, yn ogystal ag amharu ar awyr dywyll y gilfach.
- Mae cerbydau modur ar y môr megis jet-sgis yn amharu ar y tawelwch.

## Sensitifrwyddau allweddol

| **Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Gwerth cadwraeth natur yr ACA, AGA a'r SoDdGAau.<br><br>Lleoliad Castell Weble a Bryn Cilifor a'u gwerth o ran treftadaeth.<br><br>Gwerth a lleoliad y nodweddion treftadaeth ddiwydiannol megis y dociau ger Llanelli a Phen-clawdd.<br><br>Yr aber a'r morfeydd heli agored, digyffwrdd a thywyll.<br><br>Y golygfeydd dros Gilfach Tywyn a'r aber megis oddi ar Lwybr Arfordir Cymru, Trwyn Dalton a Pharc Arfordirol y Mileniwm.<br><br>Golygfeydd o'r Gŵyr oddi ar arfordir y gogledd.<br><br>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru ac ymwelwyr â'r nodweddion treftadaeth yn dderbynyddion sensitif. | Y ffurf adeiledig fodern a'r diwydiant mewn rhannau o Lanelli a Phorth Tywyn.<br><br>Sŵn a symudiad y traffig ar bont Llwchwr.<br><br>Presenoldeb goleuadau megis y cwrs golff ar yr arfordir gogleddol. |





*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017.*
*Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 3: Cilfach Tywyn ac Aber Afon Llwchwr**

| | |
|---|---|
| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | 4 |
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Bae Rhosili** |




Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 4: Bae Rhosili**



*Golygfa eiconig dros y traeth mawr digyffwrdd gyda Mynydd Rhosili yn y cefndir, yn arwain at ynys lanw Burry Holms.*



*Gwersi syrffio gydag amlinell nodweddiadol Pen Pyrod yn diffinio'r bae yn y cefndir*



*Golygfa o Dwyni Llangynydd dros y bae tuag at Ben Pyrod*

## Disgrifiad cryno

Yr ACM hon yw pen mwyaf gorllewinol penrhyn Gŵyr ac mae'n wynebu nerth llawn y prifwyntoedd o'r de-orllewin. Mae'n cynnwys bae tywodlyd bas a thraeth mawr eang, gyda ffurfiannau calchfaen i'r gogledd a'r de yn ei fframio. Mae'r ffurfiannau yn y de yn ymestyn hyd at Ben Pyrod, cyfres unigryw o dirffurfiau serth sydd wedi'u cysylltu gan greigiau llanw â Thrwyn Rhosili. Mae Mynydd Rhosili yn gefndir o rostir arfordirol syml y gellir ei weld o bell. Mae cerhyntau cryf ger y pentiroedd a gall y bae fod yn beryglus mewn tywydd gwael. Mae cychod bach yn defnyddio'r môr i bysgota ac i fordeithio ac mae'r traeth yn boblogaidd iawn ar gyfer syrffio a chorff-fyrddio. Mae'r traeth ymysg y rhai mwyaf poblogaidd yn y DU ac mae Rhosili'n denu llawer o ymwelwyr oherwydd y golygfeydd gwych a'r profiad arfordirol cyffrous a geir yno.

## Nodweddion allweddol

- Bae tywodlyd syml a bas sy'n wynebu'r gorllewin, gyda thraeth mawr hir yn ardal fwyaf gorllewinol penrhyn Gŵyr.
- Mae'r bae wedi ei fframio gan ffurfiannau calchfaen i'r gogledd a'r de (Pen Pyrod a Burry Holms) a'r tu ôl iddo, ceir tirffurf tywodfaen mawr Mynydd Rhosili, sy'n diffinio pen draw penrhyn Gŵyr, a'r twyni tywod i'r gogledd.
- Mae'r cefndir o lystyfiant lled-naturiol a geir ar Fynydd Rhosili yn syml a digyffwrdd gydag un adeilad yn unig ar odre'r mynydd.
- Mae llyfndir tonnau llanw creigiog yn cysylltu ffurf nodweddiadol Pen Pyrod â Thrwyn Rhosili. Mae'n diffinio ac yn fframio'r bae, ac yn ganolbwynt i olygfeydd.
- Mae'r traeth yn wynebu'r gorllewin ac yn agored iawn i brifwyntoedd y de-orllewin, ac o ganlyniad, ceir tonnau mawr ac ewyn.
- Mae'r ardal yn rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ac AGA Bae Caerfyrddin, ac mae'n Ardal Adar Bwysig. Mae pen draw Pen Pyrod yn ardal nythu bwysig i adar y môr a daw morloi llwyd ar y tir ar y pentir. Ceir llamidyddion a dolffiniaid ger y trwyn a'r bae.
- Mae'r bae agored gyda'i greigiau a'i gerhyntau cryf cysylltiedig yn cynnwys sawl llongddrylliad ac mae'r arfordir a'r gefnwlad yn cynnwys tystiolaeth o aneddiadau o'r Oes Balaeolithig.
- Mae'r arfordir a'r gefnwlad yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gŵyr.
- Mae cychod bychain yn defnyddio'r ardal i bysgota a mordeithio o amgylch yr arfordir, a cheir angorfa ddydd i'r gogledd o Ben Pyrod.
- Mae'r traeth eang yn un o draethau mwyaf poblogaidd y DU ac mae'n arbennig o boblogaidd ymhlith syrffwyr a chorff-fyrddwyr.
- Mae Rhosili'n gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr undydd ac yn eu denu i'r de ar ben y clogwyn gan roi mynediad i Ben Pyrod.
- Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar ac yn rheoli rhannau helaeth o'r ardal gan gynnwys Pen Pyrod a'r maes parcio yn Rhosili.
- Er bod y parc carafannau i'r gogledd yn boblogaidd ymhlith syrffwyr, mae'n amharu ar gymeriad naturiol y twyni tywod.
- Ceir golygfeydd gwych o'r traeth yn Rhosili, wedi'u fframio gan Fynydd Rhosili – a ddefnyddir yn aml i hyrwyddo Cymru – ac o Fae Caerfyrddin ac Ynys Bŷr wedi'u fframio gan Ben Pyrod.
- Mae'r ardal yn rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

## Dylanwadau naturiol

O Burry Holms i Ben Pyrod, mae daeareg creigwely'r môr a daeareg y tir ym Mae Rhosili yn rhan o anticlin dwyrain-gorllewin y Gŵyr. Mae hyn yn codi Hen Dywodfaen Coch ar ffurf Mynydd Rhosili yn

rhan ganolog y plygiant, gyda Chalchfaen Carbonifferaidd (o'r cyfnod Carbonifferaidd Cynnar) ar bob ochr i'r bae ym mhentiroedd calchfaen creigiog Burry Holms i'r gogledd a phenrhyn nodedig iawn Pen Pyrod i'r de. Mae rhewglai a gwaddod amrewlifol yn gorchuddio llwyfandir y Gŵyr ac yn llenwi rhigolau. Mae daeareg y creigwely o greigiau Defonaidd a Charbonifferaidd yn ymestyn tua'r gorllewin i Fae Caerfyrddin, gan streicio'n fras o'r dwyrain i'r gorllewin, gyda gorchudd o waddod Cwaternaidd. Tywod yw'r gwaddod ar wely'r môr.

Mae Bae Rhosili'n wynebu'r gorllewin ac yn goleddfu'n raddol (<1º) i mewn i Fae Caerfyrddin. Mae'r ardal rynglanwol yn dywodlyd yn y bae, ond ceir blaendraethau creigiog a llwyfannau craig bas ar bob ochr i'r pentiroedd calchfaen. Y tu ôl i'r bae tywodlyd bas (<20m o ddyfnder), ceir bardwyni yn y gogledd, o flaen tir serth yr hen dwyni (<50m) yn rhan ogleddol a chanol y bae - Twyni Llangynydd, Twyni Hillend. Ymhellach i'r de, mae'r clogwyni isel o rewglai a gwaddod amrewlifol, a'r twyni islaw Rhosili troi'n draeth coblau/cerrig mân, ac yna'n glogwyni calch (<30m) a blaendraethau creigiog draw tuag at Ben Pyrod.

Mae tonnau'n gryf iawn yn y bae, ac mae'n agored i wyntoedd a thonnau mynychaf y de-orllewin, gydag egni tonnau uchel ac ymchwydd y tonnau fel arfer yn cyfateb i <6m, cerhyntau yn >1m/eiliad a'r amrediad llanw yn >8m. Ceir llif llanw rhwng Pen Pyrod a'r tir mawr. Mae gwaddodion tywod yn symud drwy gludiant ar hyd y glannau yng ngogledd y bae, a chânt eu chwythu ar y twyni tywod. Mae rhywfaint o gludiant gwaddod o erydiad clogwyni yn cynhyrchu'r traeth ymylol o goblau a cherrig mân yn y bae deheuol. Ceir rhywfaint o ddiffyg gwaddod ar y traeth yn gyffredinol.

Mae'r mynydd tywodfaen, Mynydd Rhosili (<189m), yn ymestyn o'r gogledd i'r de y tu ôl i'r bae, wedi'i dalfyrru tua'r de gan ffawt ymwthiol yn erbyn creigiau o'r cyfnod Carbonifferaidd Cynnar. Mae'r penrhyn llanw creigiog (Shipway) yn cysylltu ag ynys Pen Pyrod (<53m), ynys â chyfres o dirffurfiau creigiog nodweddiadol sy'n goleddfu'n serth i'r bae ar hyd eu hymyl ogleddol. Mae agoredrwydd yr ardal i wyntoedd a thonnau cryfion yn amlwg o chwythdwll y Penrhyn Allanol. Mae ffrydiau llanw yn gryf ar yr ochr ddeheuol yn enwedig ger Pen Pyrod a Thrwyn Rhosili.

Mae'r ardal yn rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ac AGA Bae Caerfyrddin. Mae Mynydd Rhosili ac Arfordir Gŵyr: Rhosili i Borth Einon yn SoDdGAau. Mae'r ardal sy'n rhan o Fae Caerfyrddin yn Ardal Adar Bwysig ac yn gartref rheolaidd i 33,000 o adar dŵr sy'n gaeafu, megis y fôr-hwyaden ddu. Mae Dynesfeydd Môr Hafren, sy'n ACA bosibl ar gyfer Llamhidyddion, yn ymestyn i mewn i'r bae. Mae ymchwil wedi dangos bod mannau poblogaidd ar gyfer y mamal hwn, sef y mamal morol lleiaf yn y DU, yn cynnwys Pen Pyrod a Burry Holms, ond maent hefyd yn cynefino ym mae bas Rhosili. Mae llwyth o oddeutu 50 o forloi llwyd yn dod ar y tir ar ochr ogleddol Pen Pyrod. Gellir gweld dolffiniaid a sglefrod môr o bryd i'w gilydd, a chrwbanod yn achlysurol iawn.

Mae'r prif draeth rhynglanw yn dywod mân morlannol sy'n cynnwys mwydod gwrychog, molysgiaid ac ecinodermiaid. Ceir chwain traeth ar y traeth uchaf a'r draethlin a cheir band cul o ro morlannol ar ben uchaf y traeth, sy'n cynnwys hel-lys ysbigog (*Salsola kali*) – rhywogaeth o gryn bwysigrwydd yng Nghymru. Mae'r llyfndiroedd tonnau i'r de yn cynnwys gwelyau cregyn gleision ar is-haenau morlannol cymysg, gwymon danheddog (*Fucus serratus*) a gwymon coch ar gerrig rhynglanwol is cymharol agored, a gwymonydd a môr-wiail mewn pyllau trai rhynglanwol dyfnion. Ar greigiau Burry Holms i'r gogledd, ceir morwyal rhychog (*Pelvetia canaliculata*) a chregyn llong ar greigiau ymylol morlannol cymharol agored, gwymon troellog (*Fucus spiralis*) ar greigiau rhynglanwol uwch cymharol agored, a chen du ar greigiau ymylol morlannol uwch agored iawn i gysgodol iawn.

Mae Mynydd Rhosili yn gartref i ystod eang o gymunedau rhostirol sy'n deillio o'r tywodfaen coch gwaelodol. Mae eithin a rhedyn yn nodwedd amlwg ar y llethrau gorllewinol.



Syrffwyr yn croesi'r traeth o Dwyni Llangynydd gyda pharc carafannau Hillend a Mynydd Rhosili yn y cefndir



Pen Pyrod o gwch yn y bae

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r bae hwn, sy'n wynebu'r gorllewin, wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol gan gychod sy'n hwylio tuag at Gilfach Tywyn, naill ai er mwyn aros am beilotiaid neu'r llanw, ond mae hefyd wedi bod yn beryglus oherwydd y gwynt a'r môr mewn rhai cyflyrau, yn enwedig gwyntoedd de-orllewinol.

Cafodd y 'Dollar Ship' enwog ei suddo ym Mae Rhosili yn yr 17eg ganrif. Roedd doleri arian Sbaeneg â llun o Felipe IV arnynt a oedd yn dyddio o 1625 a 1639 yn dal i gael eu darganfod yn y llongddrylliad yn gynnar yn y 19eg ganrif. Mae llongddrylliadau eraill yn y bae yn cynnwys y *City of Bristol* ym 1840, y *Tocopilla* ym 1878, y *Mary Stenhouse* ym 1879, y *Verani* yn 1894, yr *Ann of Bridgewater* ym 1899, y *Notre Dame de Lourdes* ym 1910, y *Pansy* ym 1941, a'r *Cleveland* ym 1957. Gellir gweld gweddillion yr *Helvetia*, a suddodd ym 1887, a'r *Vennerne*, a suddodd ym 1894, yn y bae hyd heddiw. Mae llawer o ffotograffau wedi'u tynnu o weddillion yr *Helvetia*.

Cafwyd hyd i dystiolaeth o'r Oes Balaeolithig, ar ffurf llawfwyell fflint ar ymyl y traeth ar ôl cael ei herydu'n naturiol o wyneb y clogwyn. Mae hon yn un o'r unig ddwy fwyell o'r cyfnod Palaeolithig y cafwyd hyd iddynt yng Nghymru.

Nododd yr arolwg o'r palaeodirweddau fod yr ardal hon yn dir cymharol uchel ar un adeg gyda photensial uchel fod dyddodion wedi goroesi. Argymhellir y dylid gwneud pob ymgais i gadw'r dyddodion yn eu lle.

Caiff cyfnodau diweddarach eu cynrychioli gan nifer o siambrau claddu Neolithig a charneddi o'r Oes Efydd ar Fynydd Rhosili a chan geyrydd pentir ar bennau'r clogwyni. Ar waelod y mynydd, islaw'r pentref modern, ceir safle'r pentref canoloesol anghyfannedd a hen eglwys Rhosili a gafodd ei gorchuddio â thywod yn y cyfnod canoloesol hwyr; saif gweddillion y ddau safle bellach ymhlith twyni tywod. Mae'r dirwedd fwyaf arwyddocaol i oroesi, fodd bynnag, i'w chael yng nghefnwlad yr ACM – y gyfundrefn faes agored a elwir yn Y Vile. Mae patrwm y maes wedi'i ddiogelu heddiw ac fe'i diffinnir gan leiniau pridd heb eu trin a waliau o gerrig sychion.

Mae'r fasnach arfordirol mewn chwareli calchfaen ym Mae Rhosili wedi'i dogfennu'n dda – masnach a barodd hyd at 1899. Mae'r enw 'Lime-kiln point' yn atgof o'r diwydiant hwn. Ceir cofnod o chwarel feini melin yma hefyd ym 1583.

Mae'r arfordir a'r gefnwlad yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gŵyr.

Mae llawer o chwedlau lleol yn ymwneud â morio, smyglo a môr-ladrata. Yn ôl y chwedlau lleol, glaniodd llongau'r Llychlynwyr yn y bae er mwyn ymosod ar eglwys Llangynydd yn 986OC, gydag awgrym fod pobl Rhosili wedi llosgi eu llongau i ddial. Dywedir fod Bae Rhosili yn fan delfrydol ar gyfer smyglwyr oherwydd ei leoliad anghysbell, a bod nwyddau gwaharddedig wedi'u cuddio ar hyd a lled gorllewin Gŵyr.

Ar 19 Mehefin 2011, hawliodd bron i bedwar cant o bobl record y byd am y nifer fwyaf o bobl yn nofio'n noethlymun ar yr un pryd yn y môr yn Rhosili. Dewiswyd y lleoliad am ei fod yn gymharol bellennig.

Mae'r traeth yn enwog ledled y genedl. Cafodd y traeth ei enwi'n draeth gorau Prydain mewn pleidleisiau ddwy flynedd yn olynol, ac yn 2015, daeth yn drydydd yn rhestr TripAdvisor, ac yn yr 11eg safle ledled Ewrop. Mae'r olygfa o Rosili yn olygfa eiconig a ddefnyddiwyd yn y gorffennol gan Croeso

Cymru i hyrwyddo'r wlad.

Mae'r ardal wedi ysbrydoli barddoniaeth. Yn y gerdd 'Of Burry Holm', ysgrifennodd Don Rogers:
'...yn agored i'r gwynt a'r môr eang, wedi pylu gyda'r llwydion sy'n newid o hyd...
I'r de, mae Pen Pyrod yn tynnu'n gryf tua'r môr,
Ond mae'r gynffon lonydd yn ei ddal yn ôl.
Brigau danheddog yr ewyn ym Mae Rhosili...'

Mae rhan arfordirol yr ACM yn rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

Fel y crybwyllwyd uchod, o ran mordwyo, mae Bae Rhosili yn agored i wyntoedd y gorllewin a'r de-orllewin ac felly mae'n rhaid bod yn ofalus yn y prifwyntoedd. Ni cheir unrhyw nodweddion mordwyo. Ceir angorfa ddydd o'r enw 'Y Gegin' i'r gogledd o Ben Pyrod sy'n ddefnyddiol pan fo'r gwynt yn dod o'r de neu'r dwyrain. Caiff ei defnyddio gan forwyr hamdden yn ystod egwylion cinio, i nofio neu i ddisgwyl am amodau llanw addas ym Mhorth Tywyn.

Mae gorsaf wylio arfordirol ym Mhen Pyrod a weithredir yn ystod oriau diffiniedig golau dydd gan wirfoddolwyr Sefydliad Cenedlaethol Gwylio'r Glannau (NCI – gwefan yr NCI 2016). Mae'r orsaf wedi'i lleoli ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a bu'n orsaf Gwylwyr y Glannau ar un adeg. Mae'r orsaf yn chwarae rôl bwysig o ran rhybuddio a chynorthwyo pobl sy'n croesi'r sarnau at Ben Pyrod pan fo'r llanw'n isel ac yn cael eu dal gan y llanw. Caiff y bad achub wrth y lan yn Horton ei rybuddio, a daw i achub y bobl sydd mewn trafferth, ynghyd â Thîm Achub Gwylwyr y Glannau Rhosili.

Mae rhwydi gosod, megis ar gyfer draenogiaid môr, wedi cael eu defnyddio ar y traeth. Ceir rhywfaint o bysgota â sân ar y traethau hefyd. Ceir rhywfaint o gasglu cyllyll môr â llaw i'r de yn agos at Ben Pyrod, a chesglir gwichiaid â llaw i'r gogledd. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod ymhellach o'r lan i ddal lledod megis lledod coch a chathod môr, a defnyddir cewyll i ddal cregyn moch. Ceir pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol hefyd mewn mannau, yn enwedig ger Pen Pyrod. Mae pysgota gwialen a llinell ar sail hamdden yn gyffredin ym mhob rhan o'r ardal. Mae'r rhywogaethau yn cynnwys draenogiaid môr a chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf.

Mae'r mordeithiau yn yr ardal yn tueddu i hwylio o Borth Tywyn, Dinbych-y-pysgod neu Saundersfoot i Fae Caerfyrddin, gyda'r rhan fwyaf yn mentro i Ben Pyrod. Ceir pysgota môr o amgylch Pen Pyrod ac ar hyd y traeth. Mae teithiau bywyd gwyllt o amgylch penrhyn Gŵyr yn aml yn ymweld â'r ardal ger Pen Pyrod yn ystod yr haf. Caiff y bae rywfaint o ddefnydd ar gyfer bordhwylio a barcudfyrddio.

Mae ansawdd y dŵr ymdrochi yn ardderchog. Mae Llangynydd i'r gogledd o draeth Rhosili yn agored, ac mae hynny'n darparu amodau da ar gyfer syrffio a bordhwylio, ac mae dwy ysgol syrffio yn cystadlu â'i gilydd yn yr ardal. Caiff y traeth hwn lawer iawn o ddefnydd hefyd, yn enwedig ar gyfer corff-fyrddio a nofio dros ardal fawr. Mae ceufadu a physgota môr yn gyffredin a chaiff barcutiaid pŵer eu hedfan ar y traeth. Mae pobl yn dringo ar y clogwyni ar ymyl deheuol y bae. Mae'r meysydd parcio mawr yn darparu mynediad i'r traeth – yn Hillend ger y maes carafannau ar y twyni, ac yn Rhosili.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dilyn ymyl y twyni y tu ôl i'r traeth i'r gogledd, cyn troi ychydig am y mewndir i'r de ar lethrau isaf Mynydd Rhosili. Mae'r golygfeydd yn wych dros y bae a'r traeth llydan, i'r gorllewin dros Fae Caerfyrddin ac i'r de tuag at Ben Pyrod. O fae Rhosili a'i faes parcio mawr, mae'r llwybr yn ymestyn hyd at bennau'r clogwyni a thuag at y pen. Mae'r rhan hon o'r llwybr bron yn wastad ac mae'n hygyrch ac yn hynod boblogaidd. Y tu hwnt i'r sarnau llanw, ceir llwybr sy'n ymestyn hyd at ben draw Pen Pyrod, a hyd yn oed yn croesi pont graig naturiol o'r enw Pont-y-diafol. Ar y tir neu ar y lan, mae'r profiad cyffredinol yn y bae agored hwn yn gyffrous iawn.

Ni cheir aneddiadau yn yr ACM ei hun oni bai am yr hen reithordy ar odre Mynydd Rhosili (sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol), er bod pentrefi traddodiadol Rhosili, ger rhan ddeheuol yr ardal, a Llangynydd i'r gogledd yn byrth allweddol ar gyfer ymwelwyr â'r arfordir. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar gefn y traeth i'r de o Hillend, maes parcio Rhosili a Phen Pyrod.

Mae sŵn hofrenyddion sy'n hedfan yn isel dros yr arfordir yn lleihau llonyddwch. Gellir gweld awyrennau milwrol sy'n defnyddio gorsaf Pen-bre ar ochr draw'r bae o bryd i'w gilydd hefyd.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae gan Fae Rhosili draeth tywodlyd mawr, ceugrwm, gyda theimlad eang, agored a digysgod, ac fe'i

diffinnir gan glogwyni a phentir creigiog Pen Pyrod i'r de a chreigiau Burry Holms i'r gogledd. Y tu ôl iddo, ceir llethrau serth Mynydd Rhosili ar yr ochr ddwyreiniol, a thwyni bryniog helaeth i'r gogledd.

Mae penrhyn Pen Pyrod a'i siâp hynod nodedig yn sefyll allan ac yn weladwy o bob rhan o'r ardal cymeriad. Mae ambell i adeilad wedi'i rendro'n wyn yn sefyll allan hefyd, gan gynnwys yr hen reithordy ar odre Mynydd Rhosili a'r ganolfan ymwelwyr yn agos at y maes parcio ar ben y clogwyn yn Rhosili, ac i'r gogledd, mae Burry Holms yn edrych fel ynys pan fo'r llanw'n uchel.

Rhoddir undod i gymeriad cyffredinol yr ardal gan ehangder hir, unlliw'r traeth. Caiff disgleirdeb y golau ei adlewyrchu gan y môr a'r tywod, ynghyd â sŵn y tonnau. Mae'r traeth yn agored i wyntoedd o sawl cyfeiriad a gall y tywod mân gael ei chwythu mewn drifftiau hirion.

Mae'r traeth tywodlyd yn gannoedd o fetrau o led pan fo'r llanw'n isel, ac yn culhau i fod yn llain hirgul pan fo'r llanw'n uchel. Mae'r tywod bas a'r tonnau mawr yn hynod boblogaidd i bobl sy'n barod i gerdded i lawr o Rosili neu drwy'r parc carafannau a'r twyni yn Hillend i syrffio, corff-fyrddio, nofio, bordhwylio, cerdded eu cŵn neu ymlacio ar y traeth. Er y gweithgareddau hyn, ceir ymdeimlad o wylltineb ac agoredrwydd a gall cerdded ar hyd y traeth neu dros y clogwyni i Ben Pyrod fod yn hynod gyffrous. Ceir ymdeimlad o risg wrth gerdded dros y creigiau llanw i gyrraedd Pen Pyrod.

Mae'r meysydd carafannau ger Hillend a'r gyrchfan brysur yn Rhosili yn amharu ar gymeriad naturiol yr ardal.

Ceir golygfeydd gwych heb eu difetha dros y traeth o Rosili wedi'u fframio gan Fynydd Rhosili - fe'u defnyddir fel golygfeydd eiconig i hyrwyddo Cymru – a golygfeydd o Fae Caerfyrddin ac Ynys Bŷr wedi'u fframio gan Ben Pyrod. Mae modd gweld Ynys Wair oddi ar Fynydd Rhosili ar ddiwrnodau clir.

Gall yr ardal, gan gynnwys y traeth, Mynydd Rhosili a Phen Pyrod fod yn dawel, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Mae'r ymwelwyr yn amharu ar y tawelwch yn ystod cyfnodau prysuraf y flwyddyn, yn ogystal â nifer o hofrenyddion sy'n hedfan yn isel ac awyrennau milwrol o bryd i'w gilydd wrth iddynt fynd a dod dros y bae i Ben-bre.

Mae'r ardal yn dywyll yn gyffredinol, ond mae Rhosili a'r meysydd carafannau'n amharu ar hyn ar y cyrion. Mae Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot yn weladwy iawn yn ystod y nos ar ochr arall y bae.



*Twyni Llangynydd, sy'n cuddio rhai o'r carafannau ond nid pob un. Gellir gweld Rhosili ar ran isaf y nenlinell.*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ac yn gwella iechyd a lles drwy'r gweithgareddau amrywiol ar y traeth ac ar hyd yr arfordir gan gynnwys syrffio, nofio, pysgota a cherdded, ac at dreftadaeth naturiol yn yr ACM, AGA a'r SoDdGAau amrywiol gan gynnwys y bae, y clogwyni, y rhostir arfordirol a'r blaendraethau a'r twyni, ac ar ffurf golygfeydd allan dros y môr a thuag at Ynys Bŷr ac ar draws Bae Caerfyrddin.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | ■ | ■ | | | ■ | ■ | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | ■ | ■ | | | ■ | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | ■ | ■ | | | ■ | | |
| Ymdeimlad o le | ■ | ■ | | | ■ | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | ■ | | | ■ | ■ | ■ |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | ■ | ■ | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | ■ | ■ | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | ■ | ■ | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | ■ | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | ■ | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | ■ | ■ | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |


**Crynodeb**

- Mae'r grymoedd naturiol dros newid yn cynnwys patrymau newidiol o gludiant gwaddod yn y bae, sy'n achosi diffyg gwaddod cyffredinol, gyda thwyni tywod a chlogwyni yn agored i ddifrod mewn stormydd, a chaiff arweddau archaeolegol eu hamlygu weithiau yn sgil hyn.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw galluogi'r arfordir hwn, sydd heb ei ddatblygu i raddau helaeth, i barhau i ddatblygu'n naturiol, gan encilio o bosibl mewn rhai mannau. Er enghraifft, gallai'r sarnau i Ben Pyrod gael eu gorchuddio'n barhaol gan y dŵr. Gellid cyflwyno mesurau i alluogi'r systemau twyni tywod i ymateb yn naturiol. Yn y tymor hwy, argymhellir adleoli'r ychydig asedau cymdeithasol-economaidd sydd mewn perygl o erydu arfordirol neu lifogydd.

- Mae pwysau ymwelwyr ar Rosili a Thrwyn Rhosili yn cynyddu, a gall gwaith adnewyddu a rheoli'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y maes parcio yn Rhosili fod yn ei waethygu.
- Ceir pwysau ymwelwyr hefyd ar Dwyni Llangynydd ar ben arall y traeth, lle ceir safle gwersylla a maes parcio a all fod yn brysur iawn, yn enwedig mewn tywydd da.
- Gallai ehangu neu ddwysáu cyfleusterau hamdden megis y meysydd carafannau fod yn ymyrgar yn weledol a lleihau'r ymdeimlad heddychlon.
- Gall prosiectau ynni alltraeth gael effaith ar yr ardal.
- Mae mesurau blaenorol i osod ffensys ar Dwyni Llangynydd wedi arwain at ffens wifren sydd wedi torri ac sy'n beryglus ac yn amhrydferth.

## Sensitifrwyddau allweddol

| **Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Gwerth yr ACA, yr AGA a'r SoDdGA ar hyd yr arfordir o ran cadwraeth natur.<br><br>Gwerth y gweddillion a'r llongddrylliadau amrywiol o ran treftadaeth.<br><br>Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal ar y môr, gyda'i hymdeimlad o wylltineb a golygfeydd tuag at Ynys Wair a thros Fae Caerfyrddin, tuag at Ynys Bŷr.<br><br>Cymeriad cynhenid y traeth tywodlyd mawr a fframiwyd gan bentiroedd agored a digyffwrdd, Mynydd Rhosili a Thwyni Llangynydd.<br><br>Nodwedd unigryw Pen Pyrod a'i lyfndir tonnau.<br><br>Golygfeydd tuag at Ynys Bŷr oddi ar y traeth, pennau'r clogwyni a Mynydd Rhosili, yn ogystal â golygfeydd tuag at Ynys Bŷr.<br><br>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru, ymwelwyr â Rhosili a'r bae a defnyddwyr cychod hamdden o Abertawe a Phorth Tywyn yn dderbynyddion sensitif. | Ffurf adeiledig fodern rhannau o Rosili a'r maes parcio prysur.<br><br>Presenoldeb meysydd carafannau. |





*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017.*
*Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 4: Bae Rhosili**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | 5 |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Pen Pyrod hyd at Drwyn Porth Einon** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 5: Pen Pyrod hyd at Drwyn Porth Einon**



*Yr olygfa tuag at Ben Pyrod dros y ffurfiannau craig arfordirol nodweddiadol gan gynnwys ogof Twll Deborah.*



*Yr olygfa ar y môr tuag at y clogwyni arfordirol a'r ffurfiannau craig nodweddiadol ger ogof Pen-y-fai.*



*Yr olygfa ar y môr tuag at ynys nodweddiadol ac eiconig Pen Pyrod gyda physgotwyr hamdden yn y blaendir yn ceisio gwneud yn fawr o'r dyfroedd toreithiog.*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM hon yn arfordir llinellol, agored o glogwyni calchfaen trawiadol, riffiau geirwon, dyffrynnoedd rhychog a childraethau bychain sy'n dod i ben â ffurf unigryw Pen Pyrod yn y gorllewin. Mae sianel dywodlyd Helwick wedi'i hamgáu gan Draethell Helwick yn y de ac mae'n culhau tua'r dwyrain. Ceir ogofeydd yn y clogwyni gydag olion Palaeolithig, megis Ogof Twll yr Afr, Pen-y-fai. Gan nad oes modd cyrraedd y rhan hon o'r arfordir mewn car, mae'n ddarn tawel, llonydd ac anghysbell o'r arfordir, ac ychydig iawn o ddatblygiad a geir yma. Defnyddir y dŵr gan gychod hamdden a physgota ac ar gyfer teithiau bywyd gwyllt.

## Nodweddion allweddol

- Arfordir llinellol, agored o glogwyni calchfaen trawiadol, riffiau garw, dyffrynnoedd rhychog a childraethau bychain sy'n dod i ben â ffurf unigryw Pen Pyrod, sydd wedi'i wahanu oddi wrth y tir mawr gan lyfndir llanw creigiog.
- Mae sianel dywodlyd Helwick wedi'i hamgáu gan Draethell Helwick yn y de ac mae'n culhau i'r dwyrain tuag at Fwlch Helwick.
- Mae'r arfordir yn agored i ynni tonnau uchel a cheir ffrydiau llanw cryf yng nghyffiniau Pen Pyrod a Thrwyn Rhosili, a geirwyau môr ar ochr ddeheuol y draethell.
- Mae'r ardal yn rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ac AGA Bae Caerfyrddin ac mae'n cynnwys Pen Pyrod a'i adar môr. Mae'r arfordir calchfaen o lystyfiant lled-naturiol yn rhan o ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru a gwahanol SoDdGAau.
- Er y caiff ei warchod yn rhannol gan Gefnen Helwick, gall y môr fod yn beryglus iawn oherwydd y riffiau garw a chyfyngder Bwlch Helwick, a cheir llongddrylliadau ar hyd yr arfordir.
- Mae'r arfordir a'r gefnwlad yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Gŵyr.
- Mae'r ogofeydd yn y clogwyni yn arbennig o nodedig gan eu bod yn cynnwys olion Palaeolithig, megis Ogof Twll yr Afr ym Mhen-y-fai ac Ogof Longhole, ac roedd pobl yn arfer byw ynddynt pan roedd lefel y môr yn llawer is.
- Mae cychod bach yn defnyddio'r ardal i fordeithio o amgylch yr arfordir, a cheir llecyn poblogaidd ar gyfer pysgota ger Pen Pyrod. Mae teithiau bywyd gwyllt yn ymweld â'r rhan hon o'r arfordir yn yr haf.
- Mae'n anodd cyrraedd yr arfordir ar wahân i'r pennau pellaf yn y gorllewin a'r dwyrain ac felly mae'n rhan gymharol dawel o Lwybr Arfordir Cymru.
- Caiff y traethau bychain ym Mae Fall a Bae Mewslade eu defnyddio gan bobl leol a syrffwyr.
- Darn llinellol, trawiadol o glogwyni onglog a dyffrynnoedd rhychog byr, cildraethau ac ogofeydd creigiog bychain a llwyfannau creigiog garw.
- Mae'r arfordir yn gyffrous ac yn agored gyda ffurfiannau calchfaen trawiadol. Cânt eu hadlewyrchu gan y profiad a geir ar y môr lle mae'r ogofeydd yn weladwy, gan roi ymdeimlad cryf o hanes.
- Yn gyffredinol, mae'r ardal yn ddigyffwrdd i raddau helaeth gydag ychydig iawn o ddatblygiad, ac felly mae'n heddychlon ac yn teimlo'n anghysbell.
- Ceir golygfeydd hir di-dor allan dros y môr, ac ar ddiwrnodau clir, gellir gweld Ynys Wair ac Exmoor, ac ar hyd yr arfordir, gellir gweld Pen Pyrod o rai mannau.
- Mae'r ardal yn rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r arfordir llinellol hwn sy'n wynebu'r de-orllewin, gyda mân gilfachau rhwng Pen Pyrod a Phorth Einon, yn goleddfu'n raddol (<1°) i mewn i Fôr Hafren ac mae'n agored i wyntoedd a thonnau mynychaf y de-orllewin. Ar y môr, mae Calchfaen Carbonifferaidd gwydn yr arfordir wedi'i orchuddio'n olynol tua'r de gan greigwely o gerrig llaid a thywodfeini o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr ag iddynt streic o'r gorllewin-ogledd-orllewin i'r dwyrain-dde-ddwyrain, yna gan gerrig llaid o'r cyfnod Triasig a chreighalen a cherrig llaid a marl/calchfaen o'r cyfnod Jwrasig Cynnar. Mae'r creigwely wedi'i orchuddio â haen denau o greigiau Cwaternaidd. Mae'r gwaddod tywodlyd ar lawr y môr yn mynd yn fwy bras tua'r de ac yn troi'n dywod graeanog yn ACM19. Mae'r ysgafell yn goleddfu'n serth i mewn i sianel ddyfnach Helwick (>30m), sy'n ffinio i'r de â chefnen hir Helwick (>12km). Mae'r gefnen yn ymestyn o Orllewin Helwick drwy Swas Helwick i Ddwyrain Helwick, ac fe'i gwahanwyd oddi wrth y tir mawr gan Fwlch Helwick ger Porth Einon.

Ar wahân i faeau tywodlyd Bae Mewslade a Bae Fall, mae'r arfordir yn greigiog, gyda chlogwyni calchfaen o'r cyfnod Carbonifferaidd Cynnar a blaendraethau garw a chreigiog, e.e. Dagger Reef. Mae ochr ddeheuol Pen Pyrod yn goleddfu'n fwy graddol na'r ochr ogleddol i mewn i lwyfandir creigiog eang. Mae'r arfordir yn agored i ynni tonnau uchel, gydag ymchwydd ar y tir ac amrediad llanw o hyd at >8m. Gall ffrydiau llanw cryfion Môr Hafren arwain at eirwyau môr ar ochr ddeheuol Cefnen Helwick. Ceir ffrydiau llanw cryfion hefyd ger Pen Pyrod a Thrwyn Rhosili.

Ceir cludiant gwaddodion i'r dwyrain yn bennaf ar hyd yr arfordir hwn, gyda Chefnen Helwick yn rhan bwysig o gylchrediad y tywod. Mae erydiad ac ysgrafelliad tonnau yn effeithio ar y creigiau calchfaen.

Mae daeareg y Calchfaen Carbonifferaidd ar y tir, sy'n streicio ar hyd yr arfordir, yn ffurfio clogwyni creigiog serth, gwydn rhwng 30-61m o uchder oddi ar lwyfandir Gŵyr. Mae nifer o ffawtiau'n gwrthbwyso'r ddaeareg ac mae'r llinellau gwan hyn yn y graig yn cyfateb â llawer o'r amfaeau bychain. Ceir traethau uchel ar y clogwyni.

Mae'r ardal yn rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ac mae'r ymyl ogledd-orllewinol yn rhan o AGA Bae Caerfyrddin. Mae'r arfordir cyfan yn rhan o ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru. Mae Arfordir Gŵyr: Rhosili i Borth Einon yn SoDdGA ac mae'r arfordir yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Arfordir Gŵyr a Gwarchodfa Natur De Gŵyr.

Mae tywod gweddol fân Cefnen Helwick yn cynnwys ardaloedd silio ar gyfer torbytiaid, lledod llyfn, lledod coch a gwyniaid môr. Mae llymrïaid hefyd yn silio yma ac maent yn rhan bwysig o'r we fwyd forol leol. Ceir llamidyddion, mamal morol lleiaf y DU, ar hyd Sianel Helwick o Ben Pyrod i'r dwyrain. Gellir gweld heidiau o ddolffiniaid o bryd i'w gilydd rhwng Pen Pyrod a Chefnen Helwick ynghyd â heidiau mawr o adar drycin Manaw yn ogystal â gwylanwyddau'n plymio.

Mae'r cynefinoedd arfordirol allweddol yn cynnwys y creigiau rhynglanw a'r clogwyni cyfagos sy'n gartref i lawer iawn o infertebratau. Mae arfordir creigiog deheuol y Gŵyr yn cynnwys hyd at saith parth bïotop rhynglanw o'r isforlannol hyd at y parthau uwch ac uwchforlan. Yn bennaf, maent yn cynnwys creigiau o egni cymedrol ac uchel. Ceir cennau melyn a llwyd ar greigiau uwchforlan. Mae cennau du yn tyfu ar greigiau ymylol morlannol agored iawn i gysgodol iawn ger pennau uchaf y llyfndiroedd tonnau/riffiau a childraethau - y gylchfa trochion. Ceir graean morlannol diffrwyth ar rannau uchaf y cildraethau. Ceir mwydod gwrychog mewn tywod morlannol mân ar y traethau. Ceir crachod y gogledd, llygaid meheryn a malwod môr spp. ar greigiau rhynglanwol fertigol cysgodol neu gymharol agored. Ceir gwelyau cregyn gleision ar is-haenau morlannol cymysg. Ceir gwymon danheddog a gwymonydd coch ar greigiau rhynglanwol is cymharol agored, a gwymonydd a môr-wiail mewn pyllau trai rhynglanwol dyfnion ar lwyfandiroedd tonnau ac ar hyd yr arfordir. Ceir y gwymon coch, mwsogl Iwerddon (*Chondrus crispus*), a chregyn llong spp. ar greigiau rhynglanwol is cymharol agored ar hyd yr arfordir. Ceir parth mawr o grachod y gogledd a gwregysau'r môr (*Laminaria digitata*) ar greigwely ymylol isforlannol cymharol agored ar hyd yr arfordir.

Ceir glaswelltir morol agored fel yr hyn a geir ar Ben Pyrod, a glaswelltir calchfaen ar bennau'r clogwyni. Ymhlith y cymoedd rhychog, ceir prysgwydd o ddrain duon a choed cyll. Mae Pen Pyrod, ac i raddau llai, y clogwyni i'r dwyrain yn cefnogi adar môr megis brain coesgoch, gwylanod coesddu, gwylogod, llursod a phalod o bryd i'w gilydd (a geir yn fwy aml i'r gorllewin).



*Teithiau cychod bywyd gwyllt yn hwylio ar hyd yr arfordir rhwng Pen Pyrod a Bae Oxwich*



*Gorsaf Gwylio'r Glannau yn edrych dros Ben Pyrod*

## Dylanwadau diwylliannol

Yn hanesyddol, roedd Sianel Helwick ar hyd ochr ogleddol y banciau tywod yn darparu dihangfa rhag y môr garw y tu hwnt i'r banc mewn gwyntoedd cryfion o'r de ond heb unrhyw amddiffyniad rhag gwyntoedd y gorllewin. Roedd yn rhaid i forwyr hefyd osgoi'r lan greigiog mewn mannau fel y Dagger Reef, ysgafell danddŵr sy'n ymestyn i'r de o Ben Pyrod/Tears Point.

Mae'r llongddrylliadau yn yr ardal hon yn nodi'r amrywiaeth o longau a fu'n hwylio rhwng Cefnen Helwick a'r tir mawr, a'r masnachau roeddent yn eu gwasanaethu. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys y *Dasher*, cwch pysgota pren a suddodd ym 1852, a gofrestrwyd yn Dungarvan, y *Glanravil Miner*, sgwner a gollwyd ym 1872 wrth gludo pyg o Abertawe i Barrow-in-Furness, a gofrestrwyd yn Hull. Ar y llaw arall, roedd y *Milan* hefyd wedi'i chofrestru yn Hull ond roedd yn agerlong fawr a oedd yn cludo hadau cotwm yr Aifft i Fryste. Fe suddodd mewn niwl trwchus yn agos at Drwyn Porth Einon ym 1888.

Ceir basle mwy na 580m o hyd a mwy na 215m o led ger Pen Pyrod a fu, o bosibl, yn dir pysgota wystrys ar un adeg.

Bu Goleulong 91 yn nodi ardal Gorllewin Helwick ar un adeg ond fe'i diddymwyd ym 1989. Cafodd ei docio ym Mae Caerdydd am oddeutu 20 mlynedd, ond mae bellach yn cael ei harddangos ym Marina Abertawe fel rhan o gasgliad Amgueddfa Abertawe.

Mae'r arfordir yn cynnwys Ogof Twll yr Afr, Pen-y-fai, yr ogof bwysicaf ym Mhrydain o'r cyfnod Palaeolithig Uchaf cynnar. Mae'n safle nodedig gan fod sgerbwd dyn wedi'i orchuddio mewn ocr coch (Arglwyddes Goch Pen-y-Fai, fel y'i gelwir) wedi'i ddarganfod yma ym 1823, a chredir ei fod wedi'i gladdu mewn defod gydag addurniadau ifori a chregyn tyllog. Mae gwaith ailgloddio diweddar ar y safle, ynghyd ag ailasesiad o'r arteffactau a gloddiwyd eisoes a set o ddyddiadau radio-carbon, yn awgrymu y bu presenoldeb dynol yn yr ardal 50,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae presenoldeb bod dynol anatomegol fodern o oddeutu 26,000 CP yn codi cwestiynau ynglŷn â phryd yr ymgartrefodd pobl fodern ar y Penrhyn Prydeinig.

Mae ogof Longhole hefyd yn cynnwys tystiolaeth o'r cyfnod Palaeolithig. Gall y Siambr Goch, ogof arfordirol â tho isel ger Clovercliff sy'n cynnwys o leiaf un claddedigaeth, ynghyd â chyfosodiad ffawna amrywiol, gan gynnwys cregyn brennig a chregyn gleision, hefyd fod yn dystiolaeth o weithgareddau Cynhanesyddol. Mae ogof Twll Deborah yn cynnwys olion o'r Oes Efydd.

Mae rhes o geyrydd pentir yn gwarchod y gefnwlad gan gynnwys Gwersyll Thurba, Gwersyll Twll Deborah a Gwersyll Pen-y-fai. Mae'r arfordir a'r gefnwlad yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gŵyr.

Mae'r ardal yn cynnwys coedwig danddwr/amlygiad helaeth o fawn gyda bonion coed, boncyffion wedi cwympo ac arwyneb sy'n cynnwys darnau o gyrs, i'r gogledd o Gefnen Helwick. Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod y môr yn dir cymharol uchel ar un adeg gyda photensial uchel fod dyddodion wedi goroesi. Argymhellodd y dylid gwneud pob ymdrech i gadw dyddodion yn eu lle.

Ger Porth Einon, ceir amlygiad helaeth o fawn gyda bonion coed, boncyffion wedi cwympo ac arwyneb sy'n cynnwys darnau o gyrs. Mae'r mawn yn gorchuddio clai llwyd y cafwyd hyd i graidd a


darn o asgwrn llosg ynddo ymhellach i'r dwyrain.

Mae'r ardal yn gysylltiedig â'r Parch. Dr William Buckland, arloeswr mewn dadansoddi gwyddonol fel ffordd o ailgreu digwyddiadau o'r gorffennol pell ac yn y ddealltwriaeth o ysgarthion ffosiliedig, ac yn y ddealltwriaeth gynyddol ledled y byd o natur Cynhanes.

Mae'r ACM yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Gŵyr ac mae'n rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

Mae'r ardal wedi ysbrydoli barddoniaeth. Yn 'On the Finger-tip of the Gower', myfyria William Condry (1918-1998):
'Roedd y môr glas yn llifo at y pentiroedd disglair ac yn ewynnu i mewn i'r baeau rhyngddynt...mae digon o gromlin yn yr arfordir i roi cipolwg i chi o Ben Pyrod lle mae'n ymdroelli i mewn i'r môr...'

Mae arlunwyr fel Syr Kyffin Williams hefyd wedi cael eu hysbrydoli gan yr arfordir garw hwn. Mae golygfeydd dramatig yr arfordir wedi cael eu defnyddio i ddenu ymwelwyr. Defnyddir golygfa o Ben Pyrod mewn poster i deithwyr ar drenau.



*Arfordir Gŵyr: Syr Kyffin Williams*




*Gower Coast, poster gwreiddiol a argraffwyd ar gyfer y Rheilffordd Brydeinig (Rhanbarth Gorllewinol), Gyrth Russell (1892-1970)*

O ran mordwyo, mae Cefnen Helwick yn beryglus iawn, ac mae'r ardal o'r môr rhwng y basle a Phen Pyrod a'r arfordir yn cynnwys riffiau. Mae Sianel Helwick yn culhau rhwng y gorllewin a Bwlch Helwick ar y pen dwyreiniol, wedi'i chyfyngu gan y cefnennau a Phorth Einon. Fel rheol, osgoir y llwybr yn ystod y nos. Mae'r cyfuniad o'r nodweddion hyn a'r ffrydiau llanw cryfion yn golygu bod yr ACM hon yn arbennig o beryglus yng ngwyntoedd y gorllewin, ac mae llawer o forwyr yn tueddu i gadw at ochr ddeheuol Cefnen Helwick gan osgoi'r geirwyau môr. Mae'r basle wedi'i farcio gan fwiau cardinal gwyn sy'n fflachio i'r dwyrain a'r gorllewin. Mae gan y bwi yn Nwyrain Helwick gloch/signal niwl. Er y dylid osgoi'r ardal mewn tywydd gwael, mae'n boblogaidd mewn tywydd teg. Yn ystod yr hanner llanw, mae modd i gychod llai fordwyo ar hyd y llwybr dros yr ysgafell a rhwng Pen Pyrod a'r tir mawr.

Mae gorsaf wylio arfordirol ym Mhen Pyrod a weithredir yn ystod oriau diffiniedig golau dydd gan wirfoddolwyr Sefydliad Cenedlaethol Gwylio'r Glannau (NCI – gwefan yr NCI 2016). Mae'r orsaf wedi'i lleoli ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a bu'n orsaf Gwylwyr y Glannau ar un adeg.

Mae'r orsaf yn chwarae rôl bwysig o ran rhybuddio a chynorthwyo pobl sy'n croesi'r sarnau at Ben Pyrod pan fo'r llanw'n isel ac yn cael eu dal gan y llanw. Caiff y bad achub wrth y lan yn Horton ei rybuddio, a daw i achub y bobl sydd mewn trafferth, ynghyd â Thîm Achub Gwylwyr y Glannau Rhosili.

Defnyddir yr ardal arfordirol hon yn bennaf ar gyfer dal cimychiaid a chrancod mewn cewyll, a chregyn moch ymhellach allan ar y môr. Ar y tir, caiff gwichiaid eu casglu â llaw. Ceir pysgota gwialen a llinell yma ar sail fasnachol, yn bennaf i'r gorllewin. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod yn yr ardal. Mae pysgota gwialen a llinell ar sail hamdden yn gyffredin ym mhob rhan o'r ardal. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys draenogiaid môr a chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf.

Mae rhan ganol Cefnen Helwick wedi'i thrwyddedu ar gyfer echdynnu tywod a graean ond ni chaiff ei defnyddio ar hyn o bryd.

Mae mordeithiau yn hwylio'n gymharol agos i'r arfordir rhwng Dinbych-y-pysgod, Porth Tywyn ac Abertawe. Mae teithiau bywyd gwyllt yn hwylio ar hyd yr arfordir yn yr haf, gan ymweld â mannau fel Ogof Pen-y-fai. Ceir pysgota môr ger Pen Pyrod ac ar hyd yr arfordir creigiog. O bryd i'w gilydd, mae pobl yn plymio yn agos at y lan a'r Pen er mwyn archwilio'r arfordir creigiog. Mae ceufadu yn agos at yr arfordir yn boblogaidd. Defnyddir y traethau bychain ym Mae Fall a Bae Mewslade gan bobl leol a rhai syrffwyr.

Mae dringo'n boblogaidd ar bob rhan, fwy neu lai, o'r clogwyni hyn. Cynhelir arforgampau yn y gorllewin ger Pen Pyrod. Ceir ogofa ar hyd yr arfordir, ger ogof Twll Deborah, er enghraifft. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dilyn yr arfordir ac yn pasio drwy rostir mosäig arfordirol, weithiau'n agos at bennau'r clogwyni, ac weithiau ar hyd y ffin â'r gefnwlad amaethyddol gyfochrog. Mae'n anodd iawn cyrraedd y rhan hon o'r arfordir mewn car, felly ceir llai o gerddwyr yma. Ceir golygfeydd amrywiol ar hyd yr arfordir calchfaen creigiog, garw ac agored sy'n wynebu'r de. Ceir dargyfeiriadau posibl i'r ogofâu ac mae Twll Culver, colomendy craig canoloesol mewn daeardor hir yn y clogwyn, yn arbennig o amlwg o'r môr.

Ni cheir aneddiadau yn yr ardal cymeriad hon. Ceir nifer o ffermydd ar y tir pori y tu ôl i'r arfordir.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ardal hon yn cynnwys rhes ddramatig o glogwyni a chymoedd rhychog, gyda llwybr yr arfordir yn ymestyn ar hyd eu pennau ar lain gul o dir pori neu rostir arfordirol. Mae'r clogwyni'n onglog ac yn haenog, gyda chymoedd cul, byr a serth rhyngddynt yn arwain at yr arfordir. Ceir cildraethau creigiog bychain ac ogofâu, a llwyfannau creigiog, garw y gellir ond eu gweld pan fo'r llanw'n isel. Mae'r clogwyni oddeutu 60-70m o uchder a bron â bod yn fertigol mewn rhai mannau, gan greu profiad cyffrous ac agored wrth gerdded ar hyd llwybr yr arfordir ac wrth edrych ar y glannau creigiog islaw. Ar ben gorllewinol y darn hwn, yn agos at Rosili, mae traeth tywodlyd anghysbell yn ymddangos ym Mae Mewslade a Bae Fall pan fo'r llanw isel.

Ceir ymdeimlad cryf o hanes yn yr ardal, gydag ogofâu fel Ogof Pen-y-fai yn agos at lefel y môr, ac olion bryngeyrydd ar bennau'r clogwyni. Mae Twll Culver, gyda'i waliau a'i agoriadau adeiledig, yn arbennig o amlwg o'r môr.

Gan fod yr arfordir hwn yn gymharol syth, ni cheir lleoliad lle gellir gweld yr holl ardal yn glir, a dim ond o bryd i'w gilydd y gellir gweld y cildraethau a ffurfiannau'r clogwyni wrth gerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, neu o'r môr. Wrth edrych allan dros y môr, gellir gweld amlinell bell massiff Exmoor neu Ynys wair ar ddiwrnodau clir iawn.

Mae'r môr yn taro yn erbyn y draethlin greigiog hyd yn oed ar ddiwrnodau cymharol dawel, ac mae cychod hamdden yn hwylio ger y lan o bryd i'w gilydd, gan amharu ar yr ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch.

Nid oes unrhyw ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd ar hyd yr arfordir digyffwrdd hwn sydd ag ychydig iawn o ddatblygiad ar ei gefnwlad. Gan ei bod yn gymharol anhygyrch, a chan ei bod ond yn agored i gerddwyr ar hyd Llwybr Arfordir Cymru a mordeithiau achlysurol, mae'r ardal yn teimlo'n dawel ac yn gymharol anghysbell. Mae ganddi ymdeimlad cryf o wylltineb hefyd.



*Y llyfndir tonnau ger Rhosili sy'n cysylltu Pen Pyrod â'r penrhyn.*



*Yr arfordir i'r dwyrain o Tears Point.*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden ac yn gwella iechyd a lles drwy'r gwahanol weithgareddau ar y traethau ac ar hyd yr arfordir, gan gynnwys nofio, cerdded, hwylio a theithiau bywyd gwyllt mewn cychod, ac at dreftadaeth naturiol yn yr ACM a'r SODdGAau amrywiol sy'n cynnwys clogwyni, rhostir arfordirol a blaendraethau, ac ar ffurf golygfeydd ar hyd yr arfordir ac allan dros y môr tuag at Ynys Wair.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiadau rheolaeth tir | Defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |


| | | |
|---|---|---|
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig |

**Crynodeb**

- Mae'r grymoedd naturiol dros newid yn cynnwys patrymau newidiol o gludiant gwaddod ar hyd Cefnen Helwick ac erydiad araf y llwyfannau a'r clogwyni creigiog. Bydd cynnydd yn lefel y môr a difrifoldeb cynyddol y tywydd yn effeithio ar hyn, ac yn newid ac yn effeithio ar y cymunedau rhynglanw. Bu angen symud rhannau o Lwybr yr Arfordir o ganlyniad i erydiad.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw galluogi'r arfordir i esblygu ac encilio'n naturiol drwy beidio ag ymyrryd. Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw adeileddau a grëwyd gan bobl.
- Pwysau'r nifer cynyddol o ymwelwyr ar yr arfordir/môr mewn perthynas â chwaraeon e.e. mwy o ddefnydd o'r arfordir a thraethau bychain ar gyfer syrffio, padlfyrddio a cheufadu.
- Pwysau'r nifer cynyddol o ymwelwyr ar hyd yr arfordir o'r gyrchfan boblogaidd yn Rhosili o ran cerddwyr a beicwyr oddi ar y ffordd ar hyd Llwybr yr Arfordir. Mae'r defnydd cynyddol o'r traethau hefyd wedi arwain at bwysau ar y ffyrdd o ran parcio.
- Mae hofrenyddion isel ar deithiau hamdden yn tarfu ar dawelwch yr arfordir.
- Mae grymoedd eraill dros newid yn cynnwys treillio tywod posibl yn y dyfodol yn Swas Helwick, er y gallai hyn fod yn annhebygol yn y tymor byr/canolig.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Gwerth yr ACA a'r SoDdGAau ar hyd yr arfordir o ran cadwraeth natur.<br><br>Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal ar y môr gydag ymdeimlad o wylltineb a golygfeydd tuag at Ynys Wair.<br><br>Cymeriad agored, digyffwrdd, gwyllt a heddychlon yr arfordir a'r pentiroedd creigiog, sy'n cynnwys ogofâu a ffurfiannau craig unigryw gyda glaswelltir a rhostir arfordirol.<br><br>Cymeriad cynhenid y cildraethau tywodlyd bychain a fframiwyd gan bentiroedd.<br><br>Y nifer cyfyngedig iawn o aneddiadau.<br><br>Lleoliad yr amrywiaeth o ogofâu ac arweddau hanesyddol e.e. ym Mhen-y-fai a Thwll Culver.<br><br>Presenoldeb coedwigoedd tanddwr y gellir eu gweld.<br><br>Golygfeydd ar hyd yr arfordir, tuag at Ben Pyrod ac Ynys Wair oddi ar y llwybrau ar bennau'r clogwyni a rhai traethau.<br><br>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru a'r teithiau bywyd gwyllt a defnyddwyr cychod hamdden o Abertawe yn dderbynyddion sensitif. | Y mân aneddiadau anghysbell i'r de o Fferm Great Pitton, sy'n annodweddiadol. |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017.
Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 5: Pen Pyrod hyd at Drwyn Porth Einon**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **6** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Baeau Oxwich a Phorth Einon** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441 Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe. Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 6: Baeau Oxwich a Phorth Einon**



*Bae'r Tri Chlogwyn - y clogwyni eiconig yn y bae tywodlyd*



Bae Oxwich – yn yr haf



Bae Porth Einon o'r môr

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM yn rhan o graidd canolog arfordir penrhyn Gŵyr gyda dau fae sy'n wynebu'r de-ddwyrain sydd wedi'u ffinio a'u cysgodi gan benrhynion a chlogwyni calchfaen mwy agored â blaendraethau creigiog. Mae gwely'r môr yn dywodlyd ac yn goleddfu'n raddol, a'r tu ôl i'r traethau, ceir twyni tywod, ac yn Oxwich, ceir corstir hefyd. Mae'r traethau'n gyrchfannau poblogaidd iawn i ymwelwyr, gydag amrywiaeth o weithgareddau traeth. Oxwich yw'r traeth mwyaf poblogaidd a'r mwyaf o ran maint, gyda Phorth Einon yn ail agos. Mae Bae'r Tri Chlogwyn yn llai hygyrch ond y wobr i'r ymwelydd yw un o olygfeydd eiconig penrhyn Gŵyr.

## Nodweddion allweddol

- Baeau sy'n wynebu'r de-ddwyrain sydd wedi'u ffinio, a'u gwahanu, gan benrhynion a chlogwyni o galchfaen Carbonifferaidd, a blaendraeth creigiog.
- Gwely môr tywodlyd bas iawn sy'n troi'n raean tywodlyd wrth fynd ymhellach i'r môr.
- Y tu ôl i'r traethau ceir twyni tywod, sy'n helaeth ac yn amrywiol iawn ym Mae'r Tri Chlogwyn, a cheir corstir y tu ôl i Fae Oxwich.
- Mae ynni'r tonnau'n isel ym Mae Oxwich ond yn uchel ar y glannau a'r penrhynion creigiog sy'n agored i'r gwynt, y tonnau a'r cerhyntau llanw.
- Ger Pen Pwll Du, mae llyfndiroedd tonnau rhynglanw yn cynnal riffiau llyngyr diliau.
- Mae Bae Porth Einon yn rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Mae'r penrhynion a'r arfordir cysylltiedig yn rhan o ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru. Mae Oxwich yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac mae'r rhan fwyaf o weddill yr ardal yn SoDdGA.
- Yn hanesyddol, roedd yr ardal yn cael ei defnyddio at ddiben masnach, yn enwedig o Borth Einon lle bu harbwr, chwareli a gwaith cynhyrchu halen ar un adeg.
- Mae gan yr arfordir nodweddion amddiffynnol hanesyddol megis ceyrydd pentir a Chastell Oxwich sy'n ychwanegu drama at y golygfeydd arfordirol.
- Ymysg y llongddrylliadau yn y bae ceir rhai o'r ddau Ryfel Byd.
- Mae cymeriad agored, lled-naturiol y gefnwlad yn ardal ddwyreiniol Cefn Bryn sydd heb ei datblygu yn amgáu rhan o'r arfordir, yn enwedig ger Oxwich, ac mae'n rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gŵyr.
- Mae cychod bach yn defnyddio'r ardal i bysgota ac i deithio o amgylch yr arfordir a chaiff Bae Oxwich ei ddefnyddio i lansio teithiau cychod bywyd gwyllt.
- Mae'r traethau'n boblogaidd iawn, yn enwedig yn Oxwich, ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau traeth yn ogystal â bordhwylio a barcudfyrddio.
- Mae'r datblygiadau'n gyfyngedig ac yn gynnil ger Bae'r Tri Chlogwyn, sy'n gymharol ddigyffwrdd ac yn cynnwys llystyfiant lled-naturiol. Mae'r aneddiadau cynnil yn Oxwich wedi eu hamgáu gan y tirffurf a'r coed i'r gorllewin gyda chefnwlad traeth syml digyffwrdd y tu ôl iddynt. Mae'r datblygiadau ym Mhorth Einon i'r gorllewin ac yn Southgate i'r dwyrain yn fwy amlwg yn y bae ac ar ben y clogwyni.
- Ceir golygfeydd gwych dros y baeau ac allan i'r môr, yn enwedig ym Mae'r Tri Chlogwyn, lle mae'r clogwyni anghysbell sydd wedi'u hamgáu gan y traeth a dyfrffos Cilfach Pennard yn ffurfio un o nodweddion eiconig penrhyn Gŵyr.
- Mae parciau carafannau, yn gyffredinol, a thai yn Southgate yn amharu ar gymeriad naturiol yr ardal.
- Mae'r ardal yn rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

## Dylanwadau naturiol

Mae Porth Einon a Bae Oxwich yn faeau sy'n wynebu'r de-ddwyrain ac sydd wedi'u ffinio gan benrhynion/trwynau o Galchfaen Carbonifferaidd. Mae daeareg gwely'r môr yn streicio, yn fras, o'r dwyrain i'r gorllewin, gyda Chalchfaen Carbonifferaidd wedi'i orchuddio i'r de gan gerrig llaid a thywodfeini o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr, ac yna cerrig llaid o'r cyfnod Triasig. Fe'u gorchuddir gan haen denau o greigiau Cwaternaidd. Tywod yw'r gwaddod ar wely'r môr, sy'n troi yn dywod tywodlyd mwy bras a graean tywodlyd wrth agosáu at ACM18 i'r de.

Mae Bae Porth Einon yn fas iawn, ac yn goleddfu'n raddol (<1º) i ddyfnder o <20m. Oddi ar y pentiroedd calchfaen megis Trwyn Oxwich a Phen Pwll Du mae'r llethr ychydig yn fwy serth (<2º). Ceir twyni'r tu ôl i'r traeth tywod mân. Mae Bae Oxwich yn goleddfu'n raddol (<1º) oni bai am ardal fas Cnwc Sant Cristoffer ym Mae'r Tri Chlogwyn. Mae ynni'r tonnau yn is ym Mae Oxwich, ond ceir ynni tonnau uwch ym Mae Porth Einon, Bae'r Tri Chlogwyn ac ar arfordir Pwll Du, ac maent yn agored i wynt, tonnau a cherhyntau llanw. Mae ynni'r tonnau yn lleihau tua'r de i mewn i Fôr Hafren.

Daw'r gwyntoedd a'r tonnau mynychaf o'r de-orllewin. Mae amrediad y llanw yn cyfateb i hyd at >8m, sy'n arwain at wahanu Bae Oxwich a Bae'r Tri Chlogwyn pan fo'r llanw'n uchel. Ceir llif ger Trwyn Oxwich, ac eithrio yn ystod y slac-lanw. Mae erydiad o ganlyniad i stormydd yn effeithio'n bennaf ar y traethau uchaf, ac maent i raddau helaeth yn atgyweirio'n naturiol. Ceir cludiant gwaddod yn gyffredinol tua'r dwyrain. Mae tywod chwyth ar y tir yn bwydo'r amrywiaeth o systemau twyni yn yr ardal (dringol, bae, tafod, ôl-draeth). Mae sianeli ffrydiau yn cludo gwaddod i'r môr. Caiff clogwyni calch eu heffeithio gan erydiad ac ysgrafelliad tonnau.

Ym Mae Oxwich, y tu ôl i'r traeth tywodlyd, ceir llu o gyn-feysydd twyni - Twyni Oxwich, Twyni Nicholaston, Twyni Penmaen a Thwyni Pennard. Y tu ôl i'r twyni, mae sianeli draenio yn croesi cors ddŵr croyw Cors Oxwich, ac mae nant dyffryn Pen-rhys yn llifo i mewn i Fae Oxwich. Mae Cilfach Pennard, a reolir gan ffawt, yn llifo i mewn i Fae'r Tri Chlogwyn. O Fae'r Tri Chlogwyn i Bwll Du, mae'r arfordir yn galchfaen creigiog agored gyda chlogwyni, blaendraethau creigiog ac amfaeau bychain a reolir gan ffawtiau. Mae'r rhain yn torri i mewn i Galchfaen Carbonifferaidd sy'n streicio'n fras o'r dwyrain i'r gorllewin, er bod anticlin arall yn datgelu rhywfaint o Hen Dywodfaen Coch islaw Penmaen.

Saif Cefn Bryn (<182m Uwch Datwm Ordnans) uwchlaw Bae Oxwich gan ddarparu cefndir uchel. Mae llwyfandir 70-90m Uwch Datwm Ordnans y Gŵyr wedi'i orchuddio i raddau helaeth gan glog-glai Cwaternaidd, ond mae clogwyni calchfaen a blaendraethau creigiog i'w gweld ar hyd yr arfordir.

Mae Bae Porth Einon yn rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd. Gellir gweld Llamhidyddion, y mamal morol lleiaf yn y DU, yn y ddau fae ac yn arbennig i'r gorllewin o'r Tri Chlogwyn tuag at Ben Pwll Du. Mae heidiau o ddolffiniaid i'w gweld yn yr ardal gan gynnwys ym Mae Porth Einon. Mae'r pentiroedd a'r arfordir cysylltiedig yn rhan o ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru. Mae Oxwich yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae Arfordir Gŵyr: Rhosili i Borth Einon, Horton, Dwyrain a Gorllewin Slade, Oxwich, Dyffryn Pennard a Phen Pwll Du a Dyffryn Llandeilo Ferwallt yn SoDdGAau.

Mae'r traeth rhynglanw ym Mhorth Einon yn dywod mân morlannol a thywod lleidiog gyda mwydod gwrychog. Mae prif graidd/rhan y llyfndir tonnau i'r gorllewin yn cynnwys crachod y gogledd, llygaid meheryn a malwod môr spp. ar graig rynglanwol agored i gymharol agored neu graig rynglanwol gysgodol fertigol. Mae'r llyfndir hefyd yn gartref i drwch o wymon coch deiliog ar rannau uchaf y graig isforlan fas a Fucus vesiculosus ar yr is-haenau cymysg rhynglanwol canol mewn darnau. Ar ymyl y llyfndir, ceir cennau melyn a llwyd ar gerrig uwchforlan a ffyngau cennaidd Verrucaria maura ar greigiau morlannol uwch agored iawn i gysgodol iawn. Ceir cregyn llong spp. gyda chregyn gleision ar greigiau rhynglanwol agored iawn i'r dwyrain o'r traeth a thuag at Oxwich.

Ym Mae Oxwich a Bae'r Tri Chlogwyn, mae'r tywod mân ychydig yn lleidiog ar y lan isaf yn cynnwys gwelchyn y dŵr, môr-ddraenog, ac Ensis spp. Ceir tywod mân y tu ôl i'r lan, gan gynnwys y lleuen fôr frith mewn tywod morlannol symudol a Talitridae ar y lan uchaf a'r draethell. Ceir graean morlannol diffrwyth y tu ôl i'r traethau mewn mannau.

Gorchuddir y cerrig ymylol morlannol uchaf agored iawn i gysgodol iawn y tu ôl ac i'r dwyrain a'r gorllewin o Fae'r Tri Chlogwyn gyda ffyngau cennaidd Verrucaria maura. I'r dwyrain, ceir Laminaria digitata ar greigwely ymylol isforlannol cymharol agored. Ceir gwymon danheddog a gwymon coch a

chregyn llong spp. ar greigiau rhynglanwol is cymharol agored.

Y tu ôl i'r traeth, mae Oxwich yn cynnwys twyni calchaidd, llaciau twyni, morfa heli, cors ddŵr croyw, dŵr agored, ffeniau, gyda llethrau calchfaen rhannol goediog. Ar bennau'r clogwyni a'r llethrau ceir mosäig cymhleth o laswelltir calchfaen gyda phrysgwydd o rostir eithinog a rhostir morol. Ger Pen Pwll Du ceir mosäig o rostir morol a glaswelltiroedd ar y clogwyni, a chrugyn o fryoffytau ar y Pen.


*Cychod cimychiaid ar y môr ger Trwyn Oxwich*


*Y sarnau ym Mae'r Tri Chlogwyn gyda Thrwyn Oxwich yn y pellter*

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r baeau hyn sy'n wynebu'r de-ddwyrain wedi eu defnyddio'n hanesyddol gan longau i fasnachau (yn enwedig Porth Einon) ac am gysgod mewn gwyntoedd gorllewinol/gogleddol ond gallant fod yn beryglus mewn rhai amodau gwynt a llanw. Ceir llongddrylliadau yn y ddau faes. Mae mynwent Porth Einon yn cynnwys cofeb i'r achubwyr bywyd lleol a fu farw ar 1 Ionawr 1916 wrth geisio achub yr *SS Dunvegan*, a suddodd yn y bae. Llongddrylliad arall oedd y *Solor*, tancer dur a adeiladwyd yn Gothenburg ym 1938, a suddodd ar ei thaith o Efrog Newydd ar 27 Ionawr 1945. Bu farw pedwar aelod o'r criw o 44. Mae ei starn i'w gweld o bryd i'r gilydd pan fo'r llanw'n isel ar ochr orllewinol y bae.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir uchel ar un adeg, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw'r dyddodion yn eu lle.

Lleolir coedwig danddwr mewn gwelyau mawn ym Mae Porth Einon sy'n dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd pan fo'r tywod yn symud. Ceir olion traed dynol prin yma, yn ogystal â stympiau coed cynhanesyddol a darganfyddiadau eraill sy'n nodi lefelau is y môr yn y cyfnod Mesolithig.

Dau safle naturiol sy'n cynnwys tystiolaeth bwysig o wladychiad dynol yn y cyfnod rhewlifol hwyr yw ogofâu Minchin Hole a Bacon Hole, a leolir mewn man ysblennydd ymhlith y clogwyni uwchben y môr. Cafwyd tystiolaeth yn Bacon Hole hefyd o anheddiad o'r Oes Haearn. Mae siambr gladdu Twyni Penmaen yn dyddio o'r cyfnod Neolithig.

Mae nodweddion amddiffynnol yn amlwg ar yr arfordir ac yn y gefnwlad - ceyrydd pentir megis caer High Pennard, cestyll ym Mhenmaen a Chastell Oxwich, maenordy caerog o'r 16eg ganrif, sydd bellach yn adfeiliedig, ar y pentir rhwng y ddau fae. Fe'i hadeiladwyd gan Syr Rice Mansel ym 1541 ond mae'n cynnwys peth o adeiladwaith Castell Oxwich a godwyd yn yr Oesoedd Canol. Mae Castell Pen-rhys yn gaer ar benrhyn aflym ar ochr ogleddol Glyn Pen-rhys. Mae'r olion cynharaf sydd wedi goroesi yn dyddio o ganol y 13eg ganrif, a'r tirlunio sy'n gysylltiedig â'r tŷ o'r ddeunawfed ganrif i'r de. Mae'r orsaf radar ym Mae Oxwich yn safle amddiffynnol diweddarach.

Mae gweddillion cwt halen o'r 16eg ganrif i'w gweld hyd heddiw ym Mhorth Einon, lle ceir tystiolaeth hefyd o harbwr bychan. Mae pentrefi Porth Einon, Horton ac Oxwich yn agos at y lan. Bu rhywfaint o chwarelu ar y llethrau cyfagos ac ar lan y môr, yn ogystal â berwi halen.

Ar Drwyn Oxwich ceir olion gorsaf radar Amddiffyn Arfordirol/Chain Home Low o'r Ail Ryfel Byd, sy'n cynnwys tri adeilad concrit unllawr. Roedd yn fesur amddiffynnol gwrth-ymosodiad a gynlluniwyd i amddiffyn rhag awyrennau isel a llongau'r gelyn ar Fôr Hafren. Mae'r heneb gofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol gan ei bod yn dangos datblygiad a defnydd radar.

Mae rhan arfordirol yr ACM yn rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr, ac mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Gŵyr yn cynnwys Cefn Bryn yn y gefnwlad a rhan orllewinol yr arfordir.

Mae'r baeau wedi cael eu harlunio gan artistiaid. Mae Bae'r Tri Chlogwyn wedi bod yn destun nifer o ffotograffau ac mae'n un o ddelweddau eiconig y Gŵyr.



*Bae'r Tri Chlogwyn, Haul yr Hydref, Rowan Huntley.*



*Arfordir Gŵyr, Adrian Homersham*

O ran mordwyo, ceir angorfeydd dydd ym mae Porth Einon a Bae Oxwich sy'n cynnig cysgod mewn gwyntoedd ysgafn o'r gorllewin a'r gogledd. Ceir geirwyau môr helaeth oddi ar Oxwich Point sydd ond yn dawel yn y distyll. Mae Cnwc Sant Cristoffer yn fasle ond nid yw'n torri'r wyneb. Ni cheir unrhyw farcwyr mordwyo yn yr ardal. Fel gweddill y dyfroedd wrth y lan ar hyd Arfordir Penrhyn Gŵyr, ni ddylai cychod hamdden fentro i'r ardal hon gyda'r nos. Ceir gorsaf bad achub ger y lan yn Horton (Porth Einon).

Defnyddir rhannau creigiog yr arfordir hwn yn bennaf ar gyfer dal cimychiaid a chrancod mewn cewyll, a chregyn moch ymhellach allan ar y môr. Ar y tir, caiff cyllyll môr a gwichiaid eu casglu â llaw ger Pen Porth Einon. Defnyddir rhwydi gosod ar draethau, er mwyn dal draenogiaid môr, er enghraifft, yn yr ardal hefyd, fwy na thebyg yn Oxwich. Ceir pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol yma, i'r de yn bennaf. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod ar y môr. Mae pysgota gwialen a llinell ar sail hamdden yn gyffredin ym mhob rhan o'r ardal. Mae'r rhywogaethau yn cynnwys draenogiaid môr a chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf.

Mae mordeithiau'n hwylio ar hyd yr arfordir rhwng Dinbych-y-pysgod, Porth Tywyn ac Abertawe. Mae teithiau bywyd gwyllt yn teithio ar hyd yr arfordir yn ystod yr haf, gan ddechrau fel arfer o Fae Oxwich a theithio i Ben Pyrod. Mae cornel orllewinol y bae yn angorfa gysgodol boblogaidd ar gyfer cychod hwylio a chychod modur o'r marinas a'r clybiau yn Abertawe sy'n ymweld â'r ardal, a cheir llithrfa ar y traeth fel y gellir lansio cychod undydd. Mae llithrfa ym Mae Porth Einon hefyd er mwyn lansio cychod undydd ac fe'i defnyddir i fordhwylio a barcudfyrddio, gydag ychydig yn llai o ddefnydd ger Bae Oxwich. Ceir ceufadu môr a thonfyrddio ym Mae Oxwich.

Mae ansawdd y dŵr ymdrochi yn ardderchog ym mhob un o'r traethau. Mae traeth Oxwich yn cael llawer iawn o ddefnydd, yn enwedig gan ymwelwyr undydd, yn bennaf ar gyfer torheulo a nofio ond hefyd ar gyfer peth syrffio, a gefnogir gan ysgol syrffio dymhorol sy'n gweithredu o gyfleuster symudol preifat. Mae traeth Porth Einon yn cael llawer o ddefnydd, yn enwedig gan bobl leol, yn bennaf ar gyfer torheulo, nofio, rhywfaint o syrffio a chorff-fyrddio. Ni chaniateir jet-sgis ar y traeth mwyach. Ychydig iawn o ddefnydd a gaiff y traeth ym Mae Slade. Mae Bae'r Tri Chlogwyn, sy'n llai hygyrch, yn gymharol boblogaidd ar gyfer torheulo, nofio a dringo. Ceir pysgota môr oddi ar yr holl draethau.

Ceir deifio o bryd i'w gilydd ar ochr orllewinol Bae Oxwich i archwilio'r arfordir creigiog a'r llongddrylliadau. Ceir ogofa ar hyd yr arfordir i'r dwyrain megis ger Ogof Minchin Hole. Mae dringo'n gymharol boblogaidd ar y clogwyni a'r pentiroedd. Ceir arforgampau ar lefelau cymharol isel ger Bae'r Tri Chlogwyn ac i'r dwyrain tuag at Bwll Du.

Mae ceblau tanfor yn gadael Prydain i groesi Môr Iwerddon yn yr ardal hon.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn arwain y tu ôl i'r twyni yn y baeau, gan godi i bennau'r clogwyni sydd rhyngddynt. Mae'r golygfeydd yn ysbeidiol ar hyd y llwybr oherwydd y twyni a choetir, megis y

coetir cysgodol ym Mae Oxwich. Fodd bynnag, ceir rhai golygfeydd gwych dros y baeau, megis tuag at y tirffurf unigryw ym Mae'r Tri Chlogwyn. Yma, mae'r llwybr yn croesi Cilfach Pennard ar gerrig sarn.

Mae'r aneddiadau yn yr ACM yn cynnwys pentrefi hanesyddol Porth Einon a rhan o Horton, sydd bellach yn cynnwys meysydd carafannau mawr. I'r dwyrain o Dwyni Pennard, mae'r ardal yn ymylu ar blotiau a datblygiadau preswyl, ac mae'r tai sydd wedi'u rendro'n wyn ar y tir uchel yn ne Southgate i'w gweld o fannau uchel ar lwybr yr arfordir, megis Pwll Du.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ardal hon yn darparu ystod o brofiadau canfyddiadol. Caiff y ddau fae sy'n wynebu'r de-ddwyrain eu gwahanu gan Drwyn Oxwich, sef y tirffurf mwyaf amlwg sy'n amgáu'r baeau, ynghyd â chefndir cryf Cefn Bryn y tu ôl i Fae Oxwich. Mae Bae Oxwich yn cynnwys traeth tywodlyd bas, helaeth a syml, gyda thwyni tywod a chors helaeth y tu ôl iddo, sy'n troelli rhwng y clogwyni i'r gorllewin o Drwyn Pwll Du a'r llethrau coediog ar ochr gysgodol Trwyn Oxwich. Mae Bae Porth Einon i'r gorllewin, gyda'i draeth a'i lwyfannau creigiog a'r twyni'r tu ôl iddynt, ychydig yn llai ac yn llai amgaeëdig.

Mae gan Fae'r Tri Chlogwyn ymdeimlad cymharol anghysbell, wedi'i amgáu gan lethrau tywodlyd, ac mae angen cerdded cryn dipyn o bellter o safleoedd uchel er mwyn ei gyrraedd, gan gynnwys dros y twyni a'r afon. Mae gweld y golygfeydd o'r bae ar ôl cerdded yn brofiad ysgytwol, gyda cherrig brig y Tri Chlogwyn yn ffurfio ffocws gweledol eiconig, sy'n aml mewn cysgod ac wedi'i amgylchynu gan ddolennau cain yr afon fechan a'r traeth. Mae'r traeth yn boblogaidd gydag ymwelwyr mwy ystwyth oherwydd ei harddwch, y traeth mawr a'r potensial ar gyfer dringo.

Mae Bae Oxwich yn hygyrch, gyda maes parcio mawr ger y traeth, ac felly mae'n brysur, yn enwedig yn yr haf. Fodd bynnag, mae'r twyni yn y Warchodfa Natur Genedlaethol sy'n cefnu ar y rhan fwyaf o'r traeth yn amsugno pobl ac mae'r anheddiad ei hun mewn lleoliad cynnil ar y cyfan ymhlith y coed, wedi'i guddio gan ochr gysgodol y pentir.

Mae Bae Porth Einon hefyd yn brysur ond mae'r anheddiad yn fwy agored a helaeth, gyda llai o goed. Felly, mae'r symudiad a'r meysydd parcio, gyda'r nifer o dai a meysydd carafannau y tu ôl iddynt, yn fwy amlwg, yn enwedig o lefelau uwch. Mae'r llethrau arfordirol gwledig a lled-naturiol i'r dwyrain a'r gorllewin yn bwysig o ran amgáu'r bae a'r datblygiadau.

Mae'r twyni yn arwedd nodedig sy'n amgáu'r holl draethau hyn, ac maent yn amrywio o ran cymeriad o'r ardal fryniog helaeth o dwyni sy'n ymestyn i fyny'r llethrau ym Mae'r Tri Chlogwyn, llain gul o dwyni ym Mhorth Einon, a thwyni gydag ardal gorsiog dawel ac isel yn Oxwich. Mae'r rhain yn darparu encilfeydd a llochesi rhag rhannau prysurach y traethau.

Caiff y golygfeydd o'r traethau eu fframio gan y ddau bentir, ond mae gan Fae Oxwich ymdeimlad agored ac eang. Mae'r llethrau coediog yn amgáu'r traethau ar ochrau mwy cysgodol gorllewin a gogledd Bae Oxwich, ac ym Mhorth Einon, mae'r tai sydd wedi'u rendro'n wyn ac sy'n edrych dros y bae yn rhoi cyd-destun ychydig yn fwy maestrefol iddo.

Ym mhob ardal, mae'r traethau tywodlyd bas yn teimlo'n eithaf helaeth pan fo'r llanw'n isel. Yn gyffredinol, mae'r traethau'n teimlo'n eithaf cysgodol, yn enwedig ger y pentiroedd cyfagos.

Y pentiroedd a'r clogwyni ar bob ochr i'r bae a thirffurf mawr Cefn Bryn yw nodweddion pennaf yr olygfa o'r bae oddi ar y môr. Mae'r traethau tywodlyd euraidd eang yn cryfhau'r ymdeimlad o undod. Mae'r Tri Chlogwyn yn edrych yn gymharol fach ond mae eu siapiau nodedig yn drawiadol o flaen y clogwyni eraill a'r cefndir syml, lled-naturiol. Ceir gwrthgyferbyniad o ran gwyntoedd de-orllewinol/gorllewinol rhwng dŵr cysgodol y bae a thu hwnt i'r pentiroedd yn y dŵr agored.

Y prif ffactorau sy'n amharu ar yr ardal yw'r meysydd carafannau ym Mhorth Einon a Horton, a'r llinell amlwg o dai yn Southgate - Clogwyn y Dwyrain a Chlogwyn y Gorllewin, sy'n amharu ar gymeriad naturiol yr arfordir. Mae'r rhain yn amlwg o'r traethau ac o'r môr.



*Porth Einon - panorama o'r traeth*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden ac yn gwella iechyd a lles drwy'r gwahanol weithgareddau ar y traethau ac ar hyd yr arfordir gan gynnwys nofio, cerdded, hwylio a theithiau cychod bywyd gwyllt, ac at dreftadaeth naturiol mewn gwahanol SoDdGAau a'r Warchodfa Natur Genedlaethol sy'n cynnwys clogwyni, blaendraethau, twyni, a rhostir arfordirol, ac ar ffurf golygfeydd allan dros y môr a thuag at Exmoor.

## Grymoedd dros newid


| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiadau rheolaeth tir | Defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Ymdeimlad o le | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | ■ | | | ■ | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | ■ | ■ | ■ | ■ | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | ■ | ■ | | ■ | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | ■ | | | ■ | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | ■ | | | ■ | | | |
| Traethau gwerthfawr | ■ | ■ | | ■ | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

- Mae'r ardal yn agored i ddifrod gan gynnydd yn lefel y môr a difrifoldeb cynyddol y tywydd, sydd eisoes wedi peri i dywod gael ei gludo o Fae Porth Einon, gyda'r twyni yn ymbellhau 6-8m, gan amlygu'r ollyngfa ddŵr storm, amlygu sylfeini'r llithrfa ym Mhorth Einon, sy'n gwneud y strwythur yn llai defnyddiol, ac amlygu'r goedwig danddwr i niwed ac erydiad. Efallai y daw strwythurau ac adeiladau eraill yn y ddau fae o dan fygythiad dros amser. Mae erydiad wedi golygu y bu'n rhaid adleoli Llwybr yr Arfordir mewn mannau.
- Amcan tymor hir y CRhT ar gyfer y prif draethau a'r twyni tywod yw rheoli'r broses o adlinio'r arfordir er mwyn galluogi systemau'r twyni tywod i ymateb ac esblygu'n naturiol drwy weithgareddau rheoli cynefinoedd tymor hir. Ym Mhorth Einon, efallai y bydd angen ystyried adlinio'r maes parcio presennol. Gallai fod angen gwarchod nifer cyfyngedig o adeiladau preswyl ac amhreswyl. Yr amcan ar gyfer arfordiroedd creigiog yw peidio ag ymyrryd er mwyn galluogi'r arfordir i esblygu ac encilio'n naturiol. Ar hyn o bryd mae gan Borth Einon a Bae Oxwich amddiffynfeydd arfordirol a ariennir yn breifat.
- Pwysau ymwelwyr ar draethau a chefnwlad Oxwich a Phorth Einon, gan gynnwys defnydd anawdurdodedig o jet-sgis sy'n effeithio'n andwyol ar lonyddwch.
- Erydiad Llwybr Arfordir Cymru ac arweddau archaeolegol ger yr atyniadau poblogaidd hyn.
- Ehangu posibl o ran cyfleusterau hamdden megis parciau carafannau yn y baeau a thai (e.e. unedau mwy ag wynebau gwydr) ar hyd pennau'r clogwyni sy'n gallu tarfu'n weledol ar yr ardal a lleihau'r naws heddychlon.
- Gall diwylliant dŵr posibl gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar fioamrywiaeth yn dibynnu ar reolaeth a gall effeithio ar gymeriad y forwedd pe ceir strwythurau parhaol ar wyneb y dŵr.
- Byddai defnyddio'r ardal ar gyfer morlynnoedd llanw yn debygol o gael effeithiau andwyol ar gymeriad y forwedd.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Gwerth y gwarchodfeydd natur a'r SoDdGA ar hyd yr arfordir o ran cadwraeth natur.<br><br>Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal ar y môr gydag ymdeimlad o wylltineb a golygfeydd tuag at Ynys Wair ac Exmoor.<br><br>Cymeriad cynhenid y traethau tywodlyd mawr a fframir gan bentiroedd digyffwrdd.<br><br>Cymeriad cynhenid agored a digyffwrdd yr arfordir cilfachog a'r pentiroedd creigiog rhwng y traethau sy'n cynnwys rhostir arfordirol, glaswelltir a choetir.<br><br>Natur ddigyffwrdd Bae Oxwich a Bae'r Tri Chlogwyn gyda phatrwm cyfyngedig a chynnil iawn o ran datblygiadau.<br><br>Lleoliad Castell Oxwich.<br><br>Presenoldeb coedwigoedd tanddwr sy'n cael eu hamlygu.<br><br>Golygfeydd tuag at Ynys Wair ac Exmoor o'r traethau a theithiau cerdded ar bennau'r clogwyni.<br><br>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru a'r teithiau bywyd gwyllt, a defnyddwyr cychod hamdden o Abertawe yn dderbynyddion sensitif. | Ffurf adeiledig fodern Porth Einon a Southgate.<br><br>Presenoldeb meysydd carafannau. |





*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017.*
*Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 6: Baeau Oxwich a Phorth Einon**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | 7 |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Pen Pwll Du i Ben y Mwmbwls** |




Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

## ACM 7: Pen Pwll Du i Ben y Mwmbwls



*Traeth Bae Langland yn yr haf.*


*Pen y Mwmbwls a'r goleudy eiconig*


*Bae Caswell o'r môr gyda'r datblygiadau cysylltiedig*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM hon yn ffurfio pen dwyreiniol arfordir de Gŵyr sy'n ymestyn hyd at Ben y Mwmbwls, gyda'i broffil unigryw a'i oleudy. Mae'r arfordir cilfachog o glogwyni calchfaen llethrog yn cynnwys tri thraeth tywodlyd ac ambell gildraeth llai. Mae gwely'r môr yn goleddfu'n raddol ac yn dywodlyd, ac yn cynyddu o ran dyfnder wrth fynd ymhellach i'r môr ac eithrio ger Basle Mixon sy'n sychu pan fo'r llanw'n isel ac yn fan peryglus. Mae'r ardal yn boblogaidd ar gyfer cychod hamdden a chychod pysgota o gyfeiriad Abertawe. Mae'r traethau ym Mae Langland a Bae Caswell yn hygyrch ac yn gyrchfannau poblogaidd iawn ar gyfer gweithgareddau traeth. Mae cymeriad naturiol deniadol yr arfordir yn gefndir cadarnhaol i ddatblygiadau maestrefol, yn enwedig ger Bae Langland a Bae Bracelet.

## Nodweddion allweddol

- Mae'r clogwyni cilfachog llethrog a'r arfordir creigiog calchfaen rhwng Pwll Du a Phen y Mwmbwls yn cynnwys tri bae tywodlyd ym Mhwll Du, Caswell a Langland, a sawl cildraeth llai o faint.
- Mae gwely'r môr yn goleddfu'n raddol wrth fynd ymhellach i'r môr, gan droi o dywod i raean tywodlyd. Mae Basle Mixon, sy'n dod i'r golwg pan fo'r llanw'n isel, yn fan peryglus i'r de o'r Mwmbwls.
- Mae'r arfordir yn agored i'r prifwyntoedd ac mae ynni'r tonnau'n uchel yn y mannau sy'n wynebu'r de-orllewin, a gall ymchwydd y tonnau fod yn uchel.
- I'r gorllewin, mae llyfndiroedd tonnau rhynglanw yn cynnal riffiau llyngyr diliau.
- Ceir glaswelltir a rhostir morol mosäig ar y clogwyni ond nid yw'r llecynnau hyn yn helaeth o ran maint.
- Mae'r ardaloedd arfordirol ym Mhen Pwll Du, Dyffryn Llandeilo Ferwallt, Bae Caswell, Bae Langland a Bae Bracelet yn SoDdGAau.
- Mae Basle Mixon wedi achosi sawl llongddrylliad yn ogystal â pheri problemau i'r fflyd wystrys a fu'n gweithio yn y Mwmbwls yn y gorffennol.
- Ceir caer bentir ar Glogwyn Caswell.
- Mae'r ardal wedi'i hen sefydlu'n gyrchfan hamdden gyda'r pwyslais ar Fae Langland a Bae Caswell.
- Mae traethau Bae Langland a Bae Caswell yn boblogaidd iawn ar gyfer gweithgareddau traeth cyffredinol a syrffio.
- Mae Bae Pwll Du i'r gorllewin yn gymharol dawel ac felly'n eithriad.
- Mae'r ardal yn boblogaidd ar gyfer cychod pysgota undydd a masnachol sy'n hwylio o gyfeiriad Abertawe.
- Mae'r arfordir yn gilfachog ac yn ganolig ei faint gyda baeau bach amgaeëdig ymysg clogwyni a choed a llystyfiant lled-naturiol mewn mannau cysgodol, sy'n creu parhad ac ymdeimlad gwledig pwysig.
- Golyga poblogrwydd yr ardal ei bod yn brysur yn ystod yr haf ac mae datblygiadau'n cyrraedd y baeau hygyrch a phennau rhai o'r clogwyni, gan roi cymeriad maestrefol iddi mewn mannau, yn enwedig tua'r dwyrain.
- Ceir peth llonyddwch rhwng y prif faeau ond nid yw'r unman yn teimlo'n anghysbell.
- Mae Pen y Mwmbwls hyd at orllewin ACM7 yn arwedd eiconig ger genau Bae Abertawe gyda'r goleudy ar yr ynysig fwyaf allanol o ddwy ynysig lanw fach â'u hamlinellau nodweddiadol.

- Mae'r ardal yn rhan o AHNE Gŵyr ac Arfordir Treftadaeth Gŵyr.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r clogwyni llethrog a'r arfordir creigiog calchfaen rhwng Pwll Du a Phen y Mwmbwls yn cynnwys tri bae tywodlyd ym Mhwll Du, Caswell a Langland, a sawl cildraeth llai o faint. Ceir Calchfaen Carbonifferaidd ag iddo streic o'r dwyrain i'r gorllewin ar yr arfordir, a cherrig llaid a thywodfeini o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr uwch ei ben yn y môr tua'r de, a cherrig llaid Triasig ar eu pennau hwy. Fe'i gorchuddir â haen denau o greigiau Cwaternaidd. Mae'r gwaddod tywod ar lawr y môr yn troi'n fwy bras tua'r de yn dywod ychydig yn raenog, ac yna'n raean tywodlyd yn ACM18.

Mae'r ysgafell forol yn goleddfu'n raddol (<1º) rhwng y de-ddwyrain a'r de hyd at ddyfnder o <20m, ond ceir basloedd sy'n ymestyn yn fras o'r dwyrain i'r gorllewin (Basle Mixon) gydag ardaloedd o fflatiau llaid agored oddi ar arfordir y Mwmbwls. Mae'r arfordir agored wedi'i ysgrafellu gan donnau a cherhyntau llanw, gyda'r gwyntoedd a'r cerhyntau mynychaf yn dod o'r de-orllewin. Mae ynni'r tonnau'n uchel. Mae amrediad y llanw yn cyfateb i hyd at <8m, a gall ymchwydd y tonnau fod yn uchel. Mae'r cerrynt yn 2.5 not yn y gorllanw filltir o Ben y Mwmbwls a cheir llif y Cherrystones ger y Mwmbwls.

Mae gan y baeau draethau tywodlyd gyda chlogwyni neu flaendraethau creigiog ar y cyrion. Cludir gwaddod i mewn i'r baeau gan nentydd fel yng nghwm Bishopston a Chaswell, tra bo cludiant gwaddod ar y môr yn cael ei reoli gan gerhyntau llanw Môr Hafren. Yn gyffredinol, ceir cludiant i'r dwyrain.

Mae'r arfordir calchfaen o Bwll Du i Ben y Mwmbwls wedi'i endorri i mewn i Galchfaen Carbonifferaidd ag iddo streic o'r dwyrain i'r gorllewin, ac mae'r amfaeau a'r dyffrynnoedd afon wedi'u rheoli gan ffawtiau. Gorchuddir y calchfaen i raddau helaeth gan rewglai ar lwyfandir penrhyn Gŵyr (70-90m Uwch Datwm Ordnans).

Mae'r ardaloedd arfordirol ym Mhen Pwll Du a Dyffryn Llandeilo Ferwallt, Bae Caswell, Bae Langland a Bae Bracelet yn SoDdGAau. Mae'r rhai olaf ar gyfer daeareg. Ceir brain coesgoch ger Pen Pwll Du. Mae Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yng Nghlogwyn Redley a gwarchodfa natur leol ym Mryn y Mwmbwls. Gellir gweld llamhidyddion, y mamal morol lleiaf yn y DU, yn yr ardal hon, yn enwedig i'r de o Fae Limeslade a Phen y Mwmbwls, lle mae'n ffynnu yn y cerrynt cryf. Gellir gweld dolffiniaid yn yr ardal a gellir gweld morloi ar y tir ym Mae Limeslade a Childraeth Brandy.

Mae'r traethau'n tueddu i fod yn dywod mân morlannol a thywod lleidiog gyda graean diffrwyth ymhellach yn ôl. Ar bob ochr i Fae Pwll Du ac o gwmpas y Pen, ceir riffiau llyngyr diliau ar lyfndiroedd tonnau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod a chregyn llong spp. ar greigiau rhynglanwol agored. Ceir cregyn gleision a gwymon danheddog a gwymon coch ar greigiau rhynglanwol is cymharol agored.

I'r dwyrain o Fae Caswell, ceir cregyn gleision a chregyn llong ar greigiau rhynglanwol agored iawn ac agored, gwymonydd codog a lludwymon mewn pyllau trai rhynglanwol dwfn a Laminaria digitata ar greigwely ymylol isforlannol cymharol agored. Ym Mae Langland, ceir crachod y gogledd, llygaid meheryn a malwod môr spp. ar greigiau rhynglanwol cysgodol fertigol agored i gymharol agored. Tuag at y Mwmbwls, mae'r arfordir creigiog sy'n wynebu'r de yn cynnwys cregyn llong spp. ar greigiau rhynglanwol agored a gwymon danheddog a gwymon coch ar greigiau rhynglanwol is cymharol agored. Ceir riffiau llyngyr diliau ar greigiau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod ger Pen y Mwmbwls.

Ym mhob rhan o'r ardal, ceir ffyngau cennaidd Verrucaria maura ar y creigiau ymylol morlannol uwch agored iawn i gysgodol iawn.

Ceir glaswelltiroedd a rhostir mosäig morol ar y clogwyni. Ger Bae Caswell, ceir clogwyni calch a chyfordraeth gyda dyddodion rhewlifol. Ceir meryw, cor-rosod lledlwyd a Sorbus prin (cerddin gwynion) mewn glaswelltir yng Nghlogwyni Newton.



*Bae Langland o'r môr gan ddangos patrwm y datblygiadau*



*Llwybr yr arfordir rhwng yr aneddiadau arfordirol gyda'r ffensys yn weladwy.*

## Dylanwadau diwylliannol

Yn hanesyddol, bu treillio wystrys rhwng basle Mixon a'r Mwmbwls yn gyffredin. Yn anffodus, mae'r basle wedi bod yn gyfrifol am ddryllio llawer o longau pysgota wystrys o fflyd y Mwmbwls. Mae llongddrylliadau eraill ger basle Mixon yn cynnwys yr *HLC*, brigantîn bren, ar 1 Mawrth 1891, a'r *Fort Medine* yn rhan ddwyreiniol yr ardal. Roedd hon yn un o longau'r 'Safon' a adeiladwyd o dan bolisi argyfwng yn ystod y rhyfel, a oedd yn cludo 7,000 o dunelli o haearn o Wabana i Bort Talbot pan darodd ffrwydryn a suddo ar 20 Chwefror 1941. Mae'r llongddrylliad mewn dau ddarn, ond mae'n parhau i fod yn nodwedd amlwg ar wely gwastad tywodlyd y môr. Mae'r llongddrylliadau eraill yn cynnwys llongau o fasnach dyfroedd y famwlad, er bod y *Triton* wedi dod o bell, llong a adeiladwyd ym 1871 gan Cattarinch ar ynys a elwir bellach yn Lošinj yng Nghroatia, ond fe'i gelwid yn swyddogol ar y pryd yn Lussino. Ar ôl gadael Abertawe am Eckeneforde gyda llwyth o halen, fe diriodd ar Fasle Mixon a dechrau chwalu. Yn ddiweddarach, rhoddodd y Kaiser ysbienddrych deulygad i lywiwr y bad achub a swm o arian i bob aelod o'r criw. Cafodd llongfeistr y tynfad olwyn o Abertawe, y *Digby Grand*, a fu'n helpu'r bad achub, delesgop ganddo.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir uchel ar un adeg, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw'r dyddodion yn eu lle.

Gellir gweld olion caer bentir ger Clogwyn Caswell. Mae glanfeydd i'w gweld yn yr ardal hon hefyd.

Cafwyd rhywfaint o echdynnu mwynau yn y gefnwlad gyfagos, yn ogystal â llosgi calch, ac adeiladwyd gwestai yma cyn diwedd y 19eg ganrif. Bellach, mae llawer o gefnwlad ddwyreiniol yr ardal hon yn rhan o'r Mwmbwls. Mae cyfoeth cymharol yr ardal yn amlwg yn y tai modern mwy o faint a'u gerddi, yn ogystal â'r gwestai. Mae'r arfordir hwn wedi bod yn gyrchfan ar gyfer gweithgarwch hamdden ac ymlacio ers tro. Er enghraifft, mae Bae Caswell yn boblogaidd oherwydd ei hygyrchedd, maes parcio, gwasanaeth bws tymhorol, siopau a chaffis, toiledau cyhoeddus, cawodydd awyr agored, a'r gweithwyr achub bywyd tymhorol. Dim ond ar droed y gellir cyrraedd Pwll Du a Childraeth Brandy, ac mae llai o bobl yn ymweld â hwy.

Paentiodd Alfred Sisley un ar ddeg o luniau yn y 1890au ger Bae Langland a Bae Rotherslade ac fe'u hystyrir yn rhai o'i baentiadau gorau, ac maent yn cynnwys 'Storr Rock, Lady's Cove, le soir' sy'n eiddo i Amgueddfa Cymru. Ynghyd â phaentiadau o Benarth i'r dwyrain, dyma'i unig ddarluniau o'r môr ac maent yn cyfleu egni a chyffro'r darganfyddiad newydd. Dywed rhai eu bod yn dal gwres a golau cryf Penrhyn Gŵyr.



*Lady's Cove, Bae Langland–yn y bore, A. Sisley (1897)*



*Craig Storr, Bae Langland–yn y bore, A. Sisley (1897)*

O ran mordwyo, mae'r ardal arfordirol hon, gyda'i baeau bychain a'i phentiroedd, yn nodi'r ffin rhwng arfordir De Gŵyr a chyrion Bae Abertawe. Mae'r banc tywod sy'n sychu ym Masle Mixon wedi'i farcio tua'r de gan fwi can goleuedig coch gyda chloch. Bydd y rhan fwyaf o gychod yn teithio i'r de o'r bwi ond gall cychod dyfnder is fynd i'r gogledd mewn tywydd tawelach. Mae llif y Cherrystones 0.5km o Ben y Mwmbwls.

Mae'r goleudy gwyn gweithredol nodweddiadol ar Ben y Mwmbwls yn dirnod cryf sy'n nodi pen gorllewinol Bae Abertawe. Lleolir gorsaf gwylwyr y glannau (a ddefnyddir ar gyfer hyfforddiant yn unig bellach) ychydig i'r gorllewin o Fae Bracelet. Fe'i lleolir yn strategol i fonitro traffig i mewn i Fae Abertawe a'r cyffiniau, mewn arc eang o Arfordir De Gŵyr i Borthcawl a thros Fôr Hafren.

Defnyddir rhannau creigiog yr arfordir hwn i ddal cimychiaid a chrancod mewn cewyll, a chregyn moch ymhellach allan ar y môr. Ar y tir, cesglir gwichiaid â llaw. Ceir pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol, tua'r de yn bennaf. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod ar y môr. Ceir pysgota gwialen a llinell ar sail hamdden ym mhob rhan o'r ardal. Mae'r rhywogaethau yn cynnwys draenogiaid môr a chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf.

Mae mordeithiau'n hwylio ar hyd yr arfordir rhwng Abertawe, Porth Tywyn a Dinbych-y-pysgod. O bryd i'w gilydd, mae teithiau bywyd gwyllt yn teithio ar hyd yr arfordir yn ystod yr haf, er eu bod bellach yn tueddu i ganolbwyntio ar orllewin Gŵyr.

Mae ansawdd y dŵr ymdrochi a fesurwyd ar y traethau yn rhagorol ar wahân i'r dŵr ym Mae Limeslade, sy'n dda. Caiff traeth Bae Langland lawer iawn o ddefnydd ac mae'n gyfyngedig o ran maint, ac fe'i defnyddir i dorheulo, nofio, syrffio a rhywfaint o gorff-fyrddio a bordhwylio. Mae'n cynnwys llithrfa gyhoeddus. Caiff traeth Bae Caswell lawer o ddefnydd ac mae'n gyfyngedig o ran maint, ac fe'i defnyddir i dorheulo a nofio, a chan ei fod yn wynebu'r de-orllewin, ceir rhywfaint o syrffio a chorff-fyrddio yno hefyd. Ceir pysgota môr oddi ar yr holl draethau. Ceir arforgampau ar lefelau cymharol isel i'r dwyrain a'r gorllewin o Fae Caswell. Ceir rhywfaint o ddringo ger y Mwmbwls.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn ddolennog ger gwaelod y clogwyni, ac yn pasio drwy gyrchfannau poblogaidd Bae Caswell a Bae Langland. Oherwydd yr aneddiadau cyfagos, caiff y rhan hon o'r llwybr lawer o ddefnydd.

Nifer cyfyngedig o aneddiadau arfordirol a geir yn yr ACM hon. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau preswyl ar y llethrau ar ymyl deheuol y Mwmbwls, yn Limeslade, Langland, a Bae Caswell yn creu ymdeimlad maestrefol ar yr ymyl arfordirol mewn mannau. Ceir ychydig o hen fythynnod y tu ôl i'r traeth ym Mae Pwll Du.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ardal hon yn cynnwys arfordir cilfachog o glogwyni llethrog uchel neu lethrau serth, sy'n amgáu cyfres o faeau a childraethau tywodlyd bychain gyda blaendraethau creigiog rhyngddynt. Mae'r raddfa ar bennau'r clogwyni yn ganolig i fawr, tra bo'r raddfa yn y baeau yn amrywio o fach i ganolig gyda thirffurf caeëdig a golygfeydd wedi'u fframio. Ceir golygfeydd agored ac eang ar hyd

yr arfordir ac allan dros y môr, gyda golygfeydd pell o arfordir Exmoor, ac Ynys Wair ar ddiwrnodau clir.

Mae'r Mwmbwls yn ganolbwyntiau allweddol ar ben dwyreiniol yr ACM. Maent yn ffurfio arwedd eiconig ger genau Bae Abertawe gyda'r goleudy ar yr ynysig fwyaf allanol o ddwy ynysig lanw fach â'u hamlinellau nodweddiadol. I'r gorllewin, mae'r pentiroedd yn diffinio ac yn amgáu'r baeau. Mae gan y bryniau arfordirol clogyrnog, garw a chreigiog weadau a chreigiau geirwon ar y llethrau is, a rhostir arfordirol garw neu brysgog yn uwch i fyny. Mae coetir wedi tyfu ar y llethrau mwy cysgodol sy'n wynebu'r dwyrain. Er bod y traethau'n teimlo'n gysgodol, yn enwedig lle ceir coed, mae llwybr yr arfordir a phennau'r clogwyni yn agored yn y rhan fwyaf o wyntoedd. Gellir clywed cloch bwi Basle Mixon yn aml ar hyd yr arfordir, a gellir clywed corn niwl goleudy'r Mwmbwls ar brydiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r baeau yn cynnwys ardaloedd tywodlyd bas sy'n boblogaidd ar gyfer nofio a chwaraeon dŵr anffurfiol megis corff-fyrddio a syrffio, ac maent yn brysur iawn mewn tywydd heulog, gyda phroblemau cysylltiedig o ran parcio ceir a cherbydau'n ciwio. Ar y llaw arall, mae traeth Bae Pwll Du, llwybr yr arfordir ac ardaloedd mwy anghysbell ar ben y bryniau'n dawelach, gyda phobl yn cerdded, cerdded eu cŵn a marchogaeth ceffylau, er nad ydynt byth yn teimlo'n bellennig iawn.

Caiff y môr gryn dipyn o ddefnydd ar gyfer pysgota a mordeithio hamdden, gan ei fod yn agos at Fae Abertawe a'i farina, yn ogystal â'r Mwmbwls. Mae'r olygfa o'r arfordir oddi ar y môr fel arfer yn cynnwys aneddiadau ar yr arfordir neu'r gefnwlad, a llwybr yr arfordir rhwng yn aneddiadau, yn ogystal â goleudy'r Mwmbwls, felly nid yw'r ardal yn teimlo'n bellennig, yn sicr tua'r dwyrain.

Ar y cyfan, mae'r prif nodweddion sy'n amharu ar y dirwedd i'w cael ar ran ddwyreiniol yr arfordir, ac maent yn cynnwys y datblygiadau preswyl a'r cwrs golff i'r gorllewin o Langland, a thai ger yr arfordir ar ymyl dwyreiniol Bae Langland, sy'n nodi pa mor agos yw'r arfordir hwn i Abertawe. Ffactor arall sy'n amharu i raddau yw'r ffensys ger Llwybr yr Arfordir mewn mannau, sy'n tueddu i roi ymdeimlad maestrefol i'r clogwyni sy'n lled-naturiol fel arall.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden ac yn gwella iechyd a lles drwy'r gwahanol weithgareddau ar y traethau ac ar hyd yr arfordir, gan gynnwys nofio, cerdded a rhedeg, a hwylio, ac at dreftadaeth naturiol drwy'r amryw SoDdGAau sy'n cynnwys clogwyni, blaendraethau a rhostiroedd arfordirol, ac ar ffurf golygfeydd o'r môr a thuag at Exmoor.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |


**Crynodeb**

- Mae'r ardal yn agored i ddifrod gan gynnydd yn lefel y môr a difrifoldeb cynyddol y tywydd o ganlyniad i natur adeiledig glan y môr mewn mannau a'r nodweddion rhynglanw, megis y riffiau llyngyr diliau.
- Amcanion tymor hir y CRhT ar gyfer Bae Caswell a Bae Langland yw dal y llinell drwy gynnal ac adnewyddu amddiffynfeydd presennol er mwyn diogelu asedau twristiaeth ac eiddo. Yr amcan ar gyfer arfordiroedd creigiog rhyngol, gan gynnwys Bae Bracelet, yw peidio ag ymyrryd yn weithredol er mwyn galluogi'r arfordir i esblygu ac encilio'n naturiol.
- Pwysau ymwelwyr ar Fae Caswell, Bae Langland a Bae Bracelet. Mae sbwriel ar y traeth yn fater rheoli cyson sy'n effeithio ar ansawdd y traethau.
- Newid patrymau o ran chwaraeon dŵr, gan gynnwys chwaraeon modur a swnllyd anawdurdodedig weithiau, sy'n effeithio ar dawelwch y traethau a dyfroedd y glannau.
- Erydiad Llwybr Arfordir Cymru rhwng yr atyniadau hyn. Gellid ei symud ymhellach ar y tir mewn mannau.
- Cynnydd yn y defnydd o hofrenyddion sy'n ffynhonnell ychwanegol o ran sŵn a niwsans.
- Gall diwylliant dŵr, yn dibynnu ar y math a gynigir, effeithio'n andwyol ar gymeriad y forwedd.
- Byddai defnyddio'r ardal ar gyfer morlynnoedd llanw yn debygol o gael effeithiau andwyol ar gymeriad y forwedd.
- Gallai dwysáu, trefoli a chynyddu'r nifer o dai mewn baeau a rhwng aneddiadau fod yn weledol ymyrgar a lleihau'r ymdeimlad heddychlon.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Gwerth y SoDdGAau ar hyd yr arfordir o ran cadwraeth natur.<br><br>Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal ar y môr, gydag ymdeimlad o wylltineb a golygfeydd o'r Mwmbwls ac Exmoor.<br><br>Cymeriad cynhenid y traethau tywodlyd caeëdig a'r cildraethau sydd wedi'u fframio gan bentiroedd digyffwrdd, gyda riffiau ac arweddau diddorol.<br><br>Cymeriad cynhenid a digyffwrdd yr arfordir a'r pentiroedd cilfachog rhwng aneddiadau | Ffurf adeiledig Bae Langland a Bae Caswell (er y dylid nodi bod yr effaith gronnol yn cyfrannu at sensitifrwydd).<br><br>Presenoldeb meysydd carafannau.<br><br>Golygfeydd o Bort Talbot ac Abertawe i'r dwyrain (oddi ar y môr). |

| | |
|---|---|
| gyda glaswelltir, coetir a rhostir arfordirol.<br>Golyga effaith gronnol datblygiadau adeiledig fod rhai ardaloedd yn dechrau llenwi.<br>Golygfeydd tuag at Exmoor o'r traethau.<br>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru a defnyddwyr cychod hamdden o Abertawe yn dderbynyddion sensitif. | |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 7: Pen Pwll Du i Ben y Mwmbwls**

| | |
|---|---|
| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **8** |
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Bae Abertawe - gorllewin** |




**ACM 8: Bae Abertawe - Gorllewin**



*Traeth llydan Abertawe pan fo'r llanw'n isel wrth edrych tuag at amlinell nodweddiadol y Mwmbwls – canolbwynt y bae.*



Mae'r promenâd o amgylch y bae yn fan poblogaidd iawn ar gyfer cadw'n heini a mwynhau'r olygfa ac awel y môr.



Yr olygfa o'r bae draw tuag at aber Afon Tawe a datblygiad Marina Abertawe.

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM yn ffurfio pen gorllewinol ehangder enfawr y bae tywod lleidiog bas sydd wedi'i amgáu gan fryniau arfordirol a'i amddiffyn rhag gwyntoedd de-orllewinol gan Ben y Mwmbwls. Mae Afon Tawe'n llifo i'r bae yma a cheir marina a sianel wedi'i threillio ar draws y bae i wasanaethu'r bae a'r dociau i'r dwyrain. Caiff y bae lawer o ddefnydd gan gychod masnachol a hamdden a chychod pysgota undydd sy'n gadael o'r marina, Afon Tawe, sydd wedi'i chronni ac angorfeydd sych Heol y Mwmbwls. Mae Blackpill yn SoDdGA ac yn bwysig ar gyfer adar hirgoes sy'n gaeafu megis hutanod y tywod. Rhoddir undod gweledol i'r cymysgedd amrywiol o aneddiadau trefol a maestrefol a gwyrddni ar y bryniau a'r glannau gan gilgant trawiadol y traeth tywodlyd eang iawn ac arwyneb syml digyffwrdd y bae. Rhoddir undod iddynt hefyd gan y promenâd poblogaidd iawn, y parcdir a'r heol sy'n ymestyn yr holl ffordd, bron â bod, ar hyd y glannau. Y prif ffocysau gweledol yw'r Mwmbwls a'r goleudy ger Pen y Mwmbwls gyda'u hamlinell nodweddiadol a welir yn aml mewn silwét y tu ôl i orsaf y bad achub. Mae Tŵr Meridian yn ganolbwynt fertigol uchel o waith dyn yng nghanol y bae. Ceir golygfeydd draw tuag at Bort Talbot a llwyfandir y maes glo, ac ar ddiwrnodau clir, o Exmoor.

## Nodweddion allweddol

- Rhan orllewinol bae bas eang sy'n cael ei amddiffyn rhag y gwyntoedd de-orllewinol gan bentir calchfaen Pen y Mwmbwls gyda bryniau yn y cefndir.
- Mae Afon Tawe'n llifo i'r bae yn y dwyrain ac mae'r deunydd a gludir ganddi, ynghyd â'r gwaddod arfordirol a gludir, yn ffurfio traeth eang iawn o dywod gydag ardaloedd lleidiog, graean a brigiadau llaid o gyfnod yr Holosen, mawn a chreigwely.
- Ceir ardaloedd o goedwigoedd/riffiau biogenig tanddwr yn y bae, ac mae'r dyddodion mawn yn cynnwys sarnau o'r Oes Efydd a'r Oes Haearn.
- Ceir tystiolaeth o goredau canoloesol ac archaeoleg forol doreithiog yn gyffredinol.
- Mae SoDdGA Blackpill yn helaeth ac yn cynnwys rhan orllewinol y traeth, ac mae'n Ardal Adar Bwysig ar gyfer adar hirgoes bychain sy'n gaeafu.
- Ar un adeg, arferid casglu wystrys yn y bae ond dirywiodd y diwydiant yn y Mwmbwls ac Ystumllwynarth o ganlyniad i orbysgota, ansawdd gwael y dŵr ac afiechyd.
- Mae Abertawe a'i maestrefi'n gorchuddio ymyl y bae a'r gefnwlad, a daeth y ddinas yn ganolfan ddiwydiannol ar ddechrau'r 18fed ganrif, gan ddatblygu i fod yn brif ganolfan fwyndoddi copr y byd, 'Copperopolis'. Gwasanaethwyd y diwydiant hwn gan galchfaen, a echdynnwyd o ymyl y bae, a glo o Ddyffryn Clun.
- Ar un adeg, bu'r glannau yn gartref i wasanaeth rheilffordd cyntaf y byd i deithwyr, sef Tramffordd Abertawe a'r Mwmbwls, a oedd yn rheilffordd fwynau.
- Erbyn hyn, mae gan ymyl ogleddol yr arfordir gymysgedd o ddefnyddiau dinesig, prifysgol, hamdden, marina a thai, a unir gan ymyl galed glan y môr â chyfleusterau cerdded, beicio, parciau a ffordd y tu ôl i'r traeth.
- I'r de-orllewin, yn y Mwmbwls, mae'r hen bentref pysgota yn dal i'w weld gyda hen ganol y pentref a chysylltiad morol y glannau, y llithrffyrdd, y glanfeydd a gorsaf y bad achub.
- Defnyddir yr angorfa sychu ger Heol y Mwmbwls gan gychod hwylio, cychod modur hamdden a chychod pysgota bach.
- Mae dyfroedd bas iawn y bae'n dyfnhau i'r de-ddwyrain a cheir sianel wedi'i threillio yn aber Afon Tawe a Dociau Abertawe a ddefnyddir gan longau masnachol.
- Caiff Afon Tawe ei chronni gan forglawdd a'i llocio ag angorfeydd, yn ogystal â marina Abertawe.

- Mae Pen y Mwmbwls, gyda'i bâr nodweddiadol o ynysigau creigiog a'r goleudy a weithredir gan Trinity House, yn dirnod trawiadol ac yn derfyn i'r bae. Mae llif y Cherrystones o fewn 0.5km i'r pen.
- Caiff y bae lawer o ddefnydd gan amrywiaeth o gychod hamdden gan gynnwys cychod hwylio a chychod modur, yn ogystal â chychod undydd a llongau masnachol.
- Mae'r traeth yn weddol boblogaidd gydag ardaloedd o ddefnydd dwys ar hyd y glannau, ac mae'r promenâd yn boblogaidd iawn gyda rhedwyr, cerddwyr a beicwyr drwy gydol y flwyddyn gyda'r olygfa gyfnewidiol dros y bae.
- Mae'r bae'n ymestyn mewn cilgant eang, llyfn ac yn helaeth o ran maint ond mae ganddo'r ymdeimlad o fod wedi'i amgáu gan fryniau.
- Y prif ffocysau yw'r Mwmbwls a'r goleudy ger Pen y Mwmbwls gyda'u hamlinell nodweddiadol a welir yn aml mewn silwét y tu ôl i orsaf y bad achub. Mae Tŵr Meridian yn ganolbwynt fertigol uchel o waith dyn yng nghanol y bae.
- Yn y gefnwlad, mae'r terasau llinellol o dai sy'n arwain at gopa Townhill a'r Brifysgol yn flaenllaw gyda mannau gwyrdd pwysig a choed rhyngddynt.
- Ceir golygfeydd o'r bae o sawl man ymhellach i mewn i'r mewndir, gan gynnwys Gerddi Clun.
- Ehangder cilgant y traeth tywodlyd llydan, sy'n weladwy iawn pan fo'r llanw'n isel, yw'r brif arwedd. Rhoddir undod i amrywiaeth gorchudd tir y gefnwlad gan ehangder y traeth ac arwyneb syml digyffwrdd y bae.
- Ceir golygfeydd o waith dur Port Talbot gyda llwyfandir y maes glo yn y cefndir, ac o Exmoor ar ddiwrnodau clir.
- Mae cefndir y bryniau'n bwysig i gymeriad y bae, gan roi ymdeimlad caeëdig a dramatig iddo. Mae eu cymeriad cymysg yn gydbwysedd o ffurfiau adeiledig ac yn amrywio o'r rhesi clòs o dai yn Townhill i lethrau gwyrdd Dyffryn Clun. Yn yr un modd, o ran manylder, mae'r adeiladau ar lan môr yn cyfrannu'n helaeth tuag at gymeriad amrywiol y bae.
- Mae'r bae tywyll yn wrthlen i'r ffurfiau adeiledig goleuedig o'i amgylch.

## Dylanwadau naturiol

Dyma ran orllewinol Bae Abertawe o Ben y Mwmbwls i aber Afon Tawe yn Nociau Abertawe. Mae'n wynebu rhwng y dwyrain a'r de ddwyrain ac yn croesi olyniaeth creigiau o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr ag iddi streic o'r dwyrain i'r gorllewin, yn bennaf cerrig llaid a thywodfeini. Mae olyniaeth y creigwely'n ymestyn i mewn i'r môr ar draws y Bae, gyda gorchudd tenau o waddod Cwaternaidd. Gellir olrhain y Calchfaen Carbonifferaidd gwydn sy'n ffurfio'r penrhyn deheuol a dwy ynysig lanw Pen y Mwmbwls i mewn i'r môr dros ddarnau o greigwely'r môr sydd yn y golwg ymysg y gwaddod ar wely'r môr. Tywod lleidiog gyda mannau graeanog yw'r gwaddod ar wely'r môr yn y bae mewnol, sy'n troi'n raddol yn dywod wrth fynd i mewn i'r môr ac yna'n dywod mwy bras a graeanog.

Mae'r parth rhynglanw yn cynnwys tywod ymhlith ardaloedd o fwd, graean a brigiadau llaid o gyfnod yr Holosen, mawn a chreigwely. Ar rai o'r creigiau morlannol, ceir hydroidau, gwymon undydd a malwod môr mewn pyllau bas. Mewn mannau eraill, mae cregyn gleision a chregyn llong i'w cael ar greigiau rhynglanwol agored iawn a riffiau llyngyr diliau i'w gweld ar greigiau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod. Mae riffiau biogenig eraill, gyda'u hardaloedd mwyaf i'r de, yn cynnwys gwelyau cregyn gleision glas ar is-haenau cymysg morlannol. Daw coedwigoedd tanddwr i'r golwg o bryd i'w gilydd yn dibynnu ar symudiadau'r tywod. Ceir nifer o draethellau osgled isel hefyd. Uwchlaw'r traeth uchaf a'r lan tua'r gogledd ceir twyni tywod bychain a pheth moresg hefyd.

Mae'r bae'n goleddfu'n raddol (<1°) tua'r de-ddwyrain, wedi'i groesi gan y sianel fordwyo sydd wedi'i threillio a ddaw o'r Dociau, ac mae'n fas iawn (yn bennaf <10m) ar hyd y bae thuag allan, hyd at <20m. Mae ynni'r tonnau yn isel yn y bae gorllewinol, ond erbyn Pen y Mwmbwls mae amrediad y llanw, sy'n cyrraedd hyd at 10m, ffrydiau llanw ac amlygiad i brifwyntoedd a thonnau'r de-orllewin yn arwain at ynni tonnau uchel. Mae cyflymder y cerrynt llanw yn y Bae yn gymharol isel (<0.5 m/eiliad). Fodd bynnag, ceir gordrai o 3.5 o not heibio i Bier y Mwmbwls a gorllanw o 2.5 not un filltir o Ben y Mwmbwls – llif y Cherrystones.

Mae blaendraeth a chlogwyni calchfaen creigiog (<60 m) yn y Mwmbwls yn ildio i draethau tywod llydan iawn o amgylch y bae. Y tu ôl i'r traeth, ceir cefnwlad o waddodion rhewlifol Cwaternaidd, sef tywod a graean yn bennaf. Caiff cludiant gwaddodion yn y bae ei effeithio gan gylchgerrynt clocwedd, sy'n cludo gwaddod o fewn y bae, fodd bynnag, gydag effeithiau prif gerhyntau llanw Môr Hafren, ceir mwy o gludiant i'r dwyrain. Daw'r mewnlif o Afon Tawe â gwaddod llaid i lawr

tua'r bae lle mae Morglawdd Tawe yn Abertawe yn arwain at waddod i fyny'r afon. Mae angen treillio'n rheolaidd er mwyn cynnal dyfnder y dŵr yn y marina ac yn y sianel fordwyo, a thynnu gwaddod o'r bae. Ceir rhywfaint o erydiad yn y bae o ganlyniad i brosesau arfordirol.

Mae dinas Abertawe wedi'i hadeiladu ar yr olyniaeth o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr, a orchuddiwyd gan rewglai. Ceir llawer o ffawtiau o'r gorllewin-ogledd-orllewin i'r dwyrain-dde-ddwyrain.

Mae SoDdGA Blackpill yn helaeth ac yn cynnwys rhan orllewinol y traeth gan gynnwys gwastadeddau llaid ar y pennau dwyreiniol a gorllewinol sy'n ymestyn am dros 1 km pan fo'r llanw'n isel. Mae'r safle hwn yn safle dynodedig ar gyfer adar hirgoes bychain sy'n gaeafu ac mae'n cynnal poblogaethau rhyngwladol bwysig o gwtiad torchog a hutanod y tywod ac fe'i dynodwyd hefyd yn Ardal Adar Bwysig.

Mae'r traeth rhynglanw yn cynnwys tywod ymhlith ardaloedd o fwd, graean a brigiadau llaid o gyfnod yr Holosen, mawn a chreigwely. Ar rai o'r creigiau morlannol, ceir hydroidau, gwymon undydd a malwod môr mewn pyllau bas. Mewn mannau eraill, mae cregyn gleision a chregyn llong i'w cael ar greigiau rhynglanwol agored iawn a riffiau llyngyr diliau i'w gweld ar greigiau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod. Mae riffiau biogenig eraill, gyda'u hardaloedd mwyaf i'r de, yn cynnwys gwelyau cregyn gleision glas ar is-haenau cymysg morlannol. Ceir nifer o draethellau osgled isel hefyd. Uwchlaw'r traeth uchaf a'r lan tua'r gogledd ceir twyni tywod bychain a pheth moresg hefyd.

Ceir yma ardal fechan o dwyni tywod hefyd, er bod ychydig ohonynt wedi eu troi'n gwrs golff. Ceir gwarchodfa natur leol ar Fryn y Mwmbwls.



*Mae'r gorsafoedd badau achub – yr hen a'r newydd – ar Bier y Mwmbwls yn adeiladau nodweddiadol ar ben gorllewinol y bae ac yn arwydd o'r defnydd o'r dŵr yn yr ardal hon dros y blynyddoedd.*



*Mae cloddio am abwyd yn arfer poblogaidd ar y traeth – yr olygfa tuag at aber Afon Tawe a dociau Abertawe ar ben dwyreiniol y traeth*

## Dylanwadau diwylliannol

Fel rhan orllewinol Bae Abertawe, roedd yr ardal hon yn rhan o'r fasnach a'r traffig i mewn ac allan o aber Afon Tawe, yn anad dim yr allforio glo a gafwyd ers y Canol Oesoedd. Mae'n debyg mai Abertawe oedd y porthladd glo mwyaf ond dau ym Mhrydain ar ôl Newcastle a Sunderland erbyn yr 16eg ganrif, wrth ffynnu ar fasnach allforio gyda Ffrainc, ond roedd y fasnach dros Fôr Hafren gyda Dyfnaint a Chernyw yn bwysig hefyd. Byddai llongau'n aros am y llanw yn yr Angorle i'r dwyrain o Ben y Mwmbwls er mwyn mynd i mewn i'r porthladd.

Y gefnwlad oedd y ffynhonnell agosaf o lo i fwyngloddiau copr de-orllewin Lloegr; gan fod angen tair gwaith gymaint o danwydd â mwynau i fwyndoddi, roedd yn gwneud synnwyr i wneud hyn ar y lan yng Nghymru, er mwyn manteisio ar y porthladdoedd naturiol da. Ers dechrau ym 1720, daeth Abertawe yn ganolbwynt byd-eang y diwydiant copr, gan ddefnyddio mwyn a fewnforiwyd o Gernyw, Chile, Michigan a mannau eraill. Roedd y broses hon yn galw am galchfaen a gloddiwyd yn lleol i'w ddefnyddio fel fflwcs, ac roedd llawer ohono'n galchfaen a gloddiwyd o wahanol ardaloedd rhwng y Mwmbwls ac Abertawe. Roedd yn ganolbwynt ar gyfer adeiladu ac atgyweirio llongau, yn y gwelyau llaid oddi ar Black Pill. Mae Parc Gwledig Dyffryn Clun yn gwarchod cloddfeydd a siafftiau a ddefnyddiwyd i gloddio am lo, a gellir gweld chwareli'r calchfaen a ddefnyddiwyd fel fflwcs yn niwydiannau metelegol yr ardal ledled y rhanbarth. Tramffordd Abertawe a'r Mwmbwls oedd y gwasanaeth rheilffordd cyntaf yn y byd i deithwyr, ac roedd yn rhedeg ar hyd glan y môr. Agorwyd y

gwasanaeth hwn a dynnir gan geffyl i deithwyr ym 1804 ond rheilffordd fwynau oedd y gwasanaeth yn anad dim. Cafwyd gwared ar y rheilffordd yn y 1960au.

Ceir gwelyau wystrys helaeth yn y bae, gyda physgotwyr lleol yn defnyddio sgiffiau yn seiliedig ar ddyluniad y rhai a ddefnyddir i'w cywain ar arfordir Essex ac Afon Tafwys. Roedd y bysgodfa'n denu cychod o Ddwyrain Anglia, hyd yn oed. Glaniwyd 16 miliwn o wystrys ym 1871, gyda'r diwydiant yn cyflogi 600 o bobl. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, roedd y cynhyrchiant wedi haneru o ganlyniad i or-bysgota, er bod ansawdd y dŵr hefyd yn wael yn sgil y gwaith copr a gweithgareddau eraill. Bu i'r arfer barhau tan ddiwedd y 1920au pan gollwyd y wystrys o ganlyniad i afiechyd a effeithiodd ar Ewrop gyfan. Gwnaeth pysgotwyr y glannau gryn dipyn o ddefnydd o goredau yma hefyd, gyda'r enghraifft gyntaf a gofnodwyd ym 1650, er i goredau o graig a phlethwaith gael eu disodli gan rwydi tua diwedd y 19eg ganrif. Ceir nifer o olion cilfachau bychain a mannau llwytho yn y rhan hon o'r arfordir, yn ogystal â'r systemau trafnidiaeth ar y tir a fu'n eu gwasanaethu, ac mae'r bae'n cynnwys sawl llongddrylliad. At ei gilydd, ceir archaeoleg forol doreithiog yn y bae.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir uchel ar un adeg, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw dyddodion yn eu lle. Lleolir coedwig danddwr mewn gwelyau mawn yn y bae, a dônt i'r golwg ar brydiau pan fydd y tywod a'r llaid yn symud. Mae hyn yn dystiolaeth o lefelau is y môr yn y cyfnod Mesolithig. Mae'r dyddodion mawn yn cynnwys sarnau o'r Oes Efydd a'r Oes Haearn. Mae nifer fawr o ddeunydd o bob cyfnod wedi'i ddarganfod ar draws y bae.

Castell canoloesol i'r gorllewin o'r bae yw Castell Ystumllwynarth, a adeiladwyd dros sawl cyfnod o 1107 ymlaen. Fe'i hamgylchynir gan goed uwchben yr arfordir, felly nid yw'n weladwy iawn o'r tir. Fodd bynnag, mae'n edrych dros y bae a gellir ei weld o'r dŵr.

Mae tri chwch yn nodi hanes morwrol yr ardal fel arddangosfeydd arnofiol ym Marina Abertawe. Roedd yr 'Olga', a adeiladwyd ym 1909, yn un o longau peilot Môr Hafren, ac roedd yn arfer cludo peilotiaid i longau mwy faint i'w harwain ar hyd Môr Hafren. Roedd y 'Canning', tynfad ager a adeiladwyd ym 1954, yn rhedeg ar olew a bu'n gweithio o Ddociau Abertawe o 1966. Daeth yn rhan o Amgueddfa Abertawe ym 1975. Roedd Goleulong 91, yr 'Helwick', yn marcio Gorllewin Helwick ar un adeg ond fe'i diddymwyd ym 1989. Roedd wedi'i docio ym Mae Caerdydd am oddeutu 20 mlynedd cyn symud i Abertawe.

Mae sawl llong wedi suddo yn y bae dros y canrifoedd, gan amrywio o longau môr i gychod wystrys lleol, ond ychydig iawn sydd i'w gweld erbyn hyn. Mae gweddillion y Strombus a'r Riverton oddi ar y lan ger y Mwmbwls/Ystumllwynarth. Adeiladwyd y Strombus fel llong brosesu morfilod ond fe'i suddwyd gan un o ffrwydron yr Almaen ym 1940 ar y ffordd i Antarctica. Roedd y Riverton yn agerlong a gafodd ei tharo gan dorpido llong danfor Almaenig ym 1943 ac fe'i tynnwyd i Fae Abertawe a'i glanio. Cafodd rhannau ohoni eu hachub ond gwasgarwyd y gweddill gan Trinity House yn y bae.

Mae'r arweddau yn y gefnwlad yn cynnwys y rhan fwyaf o ardal drefol Abertawe a'i maestrefi gorllewinol, y brifysgol, y carchar, Amgueddfa Ddiwydiannol a Morwrol Cymru, parciau a gerddi a thirwedd hamdden â'i gwreiddiau yn niwedd y 18fed ganrif. Roedd tref Abertawe yn llewyrchus iawn erbyn y cyfnod hwn, a daeth yn gyrchfan wyliau bwysig, gan gystadlu â'r rhai ar arfordir Dyfnaint. Mae pen dwyreiniol y draethlin yn benodol wedi newid yn sylweddol ers y cyfnod canoloesol, gyda datblygiad Doc y De (y marina) a chyfleusterau hamdden yr 20fed ganrif. Mae Castell Abertawe yn gymharol bell erbyn hyn o Afon Tawe.

Mae'r cysylltiadau diwylliannol yn cynnwys cysylltiadau Llychlynnaidd yr ardal, ac yn ôl y traddodiad, mae enw Saesneg y dref yn deillio o Sweyn Forkbeard, Brenin Lloegr a Denmarc. Mae'r ardal yn gysylltiedig â'r diwydiannu trwm cynharaf yng Nghymru, gyda hanes cynnar pobl yn dod ar wyliau i'r ardal ac yn ymdrochi yn y môr; a chyda rhyddiaith a cherddi Dylan Thomas, a aned ac a fu'n byw yn Uplands, lle gyfansoddodd ei gerddi cynnar. Roedd yma draddodiad lleol bywiog o gelf forol (neu 'gelf y pier'), a oedd yn porthi chwant y morwyr a fu'n hwylio i mewn ac allan o Abertawe.

Ganed y bardd, Dylan Thomas, yn Uplands yn Abertawe ac mae ganddo gerflun a chanolfan yn yr Ardal Forol. Ysbrydolwyd ei waith gan leoedd ym Mae Abertawe a gerllaw. Defnyddiodd y môr fel trosiad mewn cerdd gynnar, *'Light breaks where no sun shines'*
'Ceir golau lle nad yw'r haul yn disgleirio;

Lle nad yw'r môr yn llifo, mae dyfroedd y galon
Yn gwthio eu llanw i mewn;...'

Mae'r bae wedi ysbrydoli awduron a beirdd eraill hefyd.

Yn 'A Walk by the Sea', ysgrifennodd Francis Kilvert (1840-1879):
'Roedd y mwg copraidd yn gwmwl trwchus dros Abertawe, a'r fflyd enfawr o gychod wystrys o dan y clogwyn yn llenwi'r môr gwyrddaf a welais erioed. Cawsom ginio ar y clogwyni sy'n edrych dros dwr gwyn y goleudy i gyfeiriad y môr a man pellaf y Mwmbwls... Saethodd tyfna ager allan o Harbwr Abertawe i gwrdd â sgwner â llwyth llawn dan gynfas yn y bae, ac fe'i tynnodd i mewn i'r porthladd, ac roedd y fflyd enfawr o gychod wystrys a oedd wedi bod allan yn treillio yn dod i mewn o amgylch trwyn y goleudy, gyda phob un o'u hwyliau yn arlliwiau gwyn a melyn yn haul y prynhawn wrth iddynt ddod tuag at eu hangorfeydd dan gysgod clogwyn anferth yr harbwr... Rhwng ocheneidiau'r eithin, cludai'r gwynt sŵn cloch yn canu'n dawel ac yn ddwys o gyfeiriad y môr – cloch y bwi a oedd wedi'i angori ger y Mwmbwls, sŵn dwys a difrifol... am eneidiau'r rhai a fu farw ar y môr... '

Ysgrifennodd yr awdur a'r actor Peter Read sy'n byw yn Abertawe ar hyn o bryd yn 'On Swansea Bay':
'Mae arogl marwolaeth
ar drwch dy donnau,
llanw a thrai breuddwydion rhacs '

Mae arlunwyr wedi gwneud darluniau o'r bae a Phen y Mwmbwls. Mae enghreifftiau o'r 19eg ganrif yn cynnwys y canlynol.



*'Goleudy'r Mwmbwls, ym Mae Abertawe', William Daniell (rhwng 1815 a 1825)*



*Y Mwmbwls, Bae Abertawe, Samuel Phillips Jackson (1860)*



*Llongau ym Mae Abertawe, James Harris yr hynaf (1810–1887)*

O ran mordwyo, diffinnir y rhan hon o'r bae gan ddyfroedd bas iawn, sy'n sychu i greu traeth eang iawn o dywod a llaid tywodlyd i'r gogledd a'r gorllewin, ac sy'n dyfnhau tua'r de-ddwyrain. Ceir angorfa sych ger Heol y Mwmbwls, a ddiogelir rhag gwyntoedd o'r gorllewin a'r de-orllewin gan Ben y Mwmbwls. Mae llif y Cherrystones 0.5km o'r pen. Mae'r goleudy ar Ben y Mwmbwls, a weithredir gan Trinity House, yn dirnod cryf sy'n nodi pen gorllewinol Bae Abertawe. Saif 35m uwchben y dŵr uchel cymedrig gydag ystod o 15 milltir fôr. Mae sianel wedi'i threillio yn rhedeg i'r gogledd-ogledd-ddwyrain tuag at aber Afon Tawe a Dociau Abertawe, drwy'r Tiroedd Gwyrdd. Caiff ei marcio â bwi cardinal i'r de a bwiau ochrol coch a gwyrdd i'r gogledd. Cynghorir cychod hamdden i aros ar ochr orllewinol y sianel i osgoi llongau masnachol.

Adeiladwyd yr orsaf badau achub pob tywydd newydd ar ben pier y Mwmbwls yn lle'r hen un yn 2014, a'r saif y ddwy orsaf ochr yn ochr. Mae gorsaf badau achub y glannau a thŷ gwreiddiol y bad achub ar y lan. Hon yw'r orsaf brysuraf o'r 30 gorsaf yng Nghymru, gyda chyfanswm o 98 lansiad rhwng bad achub pob tywydd Tamar a bad achub y glannau. Mae hyn o gymharu â 60 lansiad yn 2014. Achubodd fwy o bobl nag unrhyw le arall yng Nghymru hefyd, gan achub o 122 o bobl yn 2015, o gymharu ag 82 yn 2014.

Mae'r fynedfa i borthladd a harbwr Abertawe wedi'i marcio â goleuadau arwydd ar y morgloddiau. Ceir mynediad i'r dociau masnachol (Doc y Brenin a Doc y Frenhines, ill dau yn ACM9) o ochr ddwyreiniol y sianel ac mae ganddynt le i longau â thunelledd llwyth o hyd at 30,000 tunnell. Mae 600,000 o dunelli yn mynd drwy'r dociau bob blwyddyn (gwefan Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, 2016) gan gynnwys glo, agregau, llwythi prosiectau arbenigol megis tyrbinau gwynt, mwydion coed, cynhyrchion wedi'u hailgylchu a dibenion diwydiannol eraill. Ceir glanfeydd a dociau sych atgyweirio hefyd, er na wyddys faint o ddefnydd a wneir ohonynt. Mae datblygiad SA1 i'r gogledd bellach yn troi'r ardal a fu'n gysylltiedig â'r dociau yn swyddfeydd a thai a defnyddiau eraill.

I'r gogledd o fynedfa'r porthladd, mae terfynfa ro-ro a phorthladd fferïau er nad yw fferi Abertawe-Cork yn weithredol ar hyn o bryd. Mae Afon Tawe yn cael ei chronni i fyny'r afon gyda morglawdd i gynnal lefelau'r dŵr. Mae'r ardal hon wedi'i llocio i roi mynediad i grefftau llai. Ceir angorfeydd ar gyfer y fflyd bysgota fach a chychod masnachol eraill, yn ogystal ag angorfeydd hamdden preifat yn y dŵr a gronnwyd. Ceir mynediad i farina Abertawe drwy loc arall. Mae 340 o angorfeydd yn y loc hon gyda chapasiti ar gyfer 50 o ymwelwyr.

Caiff cregyn gleision eu ffermio a'u treillio (a threillir grawn cregyn gleision) yng nghanol yr ACM er nad yw'r gwaith pysgota hwn bob amser yn weithredol. Gosodir cewyll hefyd ar gyfer corgimychiaid. Mae cwmni'n bwriadu adfer y gwelyau wystrys brodorol oddi ar y Mwmbwls ac mae'n debyg fod rhai wystrys ifanc i'w cael yno bellach. Defnyddir rhwydi gosod ar draethau er mwyn dal draenogiaid môr, er enghraifft. Ceir pysgota gwialen a llinell masnachol yn yr ardal. Mae pysgota gwialen a llinell hamdden hefyd yn gyffredin yn yr ardal. Mae'r rhywogaethau yn cynnwys draenogiaid môr a chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf.

Mae maes dympio/dyfroedd sbwriel trwyddedig yng nghanol y bae, yn croesi rhwng ACMau 8 a 9. Fe'i defnyddir ar gyfer y deunydd a dreilliwyd o sianeli porthladdoedd Abertawe a Phort Talbot.

Mae mordeithiau yn hwylio ar draws y bae o farina Abertawe, yn bennaf tuag at y Mwmbwls ac o amgylch arfordir Penrhyn Gŵyr. Ceir oddeutu 20 o angorfeydd siglo oddi ar y Mwmbwls. Ceir clwb hwylio gyda chyfleusterau storio cychod ac angorfeydd. Mae llithrfa ger Craig Knab sy'n caniatáu i gychod undydd gael eu lansio. Mae mordeithiau mewn cychod hwylio a chychod modur yn boblogaidd o'r ochr hon i'r bae. Defnyddir y bae i fordhwylio, barcudfyrddio a thonfyrddio. Ceir rhwyfo rhwng y Mwmbwls a'r Ganolfan Ddinesig, yn rhan fwy cysgodol y bae. Mae pysgota môr yn boblogaidd oddi ar y lan yn y Mwmbwls.

Mae marina mawr (oddeutu 550 o angorfeydd) yng nghanol glannau'r ddinas gyda nifer o unedau manwerthu ac arlwyo o'i gwmpas. Mae'r marina hefyd yn ganolbwynt i lawer o weithgarwch cyffredinol y diwydiant morol – craenio, storio, cynnal a chadw cychod, gwerthu cychod, ac ati. Mae'r llithrfeydd hyn a'r craeniau yn caniatáu mynediad i'r dŵr. Mae teithiau cychod o gwmpas y bae hefyd yn gweithredu o'r marina. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wedi'i lleoli ger y marina. Mae mordeithio ar gychod hwylio a chychod modur, yn ogystal â chychod undydd a hwylio dingis, yn weithgareddau poblogaidd yn yr ardal hon. Mae nifer o ysgolion hwylio a chwaraeon dŵr eraill wedi'u lleoli o gwmpas y marina. Mae cychod pysgota masnachol yn gweithredu o'r ardal hon hefyd. Yr ochr draw i Afon Tawe, ceir clwb hwylio gyda'i angorfeydd pontŵn ei hun (oddeutu 200 o angorfeydd) sydd hefyd yn darparu cyfleusterau storio cychod. Mae ysgol ddeifio yn gweithredu yma hefyd.

Mae Traeth Abertawe yn gymharol boblogaidd, gyda phobl yn gwasgaru dros yr wyneb eang yn agos at y promenâd. Mae ansawdd y dŵr ymdrochi a fesurwyd ar y traeth yn dda. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd cefn y traeth yr holl ffordd, bron â bod, ar hyd y bae gorllewinol. Mae hyn yn darparu golygfa sy'n newid yn raddol ar draws y Bae, gyda'r ffocws yn newid o Ben y Mwmbwls i'r gorllewin i'r ardal forol a'r dociau i'r dwyrain, gyda gwaith dur Port Talbot yn weladwy yn y pellter bron bob amser. Mae'r llwybr yn brysur iawn drwy gydol y flwyddyn gyda chymysgedd o gerddwyr, rhedwyr a beicwyr o bob oed.

Mae'r promenâd sy'n cysylltu'r Mwmbwls gydag Abertawe yn lleoliad poblogaidd iawn i gerdded, rhedeg a beicio. Mae Canolfan Chwaraeon Dŵr wedi'i lleoli oddeutu hanner ffordd ar hyd y promenâd, sy'n gweithredu fel cyfleuster arlwyo yn bennaf, er bod darparwyr chwaraeon dŵr yn gweithredu o'r fan hon. Ymhellach i'r dwyrain tuag at Abertawe ceir llithrfa gyhoeddus sy'n caniatáu i gychod undydd gael eu lansio.

Mae'r aneddiadau arfordirol yng nghefnwlad yr ACM hon yn newid o ddwyseddau uchel trefol iawn Abertawe i'r dwyrain i ddod yn fwy maestrefol i'r gorllewin hyd at hen aneddiadau pysgota'r Mwmbwls.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ardal hon yn ffurfio rhan orllewinol Bae Abertawe, sy'n gilgant llyfn o'r Mwmbwls yn y Gorllewin hyd at waith dur Margam i'r Dwyrain. Mae'r bae'n fawr ond mae'n teimlo'n gymharol gaeëdig oherwydd y bryniau sy'n cyrraedd dros 100m Uwch Datwm Ordnans gyda nenlinell donnog i'r gogledd a'r gorllewin. Ceir golygfeydd dros y môr o arfordir Exmoor yn y pellter ar ddiwrnodau clir. Y prif ffocysau yw'r Mwmbwls a'r goleudy oddi ar Ben y Mwmbwls gyda'u hamlinell nodedig, a welir yn aml mewn silwét y tu ôl i orsaf y bad achub. Mae Tŵr Meridian yn ganolbwynt fertigol a wnaed gan ddyn yng nghanol y bae ymhlith datblygiadau amlwg y glannau a Marina Abertawe, yn agos at Afon Tawe. Mae'r cymysgedd o'r ffurfiau trefol ar y bryniau a'r glannau yn amlwg ac yn drefnus mewn mannau, megis Townhill, ond mae coed a mannau gwyrdd rhyngddynt sy'n lleddfu'r olygfa o'r bae, yn enwedig tua'r gorllewin. Cilgant anferthol y traeth tywodlyd eang, sy'n weladwy iawn pan fo'r llanw'n isel, yw'r brif arwedd. Rhoddir undod i amrywiaeth gorchudd tir y gefnwlad gan draeth eang ac arwyneb syml a digyffwrdd y bae. Ceir golygfeydd draw tuag at waith dur Port Talbot, yn erbyn cefndir llwyfandir y maes glo, sy'n arbennig o amlwg pan gaiff cymylau mawr o stêm eu rhyddhau o bryd i'w gilydd.

Gwarchodir y rhan hon o'r bae rhag prifwyntoedd y de-orllewin gan Ben y Mwmbwls, yn enwedig o gwmpas ardal y Mwmbwls ei hun. Mae arwyneb y dŵr, felly, yn aml yn gymharol dawel ar y glannau, oni bai pan geir gwyntoedd dwyreiniol, er bod y traeth, sy'n goleddfu'n raddol, yn gadael ardaloedd eang iawn o dywod a thywod lleidiog, gydag ambell i riff isel a chreigiau isel yn y golwg pan fo'r llanw'n isel. Mae nifer o gychod bach, sy'n tirio pan fo'r llanw'n isel, wedi'u hangori yn yr

ardal gymharol gysgodol hon, sydd wedi'i ffocysu ar Graig Knab. Mae cychod mwy, gan gynnwys llongau treillio, yn cael eu hangori ar Afon Tawe neu ym Marina Abertawe, ac mae'r rhain yn gadael yn gymharol aml drwy lociau Afon Tawe i groesi'r bae.

Mae'r ymyl arfordirol wedi'i wneud gan ddyn ac yn galed, ac wedi'i ddiffinio gan ffordd lan môr gyda pharcdir, promenâd a llwybr beiciau sy'n rhedeg ar hyd rhan helaeth o lan y môr ac yn caniatáu i bobl fwynhau'r bae yn hamddenol wrth i'r golygfeydd newid o olygfeydd dros Fôr Hafren i edrych yn ôl tuag at Abertawe o'r gorllewin. Ar hyd y promenâd, ceir ambell gaffi a mynedfa i'r traeth a cheir defnydd mwy dwys o'r tywod yn yr ardal hon gan gynnwys chwarae pêl foli. Mewn mannau eraill mae'r traeth yn croesawu cerddwyr achlysurol, morwyr tywod neu gloddwyr abwyd llwyd. Mae ardaloedd bychain o dwyni yn lleddfu'r ymyl arfordirol ac yn fannau i eistedd uwchlaw'r marc penllanw. Ar y cyfan, gwneir cryn dipyn o ddefnydd o'r dŵr, y traeth a'r promenâd, ond mae digon o le yma i fwynhau'r bae a chael ymdeimlad o ddianc oddi wrth strydoedd y ddinas.

Yn y gefnwlad, mae'r terasau llinellol o dai sy'n arwain at gopa Townhill a'r Brifysgol yn flaenllaw gyda mannau gwyrdd pwysig a choed rhyngddynt. Ceir golygfeydd o'r bae o sawl man ymhellach i mewn i'r mewndir, gan gynnwys Gerddi Clun. Mae Mynydd Cilfái i'r dwyrain yn fryn di-ddatblygiad pwysig gyda llystyfiant lled-naturiol y tu ôl i ardal y dociau, gyda golygfeydd trawiadol.

Gellir clywed corn niwl goleudy'r Mwmbwls ar brydiau. Yn y nos, mae'r bae tywyll yn wrthlen i oleuadau Abertawe, Ystumllwynarth a'r Mwmbwls.



*Pen y Mwmbwls pan fo'r llanw'n isel yng nghyd-destun llun ongl lydan o Fae Abertawe ar y chwith ac arfordir deheuol y Gŵyr ar y dde*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden gan wella iechyd a lles drwy'r gwahanol weithgareddau ar draeth Abertawe ac ar hyd glan y môr, gan gynnwys cerdded, rhedeg a beicio, a hwylio a rhwyfo o'r marina a morglawdd Afon Tawe a'r Mwmbwls, ac at dreftadaeth naturiol yn SoDdGA Blackpill, y blaendraeth gyda'i riffiau biogenig, ac ar ffurf golygfeydd dros Fae Abertawe tuag at y Mwmbwls ac Exmoor.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiadau rheolaeth tir | Defnydd y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**


- Mae'r ardal yn agored i ddifrod gan gynnydd yn lefel y môr a difrifoldeb cynyddol y tywydd oherwydd natur adeiledig glan y môr a'r gefnwlad, agoredrwydd seilwaith y doc i'r gogledd a'r sianel gysylltiedig sydd wedi'i threillio, a'r nodweddion rhynglanwol, megis riffiau biogenig/coedwigoedd tanddwr, a'r effaith ar gyrsiau dwr fel Blackpill a fydd yn codi gyda phosibilrwydd mwy o lifogydd.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw dal y llinell drwy gynnal a gwella amddiffynfeydd presennol er mwyn diogelu asedau twristiaeth ac eiddo. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli'r perygl o erydiad a llifogydd arfordirol ar y promenâd, priffyrdd yr A4067 a'r B4433, a datblygiadau ar y glannau. Argymhellir parhau i dreillio'r sianel fordwyo i alluogi mynediad i ddociau Abertawe, morglawdd Afon Tawe a'r marina.
- Mae Morlyn Llanw Bae Abertawe wedi cael Gorchymyn Caniatâd Datblygu ond mae caniatadau eraill o dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Mae'r datblygiad yn fawr iawn ac yn ymestyn 3.5km i mewn i Fae Abertawe, a byddai'n newid cymeriad Bae Abertawe yn sylweddol pe bai'n cael ei adeiladu. Byddai'r prosesau arfordirol yn cael eu newid yn sgil yr arfordir diwygiedig a llif y dŵr o'r morlyn. Mae'n debygol y byddai tywod neu ddeunydd arall yn cronni ar y traethau a gallai hynny gael effaith niweidiol ar gynefinoedd a nodweddion y traeth yn ogystal ag achosi problemau rheoli mewn perthynas â'r ffyrdd a'r promenâd gerllaw. Byddai'r dŵr a gronnir ar lefel wahanol i'r dŵr y tu allan gan amlaf. Byddai'r morlyn yn rhannu'r bae yn dair elfen, ac yn cael gwared ar gymeriad eang unedig y traethau llydan ar hyd y lan. Byddai'r amddiffynfeydd meini uchel yn amharu ar y golygfeydd oddi ar yr arfordir a byddai'r ganolfan ymwelwyr alltraeth a'r tyrbinau yn weladwy. Bwriedir i'r morlyn gael ei ddefnyddio gan nifer o weithgareddau chwaraeon a'r diwylliant dŵr felly bydd y rhan hon o'r bae yn dod yn fwy prysur a byddai gan bobl fynediad i forglawdd sy'n ymestyn allan i'r bae, gan newid ymddangosiad y forwedd.
- Mae sbwriel ar y traeth yn fater rheoli cyson sy'n effeithio ar ansawdd y traeth.
- Gallai ailddatblygu Canolfan Ddinesig Abertawe gael effaith sylweddol ar gymeriad y rhan hon o'r bae.
- Gallai datblygiadau uchel arfaethedig yn y Mwmbwls newid y berthynas rhwng y ffurf adeiledig a'r clogwyni, gan newid y cymeriad.
- Gallai dwysáu datblygiad ar hyd yr arfordir neu'r gefnwlad gael effaith andwyol ar y

cymeriad.

- Mae adfer y bysgodfa wystrys yn y Mwmbwls yn fenter bositif a allai fod yn bwysig mewn termau masnachol, o ran adnewyddu cynefin ac adfywio'r traddodiad diwylliannol yn y bae.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Gwerth cadwraeth natur SoDdGA Blackpill. | Ffurf adeiledig Abertawe mewn mannau. |
| Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal alltraeth gyda golygfeydd tuag at y Mwmbwls, Port Talbot ac Exmoor. | Sŵn a symudiad traffig ar hyd y ffordd lan môr. |
| Cymeriad cynhenid y traeth tywodlyd eang gyda'i riffiau a'i nodweddion diddorol. | Golygfeydd o ddociau Abertawe. |
| Yr ymdeimlad o wylltineb ac agoredrwydd yn yr ardal oddi ar Ben y Mwmbwls. | Defnydd gan longau sy'n cyrraedd ac yn gadael dociau Abertawe. |
| Y promenâd cydlynol a pharhaus a'r mannau gwyrdd a'r canolbwyntiau cysylltiedig e.e. cyfleusterau Craig Knab. | Patrwm syml y forwedd. |
| Cefndir naturiol cryf Bryn y Mwmbwls a'r clogwyni cysylltiedig, a'r mannau gwyrdd megis Gerddi Clun a'r dyffryn. | |
| Golygfeydd tuag at Abertawe, Pen y Mwmbwls a Phort Talbot oddi ar y promenâd a'r traeth. | |
| Mae canolbwynt datblygiad Tŵr Meridian a'r rhesi clòs o dai yn Townhill yn arweddau adeiledig nodweddiadol. | |
| Lleoliad Castell Ystumllwynarth a Neuadd y Ddinas. | |
| Mae defnyddwyr y promenâd/ffordd lan môr, Llwybr Arfordir Cymru a defnyddwyr cychod hamdden o'r marina, Afon Tawe a'r Mwmbwls yn dderbynyddion sensitif. | |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017.
Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 8: Bae Abertawe - Gorllewin**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | 9 |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Bae Abertawe - dwyrain** |




Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 100019744 1
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 9: Bae Abertawe - Dwyrain**



*Traeth poblogaidd Aberafan wrth edrych dros y bae tuag at Fynydd Cilfái*



*Y craeniau enfawr yn nociau Port Talbot*



*Y traeth gwyllt ger aber Afon Nedd*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM yn ffurfio pen dwyreiniol bae tywodlyd, lleidiog bas a llydan gyda thraethau eang sy'n agored i brifwyntoedd y de-orllewin. Mae Afon Nedd ac Afon Afan yn llifo i'r bae yma. Ceir twyni tywod ar bob ochr i Afon Nedd, ac mae Twyni Crymlyn yn SoDdGA. Mae sianel wedi'i threillio gyda waliau ystlys yn Afon Nedd a sianel wedi'i threillio'n ddwfn ar gyfer yr harbwr llanw ger gwaith dur Port Talbot. Caiff y bae ei ddefnyddio gan gychod masnachol sy'n mynd i Bort Talbot yn bennaf, a chan gychod hamdden hefyd ond i raddau llai na'r gorllewin. Mae bryniau'r gefnwlad sy'n amgáu'r bae'n gymharol ddigyffwrdd ac yn gefndir pwysig i'r bae. Y prif ffocysau gweledol yw craeniau ac adeileddau anferthol y gwaith dur. Ceir golygfeydd allweddol o draeth poblogaidd Aberafan dros y bae tuag at y Mwmbwls.

## Nodweddion allweddol

- Rhan ddwyreiniol bae bas eang sy'n agored i brifwyntoedd y de-orllewin.
- Mae Afon Nedd ac Afon Afan yn llifo i'r bae ac mae'r deunydd a gludir ganddynt, ynghyd â'r gwaddod arfordirol a gludir yma, yn ffurfio banciau tywod a thraethau llydan o dywod lleidiog sy'n troi'n llaid tywodlyd ymhellach i'r môr.
- Y tu ôl i'r traethau, ceir twyni tywod ger aber Afon Nedd ac mae Twyni Crymlyn yn SoDdGA. Caiff yr aber ym Mae Baglan ei ddefnyddio gan adar hirgoes bychain sy'n gaeafu.
- Mae gan yr arfordir dirwedd sy'n cynnwys enghreifftiau pwysig o ddiwydiant y gorffennol a'r presennol, gan amrywio o ddociau Dwyrain Abertawe, unedau storio a phuro olew i waith dur a dociau Port Talbot. Yn y gorffennol, defnyddiwyd y môr i allforio glo, mewnforio olew crai o'r Dwyrain Canol yn ogystal â mewnforio glo golosg, mwynau a mwyn metelau.
- Ar hyn o bryd, mae Dociau Port Talbot yn mewnforio 2.5 miliwn o dunelli o lo a 5.5 miliwn o dunelli o fwyn haearn y flwyddyn ar gyfer y gwaith dur yn ogystal â thrin nwyddau dur, agregau ac at ddibenion diwydiannol eraill.
- Mae campws y bae, sef campws newydd Prifysgol Abertawe, wedi cymryd lle'r unedau storio a phuro olew yn y gogledd, ac mae gweithfeydd papur a defnyddiau eraill wedi cymryd lle'r orsaf bŵer yn y dwyrain.
- Ar un adeg roedd traeth a glan môr Aberafan yn gyrchfan bwced a rhaw boblogaidd iawn ond mae'r ardal bellach yn boblogaidd ar gyfer teithiau undydd/ymweliadau byr ar ôl derbyn gwelliannau amgylcheddol sylweddol.
- Ceir sianel wedi'i threillio'n ddwfn yn harbwr llanw Port Talbot sy'n gwasanaethu'r gwaith dur, ac sy'n un o'r ychydig rai yn y DU a all dderbyn llongau â thunelledd llwyth o hyd at 170,000 tunnell.
- Ceir sianel wedi'i threillio yn Afon Nedd sydd â waliau ystlys ar y ddwy ochr, ac fe'i defnyddir gan ychydig o gychod masnachol a hamdden.
- Mae gan Afon Afan, sy'n afon lanw, sianel wedi'i threillio sy'n ymestyn o'r bae ac sy'n darparu angorfeydd llanw ar gyfer cychod bach a mynediad i'r hen ddociau cyfagos yn unig.
- Ar y cyfan, er y defnyddir yr ochr hon o'r bae at ddibenion masnachol, gyda'r llongau'n darparu rhywfaint o nodweddion gweledol o ddiddordeb, gwneir llai o ddefnydd ohoni at ddibenion hamdden na'r ochr orllewinol, er y ceir peth pysgota hamdden.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru'n boblogaidd ger aber Afon Nedd ac i'r de tuag at Aberafan.
- Yn weledol, mae'r ardal yn rhan o gilgant eang, llyfn Bae Abertawe ac mae ganddi ymdeimlad o ehangder, er ei bod wedi'i hamgáu'n rhannol gan gefndir bryniog cymharol ddigyffwrdd Mynydd Cilfái a'r llethrau sgarp ar lwyfandir y maes glo, sy'n cynnwys Mynydd Dinas a Mynydd Brombil, er bod fferm wynt wedi'i chodi bellach ar Fynydd Brombil.
- Y prif ffocysau yw adeileddau diwydiannol anferth y gwaith dur, yn ogystal â'r tyrbinau

gwynt a'r craeniau yn yr harbwr llanw. Mae'r rhain yn gwrthgyferbynnu â chymeriad gwastad, maestrefol ystad Sandfields, y tu ôl i draeth Aberafan.
- Y traeth tywodlyd llydan yw'r arwedd allweddol. Rhoddir undod i amrywiaeth gorchudd tir y gefnwlad gan ehangder y traeth eang ac arwyneb syml digyffwrdd y bae.
- Mae'r twyni tywod ar ddwy ochr yr aber, ynghyd â'r traethau, yn cynnig rhyw fath o ddihangfa rhag y gefnwlad brysur.
- Ceir y golygfeydd gorau oddi ar Lwybr Arfordir Cymru a thraeth Aberafan wrth edrych dros y bae tuag at Ben y Mwmbwls.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r ochr o Fae Abertawe sy'n wynebu'r gorllewin rhwng y Dociau a Margam yn cynnwys aber Afon Nedd ac aber Afon Afan ym Mhort Talbot. Daw'r creigwely gwaelodol o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr, gyda streic y creigiau'n newid o fod o'r dwyrain i'r gorllewin i fod o'r gogledd-ddwyrain i'r de orllewin ac yn dilyn yr arfordir cyn troi'n ôl i fod o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y Fro. Ar y môr, mae daeareg creigwely'r môr yn gerrig llaid a thywodfeini o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr gan mwyaf, gyda Chalchfaen Carbonifferaidd mwy gwydn yn croesi'r bae rhwng y Mwmbwls a Chynffig ac yn dod i'r golwg mewn mannau fel llawr creigiog y môr. Mae'r gwaddod ar lawr y môr yn dywod lleidiog ger arfordir, gan droi'n llaid tywodlyd mwy mân yn y bae. Ceir traethellau ger aber Afon Nedd ym Mae Baglan.

Mae'r bae'n goleddfu'n raddol (<1°) rhwng y de a'r de-orllewin i ddyfnder o <15m, ac fe'i croesir gan y sianel fordwyo wedi'i threillio o harbwr Port Talbot a'r sianel a ddaw o enau aber Afon Nedd. Mae'r bae sy'n wynebu'r gorllewin yn agored i'r gwyntoedd a'r tonnau mynychaf, gydag amrediad llanw uchel (<10m), ac ynni tonnau uchel. Mae cyflymder y cerhyntau llanw yn y bae yn gymharol isel (<0.5m/eiliad).

I'r dwyrain o Ddociau Abertawe, ceir ardal eang o draethellau ar bob ochr i'r sianel afon leidiog a'r sianel wedi'i threillio ym Mae Baglan ger genau aber Afon Nedd (ACM10). Mae sianel wedi'i threillio yn croesi aber Afon Afan i'r gogledd o harbwr Port Talbot. Rhwng y dyffrynnoedd afon ac i'r de o Bort Talbot, ceir twyni tywod y tu ôl i'r traethau tywodlyd (Traeth Aberafan a Thraeth Margam).

Ceir mewnlif o fwd a llaid o Afon Nedd, a chludir tywod i'r dwyrain mewn daliant a thrwy dyniant yng nghylchgerrynt Bae Abertawe, ac mae cerhyntau llanw, yn ogystal â thywod chwyth, yn golygu bod aber Afon Nedd yn ardal o groniant arfordirol. Mae stormydd yn cludo gwaddod oddi ar y lan i'r dwyrain o gyrion Bae Abertawe tuag at brosesau cerhyntau a thonnau arfordirol, gan arwain at ddyddodion y mae angen eu treillio ger harbwr Port Talbot.

Defnyddir aber Afon Nedd gan ran o boblogaeth o adar hirgoes bychain sy'n gaeafu ym Mae Abertawe ac mae eogiaid a sewin yn mudo i fyny'r afon hon ac Afon Afan. Ceir llamhidyddion, mamal morol lleiaf y DU, yn y bae, yn enwedig ger Dociau Port Talbot, lle mae'n chwilota am fwyd ac yn bwyta yn y sianel sydd wedi'i threillio'n ddwfn.

Mae'r blaendraeth ar y cyfan yn dywod morlannol digyffwrdd a thywod lleidiog. Mae'r traeth yn Aberafan ac i'r de yn dywod mân ar y cyfan. I'r gorllewin, ger genau Afon Tawe, ceir creigiau morlannol ynni uchel gyda rhywogaethau crachod y gogledd a malwod môr, a riffiau llyngyr diliau ar greigiau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod. Ceir rhywfaint o greigiau a thywod uwchforlan yn yr harbwr ym Mhort Talbot. Uwchlaw rhan uchaf y traeth a'r draethlin i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, ceir twyni tywod sefydlog gyda moresg. Mae Twyni Crymlyn yn SoDdGA. Ceir cribau cyfochrog o dwyni tywod ar ongl sgwâr i Afon Nedd a thafodau o forfeydd heli rhyngddynt. Ceir llaciau twyni gwlyb a choetiroedd ffen mewn mannau.

Ar y tir, mae'r creigwely o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr wedi'i orchuddio i raddau helaeth â rhewglai ar dir uwch. Ar y tir is, mae gwaddodion allolchi Cwaternaidd yn gorchuddio'r creigwely. Mae'r arfordir wedi'i ddatblygu i raddau helaeth ar dir artiffisial. Mae'r glaswelltir ger y gwaith dur yn laswelltir arfordirol hallt.



*Yr olygfa oddi ar y bae tuag at aber Afon Nedd*



*Yr olygfa oddi ar y bae tuag at draeth Aberafan gyda Mynydd Dinas sydd heb ei ddifetha yn y cefndir*

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ardal hon, a'i chefnwlad, sy'n ymestyn o enau Afon Tawe hyd at Fargam, yn cynnwys tirweddau diwydiannol pwysig o'r gorffennol a'r presennol, gan gynnwys Dociau Dwyrain Abertawe (Porth Tennant), pwll glo hanesyddol plwyf Llansamlet, purfa olew Llandarcy a gwaith dur Port Talbot. Mae defnydd morol hanesyddol yr ardal wedi cynnwys allforio glo, mewnforio olew crai o'r Dwyrain Canol i Landarcy, yn ogystal â glo golosg, mwynau a mwyn metelau i Bort Talbot.

Mae llongddrylliadau'r ardal yn cynnwys y *Stalheim* o Norwy a suddodd ym 1940 wrth gludo glo carreg, a'r *Madjoe* o'r Iseldiroedd a suddodd ym 1941 wrth gludo glo, y ddwy ar ôl taro ffrwydron Almaenig ym Mae Abertawe. Mae llawer o longau wedi cael eu chwythu ar y lan gan wyntoedd cryfion a'u dinistrio yma wrth hwylio, i'r de o Gastell-nedd.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir uchel ar un adeg, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw'r dyddion yn eu lle. Mae rhan dde-orllewinol yr ardal yn cynnwys gwelyau wystrys yr Outer Green Grounds, lle bu fflyd y Mwmbwls yn pysgota yn y gorffennol.

Mynydd Margam yw nodwedd amlycaf y gefnwlad i'r dwyrain, sy'n dirwedd aml-gyfnod gydag archaeoleg o'r Oes Efydd, archaeoleg Rufeinig o'r Oes Haearn ac archaeoleg ganoloesol, yn ogystal â safle radar o'r Ail Ryfel Byd. Yr abaty Sistersaidd ym Margam, a sefydlwyd yn 1147, oedd y mynachdy cyfoethocaf yng Nghymru, ac fe'i caffaelwyd gan Syr Rice Mansel ar ôl Diddymiad y Mynachlogydd. Mae'r rhain yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Mynydd Margam.

Sefydlwyd bwrdeistref Aberafan ym 1283, er bod y dref eisoes wedi'i llyncu gan Bort Talbot erbyn hynny. Mae'n bosibl mai'r canolbwynt cynharaf yn yr ardal oedd y castell a'r eglwys a'r man lle mae prif ffordd yr arfordir yn croesi Afon Afan, er bod adroddiadau fod y dref wedi'i llethu gan dywod a'r môr ym 1491-2 yn awgrymu lleoliad cynharach yn agosach at y môr. Tyfodd Aberafan fel porthladd ac anheddiad ar gyfer gwaith Cwmafan, sydd ymhellach ar y mewndir, o'r 1820au, a chafodd ei hailenwi'n 'Port Talbot' ar ôl teulu o dirfeddianwyr lleol. Erbyn hyn, y gwaith dur a'r datblygiadau ger Port Talbot yw prif nodweddion y forwedd yn rhan ddwyreiniol yr ardal. Mae'r gwaith dur yn cynrychioli tirwedd ymyrgar ond pwerus, mewn cyferbyniad llwyr â phatrymau aneddiadau cynharach. Mae morgloddiau'n amgáu glanfa â pholion dur yn yr harbwr llanw newydd a adeiladwyd rhwng 1966 a 1970. Ailagorodd yr hen ddociau ym Mhort Talbot ym 1988; mae'r rhain yn gwasanaethu cychod llai o faint.

Roedd traeth Aberafan yn boblogaidd iawn ar un adeg rhwng y 1940au a'r 1960au fel cyrchfan fwced a rhaw ar gyfer glowyr a gweithwyr eraill o gymoedd De Cymru. Lleihaodd y defnydd hwn gyda dirywiad y cymoedd a dyfodiad gwyliau cyfandirol.

Yn ddiwylliannol, cafwyd cryn dipyn o newid ar yr ardaloedd arfordirol a'r gefnwlad dros y tair canrif ddiwethaf, gyda chyfnod o ddiwydiannu cyflym wedyn cyfnod o ddad-ddiwydiannu sylweddol. Mae'n ddiddorol nodi bod cyn-safle cludiant 65 acer BP ar yr arfordir yn cael ei ailddefnyddio gan Brifysgol Abertawe fel campws y bae (a agorwyd 2016), a phurfa olew Llandarcy yn y gefnwlad yn barc busnes/datblygiad preswyl.

'Aberdarcy', sef cyfuniad o Abertawe a Llandarcy, oedd lleoliad nofel Kingsley Amis, *That*

*Uncertain Feeling* (1955), a addaswyd yn ffilm gyda Peter Sellers yn chwarae'r brif ran, *Only Two Can Play* (1962). Roedd Ramsay MacDonald yn AS dros Aberafan, etholaeth a gynrychiolir bellach gan Stephen Kinnock.

Mae ardal Port Talbot wedi cynhyrchu llu o actorion enwog, gan gynnwys Richard Burton, Anthony Hopkins a Michael Sheen.

Ym mis Ebrill 2011, arweiniodd yr actor Michael Sheen gynhyrchiad 72 awr National Theatre Wales, lle perfformiwyd fersiwn fodern o'r Dioddefaint. Dechreuodd y ddrama am 0530 ar Ddydd Gwener y Groglith gyda golygfa ar lan y môr, wedi'i hysbrydoli gan hanes Ioan Fedyddiwr yn bedyddio Iesu, ac fe'i gwyliwyd gan gannoedd o bobl a oedd wedi clywed am y cynhyrchiad ar lafar gwlad. Erbyn i brif ran gyntaf y ddrama gael ei pherfformio ar draeth Aberafan am 1500, amcangyfrifai'r trefnwyr fod hyd at 6,000 o bobl wedi ymgynnull i wylio.

O ran mordwyo, mae dynesfa Afon Nedd wedi'i marcio gan fwiau mynediad allanol. Ceir sianel wedi'i threillio ger genau Afon Nedd gyda wal ystlys ar yr ochr dde-ddwyreiniol a banc ystlys slag i'r gogledd-orllewin. Caiff y rhain eu marcio gan bolion goleuedig.

Mae'r sianel at ddociau Port Talbot wedi'i threillio hefyd, a chaiff ei marcio gan farciau cardinal yn y bae a dau fwi arall. Ceir goleuadau tywys ar y tir yn ogystal â goleuadau ar y morgloddiau. Mae'r harbwr yn harbwr llanw ac mae'n un o'r ychydig rai yn y DU a all dderbyn llongau â thunelledd llwyth o hyd at 170,000 tunnell.

Ar hyn o bryd, mae Dociau Port Talbot yn mewnforio 2.5 miliwn o dunelli o lo a 5.5 miliwn o dunelli o fwyn haearn y flwyddyn ar gyfer y gwaith dur yn ogystal â thrin nwyddau dur, agregau ac at ddibenion diwydiannol eraill.

Ar hyn o bryd, defnyddir Dociau Abertawe, a wasanaethir gan sianel wedi'i threillio yn ACM8 i'r gorllewin, i ymdrin â glo, agregau, llwythi prosiectau arbenigol megis tyrbinau gwynt, mwydion coed, cynhyrchion wedi'u hailgylchu ac at ddibenion diwydiannol eraill.

Ceir sianel wedi'i threllio ger genau Afon Afan. Er nad yw'r dociau'n agored i gychod hwylio, ceir angorfeydd llanw hyd at 0.8km i fyny'r afon, er y dylid osgoi'r aber cul mewn gwyntoedd ffres ar y tir. Mae'r fynedfa i'r gogledd o'r dociau, a daw cychod i mewn gan osgoi'r llongddrylliad a farciwyd gan farc cardinal Stalheim a'r draethell sy'n rhy isel lai na dwy awr cyn ac ar ôl y llanw isel. Mae llithrfa gan y clwb hwylio bach ar y lan ddwyreiniol. Ceir dwy iard gychod fechan hefyd sy'n cynnwys oddeutu 20 o angorfeydd siglo a physt angori yn ogystal â chyfleusterau storio cychod.

Ceir rhywfaint o ddal cimychiaid a chrancod mewn cewyll ger mynedfa dociau Port Talbot. Gosodir cewyll hefyd ar gyfer corgimychiaid. Defnyddir rhwydi gosod ar draethau hefyd, er mwyn dal draenogiaid môr, er enghraifft, yn bennaf i'r de-orllewin. Caiff rhwydi cylchau eu gosod i ddal llysywod. Ceir pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol, ac ar sail hamdden yn achlysurol, gyda'r cewyll cregyn moch i'r de-orllewin allan yn y bae. Ceir pysgota â sân ar y traeth i'r dwyrain, yn ogystal â chasglu cyllyll môr â llaw. Defnyddir gwelyau abwyd melyn ac abwyd llwyd ar gyfer cloddio am abwyd.

Mae maes dympio/dyfroedd sbwriel trwyddedig yng nghanol y bae, yn croesi rhwng ACMau 8 a 9. Fe'i defnyddir ar gyfer y deunydd a dreilliwyd o'r sianel at ddociau Port Talbot.

Mae mordeithiau yn hwylio ar draws y bae o farina Monkstone ac Afon Afan yn bennaf tuag at y Mwmbwls ac o gwmpas arfordir Gŵyr, ond hefyd i'r de ac i'r dwyrain. Mae'r ochr hon i'r bae ychydig yn llai poblogaidd na'r ochr orllewinol gyda morwyr hamdden, ond ceir rhywfaint o bysgotwyr a defnyddwyr achlysurol oddi ar draeth Aberafan. Caiff y traeth hwn gryn dipyn o ddefnydd o ran teithiau undydd, yn bennaf ar gyfer torheulo a nofio a rhywfaint o syrffio, ac mae ansawdd y dŵr ymdrochi'n dda. Caiff ei ategu gan lan y môr sydd wedi'i thirlunio ac sy'n darparu rhywfaint o gysgod.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn ymbellhau oddi wrth yr arfordir yn ardal ogledd-ddwyreiniol Bae Abertawe, gan ddilyn Camlas Tennant. O Dwyni Baglan mae'r llwybr yn gyfochrog ag ymyl y twyni cul ac yna ger lan y môr yn Aberafan, gan fanteisio ar y golygfeydd eang dros y bae tuag at y Mwmbwls ac Abertawe. Yna, mae'n dilyn Afon Afan i'r mewndir er mwyn osgoi'r gwaith dur. Ceir llwybr amgen arall sy'n plethu ar hyd pennau uchaf ac isaf llwyfandir y maes glo. Mae hyn yn

darparu golygfeydd panoramig dros y bae gyda Phort Talbot, y gwaith dur a ffordd brysur yr M4 yn y blaendir.

Mae ochr ddwyreiniol aber Afon Nedd yn boblogaidd i bobl sy'n cerdded, barcudfyrddio a reidio sgrialwyr heb ganiatâd.

Mae patrwm yr aneddiadau yn y gefnwlad i'r gogledd yn cynnwys y dociau a champws newydd y brifysgol gydag unedau masnachol y tu ôl iddynt. I'r dwyrain, saif ystad dai fawr Sandfields ar hen dwyni rhwng y dociau a chymhlethfa enfawr y gwaith dur i'r de ac ardal fasnachol sy'n cynnwys gorsaf bŵer, melin bapur ac unedau eraill ar hen safle cemegion BP Baglan.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ardal hon yn ffurfio rhan ddwyreiniol Bae Abertawe, sy'n gilgant llyfn o'r Mwmbwls yn y Gorllewin hyd at waith dur Margam i'r Dwyrain, gydag aber Afon Nedd yn gwahanu dwy ochr y bae. Mae'r bae'n fawr iawn, ond mae'n teimlo'n rhannol gaeëdig gan fryniau sy'n uwch na 100m Uwch Datwm Ordnans, gyda'r gorwel tonnog yn codi tua chopa Mynydd Cilfái yn y gogledd ac at lwyfandir y maes glo yn y dwyrain y tu hwnt i'r plaen arfordirol ar Fynydd Dinas a Mynydd Brombil.

Y prif ffocysau gweledol yw strwythurau diwydiannol enfawr gweithfeydd dur Port Talbot y tu ôl i ddociau Port Talbot gyda'u craeniau enfawr, sy'n edrych dros yr arfordir. Mae'r gweithfeydd yn olygfa ddynamig sy'n gollwng cymylau enfawr o stêm o bryd i'w gilydd. Maent yn cyferbynnu â maint llai a dyluniad glân y felin bapur fodern i'r gogledd a chymeriad maestrefol gwastad ac undonog ystad Sandfields y tu ôl i draeth Aberafan a rhwng y ddwy ardal ddiwydiannol. Mae ymyl ogleddol y bae wedi'i drawsnewid dros y blynyddoedd diwethaf, gyda depo storio olew wedi'i droi yn gampws Prifysgol Abertawe, a elwir yn gampws y bae. Mae'r campws mawr y tu allan i'r dref, gyda'i Neuadd Fawr glasurol, yn weladwy iawn. Mae Dociau Abertawe i'r gorllewin, sy'n dal i fod yn weithredol, wedi'u diogelu gan wal fôr wedi'i hatgyfnerthu, gyda thyrbinau gwynt, warysau a chraeniau y tu ôl iddynt.

Y traeth tywodlyd, sy'n weladwy iawn pan fo'r llanw'n isel, yw'r arwedd allweddol. Y tu ôl iddo, ceir twyni isel ar bob ochr i aber Afon Nedd. Ceir ardal fawr o dywod lleidiog ger genau'r aber ar bob ochr i'r sianel wedi'i threillio, a nodir gan ei waliau. Rhoddir undod i'r amrywiaeth o orchudd tir ar y gefnwlad gan y traeth ac arwyneb syml, digyffwrdd y bae. Ceir golygfeydd dros y bae, yn bennaf oddi ar Draeth Aberafan draw tuag at y Mwmbwls, ond ni ellir gweld amlinell nodedig y Mwmbwls a'r goleudy o'r ongl hon.

Mae'r rhan hon o'r bae yn agored i brifwyntoedd y de-orllewin, felly gall y dŵr fod yn arw ac ni cheir angorfeydd oni bai am ar gyfer cychod bach ar gwrs Afon Afan. Mae'r mwynlongau mawr a llongau mawr eraill yn docio yn nociau dyfnion y gwaith dur.

Ar yr arfordir a'r dŵr, ceir ymdeimlad amgaeëdig oherwydd y tir uchel cyfagos, yn enwedig Mynydd Cilfái i'r gogledd a Mynydd Dinas a'r bryniau cyfagos i'r dwyrain. Mae'r gwaith dur yn amlwg mewn golygfeydd, ac maent bellach wedi eu hatgyfnerthu'n weledol gan dyrbinau ar Fynydd Brombil a datblygiad solar ar Fynydd Emroch, sy'n golygu bod ffiniau'r datblygiadau masnachol mawr ar y plaen arfordirol yn llai eglur.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd at y môr drwy Draeth Aberafan gyda'i bromenâd, gerddi arfordirol a chaffis. Mae'r traeth yn wastad ac yn ddi-dor, a chaiff lawer iawn o ddefnydd, yn enwedig yn yr haf oherwydd y meysydd parcio cyfleus y tu ôl iddo. Mewn mannau eraill, mae'r traethau a'r twyni yn cael eu defnyddio o bryd i'w gilydd gan gerddwyr, ac mae ganddynt ymdeimlad o bellenigrwydd, er y gellir gweld y seilwaith diwydiannol – yr hen a'r newydd – yn glir, ac yn aml, gellir clywed cerbydau o ffordd uchel yr M4. Serch hynny, wrth edrych allan ar y môr neu dros y bae, mae'r arfordir a'r dŵr yn rhyw fath o ddihangfa rhag y diwydiant a'r strydoedd cyfagos.

Gyda'r nos, mae goleuadau'r gwaith dur, sy'n tynnu sylw at y cymylau o stêm, y dref, ac Abertawe a'r Mwmbwls yn y pellter yn diffinio'r bae tywyll ac yn wrthlen iddo.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden ac yn gwella iechyd a lles drwy'r gwahanol weithgareddau ar draeth Aberafan a thrwy gerdded ar hyd yr arfordir, ac at dreftadaeth naturiol yn

SoDdGA Twyni Crymlyn, twyni eraill, poblogaethau adar hirgoes yn yr aber a llamhidyddion ger dociau Port Talbot ac ar ffurf y traethau a'r golygfeydd dros Fae Abertawe a thuag at y Gŵyr.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**


- Mae'r ardal yn agored i ddifrod gan gynnydd yn lefel y môr a difrifoldeb cynyddol y tywydd oherwydd ardal fawr wastad y plaen arfordirol datblygedig i'r dwyrain, sy'n cynnwys tai a'r gwaith dur, agoredrwydd seilwaith y doc i'r gogledd a'r dwyrain, gyda'r sianeli cysylltiedig sydd wedi'u treillio, a'r systemau twyni.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw dal y llinell ger dociau Abertawe a Phort Talbot, campws newydd y Brifysgol, glan môr Aberafan a gwaith dur Port Talbot er mwyn lliniaru effaith erydiad a chroniant gwaddod drwy darfu ar donnau a diogelu eiddo drwy gynnal amddiffynfeydd presennol a'u hadnewyddu. Mae'r wal fôr a'r llifddorau yn Noc Abertawe yn darparu amddiffyniad. Mae Port Talbot wedi'i hamgylchynu gan dir felly'r loc yw'r unig amddiffyniad. Yn y ddau achos, yr Associated British Ports sy'n berchen arnynt ac sy'n gyfrifol amdanynt. Awdurdodau porthladd Castell-nedd a Phort Talbot sy'n gyfrifol am y sianeli wedi'u treillio. Amcanion tymor hir y CRhT ar hyd arfordir Twyni Baglan a Thwyni

Crymlyn yw gwaith adlinio a reolir i alluogi system y twyni tywod i weithredu'n naturiol gyda chyn lleied o ymyrraeth â phosibl. Gall fod angen gosod amddiffynfeydd eilaidd yn y tymor hwy os ceir perygl o lifogydd i asedau'r gefnwlad, megis yr orsaf bŵer.


- Mae pwysau ymwelwyr yn achosi problem, yn bennaf mewn perthynas â sgrialwyr anawdurdodedig ger aber Afon Nedd a thwyni cyfagos. Mae hyn yn achosi erydiad, diffyg tawelwch ac yn effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr eraill.
- Mae sbwriel ar y traeth a'r tair gollyngfa garthion yn cael effaith ar ansawdd traeth Aberafan.
- Mae Morlyn Llanw Bae Abertawe wedi cael Gorchymyn Caniatâd Datblygu ond mae caniatadau eraill o dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Mae'r datblygiad yn fawr iawn ac yn ymestyn 3.5km i mewn i Fae Abertawe, a byddai'n newid cymeriad Bae Abertawe yn sylweddol pe bai'n cael ei adeiladu. Byddai'r prosesau arfordirol yn cael eu newid yn sgil yr arfordir diwygiedig a llif y dŵr o'r morlyn. Byddai'r dŵr a gronnir ar lefel wahanol i'r dŵr y tu allan gan amlaf. Byddai'r morlyn yn rhannu'r bae yn dair elfen, ac yn cael gwared ar gymeriad eang unedig y traethau llydan ar hyd y lan. Byddai'r amddiffynfeydd meini uchel yn amharu ar y golygfeydd oddi ar yr arfordir a byddai'r ganolfan ymwelwyr alltraeth a'r tyrbinau yn weladwy yn y gorllewin (yn ACM 8). Bwriedir i'r morlyn gael ei ddefnyddio gan nifer o weithgareddau chwaraeon a'r diwylliant dŵr felly bydd y rhan hon o'r bae yn dod yn fwy prysur a byddai gan bobl fynediad i forglawdd sy'n ymestyn allan i'r bae, gan newid ymddangosiad y forwedd. Byddai datblygiad pellach mewn perthynas â'r morlyn llanw yn cael effaith sylweddol iawn ar gymeriad y forwedd a'r defnydd o'r arfordir.
- Dyfodol y gwaith dur sy'n amlwg iawn yn yr ardal ac sy'n wynebu dyfodol ansicr oherwydd economeg y byd.
- Byddai rhagor o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar y bryniau y tu ôl i Bort Talbot yn cael effaith gronnol ar y cefndir hwn, sy'n gadarnhaol fel arall.
- Byddai'r pwysau datblygu yn cynnwys yr Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr ym Mhort Talbot, y Safle Cyflogaeth Strategol ym Maglan, safle strategol defnydd cymysg arfaethedig Coridor Ffordd Fabian a datblygiad parhaus SA1 yn Abertawe.

## Sensitifrwyddau allweddol

| **Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Gwerth Twyni Crymlyn o ran cadwraeth natur.<br><br>Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal ar y môr gyda golygfeydd tuag at y Gŵyr ac Exmoor.<br><br>Cymeriad cynhenid traeth tywodlyd eang Aberafan.<br><br>Yr ymdeimlad o wylltineb ac agoredrwydd ger genau aber Afon Nedd, er gwaethaf agosrwydd datblygiadau.<br><br>Cefndir cryf Mynydd Cilfái a llethrau llwyfandir maes glo De Cymru, megis Mynydd Dinas, sydd heb eu difetha mewn rhannau.<br><br>Golygfeydd tuag at Abertawe a'r Gŵyr oddi ar bromenâd a thraeth Aberafan.<br><br>Mae defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru yn dderbynyddion sensitif. | Amlinell ddiwydiannol ddramatig gwaith dur Port Talbot a chraeniau'r porthladd. Er eu bod yn drawiadol o ran eu maint, gellir dweud hefyd eu bod yn lleihau sensitifrwydd.<br><br>Y tyrbinau ar Fynydd Brombil a'r fferm solar ar Fynydd Emroch.<br><br>Golygfeydd o ddociau Abertawe.<br><br>Defnydd gan longau sy'n mynd a dod o Bort Talbot, Abertawe a Llansawel.<br><br>Yr arfordir syth, isel gyda ffurfiau syml, a chefnwlad wastad.<br><br>Patrwm syml y forwedd. |


Allwedd
Ardaloedd Cymeriad Morwedd
Gweledеdd Cymharol y môr
Isel
Isel-Canolig
Canolig
Canolig-Uchel
Uchel
SCA10
SCA8
SCA9
SCA7
SCA18
SCA16
SCA11
0
2
4
Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017.
Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC
Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017
ACM 9: Bae Abertawe - Dwyrain

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **10** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Aber Afon Nedd** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017.*
*Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 10: Aber Afon Nedd**



*Aber Afon Nedd pan fo'r llanw'n isel o dan bontydd yr M4 a'r A48 wrth edrych tuag at lanfa Bedd y Cawr*


*Aber Afon Nedd wrth edrych tuag at y Felin Bapur gyda glanfeydd adfeiliedig yn y blaendir*


*Cors bori tua'r de*

## Disgrifiad cryno

Mae aber llanw Afon Nedd yn ymestyn o Fae Baglan y tu hwnt i Lansawel a Chastell-nedd. Yn y de, ceir gwastadeddau tywod a thwyni tywod ar y ddwy ochr. Ymhellach i fyny'r afon leidiog ddolennog, mae'r glannau'n cynnwys hen lanfeydd, doc Brunel segur, tir diwydiannol, cors bori wastad a chyrion Castell-nedd. Caiff y lanfa ym Medd y Cawr ei defnyddio hyd heddiw ar gyfer sgrap ac mae Marina Monkstone yn darparu lloches i gychod hamdden. Mae'r gors bori wastad yn wrthgyferbyniad agored i'r tir datblygedig o'i hamgylch ac mae bryniau'r ardal yn gefndir cadarnhaol ar y cyfan. Traphont yr M4 yw'r brif arwedd weledol a synhwyraidd yn y rhannau isaf.

## Nodweddion allweddol

- Mae aber llanw Afon Nedd yn ymestyn o Fae Baglan y tu hwnt i Lansawel a Chastell-nedd.
- Ceir gwastadeddau tywod a thwyni tywod ar ddwy ochr yr aber. Ymhellach i fyny'r afon, mae'r glannau'n cynnwys hen lanfeydd, tir diwydiannol, cors bori wastad a chyrion Castell-nedd.
- Mae Twyni Crymlyn a chwarel Ferryboat Inn yn SoDdGAau.
- Yn y gorffennol, roedd yr aber llanw yn fynedfa i gyfoeth mwynol Cwm Nedd a'r gefnwlad ond mae hefyd wedi bod yn rhwystr o ran teithio rhwng y dwyrain a'r gorllewin.
- Mae'r llwybrau sy'n croesi'r afon wedi eu gwarchod gan gaer Rufeinig a dau gastell canoloesol, un yng Nghastell-nedd. Llwybrau uchel modern yr M4 a'r A48 yw nodweddion gweledol amlycaf yr aber bellach.
- Ar un adeg roedd gan yr aber lawer o lanfeydd a chilfachau a oedd, yn eu tro, yn cysylltu â chamlesi, ac yn fwy diweddar, â rheilffyrdd.
- Caiff y lanfa ym Medd y Cawr ei defnyddio hyd heddiw, yn bennaf ar gyfer sgrap, a'r stori yw bod yr ardal wedi cael ei henwi ar ôl yr arfer o dynnu llongau rhyfel a llongau mawr eraill yn ddarnau yno.
- Dyluniwyd doc Llansawel gan IK Brunel, ac roedd yn safle pwysig ar gyfer allforio glo ond mae'n adfeiliedig erbyn hyn.
- Roedd yr ardal yn adnabyddus ar un adeg am ei lleoliad deniadol gyda'r cyfosodiad rhwng y bryniau coediog a'r dŵr a'r diwydiant cynnar.
- Nid yw'r afon yn harbwr diogel mewn tywydd garw ond mae Marina Monkstone, sy'n cael ei dreillio, mewn man cysgodol a chaiff ei ddefnyddio gan gychod hamdden.
- Caiff llwybr yr arfordir lawer o ddefnydd gan gerddwyr a defnyddwyr eraill gyda'i olygfeydd o Fae Abertawe.
- Traphont yr M4 yw prif arwedd rhan isaf yr aber gyda'i phrysurdeb a'i thraffig swnllyd, ac mae nodweddion eraill yn cynnwys wynebau diwydiannol adfeiliedig neu ddirywiedig, ffensys diogelwch, glanfeydd ac adeileddau creiriol ar ddwy ochr y sianel lanw leidiog.
- Ymhellach i fyny'r afon, mae'r cwm yn troi'n gorsydd a chorsydd pori gwastad ar lan yr afon lanw ddolennog sy'n wrthlen i'r diwydiant, yr aneddiadau trefol a'r ffyrdd prysur cyfagos.
- Mae'r bryniau rhannol goediog yn dal i fod yn gefndir cadarnhaol, ar y cyfan, i'r cwm a'i gymeriad datblygedig.

## Dylanwadau naturiol

Mae aber llanw Afon Nedd yn ymestyn o Fae Baglan y tu hwnt i Lansawel a Chastell-nedd. Gorchuddir y creigwely gwaelodol o gerrig llaid a thywodfaen o Haenau Glo'r Cyfnod Carbonifferaidd Hwyr, creigwely ag iddo streic o'r dwyrain i'r gorllewin, gan rewglai. Mae ffawtiau o'r gogledd i'r de yn rheoli llinell y dyffryn drwy Lansawel gan droi am y gogledd i wynebu o'r dwyrain i'r de yng Nghastell-nedd tua'r gorllewin.

Ceir gwastadeddau a banciau llaid ger yr afon ym Mae Baglan. Mae'r gwaddod yn troi'n fwy bras i lawr yr afon tua'r gwastadeddau, y bariau a'r twyni tywod yn aber yr afon. Y tu ôl i'r rhain ar y ddwy ochr ceir Twyni Crymlyn a Thwyni Baglan. Mae amrediad y llanw'n uchel yn yr aber (<10m) ac mae ynni'r tonnau'n uchel, gyda'r ynni'n chwalu dros yr arglawdd slag cyfyngol.

Mae genau'r aber yn ardal o grynodiant arfordirol, ac yn casglu gwaddodion tywod y llanw a'r arfordir, a thywod a chwythwyd ar y tir, yn ogystal â llaid a ddyddodwyd o'r afon. O ganlyniad, mae angen treillio sianel Baglan o bryd i'w gilydd.

Ar y mewndir, mae llawr gwastad y ceulannau'n cynnwys dyddodion llifwadol arwynebol sy'n cefnogi'r corsydd pori.

Mae Twyni Crymlyn a chwarel Ferryboat Inn yn SoDdGAau. Ceir morfeydd heli ar y tafodau rhwng cefnennau'r twyni tywod cyfochrog sydd ar ongl sgwâr i Afon Nedd. Mae'r twyni'n ennill ar y morfa heli hwn yn y gorllewin. Ceir llaciau twyni gwlyb a choetir corsiog mewn mannau. Defnyddir aber Afon Nedd gan ran o boblogaeth o adar hirgoes bychain sy'n gaeafu ym Mae Abertawe.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r aber llanw hwn wedi bod yn fynedfa i gyfoeth mwynol Cwm Nedd a'r gefnwlad ond mae hefyd wedi bod yn rhwystr o ran teithio rhwng y dwyrain a'r gorllewin.

Ceir coredau yng ngenau'r afon sydd bellach wedi'u llyncu gan Dwyni Crymlyn.

Roedd caer Rufeinig *Nidum* ar y banc gorllewinol yn gwarchod y man croesi isaf ar Afon Nedd, fel y gwnaed gan dri chastell canoloesol, un ohonynt wedi'i ddymchwel i wneud lle ar gyfer yr M4, a leolir ar fryn uwchben Marina Monkstone, un yng nghanol y dref bresennol, a'r trydydd ar ochr arall yr afon, yn agos yn ôl y sôn at y man lle godwyd Abaty Nedd yn ddiweddarach ar gyfer cymuned o fynachod Urdd Savigny, cyn iddynt gael eu hamsugno gan yr urdd fynachaidd Sistersaidd a oedd yn cynyddu'n gyflym o ran niferoedd ym 1147. Mae llwybrau mwy modern dros yr aber yn cynnwys y fferi o dafarn 'Briton', Rheilffordd De Cymru (Rheilffordd y Great Western yn ddiweddarach) a ddyluniwyd gan IK Brunel, a ffyrdd mawr yr 20fed ganrif.

Mae glo wedi'i fwyngloddio a'i allforio yma ers yr 16eg ganrif ond datblygodd yr aber yn dirwedd ddiwydiannol bwysig tua diwedd y 17eg ganrif, gyda datblygiad gweithfeydd copr, a olygai fod angen mewnforio mwyn a chalchfaen.

Ar un adeg roedd yr aber yn cael ei wasanaethu gan lawer o lanfeydd a chilfachau bychain. Ym 1795, cwblhawyd Camlas Castell-nedd, ac fe'i dilynwyd ym 1824 gan Gamlas Abertawe i Aberdulais (Camlas Tennant), Rheilffordd De Cymru ym 1850 a Rheilffordd Bro Morgannwg ym 1851. Mae tystiolaeth o hanes diwydiannol yr ardal yn cynnwys Gwaith Tunplat Melyn (NPRN 302182), a gweithfeydd haearn Abaty Nedd, a oedd, dan reolaeth y Crynwr o haearnfeistr, Joseph Tregelles Price, yn cyflenwi injans morol yn ogystal â chynhyrchion peirianneg eraill i bedwar ban byd. Roeddent yn weithgar o 1799 hyd at oddeutu 1890. Mae hanes mwyngloddio a metelegol yr ardal yn amlwg o'r defnydd o slag i adeiladu'r amddiffynfeydd môr. Dyluniwyd doc Llansawel, a agorodd ym 1861, gan IK Brunel, ac roedd yn safle pwysig o ran allforio glo. Mae tŵr y cronadur a oedd yn pweru giatiau hydrolig y loc yn dal yno. Ym 1875, daeth y peiriannydd a aned yn Ffrainc, Louis Gustave Mouchel, i Lansawel a chyn bo hir roedd ganddo ran mewn nifer o fentrau llwyddiannus. Roedd ei gwmni ymgynghori yn uniongyrchol gyfrifol am gyflwyno fferoconcrit (a elwir hefyd yn 'goncrit cyfnerthedig') i Brydain ac mae'r cwmni'n bodoli hyd heddiw.

Mae llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn dominyddu'r dirwedd, gan gynnwys traphont Cleveland, traphont ddur 17-rhychwant a gwblhawyd ym 1955, ac yn enwedig traphont Castell-nedd ar draffordd yr M4 a adeiladwyd ym 1992-3. Mae pontydd eraill yn cynnwys pont droi ar Reilffordd y Rhondda a Bae Abertawe, a adeiladwyd ym 1892-1894, a ddefnyddir ar gyfer traffig nwyddau.
Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cafodd nifer o hen longau rhyfel eu sgrapio ger y cei yn Llansawel. Er bod rhai ffynonellau yn nodi mai hyn yw tarddiad yr enw 'Bedd y Cawr', mae map o 1830 yn cyfeirio at

'Fedd y Cawr', sy'n cyfeirio yn ôl pob tebyg at garnedd gladdu o'r Oes Efydd.



*Bedd y Cawr – tynnu llongau'n ddarnau (ffynhonnell: Coflein)*

Mae adfeilion trawiadol Abaty Nedd a'r bryniau coediog hardd o amgylch yr afon ger Llansawel wedi tynnu sylw nifer o artistiaid, gyda rhai ohonynt wedi eu swyno gan y gwrthgyferbyniad rhwng yr adfeilion, y dirwedd a'r nodweddion 'modern'. Mae paentiadau gan artistiaid o ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg megis Julius Caesar Ibbetson, John Varley, JMW Turner a William Daniell yn dangos golygfeydd godidog o'r bryniau wedi'u cyfosod gyda'r dŵr a'r cychod.



*Llansawel, Philip James De Loutherbourg (1786 neu 1800).*



*Llansawel, 1814*

O ran mordwyo, nid yw'r afon yn harbwr diogel mewn tywydd garw ond mae Marina Monkstone, sy'n cael ei dreillio, mewn man cysgodol ac mae'n cynnwys nifer fach o angorfeydd. Mae hefyd yn cynnig cyfleusterau storio cychod ac mae llithrfa yno hefyd. Ceir mynediad i'r fan hon drwy giât y sil oddeutu dwyawr cyn ac ar ôl y llanw uchel. Yn yr afon, nid yw'r sianel lanw wedi'i marcio. Yn gyffredinol, mae llongau masnachol yn teithio cyn belled â'r angorfeydd llanw ar yr afon yng nghei Bedd y Cawr yn Llansawel. Fe'u defnyddir yn bennaf ar gyfer nwyddau Tata Steel, gan gynnwys coiliau a sgrap ar gyfer Ewrop. Defnyddir y lanfa hefyd i fewnforio tywod a graean weithiau. Ymhellach i fyny'r afon, defnyddir glanfa Abaty Nedd hefyd ar gyfer metel sgrap yn achlysurol.

Caiff Llwybr Arfordir Cymru lawer o ddefnydd, yn enwedig ar ochr ddeheuol yr aber. Mae'r defnyddwyr yn cynnwys cerddwyr, pobl sy'n rhôl-sglefrio, pobl sy'n cerdded eu cŵn a theuluoedd â choetsis. Mae defnyddwyr gwrthgymdeithasol fel pobl ar sgrialwyr hefyd yn defnyddio'r llwybr i gael mynediad i'r twyni i'r de-orllewin.

Ceir pysgota gwialen hamdden ar ochr ddeheuol yr aber.

Saif gorlifdir yr afon rhwng datblygiadau ar y ddwy ochr gyda diwydiant ar y tir gwastad ger yr afon, ac aneddiadau ar y tir uwch, fel Llansawel a Chastell-nedd.



*Glanfa Bedd y Cawr*



*Edrych ar y mewndir o Gastell-nedd tuag at derfyn uchaf digyffwrdd y llanw a'r gors bori*

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ardal hon yn ymestyn i'r mewndir ar lawr y dyffryn yn aber Afon Nedd, a saif rhwng y bryniau, sy'n uwch tua'r dwyrain, ac felly ceir ymdeimlad cymharol gaeëdig a chysgodol o gymharu â'r ACMau ar y môr. Mae llawr y dyffryn ei hun yn gymharol agored ond caiff y cyrion ger y camlesi a'r dociau eu hamgáu gan goed, tirffurf a strwythurau adeiledig. Mae gan yr afon ystod lanwol a llif cryf felly mae'r banciau lleidiog gweladwy yn agored iawn ac yn creu glannau uchel pan fo'r llanw'n isel. Adeg y gorllanw, mae cors bori'r gorlifdir yn cael ei gorlifo, ac mae hyn yn creu ardal ddramatig, eang o ddŵr sydd wedi'i hamgáu gan y bryniau cyfagos.

Pontydd yr M4 a'r A48 yw'r prif ffocysau ymhell uwchlaw lefel y dŵr, er bod pont droi isel y rheilffordd yn darparu'r ffocws canolog. Mae glanfa Bedd y Cawr, y doc a ddyluniwyd gan Brunel a thŵr y cronadur yn arweddau allweddol y gellir eu gweld o'r lan a'r pontydd cyfagos. Mae'r doc bellach wedi'i lenwi â llaid neu strwythurau pren a cherrig dirywiedig ac yn darparu golygfeydd o ddiffeithdra.

Y prif weithgareddau morol yw'r defnydd ysgafn o'r doc ym Medd y Cawr a'r marina llanw bychan, Marina Monkstone. Defnyddir y gefnwlad at ddibenion diwydiannol/masnachol neu borfeydd corsiog isel iawn gyda sianeli draenio cymhleth sy'n rhoi gwead cryf. Ar wahân i Lwybr Arfordir Cymru, a llwybrau'r gamlas, mae'r ardal yn anodd ei chyrraedd a'i phrofi yn gyffredinol oherwydd diffyg hawliau tramwy cyhoeddus, a thir preifat ac ardaloedd dyfrol wedi'u ffensio, i'w diogelu rhag lladrata a fandaliaeth. Mae hyn, gyda'r ardaloedd diffaith, yn creu ymdeimlad bygythiol.

Mae'r A465 i'r gogledd a'r M4/A48 yn y de yn achosi symudiad a sŵn yn yr ardal. Ar y cyfan, nid oes llawer o dawelwch yn yr ardal ac eithrio'r mannau sydd wedi eu cysgodi rhag y ffyrdd a'r strwythurau diwydiannol. Ceir nifer o elfennau sy'n amharu gan gynnwys yr ardaloedd a'r strwythurau diffaith, yr iard sgrapio ym Medd y Cawr ac adeiladau diwydiannol amrywiol sy'n heneiddio. Mae'r ffyrdd, ardaloedd diwydiannol gweithredol a'r ardaloedd trefol cyfagos yn darparu golau ar lawr cymharol dywyll y dyffryn a'r afon.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden gan wella iechyd a lles drwy Lwybr Arfordir Cymru a hwylio o farina a llithrfa Monkstone, at dreftadaeth artistig/ddiwylliannol o ran doc Brunel a chysylltiad Bedd y Cawr gyda thynnu llongau morwrol yn ddarnau ac at dreftadaeth naturiol drwy SoDdGA y twyni tywod a'r morfa heli.

## Grymoedd dros newid

| Rhinweddau arbennig posibl | Grymoedd allweddol dros newid |
|---|---|
| | |

<table>
<tr><th></th><th>Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd</th><th>Pwysau ymwelwyr</th><th>Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr</th><th>Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau</th><th>Pwysau datblygu</th><th>Newidiad-au rheolaeth tir</th><th>Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn</th></tr>
<tr><td>Harddwch arfordirol/morol</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Golygfeydd o a thuag at y môr a’r tir</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Amrywiaeth y dirwedd/morwedd</td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Ymdeimlad o le</td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb</td><td></td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol</td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth</td><td style="background:#84aedc"></td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td style="background:#84aedc"></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau</td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau diwylliannol cryf</td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Mynediad at yr arfordir neu’r môr</td><td style="background:#84aedc"></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Traethau gwerthfawr</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Allwedd</td><td style="background:#84aedc"></td><td colspan="6">Newid sy’n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig</td></tr>
</table>

**Crynodeb**

Mae’r ardal yn agored i ddifrod gan gynnydd yn lefel y môr o ran cynnydd yn lefel gwely’r afon lanw a’r aber a’r effeithiau cysylltiedig ar asedau adeiledig gan gynnwys glanfeydd/dociau, gorlifo eiddo a’r effaith ar y twyni, y morfa heli a’r corsydd pori arfordirol a fyddai’n cael eu gorlifo ar sail fwyfwy rheolaidd.

Amcanion tymor hir y CRhT yw dal llinell aber Afon Nedd i atal llenwad sydd o bosibl wedi’i halogi rhag cyrraedd yr aber. Awdurdod Porthladd Castell-nedd sy’n gyfrifol am y sianel sy’n cael ei threillio.

Dros amser, mae seilwaith y glanfeydd a’r dociau wedi dirywio oherwydd diffyg defnydd, a all barhau.


Cynigir datblygiad cyflogaeth newydd yn ardal yr hen warysau yn Llansawel ger yr M4.

Gall pori anghyfreithlon ar y morfa heli effeithio ar brosesau rheoli llifogydd.

## Sensitifrwyddau allweddol

| **Ffactorau sy’n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy’n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Yr aber agored, digysgod a’i gymeriad tawel a chymharol anghysbell yn agos i Fae Abertawe. | Presenoldeb yr M4 a’r A48 a’r sŵn a’r golau cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| Y twyni a’r morfeydd heli a’u gwerth o ran cadwraeth natur.<br><br>Doc Brunel a glanfeydd/dociau hanesyddol eraill a’u gwerth o ran treftadaeth.<br><br>Cymeriad fflat, agored y gors bori a’i natur gymharol ddigyffwrdd i’r gogledd o Gastell-nedd.<br><br>Sianel lanw ddolennog gyfnewidiol Afon Nedd, sy’n ennyn diddordeb.<br><br>Defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru a’r twyni. | Presenoldeb dociau, strwythurau diwydiannol a diffeithdra.<br><br>Defnydd anawdurdodedig megis sgrialwyr. |





*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 10: Aber Afon Nedd**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **11** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Margam i Borthcawl** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 11: Margam i Borthcawl**



*Yr olygfa o Drwyn y Sger i'r gogledd tuag at weithfeydd dur Port Talbot a llethr sgarp y maes glo*



*Yr olygfa oddi ar y môr tuag at Dwyni Cynffig a llethr sgarp y maes glo yn y cefndir*



*Y traeth prysur a'r blaendraeth creigiog ym Mae Rest*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ACM hon yn ffurfio rhan dde-ddwyreiniol Bae Abertawe rhwng Margam a Thrwyn Porthcawl gyda thraethau llydan sy'n agored i brifwyntoedd y de-orllewin. Tywod yn bennaf a geir ar lawr y môr, sy'n goleddfu'n raddol, a cheir cyfres o fasleoedd cyfochrog oddi ar y lan, gyda rhai ohonynt yn sychu, a golyga hyn fod mordwyo'n beryglus. Mae Cefnenni Tywod Scarweather yn nodi terfyn allanol yr ardal ac mae ganddynt fast anemomedr a marciau mordwyo. Mae'r arfordir yn gymharol syth ac isel, gydag ardal helaeth iawn o dwyni tywod y tu ôl iddo yng Nghynffig i'r gogledd o Drwyn y Sger. Mae'r twyni wedi'u dynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol, yn ACA ac yn SoDdGA, ac maent hefyd yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Ceir traethau eithaf llydan gyda llwyfannau creigiog y tu ôl iddynt mewn mannau, ac mae Bae Rest yn boblogaidd ar gyfer syrffio. Y prif ffocysau lleol yw'r plasdy anghysbell, Tŷ'r Sger, a'r traeth ym Mhorthcawl, ond ceir golygfeydd eang dros y môr agored a thuag at arfordir de Gŵyr.

## Nodweddion allweddol

- Mae'r ochr o Fae Abertawe sy'n wynebu'r gorllewin, o Fargam i Drwyn Porthcawl, yn goleddfu'n raddol iawn oddi ar y lan, ac mae llawr y môr yn dywodlyd, gyda graean lleidiog i dywodlyd mewn mannau ymhellach oddi ar yr arfordir.
- Mae ynni'r tonnau'n gryf gyda gwyntoedd a thonnau mynychaf o'r de-orllewin ac amrediad llanw uchel.
- Caiff ymyl ddeheuol yr ardal ei diffinio gan Gefnenni Tywod Scarweather, traethell sy'n sychu. Tuag at yr arfordir, ceir Banc Tywod Hugo, sydd hefyd yn sychu, yn ogystal â basleoedd Clytiau Cynffig.
- Golyga'r basleoedd hyn y gall yr ardal fod yn beryglus o ran mordwyo, ac yn gyffredinol, caiff ei hosgoi gan gychod masnachol, er y caiff ei defnyddio gan rai cychod hamdden a chychod pysgota hamdden.
- Mae'r arfordir yn gymharol syth ac isel gyda mannau creigiog Calchfaen bychain megis y Sger a Hutchwns.
- Yn gyffredinol, mae'r traethau'n llydan, gyda llwyfannau creigiog y tu ôl iddynt i'r de o Drwyn y Sger.
- Mae twyni tywod Cynffig a Margam yn ymestyn ymhell i'r mewndir.
- Mae Pwll a Thwyni Tywod Cynffig yn Warchodfa Natur Genedlaethol, ac ynghyd â'r traeth, maent yn ffurfio ACA Cynffig. Ceir dynodiad SoDdGA ar y mewndir.
- Ffurfiwyd y twyni tywod gan gyfres o stormydd yn y Canol Oesoedd, gan orchuddio porthladd Cynffig a'i gastell. Maent yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, gydag eitemau o bob cyfnod wedi'u canfod yma.
- Roedd gan yr arfordir i'r gogledd o Drwyn y Sger enw drwg am suddo llongau. Dwy enghraifft nodweddiadol oedd y *Trevaunance*, sgwner a oedd yn cludo mwyn copr i Abertawe ym 1836, a'r *Samtampa*, llong ryddid, a nodir gan blac ar Lwybr Arfordir Cymru.
- Oddi ar yr arfordir yn ystod yr Ail Ryfel Byd, suddwyd yr oleulong ger Craith y Gorllewin ar ddamwain gan long ysgubo ffrwydron, a chollwyd awyrennau naill ai wrth agosáu at neu wrth esgyn o orsaf Stormy Down gerllaw.
- Datblygodd Porthcawl fel porthladd glo yn y 19eg ganrif, ac mae'r harbwr yno o hyd. Daeth yn gyrchfan boblogaidd i weithwyr De Cymru ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Mae'r prif draeth hygyrch ym Mae Rest, a chaiff lawer iawn o ddefnydd, yn enwedig gan syrffwyr a chorff-fyrddwyr.
- Mae'r rhan hon o'r arfordir yn teimlo'n ddigysgod ac yn agored i brifwyntoedd y de-

orllewin, ac mae ganddi gefnwlad syml ac isel, heb lawer o ddatblygiad.

- Mae'r prif ffocysau gweledol wedi'u gwasgaru ar hyd yr arfordir agored, ac maent yn cynnwys y maenordy unigryw ac anghysbell, Tŷ'r Sger, adeiladau Clwb Golff Brenhinol Porthcawl ychydig ymhellach yn ôl o'r arfordir, a'r adeiladau ar lan y môr ym Mhorthcawl. Gellir gweld gweithfeydd dur Port Talbot i'r gogledd.
- Mae twyni tywod Cynffig, Trwyn y Sger a'r traethau gerllaw yn darparu ardal dawel, agored a ddefnyddir gan rywfaint o gerddwyr i fwynhau'r forwedd naturiol.
- Mae cymeriad cadarnhaol a chydlynol i'r traeth ym Mhorthcawl, gyda phromenâd sydd wedi'i dirlunio, ac mae'n boblogaidd gydag ymwelwyr sy'n mwynhau'r golygfeydd o'r môr.
- Ceir golygfeydd allweddol oddi ar y traethau allan dros y môr a thuag at arfordir deheuol penrhyn Gŵyr ac Exmoor.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r creigwely gwaelodol ar yr ochr o Fae Abertawe sy'n wynebu'r gorllewin, o Fargam i Borthcawl, yn gerrig llaid a thywodfeini o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr sy'n streicio'n fras o'r gorllewin i'r dwyrain, yn bennaf Haenau Glo. O dan y bae gogleddol ym Margam, ceir calchfaen o'r cyfnod Carbonifferaidd Cynnar tua'r de sydd i'w weld ger y lan rhwng Trwyn y Sger a Phorthcawl. Mae creigiau o'r cyfnod Paleosöig Hwyr wedi'u gorchuddio ar draws y Fro gan farl a chalchfeini o'r cyfnod Mesosöig, a cheir gorchudd Cwaternaidd dros ardal helaeth. Yn y bae, mae'r Calchfaen Carbonifferaidd wedi'i orchuddio i raddau helaeth gan farl coch Cerrig Llaid Mercia o'r cyfnod Triasig. Ymhellach i mewn i'r bae, mae'r olyniaeth hon yn ffawtio yn erbyn marl a cherrig llaid o'r cyfnod Jwrasig Cynnar a chaiff ei gwrthbwyso ffawt sy'n fras o'r gogledd i'r de. Gorchuddir y creigwely gan haen denau o waddod Cwaternaidd. Tywod yw'r gwaddod ar lawr y môr yn bennaf, gydag ardaloedd o raean lleidiog i dywodlyd oddi ar yr arfordir.

Mae'r ysgafell forol fas yn goleddfu'n raddol iawn (<1$^{o}$) i'r gorllewin-dde-orllewin i ddyfnder o <20m yn y bae rhwng Porthcawl a'r Mwmbwls. Mae traethellau alltraeth Cefnenni Tywod Scarweather a Banc Tywod Hugo, sy'n fanc symudol, yn ffurfio basleoedd llinellol bas (<10m) a hir (>12 km) sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin oddi ar yr arfordir. Mae'r ysgafelli'n goleddfu'n fwy serth ar yr ochr ddeheuol. Rhwng y basleoedd hyn, caiff y Calchfaen Carbonifferaidd ei amlygu ar wely'r môr.

Mae traethau tywodlyd yn ymestyn o'r arfordir cymharol syth rhwng Traeth Margam a Phorthcawl. Mae'r Calchfaen Carbonifferaidd ag iddo streic o'r dwyrain i'r gorllewin yn ffurfio trwynau bychan a llwyfannau creigiog ger cefn y traethau o Drwyn y Sger i'r de. Mae Twyni Cynffig a Thwyni Margam yn feysydd twyni helaeth y tu ôl i'r traeth o Drwyn y Sger i'r gogledd. Mae Twyni Cynffig wedi'u hamddiffyn gan wal gynnal naturiol o raean, ond maent wedi encilio'n raddol dros y ganrif ddiwethaf. Maent bellach wedi'u sefydlogi drwy reolaeth, ac felly ychydig o waddod a ddaw oddi wrthynt. Mae Afon Cynffig yn llifo rhwng Twyni Margam a Thwyni Chynffig.

Mae ynni'r tonnau'n gryf ar hyd y rhan hon o'r arfordir sy'n agored i wyntoedd a thonnau mynychaf y de-orllewin. Mae'r amrediad llanw uchel (<10m) ac amlygiad i gerhyntau llanw Môr Hafren yn golygu y cludir gwaddod ar hyd yr arfordir i'r ddau gyfeiriad. Mae cylchgerrynt clocwedd Bae Abertawe yn cludo gwaddod mewn daliant yn bennaf o fewn y system, gan arwain at ardaloedd o erydiad a dyddodiad net. Mae prif gerhyntau llanw Môr Hafren yn cludo tywod arfordirol i'r dwyrain. Mae prosesau tonnau'n cludo gwaddod at y basleoedd tywod alltraeth a gerllaw. Mae tywod chwyth ar y tir yn cyfrannu at y twyni, er bod y cyflenwad gwaddod ar y tir yn gyfyngedig. Mae erydiad ac ysgrafelliad tonnau'n effeithio ar y calchfaen.

Mae blaendraethau Traeth Cynffig a Bae Rest yn dywod llyfn morlannol a thywod lleidiog ar y cyfan, ond mae ganddynt arweddau eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys creigiau morlannol ynni uchel ar Drwyn y Sger gyda chrachod y gogledd a malwod môr spp. ar glogfeini a choblau rhynglanwol agored i gymharol agored. Ceir graean morlannol diffrwyth yma hefyd. Mae rhai creigiau morlannol ar Draeth Cynffig hefyd yn gartref i hydroidau, gwymon undydd a malwod môr *littorea* mewn pyllau bas.

Ar ymylon Bae Rest ac i'r de ceir creigiau ymylol morlannol uwch agored iawn i gysgodol iawn. Hefyd, ger Trwyn Hutchwns a Thrwyn Porthcawl, ceir riffiau llyngyr diliau ar greigiau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod, graean morlannol diffrwyth a phocedi bach o dywod.

I'r de o Gynffig, ar ymylon llwyfandir arfordirol y Fro, ceir clogwyni calchfaen isel a llwyfannau creigiog. O dan Dwyni Cynffig, ceir creigwely bas o farl o'r cyfnod Triasig, sy'n esgyn yn raddol tua'r mewndir.

Mae Pwll a Thwyni Cynffig yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r ardal hon, ynghyd â'r traeth, yn ffurfio ACA Cynffig. Mae'r dynodiadau hyn yn gorgyffwrdd â dynodiad SoDdGA Cynffig, sydd hefyd yn ymestyn tua'r mewndir.

Mae gan Gynffig gynefin twyni helaeth iawn gyda merddwr, coetir a phrysgwydd. Mae'r twyni yn wlyb o ganlyniad i glai a llaid amrewlifol gwaelodol, ac mae tegeirian y fign yn tyfu yn eu plith. Mae'r cynefinoedd arfordirol cysylltiedig yn cynnwys ardaloedd rhynglanw o bob un, yn ogystal â chreigiau, morfeydd heli a gwernydd.

Rhwng Cynffig a Phorthcawl, ceir porfa a Chwrs Golff Brenhinol Porthcawl ar y gefnwlad arfordirol sy'n goleddfu'n raddol.


*Promenâd poblogaidd Porthcawl*


*Y promenâd yn ymestyn hyd at y goleudy.*

## Dylanwadau diwylliannol

Yn hanesyddol, mae'r ardal hon o'r môr wedi bod yn beryglus oherwydd y llanw a'r traethellau a'r basleoedd. Roedd enw drwg gan yr arfordir i'r gogledd o Drwyn y Sger gan fod sawl llong wedi suddo yno, gan gynnwys yr *Anne Francis* a suddodd yn yr 16eg ganrif ger Gwely'r Misgl, cyn cael ei hysbeilio. Enghraifft nodweddiadol arall yw'r *Trevaunance*, sgwner bren a adeiladwyd yn Padstow ym 1836, a suddodd wrth gludo llwyth o fwyn copr o Borth Ia i Abertawe. Cafodd y *Samtampa*, llong ryddid a adeiladwyd yn Portland ym 1943, ei dryllio ar Drwyn y Sger ym 1947, a bu farw pob aelod o'r criw, yn ogystal â chriw'r bad achub o'r Mwmbwls a ddaeth i'w hachub. Mae plac gerllaw yn coffáu'r trychineb hwn.

Ceir llongddrylliad goleulong a suddodd ym 1942 ger Craith y Gorllewin, lle'r oedd wedi'i hangori, ar ôl cael ei tharo gan yr *HMS Rosette*, treill-long wedi'i throi'n llong ysgubo ffrwydron. Gwerthwyd yr oleulong newydd olaf ar yr orsaf hon, a archebwyd ym mis Ebrill 1945 ac a adeiladwyd gan Phillip & Son, Dartmouth ym 1947, i'r Musée de Bateau yn Douarnez, lle'i cedwir.

Mae awyrennau hefyd wedi cwympo yn y forwedd hon yn ystod y rhyfel – Fairey Battle a gwympodd ar ddamwain wrth ddynesu at orsaf Stormy Down yng Nghynffig ar 2 Mai 1941 a Whitworth Whitely a gwympodd ar Draeth Cynffig ar ôl esgyn ar 15 Mehefin 1941 - atgof o bresenoldeb cyfagos y Llu Awyr Brenhinol.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir uchel ar un adeg, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw'r dyddodion yn eu lle. Roedd Craith y Gorllewin wedi'i marcio gan oleulong ar un adeg, ond fe'i diddymwyd ym 1989, a gosodwyd bwi marcio goleuedig yn ei lle. Mae'r ardaloedd morol yn cynnwys ardaloedd helaeth o fasleoedd a chlytiau. Ceir gwely cregyn gleision ger Gwely'r Misgl.

Roedd aber Afon Cynffig yn eang iawn ar un adeg, ac mae'r pwll tirgaeëdig, Pwll Cynffig, a phyllau llai i'r gogledd yn dystiolaeth o hynny, a golygai hyn fod gan yr ardal bwysigrwydd strategol a'i galluogodd i ddatblygu fel porthladd. Mae'n bosibl fod Cynffig yn safle caer Rufeinig, ac yn sicr, sefydlwyd y pentref ar safle castell a bwrdeistref ar ddechrau'r 12fed ganrif gan Arglwydd Morgannwg, ond fe'i gorchuddiwyd â thywod o ganlyniad i gyfres o stormydd difrifol yn y Canol Oesoedd. Gelwir y gweddillion a gladdwyd yn 'Pompeii Prydain'. Mae Tŷ'r Sger, maenordy o'r 16eg ganrif ar safle un o blastai Abaty Margam ger Trwyn y Sger, yn arwedd amlwg ac anghysbell.

Saif Twyni Cynffig rhwng y môr a Mynydd Margam i'r gogledd, ac maent wedi cadw eu hedrychiad

nodweddiadol, er gwaethaf y rheilffordd a'r draffordd ar eu hymylon dwyreiniol, sy'n seiliedig ar y Martima ('Heol y Porth'), ffordd Rufeinig a chanoloesol. Mae'r ardal yn cynnwys rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Twyni Merthyr Mawr, Cynffig a Margam. Mae'r ardal yn cynnwys dyddodion mawn pwysig, gydag eitemau o bob cyfnod wedi'u darganfod yma.

Defnyddiwyd Morfa Margam, yn y gefnwlad i'r gogledd, i ddympio slag o'r gwaith dur, a chaiff ei orchuddio/cuddio â thywod i geisio cyd-fynd â'r twyni cyfagos. Defnyddir sgrialwyr anrheoleiddiedig yn yr ardal o bryd i'w gilydd.

Datblygodd Porthcawl, o fewn plwyf hanesyddol y Drenewydd yn Notais, fel porthladd glo pan ddechreuodd Rheilffordd Dyffryn Llynfi a Phorthcawl weithredu o byllau glo Garnlwyd ym 1828. Mae'r harbwr yno o hyd. Ar ddechrau'r 20fed ganrif, roedd Porthcawl, ar ben deheuol y forwedd hon, yn gyrchfan boblogaidd i weithwyr o bob rhan o Dde Cymru o 1918 ymlaen pan gyflwynwyd y gwyliau pythefnos. Mae'r promenâd yn adlewyrchu ei thwf sydyn i fod yn un o gyrchfannau gwyliau mwyaf poblogaidd y wlad ac mae'n dal i fod yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer gwyliau traeth.



*Teulu o'r Cymoedd yn ymweld â Phorthcawl ym 1951 (Geoff Charles)*

Mae'r dref a'i chyffiniau wedi ysbrydoli barddoniaeth. Gwyn Thomas (1913-1981) ar Borthcawl yn 'A Welsh Eye':
*'Sefwch ar ymyl Bae Rest…I'r chwith, ymhell y tu hwnt i'r creaduriaid dirifedi ar dywod Bae Trecco, gellir gweld crych y tir ar ben y clogwyn yn Southerndown lle bu chwalwyr Dwnrhefn yn canlyn eu crefft od. I'r gorllewin, ceir arfordir o fryniau anferth ac awyr dywyll.'*

Golyga'r gyfres o fanciau tywod a basleoedd symudol y gall mordwyo fod yn beryglus. Er enghraifft, mae Banc Tywod Hugo wedi symud 180m dros y blynyddoedd diwethaf. Tuag at y môr, mae'r ardal wedi'i diffinio gan Gefnenni Tywod Scarweather, sy'n sychu mewn mannau, ac sydd wedi'u marcio gan oleuadau a marciau cardinal ger Craith y Gorllewin (gyda Racon), Craith y De a Dwyrain Scarweather. Rhwng Scarweather a'r arfordir, ceir Cefnenni Tywod Hugo, sy'n sychu, a Chlytiau Cynffig a all gyrraedd wyneb y môr pan fo'r llanw'n isel. Cânt eu marcio gan fwi coch goleuedig a marc cardinal goleuedig i'r dwyrain, yn y drefn honno. Ceir geirwyau môr ger Trwyn Hutchwns. Mae llongau masnachol yn tueddu i osgoi'r ardal hon, gan hwylio heibio iddi i'r de a'r gogledd-orllewin.

Ceir pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol ac ar sail hamdden o bryd i'w gilydd yn yr ardal, a chaiff cregyn moch eu dal mewn cewyll yn ardal orllewinol y bae. Defnyddir rhwydi gosod ar draethau hefyd, er mwyn dal draenogiaid môr, er enghraifft. Ceir pysgota â sân ger Cynffig. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod gan longau sy'n osgoi'r basleoedd.

Lleolir parth datblygu fferm wynt Cefnenni Tywod Scarweather Rownd 1 ar y banciau tywod yn rhan orllewinol yr ardal. Mae'r cynlluniau ar gyfer y fferm wynt, a oedd wedi cael caniatâd, wedi'u tynnu'n ôl bellach, ac mae hen fast yr anemomedr wedi'i dynnu i lawr.

Ychydig iawn o ddefnydd a gaiff Traeth Cynffig, ac fe'i defnyddir yn bennaf gan gerddwyr ond hefyd gan gorff-fyrddwyr i'r de-ddwyrain. Mae mynediad i'r rhan ogleddol yn gyfyngedig gan fod Tata Steel yn berchen ar draeth Morfa. Defnyddir y dyfroedd ger y glannau o bryd i'w gilydd i hwylfyrddio a barcudfyrddio, gyda rhywfaint o syrffio. Caiff Bae Rest lawer iawn o ddefnydd, yn bennaf gan syrffwyr (a'r ysgolion syrffio cysylltiedig) a chorff-fyrddwyr, gyda rhywfaint o nofio a

thorheulo. Ceir arforgampau a dringo ar lefelau cymharol isel ger Bae Rest. Ceir pysgota môr oddi ar yr holl draethau.

Defnyddir Twyni Cynffig i wylio bywyd gwyllt, cerdded cŵn ac ar gyfer y defnydd anawdurdodedig o feiciau cwad a sgrialwyr yn y rhan ogleddol. Ymhellach i'r de, ceir Clwb Golff Brenhinol Porthcawl ger Bae Rest ar ben gorllewinol yr ardal hon, sy'n edrych dros y môr. Mae'r promenâd yn cysylltu Bae Rest gyda thref Porthcawl, a cheir gweithgareddau cerdded a seiclo poblogaidd ar hyd y promenâd.

Mae'r unig aneddiadau i'w cael yng nghyrchfan Porthcawl a maenordy ynysig Tŷ'r Sger.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ymdeimlad amgaeëdig a geir ym Mae Abertawe i'r gogledd yn fwy agored yn y forwedd hon, sy'n agored i wynt sy'n chwythu i fyny Môr Hafren o'r de-orllewin a'r gorllewin. Mae'r arfordir eithaf llinol a'r gefnwlad syml hefyd yn llai amgaeëdig, gyda thwyni a chefnwlad arfordirol isel a thonnog. Yn lleol, mae'r tirnodau'n cynnwys y maenordy unigryw ac anghysbell, Tŷ'r Sger, adeiladau Clwb Golff Brenhinol Porthcawl a'r adeiladau ar lan y môr ym Mhorthcawl. Y traeth tywodlyd, sy'n amlwg iawn pan fo'r llanw'n isel, yw'r brif arwedd. Mae Trwyn y Sger, llyfndiroedd tonnau a chyfres o bentiroedd creigiog bach ym Mhorthcawl yn ymrannu'r traeth.

Mae Twyni Cynffig yn fawr ac yn amrywiol, ac maent yn caniatáu i lawer o bobl deimlo ar goll ac wedi'u hamgáu ymhlith y twyni uchel, er bod y prif lwybrau'n cael llawer o ddefnydd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mwynhau'r golygfeydd oddi ar y lan ym Mhorthcawl ac o Fae Rest dros y môr tuag at Exmoor ar ddiwrnodau clir. Mae llai o bobl yn cyrraedd y traeth tawelach i'r gogledd gan fod Twyni Cynffig yn rhwystr. Ceir golygfeydd pell yma draw tuag at Exmoor a phenrhyn Gŵyr a Bae Abertawe, gyda Mynydd Cilfái yn amlwg ar y gorwel.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mwynhau'r forwedd ym Mhorthcawl gyda'i phromenâd sydd wedi'i dirlunio a'r caffis prysur. Mae'r traeth yn gyfyng ac yn dioddef o erydiad, ac er mai un nodwedd yn unig yw'r tarmac a ddefnyddir i fynd i'r afael â hyn, mae'n nodwedd ddifrïol. Gall y traeth syrffio ym Mae Rest fod yn orlawn yn yr haf ond mae'n cynnig arfordir meddalach a hygyrch ar adegau eraill o'r flwyddyn.

Yn y gaeaf, gall stormydd greu distrych a thonnau trawiadol sy'n codi uwchlaw'r morglawdd a'r goleudy ym Mhorthcawl.

Yn y nos, goleuadau Porthcawl yw'r prif ffocws yn yr ardal, er bod y gweithfeydd dur ac Abertawe yn y pellter hefyd yn wrthlen i'r môr.



*Amlinell Twyni Cynffig o'r traeth llydan*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden gan wella iechyd a lles drwy'r gwahanol weithgareddau ar draeth Bae Rest a llwybrau cerdded ar hyd yr arfordir ac o gwmpas twyni Cynffig, at dreftadaeth artistig/ddiwylliannol drwy Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Cynffig ac at dreftadaeth naturiol drwy ACA, SoDdGA a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Pwll a Thwyni Tywod Cynffig, ffurf y traethau a'r golygfeydd o'r Gŵyr.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig |


**Crynodeb**

- Mae'r ardal yn agored i ddifrod gan gynnydd yn lefel y môr a difrifoldeb cynyddol y tywydd o ran effeithiau ar asedau adeiledig megis y morglawdd ac amddiffynfeydd arfordirol eraill, ac ar nodweddion naturiol megis y twyni.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw dal y llinell ger ardal adeiledig Porthcawl drwy gynnal a chadw ac uwchraddio'r amddiffynfeydd presennol. Argymhellir adlinio twyni tywod Cynffig mewn modd rheoledig er mwyn galluogi system y twyni tywod i ymateb ac i esblygu'n naturiol gyda chyn lleied o ymyrraeth â phosibl. Yr amcan ar gyfer yr arfordir rhyngol yw peidio ag ymyrryd er mwyn galluogi'r arfordir i esblygu ac encilio'n naturiol, er na fyddai hyn yn atal cynnal a chadw neu wella amddiffynfeydd presennol ym Mae Rest neu ar faes Clwb Golff Brenhinol Porthcawl.
- Mae pwysau ymwelwyr yn erydu rhinweddau naturiol Bae Rest yn ystod yr haf.
- Mae beiciau cwad a sgrialwyr yn erydu ac yn lleihau llonyddwch y twyni i'r gogledd.
- Byddai datblygu'r morlyn llanw yn cael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd a'r defnydd o'r arfordir.
- Byddai adfywio'r cynlluniau ar gyfer y fferm wynt alltraeth yn Scarweather yn newid cymeriad yr ardal.
- Byddai unrhyw ddatblygiad newydd ar yr arfordir agored yn debygol o fod yn amlwg iawn.

## Sensitifrwyddau allweddol

| **Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Gwerth twyni Cynffig o ran cadwraeth natur a threftadaeth ddiwylliannol.<br>Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd y môr gyda golygfeydd tuag at y Gŵyr, Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br>Cymeriad cynhenid y traethau tywodlyd eang, sy'n wag ar y cyfan.<br>Tawelwch yr ardal ymhellach o Borthcawl.<br>Cymeriad agored yr arfordir, heb fawr ddim arweddau.<br>Canolbwynt nodedig Tŷ'r Sger.<br>Golygfeydd tuag at Arfordir Treftadaeth | Yr arfordir syth ac isel gyda'i ffurfiau syml, a'r gefnwlad wastad.<br>Patrwm syml y forwedd.<br>Golygfeydd eang, a gweithfeydd dur Port Talbot i'r gogledd, sy'n ffactor sylweddol. |

| | |
|---|---|
| Morgannwg ac Exmoor oddi ar y promenâd a'r traethau.<br><br>Maint a chymeriad yr adeiladau ar lan y môr a'r rhodfa sy'n wynebu'r de.<br><br>Mae defnyddwyr y promenâd, gan gynnwys defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru, yn dderbynyddion sensitif. | |




**ACM 11: Margam i Borthcawl**

Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: **12**

Enw Ardal Cymeriad Morwedd: **Porthcawl**




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 12: Porthcawl**



*Yr olygfa o'r promenâd ar hyd Bae Sandy gyda'r ffair yn y cefndir*


*Yr olygfa o'r promenâd yn dangos defnyddwyr dŵr*


*Yr olygfa o'r promenâd tuag at y goleudy a'r morglawdd*

## Disgrifiad cryno

Saif yr ACM rhwng baeau tywodlyd cymharol gysgodol Bae Sandy a Bae Trecco sy'n wynebu'r de ger traethell Gorllewin Nash. Mae'r baeau'n goleddfu'n raddol i'r môr ond mae Craig Fairy, ychydig oddi ar yr arfordir, yn sychu pan fo'r llanw'n isel. Ceir marina bach yn yr harbwr sychu ym Mhorthcawl a chaiff y môr ei ddefnyddio gan gychod hamdden. Mae'r traethau'n boblogaidd iawn ac mae Parc Difyrion Coney a pharc gwyliau mawr iawn Bae Trecco ar y gefnwlad wastad tua'r gogledd. Prif ffocws y golygfeydd yw'r goleudy ar y morglawdd a thuag at Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

## Nodweddion allweddol

- Rhwng Trwyn Porthcawl a Thrwyn Newton, mae Bae Sandy a Bae Trecco yn wynebu'r de ac maent wedi'u hendorri rhwng dau bentir bach o galchfaen Carbonifferaidd.
- Mae'r baeau tywodlyd yn goleddfu'n raddol i'r de-orllewin ac mae ynni'r tonnau ac amrediad y tonnau'n uchel er y caiff y baeau caeëdig eu cysgodi rhag prifwyntoedd a thonnau'r de-orllewin.
- Mae Craig Fairy oddi ar yr arfordir yn sychu mewn ambell lanw ac mae traethell Gorllewin Nash yn ffurfio'r ymyl ddeheuol.
- Golyga'r creigiau a'r traethellau, ynghyd â'r ysgafell o graig sy'n sychu i'r gorllewin o harbwr Porthcawl a'r cerhyntau llanw cryf, y gall mordwyo fod yn beryglus.
- Ceir nifer o longddrylliadau ger y lan yn agos at fynedfa'r harbwr, sef cychod bach yn bennaf.
- Datblygodd Porthcawl yn borthladd glo yn y 19eg ganrif. Daeth yn gyrchfan boblogaidd i weithwyr de Cymru ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Mae'r harbwr yn loc ac yn gwasanaethu cychod pysgota masnachol ac mae'n cynnwys marina bach ar gyfer hyd at 70 cwch a llithrfa.
- Mae'r môr yn boblogaidd ar gyfer cychod hamdden gan gynnwys cychod modur a jet-sgis a ddaw o gyfeiriad yr harbwr ac o lithrfa'r Drenewydd yn Notais i'r dwyrain o'r ardal hon.
- Mae'r traethau'n boblogaidd iawn ar gyfer gweithgareddau traeth cyffredinol ac maent yn brysur iawn fel arfer yn ystod y tymor prysur. Ceir bordhwylio a barcudfyrddio hefyd.
- Y tu ôl i'r traethau ar y gefnwlad wastad, mae Parc Difyrion Coney a safle mawr iawn Parc Gwyliau Bae Trecco (carafannau sefydlog) yn cefnu ar y traeth dwyreiniol.
- Mae gan yr ACM hon gymeriad gwyliau glan môr dwys a phrysur.
- Y prif ffocysau gweledol lleol yw goleudy Porthcawl ar y morglawdd a'r Parc Difyrion.
- Ceir golygfeydd tuag at glogwyni Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r dwyrain a thuag at Exmoor ar ddiwrnodau clir.
- Mae natur ddigysgod, agored a thawel y forwedd yn cynyddu i'r de a'r gorllewin y tu hwnt i'r harbwr a'r traethau

## Dylanwadau naturiol

Rhwng Trwyn Porthcawl a Thrwyn y Drenewydd yn Notais, mae Bae Sandy a Bae Trecco yn wynebu'r de ac maent wedi'u hendorri rhwng dau bentir bach o galchfaen Carbonifferaidd.

Mae'r creigwely alltraeth o dan y môr yn Galchfaen Carbonifferaidd ag iddo streic o'r dwyrain i'r gorllewin, ac uwch ei ben ymhellach i'r de ceir marl a cherrig llaid o'r cyfnod Triasig Hwyr-Jwrasig Cynnar. Mae'r gorchudd gwaddod Cwaternaidd yn raean lleidiog i dywodlyd, a graean, gyda darnau o graig yn y golwg ger Craig Fairy.

Mae'r bae'n goleddfu'n raddol (<1º) i'r de-orllewin, ac yn parhau i fod <15m o ddyfnder i lawr heibio i Draethell Nash. Mae ynni'r tonnau ac amrediad y tonnau'n uchel ar hyd yr arfordir hwn, er y caiff y baeau caeëdig eu cysgodi rhag prifwyntoedd a thonnau'r de-orllewin. Ceir peth cludiant gwaddod ar y tir ar ffurf tywod wedi'i chwythu. Mae cyflymder y cerrynt llanw yn cynyddu tuag at ardal fewnol Môr Hafren (e.e. >2.4 m/eiliad oddi ar Drwyn Nash i'r de). Mae ysgraffelliad tonnau a gwynt yn effeithio ar y pentiroedd calchfaen a'r blaendraethau. Mae'r baeau tywodlyd yn gwbl lanwol.

Saif pentiroedd calchfaen creigiog Trwyn Porthcawl (gyda'r goleudy) a Thrwyn y Drenewydd yn Notais ar bob ochr i'r ddau draeth tywodlyd mawr, Bae Sandy a Bae Trecco, sy'n goleddfu'n raddol ac sy'n cael eu gwahanu gan Drwyn Rhych. Mae'r trwyn hwn yn cynnwys riffiau biogenig llyngyr diliau ar y creigiau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod ac sydd agosaf at y môr. Ceir Fucus spiralis ar greigiau rhynglanwol agored i gymharol agored a chrachod y gogledd a malwod môr spp. ar glogfeini a chreigiau rhynglanwol agored i gymharol agored a gynhelir gan greigiau morlannol o ynni isel. Mae Trwyn y Drenewydd yn Notais i'r dwyrain hefyd yn cynnwys riffiau biogenig llyngyr diliau ar greigiau rhynglanwol a ysgrafellwyd gan dywod.

Y tu ôl i'r traethau, ceir meysydd twyni, sy'n dal i'w gweld y tu ôl i Fae Sandy er bod strwythurau wedi'u hadeiladu arnynt mewn nifer o fannau eraill. Roedd y rhain yn rhan o system dwyni Merthyr Mawr i'r de o'r ardal hon. Mae ffawtiau o'r gogledd i'r de, un ohonynt drwy Drwyn Rhych, yn gwrthbwyso'r olyniaeth sy'n golygu bod Bae Trecco yn cefnu ar glymfeini Triasig coch, a welir mewn rhagfur ar gefn y traeth.

Calchfaen Carbonifferaidd yw'r creigwely ar y tir, gyda ffawtiau yn ei erbyn (ffawt o'r gogledd i'r de) a chlymfeini o ansoddion ymylol o'r cyfnod Triasig Hwyr yn ei orchuddio'n anghydffurfiol. Ceir gorchudd Cwaternaidd anghyson o wynebynnau a chlog-glai tua'r mewndir, a'r system dwyni arfordirol.

Mae'r gefnwlad yn rhan o'r ardal drefol gyda ffurf adeiledig a mannau agored rhyngol. Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.



*Yr harbwr prysur*



*Mynedfa'r harbwr gyda llifddorau newydd*

## Dylanwadau diwylliannol

Datblygodd Porthcawl, ym mhlwyf hanesyddol y Drenewydd yn Notais, fel porthladd glo pan agorwyd Rheilffordd Dyffryn Llynfi a Phorthcawl ym 1828 o byllau glo Garnlwyd. Gellir gweld olion y rheilffordd o hyd, rheilffordd a adeiladwyd gan John Hodgkinson, yr adeiladwr mwyaf cynhyrchiol o ran rheilffyrdd cynnar Cymru; mae llawer o waith hanesyddol y dociau i'w weld, er i'r allforio ddod i ben ym 1898, gan gynnwys warws a oedd yn eiddo i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, ac un o ddau oleudy haearn bwrw sydd ar ôl yng Nghymru. Mae'r Harbwr Allanol wedi'i ailddatblygu

yn farina crefftus bychan.

Mae cyfarwyddiadau hwylio milwrol hanesyddol yn nodi angorfa ar y môr lle gall llongau aros i'r llanw droi mewn tywydd cymedrol. Mae llongddrylliad y sgwner Castle, a suddodd ym 1857, i'w gael rhwng yr angorfa a Chraig Fairy. Fodd bynnag, mae sawl llongddrylliad yn agos at y lan, megis y Tell Tale, y Brothers, y Gordon a'r Edmund ar y tywod ger yr harbwr a'r Henry a'r Dora ger y fynedfa. Roedd y Dora yn frigantîn bren a suddodd ger y morglawdd ym 1869. Roedd yr Edmund yn iôl bren a oedd yn hwylio o Ynysoedd Syllan i Borthcawl ac fe'i hyrddiwyd gan wynt grym 10 ar y tywod ym 1897.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn dir uchel ar un adeg, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw dyddodion yn eu lle.

Daeth Porthcawl yn gyrchfan wyliau leol ym 1918, pan roddwyd gwyliau pythefnos i'r glowyr am y tro cyntaf. Mae Parc Difyrion Coney yn dyddio o 1918, a chredir ei fod wedi cael ei adeiladu i ddiddanu milwyr Americanaidd a oedd yn dychwelyd o'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan fenthyg ei enw gan y parc difyrion ychydig yn fwy o faint ar Ynys Coney.

Y Parc Difyrion fel rhan o 'Gymru Americanaidd' oedd y lleoliad (o 1948 ymlaen) ar gyfer Eisteddfod Glowyr De Cymru ac ar gyfer perfformiad Paul Robeson dros y ffôn i Eisteddfod y Glowyr ym 1957 pan gafodd ei basbort ei ddirymu. Cefnogodd y glowyr yr ymgyrch i Oruchaf Lys yr Unol Daleithiau roi ei basbort yn ôl, a bu'n llwyddiannus y flwyddyn ganlynol.

Mae'r dref a'i chyffiniau wedi ysbrydoli barddoniaeth. Gwyn Thomas (1913-1981) ar Borthcawl yn 'A Welsh Eye':
*'Sefwch ar ymyl Bae Rest…I'r chwith, ymhell y tu hwnt i'r creaduriaid dirifedi ar dywod Bae Trecco, gellir gweld crych y tir ar ben y clogwyn yn Southerndown lle bu chwalwyr Dwnrhefn yn canlyn eu crefft od. I'r gorllewin, ceir arfordir o fryniau anferth ac awyr dywyll.'*

O ran mordwyo, mae'r ardal hon rhwng Traethell Nash a'r arfordir. Y prif beryglon mordwyo cyfagos ar gyfer cychod yw Craig Fairy sydd wedi ei marcio gyda marc cardinal gorllewinol goleuedig â chloch, yr ysgafell o graig sy'n sychu i'r gorllewin o forglawdd Porthcawl a llanw a all gyrraedd 6 not ar ben y morglawdd. Ceir geirwyau môr hefyd oddi ar Drwyn Hutchwns a Chraig Tusker i'r de ddwyrain. Ni ddylid dod i mewn i'r harbwr mewn tywydd gwael, ac nid yw ond yn hygyrch am un awr cyn ac ar ôl llanw uchel. Mae'r morglawdd yn amddiffyn yr harbwr ac fe'i nodir gan oleudy gwyn bach sydd, er nad Trinity House sy'n ei weithredu, yn dal i weithredu fel golau mordwyo. Mae'r harbwr sychu yn fach gyda chapasiti cyfyngedig i ddal cychod bach ac er ei fod wedi'i gysgodi o'r gogledd a'r gorllewin, mae'n dioddef yn sgil ymchwydd y môr os daw'r gwynt o'r de neu'r dwyrain.

Yr orsaf badau achub ger yr harbwr yw'r orsaf brysuraf ond un ar y cyfan yng Nghymru gyda badau wedi eu lansio 73 gwaith yn 2015. Dywedwyd mai hon oedd yr orsaf bad achub brysuraf ar y glannau yng Nghymru.

Mae'r tri chwch pysgota masnachol yn harbwr Porthcawl yn dal amrywiaeth o bysgod gan gynnwys cathod môr, draenogiaid môr a lledod chwithig. Ceir pysgota gwialen a llinell ar raddfa fasnachol a hamdden, yn achlysurol, i'r de. Mae rhwydi traeth, megis ar gyfer draenogiaid môr, hefyd wedi eu defnyddio yn yr ardal. Mae cychod ysgafn sy'n defnyddio treillrwydi estyllod yn osgoi heigiau Traethell Nash.

Mae Traethell Nash i'r de yn ardal dreillio drwyddedig ond ni wneir yn fawr ohoni ar hyn o bryd.

Mae marina bach yr harbwr yn cynnwys 70 o leoedd ac yn llithrfa gyhoeddus sy'n caniatáu i fadau undydd a jet-sgis gael eu lansio. Mae genweirio môr o'r harbwr hefyd yn boblogaidd yma. Mae Bae Trecco a Bae Sandy yn cael eu defnyddio gan lawer i nofio a thorheulo a pheth syrffio, corff-fyrddio a hwylio. Caiff y bae ei ddefnyddio weithiau i fordhwylio a barcudfyrddio. Mae pobl yn genweirio

môr oddi ar y traethau. Mae safle mawr iawn Parc Gwyliau Bae Trecco (carafannau sefydlog) y tu ôl i'r traeth dwyreiniol ac mae'r ffair y tu ôl i Fae Sandy.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Ceir cyferbyniad rhwng yr ymdeimlad braidd yn gaeëdig ger yr arfordir gyda chymeriad syml, digysgod, agored y rhan fwyaf o'r ardal. Mae traethau Bae Sandy a Bae Trecco yn cael eu gwarchod rhag gwynt y gorllewin gan Drwyn Porthcawl. Darperir cysgod ar y mewndir gan y ffair a'r parc carafannau a'r tir gwastad gyda bryniau sy'n codi'n raddol y tu ôl i'r aneddiadau cyfagos. Allan tua'r môr, mae'r ardal yn cael ei gwarchod i raddau gan Draethell Nash sy'n lleihau rhywfaint ar rym y tonnau, yn enwedig o gyfeiriad mwy deheuol. Mae tonnau sy'n torri ar y bar tywod tanddwr pan fo'r llanw'n isel yn ffurfio nodwedd a ffin weledol dymhorol i'r de.

Y nodweddion gweledol allweddol yw'r goleudy ar Drwyn Porthcawl a strwythurau Parc Difyrion (neu ffair) Traeth Coney sy'n rhoi cymeriad gwyliau glan môr dwys a phrysur i'r ardal ar y lan. Mae'r traethau tywodlyd yn boblogaidd iawn ac fel arfer yn llawn, yn enwedig yn ystod y tymor prysur. Er bod gan bobl ddiddordeb yn bennaf yn y cyfleusterau traeth, dŵr a hamdden, ceir golygfeydd o Exmoor ar ddiwrnodau clir, yn ogystal â golygfeydd gwych tuag at glogwyni Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r dwyrain.

Mae parc carafannau Bae Trecco yn fawr, ac ynghyd â'r maes parcio mawr i'r gorllewin, yn amharu. Fodd bynnag, maent yn darparu ar gyfer niferoedd mawr o ymwelwyr i'r atynfa hon ar yr arfordir. Yn y nos, goleuadau'r ffair, y dref a'r goleudy yw'r prif ffocysau.



*Golygfa boblogaidd dros Fae Sandy*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden gan wella iechyd a lles drwy'r gwahanol weithgareddau ar y traeth a'r môr, at dreftadaeth artistig/ddiwylliannol drwy'r harbwr hanesyddol ac adeiladau cysylltiedig ac at dreftadaeth naturiol ar ffurf y traethau a'r golygfeydd o Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| dirwedd/morwedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Ymdeimlad o le | ■ | ■ | | ■ | ■ | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | ■ | | ■ | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | ■ | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | ■ | | | | ■ | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | ■ | | | ■ | | | |
| Traethau gwerthfawr | ■ | | | ■ | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

- Mae'r ACM yn agored i ddifrod gan gynnydd yn lefel y môr a difrifoldeb cynyddol y tywydd o ran effeithiau ar asedau adeiledig megis y morglawdd ac amddiffynfeydd arfordirol eraill ac adeiladau/carafannau ar y gefnwlad wastad.
- Amcanion tymor hir y CRhT yw dal y llinell sy'n gyfagos at ardal adeiledig Porthcawl drwy gynnal a chadw'r amddiffynfeydd presennol a'u hadnewyddu, gan gynnwys estyn amddiffynfeydd dros y twyni tywod gweddilliol ar hyd glannau dwyreiniol Bae'r Drenewydd yn Notais. Mae parc carafannau Bae Trecco mewn perchnogaeth breifat a byddai angen i'r perchnogion ariannu unrhyw amddiffynfeydd arfordirol.
- Mae pwysau ymwelwyr yn erydu nodweddion naturiol y traethau a'r defnydd o gychod swnllyd fel jet-sgis yn amharu ar y tawelwch.
- Byddai datblygu morlyn llanw yn cael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd a'r defnydd o'r arfordir. Byddai ynni'r ffrwd lanw yn cael llai o effaith er y gallai fod angen seilwaith ar y tir.
- Gall echdynnu agregau e.e. o Draethell Nash effeithio ar brosesau arfordirol/tywod ar draethau.
- Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu ardal y marina yn sylweddol i gynnwys adeilad newydd 'eiconig' y tu ôl i'r marina yn 'Cosy Corner' ac ar y maes parcio presennol. Deellir hefyd y gallai'r ffair adael yr ardal a byddai hyn hefyd yn newid ymddangosiad y safle o'r dŵr.

## Sensitifrwyddau allweddol


| **Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal alltraeth gyda golygfeydd o'r Gŵyr, | Presenoldeb parc carafannau mawr, ffair sy'n dirywio a maes parcio a'r golau cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br><br>Cymeriad cynhenid y traethau tywodlyd mawr.<br><br>Golygfeydd tuag at Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac Exmoor o'r promenâd, y morglawdd a'r traethau.<br><br>Amlinell nodweddiadol y goleudy hanesyddol, y morglawdd a'r adeiladau harbwr cysylltiedig.<br><br>Mae defnyddwyr y promenâd yn dderbynyddion sensitif, gan gynnwys defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru. | Nifer yr ymwelwyr yn enwedig ar y traethau.<br><br>Defnydd o jet-sgis a chychod modur swnllyd eraill. |




ACM 12: Porthcawl

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **13** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Traethell Nash** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 13: Traethell Nash**



*Yr olygfa tuag at Draethell Nash o Borthcawl gydag Exmoor yr ochr draw i Fôr Hafren*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ardal hon ychydig oddi ar yr arfordir i'r de o Borthcawl. Mae'n ffurfio rhan orllewinol basle llinellol sy'n llai na 10m o ddyfnder gyda gwely môr o dywod a graean tywodlyd gydag ynni tonnau uchel, weithiau o uchder mwy na'r arfer, a cherhyntau cryf.

## Nodweddion allweddol

- Rhan o fasle llinellol ychydig oddi ar yr arfordir sy'n llai na 10m o ddyfnder ac sydd wedi'i ffurfio o dywod sy'n troi'n raddol yn raean tywodlyd brasach wrth fynd allan i'r môr.
- Agored i ynni tonnau uchel a cherhyntau llanw cryf.
- Yn beryglus i fordwyo.
- Nid oes unrhyw longddrylliadau wedi'u darganfod ond mae llongddrylliadau'n cynnwys llongau masnach arfordirol a arferai hwylio ar hyd Môr Hafren.
- Môr gyda chymeriad unigryw, agored o donnau uwch dros y basle llinellol pan fo'r llanw'n isel, gydag ymdeimlad o wylltineb a chyffro yn yr amodau hyn.
- Y prif arweddau arfordirol yw Porthcawl i'r gogledd, Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r dwyrain ac Exmoor i'r de.
- Caiff tawelwch a natur anghysbell yr ardal eu lleihau gan agosrwydd a chymeriad Porthcawl.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r ACM hon ar ben banc tywod llinellol Traethell Nash ac mae'n fasle <10 m o ddyfnder. Nid yw'r rhan hon o'r basle yn sychu. Mae'r draethell yn ymestyn ac yn culhau rhwn Trwyn Nash a Phorthcawl, yn fras o'r dwyrain i'r gorllewin, gan ddatgelu darnau o wely creigiog y môr yn y rhan ddwyreiniol. Oddi tani, ceir cerrig llaid o'r cyfnod Jwrasig cynnar. Tywod yw'r gwaddod ar wely'r môr, sy'n troi'n raddol yn raean tywodlyd brasach wrth fynd allan i'r môr.

Mae'r basle yn agored i donnau a cherhyntau ynni uchel. Mae gwyntoedd yn cyflymu i'r dwyrain ar hyd Môr Hafren. Ystyrir tonnau'r gwynt yn bwysicach na thonnau ymchwydd wrth gludo gwaddod i draethellau alltraeth, gan erydu gwaddod oddi ar y traethau uchaf a'i gludo allan i'r traethellau. Yn rhan fewnol Môr Hafren, mae cyflymder y cerrynt yn cyfateb i >2.4 m/eiliad o Drwyn Nash i'r dwyrain, ac mae amrediad y llanw yn >10m.

Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.

## Dylanwadau diwylliannol

Gwyddys fod llawer o longau wedi'u dryllio yn yr ardal hon er nad oes safle unrhyw longddrylliad wedi'i ddarganfod. Y llongddrylliad cynharaf a gysylltir â'r ardal yw'r herwlong o Fryste, y *Royal Hunter*, a suddodd yma ar 28 Hydref 1747. Bu farw 110 o ddynion yn y digwyddiad. Bedair blynedd yn ddiweddarach, aeth y llong gaethweision *Indian Prince*, a adeiladwyd yn Lloegr Newydd ym 1739, i helynt yma gyda'i llwyth 'o ddannedd eliffantod, cotwm ac eboni, gyda pheth gwirodydd', a gafodd eu dwyn gan y boblogaeth leol.

Fel arall, mae'r llongddrylliadau a gofnodir yn ymwneud yn bennaf â llongau a oedd yn rhan o fasnach 'dyfroedd y famwlad'. Suddodd y stemar olwyn bren *Frolic*, a adeiladwyd gan John Scott yn Greenock ym 1827 ar Draethell Nash ar 16-17 Mawrth 1831, ar daith o Hwlffordd i Fryste a bu farw'r holl deithwyr a'r criw, ac arweiniodd y digwyddiad hwnnw at adeiladu dau oleudy ar Drwyn Nash i'r dwyrain. Mae'r llongau masnachu arfordirol llai a suddodd yma'n cynnwys y *Shannon Packet*, slŵp bren o Swydd Clare, a suddodd ym mis Hydref 1847. Nid oedd Arglwyddi'r Llynges, hyd yn oed, yn ddiogel rhag peryglon y draethell. Ar 1 Ionawr 1940, wrth gynnal arolygiad o'r *Black Eagle*, cawsant eu tirio, ond llwyddasant ddychwelyd i'r dŵr gyda'r llanw nesaf.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin y bu'r ardal hon yn rhan o orlifdir ar un adeg gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Fodd bynnag, mae gwaith carthu'r Arco Dart yn y rhan hon o'r banc, ynghyd â gweithgarwch llusgrwyd sugno gan longau eraill, wedi cael gwared ar un rhan o bump ohonynt ers y 1920au.

Mae Traethell Nash yn cael ei hosgoi wrth fordwyo. Mae marc cardinal goleuedig â chloch Gorllewin Nash yn nodi ei phen gorllewinol. Mae ardal y banc tywod wedi'i thrwyddedu ar gyfer echdynnu agregau ond daeth hyn i ben yn 2010.

Defnyddir yr ardal gan geufadwyr, sy'n manteisio ar y tonnau mawr a chan bysgotwyr masnachol a hamdden pan fo'r llanw yn addas.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Ni ymwelwyd â'r ardal hon ond astudiwyd y banc tywod o'r arfordir. A hithau ychydig dros 4km oddi ar y lan ar ei phwynt agosaf, bydd yr ardal yn teimlo'n agored iawn, yn syml ac yn ddigysgod. Bydd olion y banc tywod tanddwr, sydd wedi'i dreillio, yn golygu bod tonnau, yn enwedig pan fo'r

llanw'n isel, yn uwch ac yn torri, ac yn arwain at ardal o fôr cythryblus. Mae hyn yn gwahaniaethu'r ardal oddi wrth gymeriad y môr cyfagos, ac yn arwain at deimlad o fygythiad a chyffro. Mae ei rhinweddau'n gwbl ddibynnol ar rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd a thonnau, yn ogystal â gwynt, gyda'r ardal yn agored i wyntoedd o'r gorllewin. Mae tebygolrwydd cryf y ceir ymdeimlad o wylltineb yma.

Bydd cysylltiad gweledol o hyd gyda'r arfordir. Byddai'r adeiladau ym Mhorthcawl yn weladwy iawn ac mae llinell y draethell yn denu'r llygad i'r dwyrain tuag at Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

Bydd nifer y crefftau hamdden yn is o ganlyniad i'r peryglon er y bydd ceufadwyr dewr yn herio'r tonnau o bryd i'w gilydd a chychod pysgota undydd gerllaw. Yn achlysurol, gellir gweld llongau masnachol yn defnyddio'r môr-lwybrau ar hyd Môr Hafren i'r de.

Yn y nos, y prif ffocysau fyddai goleuadau'r ffair ym Mhorthcawl, y dref a'r goleudy, ynghyd â goleudy Trwyn Nash i'r dwyrain.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol ddigyffwrdd o fôr a gwely'r môr, gan gyfrannu at olygfeydd di-dor o'r arfordir dros Fôr Hafren tuag at Exmoor. Mae'n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden drwy greu amodau ar gyfer pysgota môr o'i chwmpas. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltiad â natur.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig |

**Crynodeb**

Mae'r ACM yn agored i ddifrifoldeb cynyddol y tywydd o ran ei lleoliad a'i chymeriad fel bar tywod llinellol oddi ar y môr, sy'n amddiffyn yr arfordir i'r gogledd yn rhannol rhag erydiad.


Yn y gorffennol, Traethell Nash oedd un o'r prif ardaloedd ar gyfer treillio tywod. Er bod trwydded ar gael i dreillio pen gorllewinol Traethell Nash, daeth y treillio i ben yn 2010.

Byddai datblygiad posibl y morlyn llanw yn cael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd, yn amgáu'r môr ac yn effeithio ar yr ardal leol a golygfeydd o Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Byddai ynni'r ffrwd lanw yn debygol o gael llai o effaith.

Byddai fferm wynt alltraeth yn ardal drwyddedig Rownd 3 Môr Hafren yn y de-orllewin yn newid yr ymdeimlad o fod yn anghysbell a byddai'n amharu ar olygfeydd allan i'r môr ac yn eu rhwystro.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Cymeriad agored, digysgod a digyffwrdd yr ardal alltraeth gyda golygfeydd o'r Gŵyr, Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br><br>Mae'n rhan o leoliad agored Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r dwyrain sy'n cyfrannu at gymeriad morol naturiol yr ardal sy'n ddigyffwrdd i bob pwrpas.<br><br>Mae defnyddwyr Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Llwybr Arfordir Cymru a'r promenâd ym Mhorthcawl yn dderbynyddion sensitif. | Presenoldeb datblygiadau ym Mhorthcawl a'r golau cysylltiedig.<br><br>Defnydd achlysurol o jet-sgis a chychod modur swnllyd eraill. |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC


Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 13: Traethell Nash**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **14** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Môr Hafren – de-ddwyrain** |




**ACM 14: Môr Hafren – De-Ddwyrain**



*Yr olygfa o'r môr ger Porthcawl wrth edrych tuag at Exmoor*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ardal hon oddi ar yr arfordir yng nghanol Môr Hafren. Mae o ddyfnder canolig ac yn goleddfu o 20m i 30m o ddyfnder ar greigwely ag ynni tonnau uchel, a chaiff ei sgwrio gan gerhyntau cryf.

## Nodweddion allweddol

- Môr agored yng nghanol Môr Hafren o ddyfnder canolig rhwng 20m a 30m ar greigwely o

garreg laid.

- Ynni tonnau uchel a cherhyntau llanw cryf fel arfer, sy'n sgwrio gwaddod oddi ar wely'r môr.
- Rhan o forffordd Môr Hafren ac roedd yn arfer bod yn ardal batrolio i longau peilot.
- Ymysg y llongddrylliadau mae rhai a oedd yn teithio o Gasnewydd, i'r dwyrain.
- Môr helaeth â nodweddion syml, agored a nodweddir gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd, gydag ymdeimlad o bellenigrwydd, sy'n cynyddu wrth fynd tua'r de.
- Mae'n cyfrannu at olygfeydd o'r môr agored o Borthcawl ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.
- Y prif arweddau arfordirol gweladwy yw Cefn Bryn i'r gogledd-orllewin, llwyfandir maes glo de Cymru i'r gogledd, Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r gogledd-ddwyrain ac Exmoor i'r de.
- Bydd llongau masnachol yn tarfu ar y tawelwch.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r ardal hon yng nghanol Môr Hafren i'r de o Draethell Nash. Mae'n goleddfu ychydig (<1°) tua'r de i ddyfnder o 20-30m, ac oddi tani ceir cerrig llaid o'r cyfnod Jwrasig Cynnar ag iddynt streic, yn fras, o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae'r ffawtiau yn y creigwely hefyd yn ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae cerhyntau llanw cryfion ym Môr Hafren yn sgwrio'r gwaddod graean oddi ar yr wyneb, gan amlygu ardaloedd o greigwely ar wely'r môr. Mae'r cerhyntau hyn yn cyflymu wrth i'r tonnau agosáu at Afon Hafren. Mae ynni'r tonnau ac ynni gwynt yn uchel yn ardal fewnol Môr Hafren (>2.4 m/eiliad ger Traethell Nash). Caiff gwaddod ei gludo i'r dwyrain gan donnau a cherhyntau llanw ger y draethlin, a thua'r gorllewin yn ardal fewnol Môr Hafren. Prif ffynhonnell y gwaddod yw ailweithio gwaddodion Cwaternaidd alltraeth.

Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae Môr Hafren yn darparu morffordd i Dde Cymru ac i Gernyw a Dyfnaint, ac mae Afon Hafren ac Afon Avon yn llifo i mewn i'r môr hwn. Mae ganddo gysylltiadau cryf â llwybrau masnach morwrol gorllewin Prydain ers Cynhanes. Mae'r ardal cymeriad yn cwmpasu'r prif lwybr ar gyfer llongau sy'n hwylio dros Fôr Hafren i'r cefnfor agored, ac i'r gwrthwyneb, o'r cefnfor i Gaerdydd neu Fryste. Ar un adeg bu cryn dipyn o fasnachu glo a mwynau dros Fôr Hafren hefyd gyda gogledd Dyfnaint a Chernyw.

Yr unig longddrylliad y credir ei fod yn gysylltiedig â'r forwedd hon (er nad yw'r lleoliad wedi'i gadarnhau) yw'r *Batavia*, agerlong â chorff haearn a adeiladwyd ym 1872. Pan ddrylliwyd y llong, W Reeth o Antwerp a oedd yn berchen arni ac fe'i cofrestrwyd yn y porthladd hwnnw. Roedd yn cludo llwyth o lo o Gasnewydd i Antwerp pan suddodd 7 milltir i'r gogledd o Foreland Point.

Roedd hon yn ardal batrolio boblogaidd ar gyfer Llongau Peilot Môr Hafren, llongau cyflym a hawdd eu llywio a allai gael eu hwylio gan griw o ddau, a fyddai'n aros yn yr ardal hon i ymuno â llong a oedd yn chwilio am beilot.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod gan yr ardal hon dirwedd eithaf nodweddiadol o hen sianeli ar un adeg, ond ychydig o ddyddodion gyda photensial archaeolegol sydd wedi goroesi.

O ran mordwyo, mae llif y llanw yn sylweddol yn yr ardal hon o fôr agored o ddyfnder cymedrol yng nghanol Môr Hafren, ond nid oes unrhyw gyfyngiadau ar fordwyo ar waith yma.

Mae'r ardal y tu allan i'r terfyn 6 milltir, felly ychydig yn unig o ddefnydd o dreillrwydi estyllod a llongau pysgota gwialen ar sail fasnachol a geir yma. Fe'i defnyddir gan longau hwylio a llongau modur er mwyn osgoi Traethell Nash i'r gogledd.

Mae pegwn gorllewinol yr ardal hon wedi'i drwyddedu fel rhan o barth datblygu fferm wynt alltraeth Rownd 3 Môr Hafren. Mae'r cynlluniau ar gyfer fferm wynt Atlantic Array, a gynigiwyd mewn rhan o'r parth cyffredinol, sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ACM hon, wedi eu tynnu'n ôl.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Ni ymwelwyd â'r ardal hon. Mae'n ymestyn i ganol Môr Hafren i'r de-orllewin o Arfordir Treftadaeth

Morgannwg, oddeutu 17km allan i'r môr. Mae ei lleoliad yng nghanol Môr Hafren yn golygu y bydd yn cael ei dylanwadu gan y tir o'r ddwy ochr. Y prif arweddau yw Cefn Bryn i'r gogledd-orllewin, llwyfandir y maes glo i'r gogledd ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r gogledd-ddwyrain, ond y mwyaf amlwg yw Exmoor i'r de, oherwydd ei uchder. O bellter, bydd y tir ar ddwy ochr Môr Hafren yn edrych fel llinell isel un dimensiwn ar y gorwel gyda lliwiau syml.

Mae gan y môr gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa helaeth ac mae ganddo ymdeimlad o agoredrwydd ac arwahanrwydd. Mae ei rinweddau'n cael eu pennu'n llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae Môr Hafren yn culhau yma ac mae llif y llanw yn gryf iawn. Ynghyd â bod yn agored i wyntoedd o'r de-orllewin, mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol ac yn waeth mewn tywydd gwael. Ceir tebygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.

Caiff cychod hamdden eu defnyddio'n achlysurol yma er mwyn osgoi Traethell Nash i'r gogledd a gellir gweld llawer o longau masnachol yn yr ardal hon, neu i'r de gan amlaf.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol ddigyffwrdd o fôr a gwely'r môr, gan gyfrannu at olygfeydd di-dor o'r arfordir dros Fôr Hafren tuag at Exmoor. Mae'n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden gan y'i defnyddir i fordeithio/hwylio. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltiad â natur.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |


| | | |
|---|---|---|
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig |

**Crynodeb**

- Cerhyntau llanw yn cludo gwaddod ym Môr Hafren.
- Byddai'r posibilrwydd o ynni'r llanw yn debygol o effeithio ar gymeriad yr ardal drwy gyflwyno seilwaith i'r ardal h.y. tyrbinau ar wely'r môr.
- Byddai datblygiad posibl y morlyn llanw i'r gogledd yn cael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd, gan effeithio ar y golygfeydd o ac oddi ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac o Borthcawl a'r arfordir cysylltiedig.
- Byddai fferm wynt alltraeth yn ardal drwyddedig Rownd 3 Môr Hafren yn newid yr ymdeimlad pellennig ac yn effeithio ar y golygfeydd tua'r gorllewin, dros y môr ac o bosibl yn amharu ar y golygfeydd o Ynys Wair.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Cymeriad agored, gwyllt, digyffwrdd yr ardal gyda golygfeydd o'r Gŵyr, Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br>Mae'n rhan o leoliad agored Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r gogledd-ddwyrain/dwyrain ac yn cyfrannu at natur forol naturiol ddigyffwrdd yr ardal.<br>Mae defnyddwyr Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Llwybr Arfordir Cymru a'r promenâd ym Mhorthcawl yn dderbynyddion sensitif. | Defnydd gan longau. |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe. Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 14: Môr Hafren – De-Ddwyrain**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **15** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Môr Hafren – dwyrain** |




**ACM 15: Môr Hafren – Dwyrain**



*Yr olygfa dros yr ardal o ACM11 heibio i fast monitro Cefnenni Tywod Scarweather, sydd bellach wedi ei dynnu i lawr.*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ardal hon ar y môr i'r de o Gefnenni Tywod Scarweather, ac yn ymestyn i ganol Môr Hafren. Mae o ddyfnder canolig, gan oleddfu o 15m i 30m, ac mae gwely'r môr yn raean a graean tywodlyd ag ynni tonnau uchel a cherhyntau cryf.

## Nodweddion allweddol

- Môr agored, sy'n ymestyn i'r de o Gefnenni Tywod Scarweather a Gorllewin Nash tuag at ganol Môr Hafren, o ddyfnder canolig o 15m i 30m ar wely môr o raean a graean tywodlyd.
- Mae ynni'r tonnau, sy'n gyffredinol uchel, a'r cerhyntau llanw cryfion yn cludo gwaddod bras i gyfeiriad y dwyrain yn bennaf.
- Rhan o forffordd Môr Hafren.
- Ymysg y llongddrylliadau, ceir rhai a fu'n rhan o'r fasnach galchfaen o Aberddawan i'r dwyrain.
- Môr mawr â nodweddion syml, agored a nodweddir gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd, gydag ymdeimlad o bellenigrwydd, sy'n cynyddu tua'r de.
- Mae'r ardal yn cyfrannu at olygfeydd o'r môr agored o Borthcawl ac Arfordir Treftadaeth Bro Morgannwg.
- Golygfeydd o Ynys Wair i'r de-orllewin.
- Y prif arweddau arfordirol gweladwy yw Cefn Bryn i'r gogledd-orllewin, llwyfandir maes glo De Cymru i'r gogledd, Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r gogledd-ddwyrain ac Exmoor i'r de.
- Caiff llonyddwch ei leihau gan longau masnachol.

## Dylanwadau naturiol

Ar y môr ger Cefnenni Tywod Scarweather a Gorllewin Nash, mae'r ysgafell yn goleddfu'n raddol (<1°) i'r de-orllewin, ~15-30m o ddyfnder. Mae creigwely gwaelodol gwely'r môr yn gerrig llaid o'r cyfnod Jwrasig Cynnar sy'n streicio'n fras o'r gorllewin i'r dwyrain, wedi'u torri gan ffawtiau. Mae'r gwaddod môr gorchuddiol yn raean a graean tywodlyd. Mae ynni'r tonnau'n uchel yn yr ardal, ac mae'n agored i wyntoedd a tonnau mynychaf y de-orllewin, ac mae amrediad y llanw'n uchel (>10m). Mae cerhyntau llanw cryf yn cludo'r gwaddod mwy bras yn bennaf tua'r dwyrain, ac fe'i cludir mewn daliant a thrwy dyniant.

Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ACM hon wedi'i lleoli yn y rhan o Fôr Hafren sy'n darparu'r forffordd i Dde Cymru ac i Gernyw a Dyfnaint, ac mae Afon Hafren ac Afon Avon yn llifo i mewn i'r môr hwn. Mae ganddo gysylltiadau cryf â llwybrau masnach morwrol gorllewin Prydain ers Cynhanes. Mae rhan ogleddol yr ardal cymeriad yn cynnwys y forffordd sy'n pasio heibio i ochr ddeheuol Cefnenni Tywod Scarweather wrth iddynt agor allan tua'r môr.

Mae'r llongddrylliadau a gofnodir yn yr ardal yn cynnwys y *Sir William Molesworth*, bad neu fadlong hwylio pren a adeiladwyd gan Withel yn Padstow ym 1850 a'i chofrestru yno cyn ei throsglwyddo i Gaerdydd, a'r *Ann Maria*, bad hwylio pren 31 tunnell a adeiladwyd ym 1843, a suddodd ym 1889, ac roedd y ddwy ohonynt yn rhan o fasnach galchfaen Aberddawan. Mae calch Aberddawan yn enwog am ei fod yn caledu o dan ddŵr, sy'n hanfodol wrth weithio ar harbwr neu oleudy. Roedd y *Millbay*, sgwner bren a adeiladwyd ym 1833 yn Plymouth, wedi dod o bell ac yn eiddo i Patrick Christopher o Dungarvan pan suddodd ym 1882.

Caiff Môr Hafren fwy a mwy o gydnabyddiaeth fel morwedd â chryn botensial mewn perthynas â dealltwriaeth o gynhanes ac esblygiad ardaloedd sydd bellach o dan ddŵr ers yr Oes Iâ ddiwethaf. Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon yn orlifdir ar un adeg, gyda hen sianel afon i'r dwyrain, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi, ond gyda phoced o botensial uchel. Lle bo modd, dylid cadw'r dyddodion yn eu lle.

O ran mordwyo, mae hon yn ardal o fôr agored o ddyfnder cymedrol sy'n ymestyn tuag at ganol Môr Hafren. O'r herwydd, mae rhai cyfyngiadau ar fordwyo ar waith yma heblaw am lif y llanw, er y ceir geirwyau môr i'r de o Draethell Nash sydd wedi'u marcio gan farc cardinal Gorllewin Nash. I'r gogledd, mae'r ardal yn ffinio â Chefnenni Tywod Scarweather, sy'n sychu mewn mannau ac sydd wedi'u marcio gan farciau cardinal a goleuadau ger Craith y Gorllewin (gyda Racon), Craith y De a Dwyrain Scarweather.

Saif yr ardal ar bob ochr i'r terfyn 6 milltir, a rhywfaint yn unig o ddefnydd o dreillrwydi estyllod gwialen a llinell ar sail fasnachol a geir yma. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys draenogiaid môr yn benodol, gyda chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf. Defnyddir llinellau hirion hefyd, a defnyddir cewyll i ddal cregyn moch yn y gorllewin. Ceir pysgota gwialen a llinell ar sail hamdden o bryd i'w gilydd hefyd.

Defnyddir yr ardal ‘alltraeth’ hon gan gychod hwylio a chychod modur i fordeithio.

Mae’r rhan dde-orllewinol wedi’i thrwyddedu fel rhan o barth datblygu fferm wynt alltraeth Rownd 3 Môr Hafren. Mae’r cynlluniau ar gyfer fferm wynt Atlantic Array, a gynigiwyd mewn rhan o’r parth cyffredinol, sy’n ymestyn y tu hwnt i’r ACM hon, wedi eu tynnu’n ôl.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Ni ymwelwyd â’r ardal hon. Mae’n ymestyn i ganol Môr Hafren o oddeutu 5km i’r de-ddwyrain o Borthcawl ar y pwynt agosaf i oddeutu 16km oddi ar yr arfordir, ac felly disgwylir y byddai dylanwad yr arfordir yn amrywio. Yn agosach at yr arfordir, caiff y tir rywfaint o ddylanwad, sy’n lleihau ymhellach allan ar y môr hyd nes mai mewn tywydd cliriach yn unig y bydd y tir uwch i’w weld. Y prif arweddau gweladwy fydd Cefn Bryn i’r gogledd-orllewin, llwyfandir y maes glo i’r gogledd-ddwyrain, Arfordir Treftadaeth Bro Morgannwg i’r gogledd-ddwyrain ac arfordir Exmoor i’r de. O bellter, bydd y tir ar bob ochr i Fôr Hafren yn edrych fel llinell isel un dimensiwn ar y gorwel gyda lliwiau syml. Ceir golygfeydd i’r de-orllewin tuag at Ynys Wair mewn tywydd clir.

Mae gan y môr mawr gymeriad syml, cyson ac unedig ac ymdeimlad agored, ynysig a digysgod. Mae ei rinweddau’n cael eu pennu’n llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae’r ardal yn agored i wyntoedd y de-orllewin, ac mewn tywydd gwael, mae’r môr yn debygol o deimlo’n fygythiol. Ceir tebygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd ar y môr agored hwn.

Ceir cychod hamdden achlysurol sy’n osgoi Traethell Nash i’r dwyrain, a gellir gweld llawer o longau masnachol yn hwylio ar Fôr Hafren, yn bennaf i’r de a’r gorllewin.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae’r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol ddigyffwrdd o fôr a gwely’r môr, gan gyfrannu at olygfeydd di-dor o’r arfordir dros Fôr Hafren tuag at Exmoor. Mae’n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden gan y’i defnyddir i fordeithio/hwylio. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltiad â natur.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a’r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

Cludiant gwaddodion gan gerhyntau llanw ym Môr Hafren.


Byddai datblygiad posibl y morlyn llanw yn cael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd, gan amgáu'r môr ac effeithio ar yr ardal leol a golygfeydd o ac oddi ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac o Borthcawl a'r arfordir cysylltiedig.

Byddai'r posibilrwydd o ynni'r llanw yn debygol o effeithio ar gymeriad yr ardal drwy gyflwyno seilwaith i'r ardal h.y. tyrbinau ar wely'r môr.

Byddai fferm wynt alltraeth yn ardal drwyddedig Rownd 3 Môr Hafren yn newid yr ymdeimlad pellennig ac yn effeithio ar y golygfeydd o Ynys Wair.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Cymeriad agored, gwyllt, digyffwrdd yr ardal gyda golygfeydd o'r Gŵyr, Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br><br>Mae'n rhan o leoliad agored Arfordir Treftadaeth Morgannwg i'r dwyrain ac yn cyfrannu at natur forol naturiol ddigyffwrdd yr ardal.<br><br>Mae defnyddwyr Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Llwybr Arfordir Cymru a'r promenâd ym Mhorthcawl yn dderbynyddion sensitif. | Defnydd achlysurol gan longau. |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 15: Môr Hafren – Dwyrain**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | 16 |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Canol Bae Abertawe** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 16: Canol Bae Abertawe**



*Golygfa o Fae Abertawe gyda Mynydd Cilfái yn gefndir cryf, ac mae Tŵr Meridian yn arwedd amlwg.*

## Disgrifiad cryno

Môr agored i'r de o Fae Abertawe yw'r ACM hon, gyda dŵr o ddyfnder canolig rhwng 15m ac 20m, ar wely môr o dywod gweddol raeanog yn y de sy'n troi'n dywod lleidiog yn y gogledd. Caiff yr ardal ei defnyddio gan gychod masnachol a chychod hamdden wrth nesáu at borthladdoedd Abertawe, Port Talbot a Chastell-nedd. Ceir maes dympio/dyfroedd sbwriel trwyddedig yng nghanol yr ardal.

## Nodweddion allweddol

- Môr agored sy'n ymestyn i'r de o Fae Abertawe gyda dŵr o ddyfnder canolig rhwng 15m ac 20m, sy'n mynd ychydig yn fwy bas tuag at Sarn White Oyster yn rhan orllewinol yr ardal, ar wely môr o dywod gweddol raeanog yn y de sy'n troi'n dywod lleidiog tua'r gogledd.
- Mae Sarn White Oyster yn goleddfu i mewn i'r ACM o'r gogledd-orllewin.
- Ynni tonnau canolig, ond mae cerhyntau llanw cryf yn cadw gwaddod mewn daliant.
- Ceir llongddrylliadau sy'n gysylltiedig â'r fasnach ag Abertawe yn ogystal â'r fasnach ar hyd Môr Hafren, megis y llong beilot, y *David*.
- Mae'r ardal yn rhan o'r fynedfa i Fae Abertawe a'i borthladdoedd amrywiol, ac felly mae'n cynnwys cymysgedd o gychod masnachol a hamdden.
- Môr mawr â nodweddion syml, agored a nodweddir gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd, gydag ymdeimlad anghysbell, sy'n cynyddu i'r de a'r gorllewin.
- Mae'n cyfrannu at olygfeydd o'r môr agored o Fae Abertawe a de Gŵyr.
- Y prif arweddau arfordirol gweladwy yw Cefn Bryn a chlogwyni i'r gogledd-orllewin, Abertawe a'i bryniau adeiledig i'r gogledd a llwyfandir y maes glo i'r gogledd-ddwyrain ynghyd â gweithfeydd dur Port Talbot.
- Ceir ymdeimlad cryf o lonyddwch, ond caiff ei leihau gan ddatblygiadau gweladwy ar yr arfordir.

## Dylanwadau naturiol

Saif yr ardal hon i'r gogledd-orllewin o Gefnenni Tywod Scarweather lle mae'r ysgafell yn goleddfu'n raddol (<1$^{o}$) i'r de-orllewin o ddyfnder o 15-20m. Mae'r creigwely gwaelodol o gerrig llaid o'r cyfnod Carbonifferaidd Hwyr yn streicio'n fras o'r gorllewin i'r dwyrain, ac fe'i gorchuddir gan farl/calchfaen a cherrig llaid o'r cyfnod Jwrasig. Mae'r gwaddod gorchuddiol yn mynd yn fwy mân tuag at Fae Abertawe i'r gogledd wrth i'r tywod gweddol raeanog droi'n dywod lleidiog. Mae ynni'r tonnau yn ganolig, ond yn uwch tua'r dwyrain. Mae'r cerhyntau llanw a'r amrediad llanw uchel yn cadw gwaddod mewn daliant. Gall stormydd gludo gwaddod o rannau allanol y bae tuag at yr ochr ddwyreiniol, lle caiff ei ailweithio gan brosesau'r glannau a phrosesau arfordirol. Mae Sarn White Oyster yn goleddfu o'r gogledd-orllewin i mewn i'r ACM.

Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ACM wedi'i lleoli ar ddynesfeydd Bae Abertawe a genau Afon Tawe, Afon Nedd, Afon Afan ac Afon Cynffig. O'r herwydd, mae'r ardal wedi bod yn rhan o'r llwybr masnach rhwng De Cymru a Chernyw a gogledd Dyfnaint ers amser maith, felly ceir llongddrylliadau yma hefyd.

Un o'r llongddrylliadau yw'r *David*, llong beilot a adeiladwyd gan J & J Hooper yn Pill ym 1872 a'i chofrestru yng Nghaerdydd ym 1882, a suddodd ar ôl gwrthdrawiad â'r agerlong a gofrestrwyd yn yr Almaen, y *Marie Therese*.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal hon, ar un adeg, yn dir uchel i'r gogledd ac yn orlifdir i'r de, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw dyddodion yn eu lle.

Mae rhan orllewinol yr ardal hon yn cynnwys traean deheuol y dyfroedd bas sy'n amgylchynu 'sarn White Oyster' fel y'i dangosir ar siart morlys hanesyddol, sy'n awgrymu y bu gwely wystrys mawr yno ar un adeg. Disgrifiwyd y fasnach wystrys gan awduron megis Edward Lhuyd a Francis Kilvert.

O ran mordwyo, mae'r ardal hon o fôr agored o ddyfnder cymedrol wedi'i lleoli ar gyrion Bae Abertawe ac ar ddynesfeydd y porthladdoedd. Mae pwynt deheuol y dŵr bas ger Sarn White Oyster wedi'i farcio gan farc cardinal. Ceir maes dympio/dyfroedd sbwriel trwyddedig yng nghanol yr ardal. Ceir bwi marcio melyn i'r gogledd o'r man hwn.

Mae pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol a hamdden yn gyffredin yn yr ardal hon. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys draenogiaid môr yn benodol, gyda chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf. Mae'r ardal ger Sarn White Oyster yn boblogaidd. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod a chaiff cregyn moch eu dal mewn cewyll.

Mae cychod hwylio a chychod modur yn tueddu i ddod drwy'r ardal hon er mwyn cael mynediad i

Fae Abertawe ac Arfordir Gŵyr i'r gorllewin, a chânt eu gwthio oddi ar y lan gan Gefnenni Tywod Scarweather a basleoedd eraill i'r dwyrain.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ACM hon wedi'i lleoli ar gyrion Bae Abertawe, 4km i'r de-ddwyrain o Ben y Mwmbwls ar y pwynt agosaf, gan ymestyn i ychydig dros 10km ar y môr, ac felly mae dylanwad yr arfordir yn amrywio. Caiff y tir rywfaint o ddylanwad yn y rhan fwyaf o dywydd ac amodau gwelededd. Y prif arweddau yw Cefn Bryn ar y Gŵyr i'r gogledd-orllewin, bryniau cyfannedd Abertawe i'r gogledd, llwyfandir y maes glo i'r gogledd-ddwyrain gyda gweithfeydd dur Port Talbot yn y tir canol ac arfordir Exmoor yn weladwy mewn amodau cliriach ymhellach i'r de. Er bod rhywfaint o fanylion i'w gweld ar arfordir Cymru, megis adeiladau unigol fel Tŵr Meridian a strwythurau'r gweithfeydd dur, mae Exmoor yn edrych fel llinell un dimensiwn isel ar y gorwel gyda lliwiau syml.

Mae gan y môr mawr gymeriad syml, cyson ac unedig ac ymdeimlad agored, ynysig a digysgod. Mae ei rinweddau'n cael eu pennu'n llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd y de-orllewin, ac mewn tywydd gwael, mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol. Ceir llonyddwch ac ymdeimlad o wylltineb ar y môr cymharol agored hwn, er bod rhyngwelededd â'r arfordir cyfannedd yn amharu ar hyn i raddau.

Ceir nifer o gychod hamdden, ac o bryd i'w gilydd, gellir gweld llongau masnachol yn agosáu at y porthladdoedd i'r gogledd ac yn hwylio ar Fôr Hafren i'r de, felly nid yw'r ACM hon yn teimlo'n bellennig.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol o fôr gwely'r môr sy'n ddigyffwrdd i raddau helaeth, ac sy'n cyfrannu at olygfeydd di-dor oddi ar yr arfordir dros Fôr Hafren tuag at Exmoor a thuag at y Gŵyr. Mae'n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden yn sgil ei defnydd gan gychod hwylio/mordeithio. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltiad â natur.

## Grymoedd dros newid

| Rhinweddau arbennig posibl | Grymoedd allweddol dros newid | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

- Gallai diwylliant dŵr posibl gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar fioamrywiaeth, yn dibynnu ar reolaeth, a gellid effeithio ar gymeriad y forwedd pe ceid strwythurau parhaol ar wyneb y dŵr.
- Byddai morlyn llanw Bae Abertawe, pe bai'n cael ei adeiladu, wedi'i leoli i'r gogledd a byddai'n fawr iawn, ac yn ymestyn 3.5km i mewn i Fae Abertawe. Byddai'r amddiffynfeydd meini uchel yn amharu ar y golygfeydd o'r ACM draw tuag at y traethau, a byddai'r ganolfan ymwelwyr alltraeth a'r tyrbinau yn weladwy ac yn rhannu'r bae yn dri. Yn gyffredinol, byddai'n cael effaith andwyol ar gymeriad y forwedd a'r golygfeydd o Fae Abertawe. Yn ogystal, byddai'n rhaid symud y maes dympio/dyfroedd sbwriel er mwyn adeiladu'r morlyn, a gallai hynny gael mwy o effaith andwyol ar yr ardal a gwely'r môr.
- Gallai datblygu'r morlyn llanw ymhellach gael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd, gan amgáu'r môr ac effeithio ar yr ardal leol a golygfeydd i ac o AHNE Gŵyr a'r arfordir cysylltiedig.
- Byddai'r posibilrwydd o ynni'r llanw yn debygol o effeithio ar gymeriad yr ardal drwy gyflwyno seilwaith i'r ardal h.y. tyrbinau ar wely'r môr.
- Byddai rhagor o ddatblygiadau ynni gwynt ar lwyfandir maes glo de Cymru yn y gogledd-ddwyrain yn amharu ar y golygfeydd a'r llonyddwch.
- Mae trwydded amodol ar gyfer treial nwyeiddio alltraeth bellach wedi dod i ben.
- Gallai unrhyw newidiadau i weithfeydd dur Port Talbot gael effaith weledol ar yr ACM.
- Unrhyw newidiadau i'r dyfroedd sbwriel trwyddedig.

## Sensitifrwyddau allweddol

| **Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Cymeriad agored, digysgod, gwyllt a digyffwrdd yr ardal, gyda golygfeydd tuag at y Gŵyr, Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br><br>Rhan o leoliad agored Gŵyr i'r gogledd-orllewin sy'n cyfrannu at gymeriad morol cymharol ddigyffwrdd yr ardal.<br><br>Mae defnyddwyr y Gŵyr, Llwybr Arfordir Cymru a'r promenadau yn Abertawe ac Aberafan yn dderbynyddion sensitif. | Defnydd gan longau sy'n mynd a dod o Bort Talbot, Abertawe a Llansawel. |





Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 16: Canol Bae Abertawe**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **17** |
|---|---|
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Cyrion Bae Abertawe** |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 100019741*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 17: Cyrion Bae Abertawe**



*Yr olygfa dros Fôr Hafren mewn tywydd ychydig yn niwlog – sylwer ar y llong nwyddau yn hwylio tuag at Portishead neu Gaerdydd*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ardal hon oddi ar yr arfordir i'r de o'r Gŵyr a Bae Abertawe, ac yn ymestyn allan i ganol Môr Hafren. Mae o ddyfnder canolig ac yn goleddfu o 20m i 30m ar wely môr o dywod graeanog, gydag ynni tonnau isel a cherhyntau cryf.

## Nodweddion allweddol

- Môr agored sy'n ymestyn i'r gorllewin o Gefnenni Tywod Scarweather i ganol Môr Hafren, gyda dŵr o ddyfnder canolig o 20m i 30m ar wely môr o dywod graeanog.
- Ynni tonnau isel yn gyffredinol ond mae'r cerhyntau llanw cryf yn cadw'r gwaddod mewn daliant.
- Rhan o ddynesfeydd Bae Abertawe a'i borthladdoedd amrywiol, lle ceir sawl angorfa aros.
- Mae'r llongddrylliadau'n gysylltiedig yn bennaf â llongau a oedd yn mynd neu ddod o'r porthladdoedd ond a suddodd neu a gafodd eu dinistrio gan y gelyn yn y ddau Ryfel Byd.
- Môr mawr â nodweddion syml, agored a nodweddir gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd, gydag ymdeimlad anghysbell, sy'n cynyddu i'r de.
- Mae'n cyfrannu at olygfeydd o'r môr agored o Fae Abertawe a de Gŵyr.
- Y prif arweddau arfordirol gweladwy yw Cefn Bryn i'r gogledd, llwyfandir maes glo De Cymru i'r gogledd-ddwyrain ac Ynys Wair ac arfordir gogledd Dyfnaint i'r de.
- Caiff llonyddwch ei leihau gan longau masnachol.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r ardal hon i'r de-orllewin o Gefnenni Tywod Scarweather, ac yma mae'r ysgafell yn goleddfu'n raddol (<1$^{o}$) i'r de-orllewin o ddyfnder o 20-30m. Mae'r creigwely gwaelodol yn gerrig llaid a marl/calchfaen o'r cyfnod Jwrasig Cynnar sy'n streicio'n fras o'r gorllewin i'r dwyrain. Mae'r gwaddod gorchuddiol yn dywod ychydig yn raeanog gan mwyaf. Mae ynni'r tonnau yn isel gan mwyaf. Mae'r amrediad llanw uchel a'r cerhyntau llanw cryf yn cadw'r gwaddod mewn daliant. Gall stormydd symud gwaddod o gyrion y bae tuag at yr ochr ddwyreiniol, lle caiff ei ail-weithio gan brosesau arfordirol ar y glannau.

Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ACM hon yn cynnwys rhan o Fôr Hafren ar ddynesfeydd Bae Abertawe ac oddi yno i enau Afon Tawe, Afon Nedd, Afon Afan ac Afon Cynffig. O'r herwydd, mae'r ardal wedi bod yn rhan o'r llwybr masnach rhwng De Cymru a Chernyw a gogledd Dyfnaint ers amser maith. Mae'n cynnwys y sianel fordwyo sy'n osgoi Cefnenni Tywod Scarweather a Thraethell Nash. Fodd bynnag, nodir y defnydd o'r ACM hon ar gyfer busnes gan y llongau sydd wedi suddo ynddi.

Y llongddrylliad cynharaf yw'r *John and Mary*, slŵp bren a adeiladwyd yn Swydd Dumfries ym 1818, a suddodd ym 1852 wrth gludo llwyth o lo mân. Mae'r llongddrylliadau eraill sy'n nodweddiadol o'r fasnach yn yr ardal hon yn cynnwys y *Queen of Devon*, brig bren a adeiladwyd gan W Shilston, Plymouth, ym 1868, a darodd yn erbyn agerlong wrth gludo llwyth o fwyn copr o Lundain i Abertawe ar 11 Mawrth 1885, a'r sgwner bren *George Canning*, a adeiladwyd ym 1827, a suddodd ar y ffordd o Abaty Nedd i Watchet ym 1899. Credir fod y llongddrylliad diweddaraf, y *GA Savage*, agerlong ddur, wedi'i suddo gan dorpido ar 11 Mawrth 1917 wrth gludo llwyth o byg o Workington i Abertawe.

Mae'r ardal yn cynnwys llongddrylliad goleulong a suddodd ym 1942 ger Craith y Gorllewin lle'r oedd wedi'i hangori, ar ôl cael ei tharo gan yr *HMS Rosette*, treill-long wedi'i throi'n llong ysgubo ffrwydron. Gwerthwyd yr oleulong newydd olaf ar yr orsaf hon, a archebwyd ym mis Ebrill 1945 ac a adeiladwyd gan Phillip & Son, Dartmouth ym 1947, i'r Musée de Bateau yn Douarnez, lle'i cedwir.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod yr ardal yn orlifdir, gyda photensial canolig/uchel i'r de a chanolig i'r gogledd fod dyddodion wedi goroesi. Ceir rhywfaint o bosibilrwydd fod dyddodion wedi goroesi, yn enwedig mewn pocedi.

O ran mordwyo, mae'r ardal hon o fôr agored yn ddŵr dwfn yn gyffredinol, gydag ychydig o arweddau. Ceir nifer o angorfeydd aros diffiniedig ar ddynesfeydd Abertawe a Phort Talbot, un ar gyfer dŵr dwfn. I'r gogledd-ddwyrain, mae'r ardal wedi'i hamgáu gan ben draw Cefnenni Tywod Scarweather, a nodir gan y marc cardinal a'r golau ger Craith y Gorllewin (gyda Racon). Dim ond un pâr o farciau arbennig a geir i'r de o Graith y Gorllewin.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardal y tu allan i'r terfyn 6 milltir i'r de, felly mae pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol a hamdden yn tueddu i ddigwydd ymhellach i'r gogledd. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod yma, ynghyd â dal cregyn moch mewn cewyll.

Defnyddir yr ardal 'alltraeth' gan gychod hwylio a chychod modur i osgoi Cefnenni Tywod Scarweather i'r gogledd-ddwyrain.

Mae'r rhan ddeheuol wedi'i thrwyddedu fel rhan o barth datblygu fferm wynt alltraeth Rownd 3 Môr Hafren. Mae'r cynlluniau ar gyfer fferm wynt Atlantic Array, a gynigiwyd mewn rhan o'r parth cyffredinol, sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ACM hon, wedi eu tynnu'n ôl.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Ni ymwelwyd â'r ardal hon. Mae'n agos at ganol Môr Hafren, 6.5km i'r de-ddwyrain o Ben Pwll Du ar y pwynt agosaf gan ymestyn i 19km ar y môr, ac felly disgwylir y byddai dylanwad yr arfordir yn amrywio. Yn agosach at yr arfordir, caiff y tir rywfaint o ddylanwad, sy'n lleihau ymhellach allan ar y môr hyd nes mai mewn tywydd cliriach yn unig y bydd y tir uwch i'w weld. Y prif arweddau fydd Cefn Bryn yn y Gŵyr i'r gogledd-orllewin, llwyfandir y maes glo i'r gogledd-ddwyrain ac arfordir Exmoor i'r de. O bellter, bydd y tir ar bob ochr i Fôr Hafren yn edrych fel llinell isel un dimensiwn ar y gorwel gyda lliwiau syml.

Mae gan y môr mawr gymeriad syml, cyson ac unedig ac ymdeimlad agored, ynysig a digysgod. Mae ei rinweddau'n cael eu pennu'n llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd y de-orllewin, ac mewn tywydd gwael, mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol. Ceir tebygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd ar y môr agored hwn.

Ychydig o gychod hamdden a geir, ond efallai y bydd modd gweld llongau masnachol ger y porthladdoedd i'r gogledd yn ogystal ag ar Fôr Hafren i'r de.

Mae'r ardal yn rhan o'r golygfeydd heb eu difetha o'r môr o Dde Gŵyr.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol ddigyffwrdd o fôr a gwely'r môr, gan gyfrannu at olygfeydd di-dor o'r arfordir dros Fôr Hafren tuag at Exmoor a thuag at y Gŵyr. Mae'n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden gan y'i defnyddir i fordeithio/hwylio. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltiad â natur.

## Grymoedd dros newid

| Rhinweddau arbennig posibl | Grymoedd allweddol dros newid | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

- Gwaddod wedi'i gludo ar hyd yr arfordir ac o'i amgylch.
- Gallai datblygiad posibl y morlyn llanw i'r gogledd a'r dwyrain gael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd a golygfeydd tuag at ac o AHNE Gŵyr a'r arfordir cysylltiedig.
- Byddai'r posibilrwydd o ynni'r llanw yn debygol o effeithio ar gymeriad yr ardal drwy gyflwyno seilwaith i'r ardal h.y. tyrbinau ar wely'r môr.
- Byddai fferm wynt alltraeth yn ardal drwyddedig Rownd 3 Môr Hafren yn newid yr ymdeimlad pellennig a byddai'n effeithio ar olygfeydd o Ynys Wair ac arfordir gogledd Dyfnaint.


## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Cymeriad agored, gwyllt, digyffwrdd yr ardal gyda golygfeydd o'r Gŵyr, Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br><br>Mae'n rhan o leoliad agored y Gŵyr i'r gogledd-orllewin ac yn cyfrannu at natur forol naturiol ddigyffwrdd yr ardal.<br><br>Mae defnyddwyr y Gŵyr, Llwybr Arfordir Cymru a'r promenadau yn Abertawe ac Aberafan yn dderbynyddion sensitif. | Defnydd gan longau ar Fôr Hafren a ger y porthladdoedd ym Mae Abertawe. |




**ACM 17: Cyrion Bae Abertawe**

| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | 18 |
| --- | --- |
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Oddi ar yr Arfordir o Drwyn Oxwich i Ben y Mwmbwls** |




Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441
Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 18: Oddi ar yr Arfordir o Drwyn Oxwich i Ben y Mwmbwls**



*Yr olygfa tuag at Fae Abertawe gyda'r Mwmbwls a'r goleudy yn brif arweddau ar y tir canol. Yn y bae, mae Mynydd Cilfái yn gefndir cryf a Thŵr Meridian yn arwedd amlwg.*



*Pysgota hamdden ger Sarn White Oyster*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ardal linellol hon wedi'i lleoli i'r de o ddyfroedd arfordirol Gŵyr ar ddynesfeydd Bae Abertawe. Mae'n ardal o ddyfnder canolig 20-30m gyda gwely môr o raean ac ynni tonnau uchel a cherhyntau cryf. Mae Sarn White Oyster i'r dwyrain yn fwy bas ond ceir sianel ddŵr ddyfnach rhwng yr ardal hon a Basle Mixon i'r gogledd. Defnyddir yr ardal gan gychod hamdden a chychod pysgota.

## Nodweddion allweddol

- Môr agored sy'n ymestyn ar hyd de Gŵyr ger y dyfroedd arfordirol, gyda dyfroedd o ddyfnder canolig 20-30m, ar wahân i'r dŵr bas ger Sarn White Oyster yn rhan ddwyreiniol yr ardal, gyda gwely môr o raean ym mhob rhan o'r ardal.
- Ynni tonnau uchel a cherhyntau llanw cryf yn gyffredinol, gyda môr garw pan fo'r gwynt ar y llanw.
- Mae'r ardal yn cynnwys llongddrylliadau, gyda llawer ohonynt yn gysylltiedig â'r fasnach ag Abertawe, yn ogystal â llongau a suddodd wrth deithio ar hyd yr arfordir.
- Ceir sianel ddŵr ddyfnach a nifer o angorfeydd aros penodol yn agosach at Abertawe rhwng Sarn White Oyster a Basle Mixon i'r gogledd.
- Caiff yr ardal ei defnyddio gan gychod hamdden/pysgota yn bennaf.
- Môr helaeth ag iddo nodweddion syml, agored a nodweddir gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd, gyda'r ymdeimlad gwyllt a phellennig yn cynyddu tua'r de a'r gorllewin.
- Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at olygfeydd agored a chlir o'r môr o dde Gŵyr, gan gynnwys o Lwybr Arfordir Cymru.
- Y prif arweddau arfordirol gweladwy yw Cefn Bryn a'r clogwyni tua'r gogledd, bryniau adeiledig Langland i'r gogledd-ddwyrain, a llwyfandir y maes glo i'r dwyrain ynghyd â gweithfeydd dur Port Talbot.
- Mae'r ardal yn heddychlon iawn ond caiff yr ymdeimlad hwn ei leihau gan ddatblygiadau gweladwy ar yr arfordir.

## Dylanwadau naturiol

Mae'r ardal hon i'r de o Arfordir Gŵyr o Drwyn Oxwich i Ben y Mwmbwls. Yma, mae gwely'r môr yn goleddfu'n raddol (<1°) tua'r de o ddyfnder o 20-30m, oni bai am Sarn White Oyster i'r de o'r Mwmbwls sy'n fwy bas, gyda dyfnder o <10m. Cerrig llaid/tywodfeini o'r cyfnod Carboniferaidd Hwyr ag iddynt streic o'r dwyrain i'r gorllewin yw'r creigwely, gyda haen o gerrig llaid o'r cyfnod Triasig uwch ei ben tua'r de. Graean yw'r gwaddod ar waelod y môr, sef rhan ddwyreiniol tafod o

raean sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin i mewn i Fae Caerfyrddin, ac sy'n mynd yn fwy bras tua'r de am Fôr Hafren. Mae ynni'r tonnau yn uchel, a chydag amrediad llanw uchel o >8m, mae'r cerrynt llanw yn cludo gwaddod i'r dwyrain mewn daliant. Gall y môr fod yn arw pan fo'r gwynt ar y llanw.

Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ardal hon yn rhan o Fôr Hafren sy'n darparu morffordd i Dde Cymru ac i Gernyw a Dyfnaint, ac mae Afon Hafren ac Afon Avon yn llifo i mewn i'r môr hwn. Mae gan yr ardal hon gysylltiadau cryf â llwybrau masnach morwrol gorllewin Prydain ers Cynhanes. Mae'r llwybr môr hanesyddol i neu o Abertawe a Heol y Mwmbwls yn rhedeg ar hyd ymyl ogleddol yr ardal, rhwng Sarn White Oyster a Basle Mixon.

Mae'r llongddrylliadau hysbys yn nodi'r fasnach a fyddai i'w chael yn yr ACM hon. Dwy long a fu'n gwasanaethu diwydiannau'r gefnwlad gyfagos oedd y *Benamain* neu'r *Beninin*, llong lannau fechan a suddodd ym 1883 wrth gludo ingotau copr, dalennau copr, tunplat a brics tân (cafodd ingot copr ei ddarganfod gyda 'V&S' wedi'i farcio arno, sef Vivian & Sons o Waith Copr yr Hafod, Abertawe), a'r sgwner bren *Golden Light*, a oedd yn cludo mwyn haearn o Falmouth i Abertawe pan suddodd ym 1918. Caiff masnachau eraill De Cymru eu cynrychioli gan y *Celestine*, a suddodd ym 1889 wrth gludo glo a dalennau tunplat o Gasnewydd i L'Orient pan suddodd 6 milltir i'r gorllewin-dde-orllewin o Ben y Mwmbwls, a'r *Aurora*, slŵp bren a adeiladwyd ym 1818, a suddodd ym 1894 wrth gludo glo o Gaerdydd i'w chartref ym mhorthladd Aberteifi. Suddodd y cwch pren *Good Hope* ym 1858 wrth gludo cerrig palmant.

O ran y llongau stêm sydd wedi suddo yma, suddodd yr *Haswell*, stemar olwyn bren a adeiladwyd yn Jarrow ym 1848, ym 1877 wrth ddychwelyd i Sunderland o Abertawe gan gludo hen lechi a oedd yn rhannol yn llwyth a'n rhannol yn falast. Roedd yr *Haswell* yn un o nifer o stemars olwyn a fu'n gweithio i mewn ac allan o Abertawe ac yn tynnu llongau dros Fôr Hafren i'r môr agored er mwyn rhoi dechrau cyflym a diogel i'r siwrnai dros y môr agored.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod rhan ddwyreiniol yr ardal hon yn dir uchel ar un adeg, gyda photensial canolig/uchel fod dyddodion wedi goroesi. Lle bo modd, dylid cadw dyddodion yn eu lle. Nodwyd fod y rhan orllewinol yn orlifdir, gyda photensial canolig fod dyddodion wedi goroesi, yn enwedig mewn pocedi.

O ran mordwyo, mae'r ardal hon o fôr agored o ddyfnder cymedrol ar ddynesfeydd gorllewinol Bae Abertawe. Ceir Sarn White Oyster gyda'i dŵr mwy bas yn rhan ddwyreiniol yr ardal ac mae'r môr mawr yn torri dros yr ysgafell yn ystod y trai distyll pan mae'n wynebu gwyntoedd cryf y gorllewin. Fodd bynnag, ceir sianel ddŵr ddyfnach rhwng y basleoedd hyn a Basle Mixon i'r gogledd. Mae nifer o angorfeydd aros penodol ar ddynesfeydd Abertawe i'r dwyrain a'r gorllewin.

Ceir cewyll cimychiaid a chrancod i'r gogledd, yn nes at yr arfordir. Mae pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol a hamdden yn gyffredin ym mhob rhan o'r ardal. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys draenogiaid môr yn benodol, gyda chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid (a morgwn) yn y gaeaf. Mae ardal Sarn White Oyster yn boblogaidd. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod yma, a defnyddir cewyll cregyn moch.

Mae mordeithiau'n hwylio yn gymharol agos at y lan rhwng Dinbych-y-pysgod, Porth Tywyn ac Abertawe.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Mae'r ACM hon i'r de o'r Gŵyr, 2.5km i'r de o Ben y Mwmbwls ar y pwynt agosaf gan ymestyn i ychydig dros 11km ar y môr, ac felly caiff amrywiaeth o ddylanwad ar yr arfordir. Mae gan y tir rywfaint o ddylanwad yn y rhan fwyaf o amodau tywydd a gwelededd. Y prif arweddau yw Cefn Bryn a chlogwyni'r Gŵyr i'r gogledd, bryniau adeiledig Langland i'r gogledd-ddwyrain, llwyfandir y maes glo a stêm gwaith dur Port Talbot i'r dwyrain, ac arfordir Exmoor sydd i'w weld mewn amodau cliriach ymhellach i'r de. Er bod rhywfaint o fanylion yn weladwy ar arfordir Cymru, megis adeiladau unigol fel y blociau o fflatiau ym Mae Langland a Bae Caswell, mae Exmoor yn edrych fel llinell un dimensiwn isel ar y gorwel gyda lliwiau syml. Mae rhai o'r adeiladau ar arfordir Gŵyr yn weladwy ac yn amharu.

Mae gan y môr mawr gymeriad syml, cyson ac unedig ac ymdeimlad agored, ynysig a digysgod. Caiff rhinweddau'r ardal hon eu pennu'n llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd y môr a'i donnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd y de-orllewin, ac mewn tywydd gwael, mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol. Mae tebygolrwydd cryf y ceir ymdeimlad o dawelwch a gwylltineb yn yr ardal gymharol agored hon.

Mae nifer o gychod hamdden a golygfeydd achlysurol o longau masnachol yn agosáu at y porthladdoedd i'r gogledd yn ogystal ag ar Fôr Hafren i'r de, felly nid yw'r ACM hon yn teimlo'n bellennig.

Mae'r ardal yn rhan o'r golygfeydd di-dor o'r môr o dde Gŵyr.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol ddigyffwrdd o fôr a gwely'r môr, gan gyfrannu at olygfeydd di-dor oddi ar arfordir Gŵyr dros Fôr Hafren tuag at Exmoor, a golygfeydd tuag at y Gŵyr o'r ardal. Mae'n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden gan y'i defnyddir i fordeithio/hwylio yn bell. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltiad â natur, sy'n cyfrannu at gymeriad y Gŵyr.

## Grymoedd dros newid


| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | ■ | ■ | ■ | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | ■ | ■ | ■ | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | ■ | ■ | | | |
| Ymdeimlad o le | | | ■ | ■ | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | ■ | ■ | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | ■ | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

- Cludiant gwaddod ar hyd arfordir Môr Hafren.
- Gall diwylliant dŵr posibl gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar fioamrywiaeth yn ddibynnol ar reolaeth, a gallai effeithio ar gymeriad y forwedd pe codir strwythurau parhaol ar yr arwyneb.
- Gallai datblygiad posibl y morlyn llanw gael effaith sylweddol ar gymeriad y forwedd, gan amgáu'r môr ac effeithio ar yr ardal leol ac ar y golygfeydd o ac oddi ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Gŵyr a'r arfordir cysylltiedig.
- Byddai rhagor o ddatblygiad o ran y meysydd carafannau/gwersylla ar y clogwyni ac mewn baeau ar Arfordir Gŵyr i'r gogledd yn cael effaith ar y golygfeydd a'r llonyddwch.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Cymeriad agored, digysgod, gwyllt, digyffwrdd yr ardal gyda golygfeydd o'r Gŵyr, Ynys Wair ac Exmoor.<br>Mae'n ffurfio rhan o leoliad agored y Gŵyr i'r gogledd gan gyfrannu at gymeriad morol naturiol a digyffwrdd yr ardal.<br>Mae defnyddwyr y Gŵyr, Llwybr Arfordir Cymru a'r pentiroedd a'r traethau yn Oxwich, Porth Einon, Langland a Bae Caswell yn dderbynyddion sensitif. | Fe'i defnyddir gan rai llongau sy'n dod i mewn ac allan o'r porthladdoedd ym Mae Abertawe. |





*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*


Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 18: Oddi ar yr Arfordir o Drwyn Oxwich i Ben y Mwmbwls**

| | |
|---|---|
| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **19** |
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Môr Hafren – oddi ar yr arfordir** |




**ACM 19: Môr Hafren – Oddi ar yr Arfordir**



*Pysgota hamdden ar gyrion gogleddol yr ardal i'r de o Borth Einon, wrth edrych dros y môr tua'r de-orllewin mewn tywydd niwlog.*

## Disgrifiad cryno

Mae'r ardal fawr hon oddi ar yr arfordir ar ymylon de-orllewinol Gŵyr, ac yn ymestyn allan i ganol Môr Hafren. Mae'n ardal o ddyfnder canolig, sy'n goleddfu o 30m i 50m, ac mae llawr y môr yn raeanog, gydag ynni tonnau uchel a cherhyntau cryf.

## Nodweddion allweddol

- Môr agored sy'n ymestyn o Draethell Helwick i ganol Môr Hafren, gyda dŵr o ddyfnder canolig rhwng 30m a 50m ar wely môr cymysg o gefnenni, sianeli a graean sy'n ymestyn i'r gorllewin.
- Yn gyffredinol, ceir ynni tonnau uchel a cherhyntau llanw cryf.
- Un llongddrylliad y gwyddys amdano, sef agerlong fawr gyfan y *Fagernes*.
- Mae'r ardal yn caniatáu hwylio cymharol 'ddiberygl' i'r de o Draethell Helwick ac mae'r rhan ddeheuol yn fôr-lwybr prysur i fyny Môr Hafren.
- Môr mawr â nodweddion syml, agored a nodweddir gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd, gydag ymdeimlad gwyllt ac anghysbell, sy'n cynyddu i'r de.
- Mae'n cyfrannu'n helaeth at olygfeydd o'r môr agored o dde-orllewin Gŵyr ac Ynys Bŷr ac oddi ar Lwybr Arfordir Cymru.
- Y prif arweddau arfordirol gweladwy yw Mynydd Rhosili a Chefn Bryn i'r gogledd ac Ynys Wair ac arfordir gogledd Dyfnaint i'r de.
- Caiff y llonyddwch ei leihau gan longau masnachol.

## Dylanwadau naturiol

Yr ysgafell alltraeth yn y môr agored i'r de o'r Gŵyr a Thraethell Helwick. Mae'n dyfnhau tua'r de i mewn i Fôr Hafren y tu hwnt i ddyfnder canolig o >30m, ond mae'n parhau i fod yn llai na 50m o ddyfnder. Mae'r cyfuchliniau'n dangos nifer o sianeli draenio bas ('palaeosianeli') yn berpendicwlar i'r cerhyntau llanw dwyrain-gorllewin. Mae'r creigwely gwaelodol o farl/calchfaen a cherrig llaid o'r cyfnod Jwrasig Cynnar yn streicio o'r dwyrain i'r gorllewin ac yn cynnwys ffawtiau dwyrain-gorllewin a ffawtiau bras gogledd-de. Mae'r gwaddod graeanog gorchuddiol ar lawr y môr yn rhan o dafod mawr o raean sy'n ymestyn i ACM18 mewn mannau mwy bas. Mae'r gwahanol draethellau tywod/graean yn symudol ac yn newid bob amser. Mae'r cerhyntau llanw'n gryf ac mae ynni'r tonnau'n uchel, gydag amrediad llanw o >8m.

Mae ymyl ogleddol yr ardal hon yn rhan o ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ACM hon wedi'i lleoli yn y rhan o Fôr Hafren sy'n darparu'r forffordd i Dde Cymru, Bryste, Cernyw a Dyfnaint, ac mae Afon Hafren ac Afon Avon yn llifo i mewn i'r môr hwn. Mae ganddo gysylltiadau cryf â llwybrau masnach morwrol gorllewin Prydain ers Cynhanes.

Yr unig longddrylliad y gwyddys amdano yn yr ardal hon yw'r *Fagernes*, llongddrylliad mawr, cyfan a saif 4.1-5m uwch wely'r môr. Enw gwreiddiol yr agerlong hon, a adeiladwyd gan Osake Iron Works Ltd, oedd y *Meikai Maru*, ac fe suddodd ym 1926. Cafwyd hyd i'r llongddrylliad gan long ysgubo ffrwydron o Wlad Belg ym 1976. Nid oes unrhyw longddrylliadau eraill wedi'u nodi yn yr ardal, ond mae llongau sydd wedi mynd i helynt yn yr ACM hon yn cynnwys sawl un a oedd yn hwylio rhwng De Cymru ac Iwerddon, yn ogystal ag un llong o Ffrainc ac un llong o Norwy. Cwympodd dwy awyren yma hefyd ym 1954 o ganlyniad i wrthdrawiad – atgof o bwysigrwydd arfordir De Cymru o ran yr ardal hyfforddi filwrol yn ystod y ddau ryfel byd ac wedi hynny.

Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod rhan ogleddol yr ardal yn dir cymharol uchel ar un adeg gyda photensial uchel iawn fod dyddodion wedi goroesi. I'r de-orllewin, roedd yr ardal yn orlifdir, gyda photensial uchel iawn yno hefyd fod dyddodion wedi goroesi. Argymhellodd y dylid gwneud pob ymdrech i gadw dyddodion yn eu lle. Roedd y rhan ddwyreiniol yn orlifdir, gyda phosibilrwydd canolig fod dyddodion wedi goroesi. Ceir rhywfaint o bosibilrwydd fod dyddodion wedi goroesi, yn enwedig mewn pocedi. Ymhellach i'r de-orllewin, ceir ardal nodweddiadol iawn o wlyptiroedd, ond nid yw'n debygol iawn y bydd dyddodion wedi goroesi. Mae'r lefel y mae dyddodion wedi goroesi yn amhendant, ond mae'n debygol y bydd yr hyn sydd wedi goroesi yn arwyddocaol iawn. Argymhellir y dylid eu cadw yn eu lle pan fo hynny'n bosibl.

O ran mordwyo, mae'r ardal fawr hon o fôr agored, gyda'i dyfroedd dyfnion o fwy na 30m o ddyfnder, yn ymestyn o Draethell Helwick ar gyrion gogleddol yr ardal allan i ganol Môr Hafren. Nid oes yma unrhyw farciau neu beryglon mordwyo diffiniedig.

Saif yr ardal ar bob ochr i'r terfyn 6 milltir. Caiff cimychiaid a chrancod eu dal mewn cewyll yn y gogledd, ger y lan. Mae pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol a hamdden yn dueddol o ddigwydd o fewn y terfyn 6 milltir. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys draenogiaid môr yn benodol, gyda chŵn gleision yn yr haf a chathod môr, llysywod môr, gwyniaid môr (a morgwn) yn y gaeaf. Caiff llinellau

hir eu defnyddio yn y gogledd. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod, ynghyd â chewyll i ddal cregyn moch.

Mae rhan ddeheuol yr ardal cymeriad yn cynnwys y morffyrdd prysur sy'n gysylltiedig â llongau sy'n hwylio i Gaerdydd a Bryste. Mae cychod hamdden a chychod modur rhwng Dinbych-y-pysgod, Porth Tywyn ac Abertawe yn hwylio'n gymharol agos at yr arfordir, gan osgoi Traethell Helwick. Bydd llongau eraill sy'n croesi Môr Hafren yn hwylio drwy'r ardal.

Mae ardal Traethell Helwick i'r gogledd wedi'i thrwyddedu ar gyfer echdynnu agregau ond ni chaiff ei defnyddio ar hyn o bryd.

Mae'r rhan ddeheuol wedi'i thrwyddedu fel rhan o barth datblygu fferm wynt alltraeth Rownd 3 Môr Hafren. Mae'r cynlluniau ar gyfer fferm wynt Atlantic Array, a gynigiwyd mewn rhan o'r parth cyffredinol, sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ACM hon, wedi eu tynnu'n ôl.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Ni ymwelwyd â'r ardal hon. Saif yr ardal lai na 1.7km oddi wrth yr arfordir i'r de o Borth Einon gan ymestyn allan i tua 18km ar y môr. Disgwylir y byddai dylanwad yr arfordir yn amrywio. Byddai clogwyni Gŵyr yn elfennau cryf ac amlwg o'r olygfa mewn mannau i'r gogledd, ac yn edrych fel llinell denau ar y gorwel ymhellach i'r de, gyda thir uwch Cefn Bryn a Mynydd Rhosili yn y cefndir, na ellir ond eu gweld mewn tywydd cliriach. I'r de, byddai arfordir a thirffurf Exmoor yn dod yn fwy amlwg. Yn y rhan fwyaf o'r ardal, ceir ymdeimlad o fôr agored, ymhell oddi wrth ddylanwad y tir, oni bai am y cysylltiad gweledol hwn.

Mae gan y môr mawr gymeriad syml, cyson ac unedig, a chryn ymdeimlad agored, ynysig a digysgod. Mae ei rinweddau'n cael eu pennu'n llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd y de-orllewin, ac mewn tywydd gwael, mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol. Ceir tebygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd ar y môr agored hwn.

Gellir gweld nifer o gychod hamdden a chychod pysgota ger yr arfordir, ond ceir llai ohonynt ymhellach oddi wrth yr arfordir, ond gellir gweld llongau masnachol yn defnyddio'r morffyrdd i fynd a dod o Abertawe, Port Talbot, Caerdydd a Bryste.

Mae'r ardal yn rhan o'r golygfeydd di-dor o'r môr o Dde Gŵyr ac oddi ar Arfordir Sir Benfro, gan gynnwys Ynys Bŷr.



*Yr olygfa o'r môr oddi ar Fynydd Rhosili*

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol ddigyffwrdd o fôr a gwely'r môr, ac yn cyfrannu at olygfeydd di-dor oddi ar yr arfordir dros Fôr Hafren tuag at Exmoor, Ynys Wair a'r Gŵyr. Mae'n cyfrannu tuag at wasanaethau hamdden gan y'i defnyddir i fordeithio/hwylio. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltiad â natur.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |


**Crynodeb**

- Gwaddod wedi'i gludo ar hyd glannau Môr Hafren.
- Gallai diwylliant dŵr posibl gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar fioamrywiaeth, yn dibynnu ar reolaeth, a gellid effeithio ar gymeriad y forwedd pe ceid strwythurau parhaol ar wyneb y dŵr.
- Byddai gwaith echdynnu agregau posibl yn addasu ac yn tarfu ar wely'r môr ac yn tarfu i raddau ar gymeriad anghysbell a thawel yr ardal.

- Byddai fferm wynt alltraeth yn ardal drwyddedig Rownd 3 Môr Hafren yn newid yr ymdeimlad o fod yn anghysbell a byddai'n amharu ar y golygfeydd o Ynys Wair ac arfordir gogledd Dyfnaint.


## Sensitifrwyddau allweddol

| **Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd** | **Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd** |
|---|---|
| Cymeriad agored, gwyllt, digyffwrdd yr ardal gyda golygfeydd o'r Gŵyr, Exmoor ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.<br><br>Mae'n rhan o leoliad agored y Gŵyr i'r gogledd ac yn cyfrannu at natur forol naturiol ddigyffwrdd yr ardal.<br><br>Mae defnyddwyr y Gŵyr e.e. ar Ben Rhosili a Llwybr Arfordir Cymru yn dderbynyddion sensitif. | Defnydd gan longau sy'n hwylio ar Fôr Hafren ac sy'n mynd a dod o'r porthladdoedd ym Mae Abertawe. |




**ACM 19: Môr Hafren – Oddi ar yr Arfordir**

| | |
|---|---|
| Rhif Ardal Cymeriad Morwedd: | **20** |
| Enw Ardal Cymeriad Morwedd: | **Môr Hafren – oddi ar arfordir y de-orllewin** |




**ACM 20: Môr Hafren – Oddi Ar Arfordir y De-Orllewin**



*Yr olygfa o'r ardal oddi ar yr arfordir y tu hwnt i Ben Pyrod*

## Disgrifiad cryno

Lleolir yr ardal i'r de o'r Gŵyr ac mae'n ymestyn tuag at ganol Môr Hafren gyda dyfroedd o ddyfnder canolig, ac mae llawr tywodlyd y môr yn goleddfu'n raddol gyda sianelau a chefnau sydd wedi'u treillio. Mae'r ardal yn amgylchedd morol agored iawn, gyda golygfeydd pell tuag at y tir. Mae'n cysylltu ag ACM43 yn asesiad Arfordir Sir Benfro.

## Nodweddion allweddol

- Môr agored yng nghanol Môr Hafren â dŵr o ddyfnder canolig rhwng 30m a 50m ar wely môr o gefnau a sianeli sy'n berpendicwlar â'r cerhyntau llanw dwyrain-gorllewin.
- Yn gyffredinol, pwysau gwynt isel a chyflymder llanw cymedrol.
- Mae'r llongddrylliadau yn yr ardal yn cynnwys llongau a suddodd neu longau yr ymosodwyd arnynt yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Mae'r ardal wedi'i thrwyddedu ar gyfer echdynnu agregau a chaiff ei defnyddio gan gychod masnachol a chychod hamdden mwy o faint.
- Môr â nodweddion syml, agored a helaeth a nodweddir gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd, gydag ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd.
- Mae'r ardal yn cyfrannu at olygfeydd o'r môr agored o dde-orllewin Gŵyr.
- Y prif arweddau arfordirol gweladwy yw Mynydd Rhosili a Chefn Bryn i'r gogledd, Ynys Wair ac arfordir gogledd Dyfnaint i'r de ac Ynys Bŷr i'r gogledd-orllewin.
- Bydd treillio yn amharu ar y llonyddwch.

## Dylanwadau naturiol

Mae hon yn ardal o ddŵr o ddyfnder canolig rhwng 30m a 50m, llawr môr tywodlyd sy'n goleddfu'n raddol tua'r de (<1°) gyda thopograffi o sianelau draenio bas ('palaeosianeli') yn berpendicwlar i'r cerhyntau llanw dwyrain-gorllewin cymhedrol. Ceir pwysau tonnau isel ar y môr agored, ond ceir amrediad llanw uchel o >8m. Cerrig llaid o'r cyfnod Triasig ag iddynt streic o'r dwyrain i'r gorllewin yw'r creigwely, o dan gerrig llaid a marl/calchfeini o'r cyfnod Jwrasig Cynnar, sy'n cynnwys ffawtiau o'r dwyrain i'r gorllewin. Tywod graeanog yw'r gwaddod ar waelod y môr, ac mae'n troi yn dywod mwy mân tua'r gorllewin (yn ardal gyfagos ACM43 yn Sir Benfro), ac yn troi'n fwy bras tua'r dwyrain yn ACM19 sy'n ardal â phwysau tonnau uwch. Caiff gwaddod ei gludo gan gerhyntau llanw, mewn daliant yn bennaf. Mae'r traethellau yn ddynamig ac yn newid bob amser.

Nid oes unrhyw ddynodiadau cadwraeth natur ar waith yn yr ardal hon.

## Dylanwadau diwylliannol

Mae'r ardal hon yn rhan o Fôr Hafren sy'n darparu'r forffordd i Dde Cymru ac i Gernyw a Dyfnaint, ac mae Afon Hafren ac Afon Avon yn llifo i mewn i'r môr hwn. Mae ganddo gysylltiadau cryf â llwybrau masnach morwrol gorllewin Prydain ers Cynhanes.

Mae'r llongddrylliadau sy'n gysylltiedig â'r ardal hon yn dyddio o 1782 i 1973. Y cynharaf yw'r *Endeavour*, a oedd yn teithio o Hayle i Abertawe gyda llwyth o fwyn copr, a'r mwyaf diweddar yw'r *Trevessa* o Bennsans, a suddodd gan golli pob aelod o'i chriw. Mae'r llongddrylliadau eraill yn llongau a gofrestrwyd yn Nulyn, Abertawe a Brixham. Yr unig agerlong y gwyddys amdani yw'r *London II*, a adeiladwyd ym 1924 gan Howaldtswerke yn Kiel, sgriwlong gydag injan tri-ehangiad. Ymosododd awyren Almaenig arni ar 22 Mawrth 1941 ac fe suddodd wrth deithio o Fanceinion i Gaerdydd gyda llwyth o filedi dur a sgrap – gan nodi arwyddocâd y forffordd hon yn ystod y rhyfel.

Gallai palaeodirweddau tanddwr Môr Hafren fod yn dystiolaeth o'r newid o gymunedau helwyr-gasglwyr i gymunedau o ffermwyr sefydlog. Nododd yr arolwg o balaeodirweddau arfordir y gorllewin fod rhan ogleddol yr ardal hon yn nodweddiadol iawn o wastatiroedd a gorlifdiroedd, gyda photensial uchel iawn fod dyddodion wedi goroesi mewn rhannau helaeth o'r ardal. Argymhellir y dylid gwneud pob ymdrech i gadw dyddodion yn yr ardal hon yn eu lle. I'r de o'r ardal hon, ceir ardal nodweddiadol iawn o wlyptiroedd, ond nid yw'n debygol iawn y bydd dyddodion wedi goroesi yno. Mae'n ansicr i ba raddau y mae dyddodion wedi goroesi, ond mae'r dyddodion sydd wedi goroesi yn debygol o fod yn bwysig iawn. Lle bo modd, argymhellir y dylid eu cadw yn eu lle.

O ran mordwyo, mae'r ardal hon o fôr agored gyda dyfroedd dyfnion yn agos i ganol Môr Hafren. Nid oes ganddi unrhyw beryglon neu farciau mordwyo diffiniedig. Mae'r rhan ddeheuol, yn benodol, yn cynnwys y prif forffyrdd i fyny'r aber i Fryste a Chaerdydd. Gallai'r ardal gael ei defnyddio gan longau hwylio a modur mwy i deithio rhwng Cymru a Lloegr ac i fyny Môr Hafren.

Mae'r ardal y tu hwnt i'r terfyn 6 milltir ac mae'n tueddu i gael llai o ddefnydd o ran pysgota. Ceir rhywfaint o ddefnydd o dreillrwydi estyllod yma, a cheir pysgota gwialen a llinell ar sail fasnachol yma, ynghyd â'r defnydd o gewyll cregyn moch. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal wedi'i thrwyddedu ar gyfer echdynnu agregau, er nad yw'n cael ei defnyddio i'r diben hwnnw ar hyn o bryd. Mae gwaith echdynnu o Fanciau Nobel, i'r gorllewin o'r ACM hon, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r rhan ddeheuol wedi'i thrwyddedu fel rhan o barth datblygu fferm wynt alltraeth Rownd 3 Môr Hafren.

Mae'r cynlluniau ar gyfer fferm wynt Atlantic Array, a gynigiwyd mewn rhan o'r parth cyffredinol, sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ACM hon, wedi eu tynnu'n ôl.

## Rhinweddau esthetig, canfyddiadol a rhinweddau y gellir eu profi

Ni ymwelwyd â'r ardal hon. Mae'r ardal yn agos i ganol Môr Hafren, 11.5km i'r de-ddwyrain o Ben Pyrod ar y pwynt agosaf. Y prif dirnodau yw Mynydd Rhosili a Chefn Bryn ar y Gŵyr i'r gogledd, arfordir Gogledd Dyfnaint i'r de ac Ynys Wair i'r de-orllewin. Bydd y tir yn edrych fel llinell un dimensiwn isel ar y gorwel gyda lliwiau syml.

Mae gan y môr gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa helaeth ac ymdeimlad agored, ynysig a digysgod. Mae ei rinweddau'n cael eu pennu'n llwyr gan rymoedd naturiol y dŵr, drwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd o'r de-orllewin ac mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol mewn tywydd gwael. Mae tebygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.

Ychydig o gychod hamdden a ddaw i'r ardal, ond gellir gweld llongau masnachol yn defnyddio'r morffyrdd a llongau treillio yn echdynnu agregau i'r gorllewin, a gall hynny amharu ar y tawelwch ar brydiau.

Mae'r ardal yn rhan o'r golygfeydd di-dor o'r môr o Dde Gŵyr ac oddi ar Arfordir Sir Benfro, gan gynnwys Ynys Bŷr.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal yn cyfrannu at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol gymharol ddigyffwrdd gyda gwely môr afreolaidd, ac yn cyfrannu at olygfeydd di-dor oddi ar yr arfordir dros Fôr Hafren tuag at Exmoor, Ynys Wair a'r Gŵyr. Efallai y bydd yn cyfrannu at wasanaethau hamdden gan y'i defnyddir gan longau hwylio/mordeithiau hir. Mewn termau ysbrydol a chrefyddol, mae gan yr ardal ymdeimlad o wylltineb, tawelwch a chysylltedd â natur.

## Grymoedd dros newid

| **Rhinweddau arbennig posibl** | **Grymoedd allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwysau ymwelwyr | Defnydd morol - pysgota masnachol a hamdden, diwylliant dŵr | Defnydd morol - ynni ac echdynnu mwynau/ agregau | Pwysau datblygu | Newidiad-au rheolaeth tir | Def-nydd y Wein-ydd-iaeth Am-ddiffyn |
| Harddwch arfordirol/morol | | | | | | | |
| Golygfeydd o a thuag at y môr a'r tir | | | | | | | |
| Amrywiaeth y dirwedd/morwedd | | | | | | | |
| Ymdeimlad o le | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, tawelwch a gwylltineb | | | | | | | |
| Prosesau daearegol/arfordirol nodweddiadol | | | | | | | |
| Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth treftadaeth archaeolegol ac adeiladau | | | | | | | |


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau diwylliannol cryf | | | | | | | |
| Mynediad at yr arfordir neu'r môr | | | | | | | |
| Traethau gwerthfawr | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid sy'n digwydd ar hyn o bryd neu newid posibl a allai effeithio ar y rhinwedd arbennig | | | | | |

**Crynodeb**

- Gwaddod oddi ar y lan sy'n cael ei gludo a'i ddyddodi ym Môr Hafren.
- Byddai gwaith echdynnu agregau posibl yn addasu ac yn tarfu ar wely'r môr ac yn tarfu i raddau ar gymeriad anghysbell a thawel yr ardal.
- Byddai fferm wynt alltraeth yn ardal drwyddedig Rownd 3 Môr Hafren yn newid yr ymdeimlad o fod yn anghysbell a byddai'n amharu ar y golygfeydd o Ynys Wair ac arfordir gogledd Dyfnaint.

## Sensitifrwyddau allweddol

| Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd | Ffactorau sy'n lleihau sensitifrwydd |
|---|---|
| Cymeriad agored, digysgod, gwyllt a digyffwrdd yr ardal gyda golygfeydd tuag at y Gŵyr, Sir Benfro, Ynys Wair ac Exmoor.<br><br>Mae'n ffurfio rhan o leoliad agored y Gŵyr i'r gogledd sy'n cyfrannu at gymeriad morol naturiol a digyffwrdd yr ardal.<br><br>Mae defnyddwyr y Gŵyr e.e. penrhyn Rhosili a Llwybr Arfordir Cymru yn dderbynyddion sensitif. | Defnydd trwyddedig blaenorol/posibl ar gyfer echdynnu agregau.<br><br>Defnydd gan longau ar hyd Môr Hafren. |




*Atgynhyrchwyd o ddata map digidol yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2017. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 1000197441*
*Ffynonellau: Arolwg Ordnans. Oceanwise. CNC*

Prosiect: Bae Caerfyrddin, Asesiad Cymeriad Morwedd Lleol Gŵyr a Bae Abertawe.
Gŵyr Cleientiaid: CSG, DASA, CBSCNPT, CBSPBO, CNC. Dyddiad: Awst 2017

**ACM 20: Môr Hafren – Oddi Ar Arfordir y De-Orllewin**

# 3. Rhestr o Dermau



## GEIRFA - TERMAU A DIFFINIADAU

| Termau sy'n gysylltiedig â morweddau, y môr a phrosesau arfordirol | |
|---|---|
| *Term* | *Diffiniad* |
| **Ansawdd morwedd** | Cyflwr ffisegol y forwedd. Mae'n cynnwys y graddau y caiff cymeriad nodweddiadol ei gynrychioli mewn ardaloedd unigol, neu gryfder cymeriad, yn ogystal â chyfanrwydd y forwedd o safbwynt gweledol, swyddogaethol ac ecolegol a chyflwr elfennau unigol y forwedd. * |
| **Ardal ddistyll** | Ardal o ddŵr sydd bron yn llonydd. |
| **Ardaloedd cymeriad morwedd** | Mae'r rhain yn ardaloedd unigol ac unigryw sy'n ardaloedd daearyddol arwahanol o gymeriad morwedd penodol. Mae gan bob un ei chymeriad a'i hunaniaeth unigol ei hun. Gall yr ardaloedd hyn gynnwys sawl math o forwedd. |
| **Arwaith hydrolig** | Y pwysau a roddir ar greigiau gan ddŵr sy'n symud e.e. gall aer sy'n cael ei orfodi i mewn i graciau mewn creigiau solet eu hymfalurio drwy ehangu'r holltau. |
| **Arweddau** | Elfennau arbennig o amlwg neu drawiadol fel goleudai, staciau creigiau a chlogwyni arfordirol. |
| **Asesiad cymeriad morwedd (ACM)** | ACM yw'r broses o nodi a disgrifio amrywiad yng nghymeriad y forwedd, a defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i reoli newid yn y forwedd. Ei nod yw ceisio nodi ac esbonio'r cyfuniad unigryw o elfennau ac arweddau sy'n gwneud morwedd yn unigryw. * |
| **Asesiad o'r Effaith ar y Forwedd, y Dirwedd a'r Olygfa (AEFDO)** | Methodoleg sefydledig a ddefnyddir i asesu effaith datblygiad neu newid defnydd arall ar forwedd, tirwedd ac amwynder gweledol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw waith adfer neu ôl-ddefnydd. |
| **Athreuliad** | Y mecanwaith lle bydd maint gronynnau unrhyw ddeunydd yn lleihau drwy ffrithiant wrth iddo gael ei gludo. |
| **Biogenig** | Arwedd sydd wedi'i chreu gan organebau byw, boed hwy'n anifeiliaid neu'n blanhigion. Fe'i defnyddir yn aml i ddisgrifio riff sy'n tarddu o fawn o bosibl. |
| **Canfyddiad** | Mae canfyddiad yn cyfuno'r synhwyraidd (yr hyn a dderbyniwn drwy ein synhwyrau) â'r gwybyddol (gwybodaeth a dealltwriaeth a gawn o lawer o ffynonellau a phrofiadau). ** |
| **Canllawiau morweddol** | Camau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cymeriad morwedd unigryw yn cael ei gynnal, ei wella neu, os yw'n briodol, ei newid drwy greu cymeriad newydd. * |
| **Cymeriad** | Gweler cymeriad morwedd. |
| **Cymeriad morwedd** | Mae cymeriad morwedd yn batrwm amlwg a nodedig o elfennau ac arweddau sy'n gwneud un forwedd yn wahanol i'r llall, yn hytrach na'n well neu'n waeth. |
| **Cyrch** | Y pellter ar draws dŵr agored y mae'r gwynt yn chwythu drosto, neu'r pellter y mae ton a grëwyd gan y gwynt yn teithio drosto'n ddirwystr. Mae hyd y cyrch yn rhannol gyfrifol am bennu maint ac egni ton ac felly ei heffaith erydol a dyddodol ar draethlinau cyfagos. |
| **Daliant** | Y broses lle caiff deunyddiau ysgafn eu cludo gan ddŵr sy'n symud ym mharth y llif tyrfol. |
| **Disgrifiad** | Cyfleu naws gyffredinol cymeriad y forwedd, gan gyfeirio at ddaeareg, tirffurf, bathymetreg, cynefinoedd, defnydd o'r arfordir a môr, cysylltiadau diwylliannol ac ati, gan dynnu sylw at y ffyrdd y mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd, y ffordd y cânt eu canfod a'u profi a'r ffordd y maent yn gysylltiedig â digwyddiadau a phobl. * |

| *Term* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Dosbarthiad** | Mae'r term hwn yn ymwneud â rhannu'r forwedd i mewn i ardaloedd â chymeriad cyffredin amlwg, adnabyddadwy a chyson a grwpio ardaloedd o gymeriad tebyg gyda'i gilydd. Mae'r broses yn cynnwys nodi patrymau yn y forwedd, a grëwyd gan y ffordd y mae'r dylanwadau naturiol a dynol yn rhyngweithio, a'r ffordd y cânt eu canfod a'u profi i greu cymeriad yn y forwedd. |
| **Drifft arfordirol** | Cludiant cyffredinol deunydd arfordirol ar hyd y draethlin oherwydd effaith tonnau'n torri ar osgo ar y traeth. |
| **Dyfnforol** | Mewn perthynas ag organebau morol: y rhai sy'n ffynnu ar lawr y môr. |
| **Elfennau** | Cydrannau unigol y forwedd, h.y. traethau, clogwyni, riffiau tanddwr, morgloddiau, grwynau a cherrig brig. |
| **Mathau cymeriad morwedd (morol)** | Mae'r rhain yn wahanol fathau o forweddau sy'n gymharol homogenaidd o ran eu cymeriad. Maent yn generig o ran natur, gan y gellir eu cael mewn gwahanol leoliadau, ond lle bynnag y'u ceir, maent yn rhannu cyfuniadau gweddol debyg o ran bathymetreg, daeareg gwely'r môr a nodweddion hinsawdd tonnau. |
| **Morlannol** | Ymwneud â thraethlin. |
| **Morwedd** | Mae dau ddiffiniad o forwedd sy'n berthnasol i'r astudiaeth:<br><br>Ardal o fôr, arfordir a thir, fel y'i canfyddir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng y tir a'r môr, drwy ffactorau naturiol a/neu ddynol. (Diffiniad sy'n deillio o'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, 2000).<br><br>Tirweddau gyda golygfeydd o'r arfordir neu foroedd, a'r arfordiroedd a'r amgylchedd morol cyfagos gyda chysylltiadau diwylliannol, hanesyddol ac archaeolegol â'i gilydd. (Datganiad Polisi Morol y DU, 2011, 2.6.5.1) |
| **Neidiant** | Gwaddod sy'n bowndio neu'n hopian ar hyd wyneb wrth gael ei gludo gan ddŵr neu wynt. |
| **Nodweddion** | Elfennau, arweddau a rhinweddau sy'n gwneud cyfraniad penodol at gymeriad nodedig. |
| **Nodweddion allweddol** | Y cyfuniad o elfennau, nodweddion a rhinweddau sy'n weledol bwysig i gymeriad y forwedd ar hyn o bryd ac sy'n helpu i roi ymdeimlad arbennig o le i ardal. |
| **Nodweddu** | Y broses o nodi ardaloedd o gymeriad tebyg, eu dosbarthu a'u mapio a disgrifio eu cymeriad. * |
| **Parth isforlannol** | Parth agos i'r lan sydd wedi'i orchuddio'n barhaol â dŵr y môr. |
| **Parth morlannol** | Parth sy'n ymestyn o ychydig yn uwch na'r marc penllanw hyd at ymyl yr ysgafell gyfandirol. Caiff y parth ei rannu'n dri isranbarth a elwir yn barthau uwchforlan, rhynglanwol ac isforlannol. |
| **Parth uwchforlan** | Ardal uwchlaw marc penllanw'r gorllanw sy'n cael ei thasgu a dŵr yn rheolaidd, ond nad yw'n cael ei gorchuddio â dŵr y môr. |
| **Pelagig** | Mewn perthynas â'r amgylchedd: y cefnfor agored, yn wahanol i lawr y cefnfor. Mewn perthynas ag organebau morol: y rhai sy'n ffynnu yn annibynnol ar lawr y cefnfor ac mewn amgylcheddau traethlin. |
| **Pwysau/hinsawdd tonnau** | At ddibenion yr astudiaeth hon - cyfuniad o uchder, cyfeiriad a chyfnod tonnau dros amser mewn perthynas ag amlygiad gwynt/tonnau (cyrch), amodau'r llanw a'r cerrynt, pwysau'r tonnau a'r llanw, a bathymetreg. Gellir defnyddio'r term amlygiad tonnau hefyd. |
| **Ria** | Dyffryn neu aber arfordirol tanddwr o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr, sy'n aml yn gysylltiedig ag arfordiroedd ôl-rewlifol. |

| *Term* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Riff** | Llinell o greigiau neu ddeunydd ym mharth llanw'r arfordir, sydd o dan y dŵr pan fo'r llanw'n uchel ond sydd wedi'i dadorchuddio'n rhannol pan fo'r llanw'n isel. |
| **Sensitifrwydd morwedd** | Y graddau y gall morwedd dderbyn newid o raddfa a math penodol heb effeithiau andwyol annerbyniol ar ei chymeriad. |
| **Strategaethau morweddol** | Yr amcanion a'r weledigaeth gyffredinol o ran sut y dylai'r forwedd edrych yn y dyfodol, a'r hyn y credir ei fod yn ddymunol ar gyfer math neu ardal cymeriad morwedd penodol yn gyffredinol. * |
| **Terfyn tirol (mewn perthynas ag asesiad cymeriad morwedd)** | Ffiniau'r asesiad cymeriad morwedd ar y tir. Mae ystyriaethau o'r fath yn berthnasol i'r tir mawr, penrhynau ac ynysoedd, ni waeth beth fo'u pellter allan ar y môr. Mae'r graddau'n dibynnu ar ddiben a/neu gwmpas yr asesiad a gynhelir. |
| **Terfynau morol (mewn perthynas ag ACM)** | Pa mor bell allan ar môr y bydd yr ACM yn ei gwmpasu. |
| **Torddwr** | Symudiad haen dyrfol o ddŵr i fyny llethr traeth o ganlyniad i don yn torri. Gall gludo deunydd arfordirol o faint sylweddol, ac mae'n elfen bwysig mewn drifft arfordirol. |
| **Tyniant** | Llwyth solet a gludir gan ddŵr. |
| **Ymchwydd** | Symudiad rheolaidd o donnau morol a grëir gan bwysau gwynt yn y cefnfor agored. |
| **Ysgrafelliad** | Yr effaith wisgo fecanyddol ar greigiau a achosir gan gyrydiad. Gall sawl peth fod yn ysgrafellu e.e. tywod, cerrig mân neu glogfeini sy'n symud ar draws wyneb craig. |

| Termau eraill sy'n gysylltiedig â thirweddau | |
|---|---|
| *Term* | *Diffiniad* |
| **Adfer** | Trwsio neu adnewyddu. |
| **Adnodd** | Gweler adnodd morwedd/tirwedd. |
| **Adnodd tirwedd** | Stoc gyffredinol y dirwedd a'i chydrannau. (Ystyrir y dirwedd yn adnodd mesuradwy y mae pan draw iddo, fel unrhyw un arall e.e. mwynau, tir, dŵr). |
| **Agwedd** | Yng Nghymru, mae agwedd yn elfen o wybodaeth LANDMAP a gofnodwyd, a drefnwyd ac a werthuswyd mewn set genedlaethol gyson o ddata gofodol. Rhennir y wybodaeth am y dirwedd yn bum agwedd – tirweddau daearegol, cynefinoedd tirwedd, gweledol a synhwyraidd, tirweddau hanesyddol a thirweddau diwylliannol. |
| **Amcan** | Dull asesu lle nad yw barn a theimladau personol yn dylanwadu ar y broses nodweddu neu ddyfarnu. |
| **Amlwg** | Nodwedd neu batrwm gweladwy yn y dirwedd. |
| **Amrywiaeth** | (O ran swyddogaeth ardal)<br>Yr amrywiaeth o wahanol swyddogaethau sydd gan ardal benodol. |
| **Amwynder (Plannu)** | Plannu i ddarparu budd amgylcheddol megis plannu addurnol neu blannu coed sgrinio. |
| **Anheddiad** | Pob annedd/trigfan, boed yn rhai unigol neu'n glystyrau mewn dinasoedd, trefi a phentrefi. |
| **Ansawdd** | Ar sail dyfarniadau ynglŷn â chyflwr ffisegol y forwedd/tirwedd, ac ynglŷn â'i chyfanrwydd, o safbwyntiau gweledol, swyddogaethol ac ecolegol. Mae hefyd yn adlewyrchu cyflwr arweddau ac elfennau unigol sy'n ffurfio'r cymeriad mewn unrhyw le penodol. |
| **Ansawdd golygfaol** | Morwedd/tirwedd â golygfeydd hardd gydag elfennau gweledol ddymunol o ran eu cyfansoddiad. |
| **Ardal agwedd** | Ardaloedd a ddiffinnir ym mhob un o asesiadau agwedd LANDMAP sy'n annibynnol ar ei gilydd. |
| **Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT)** | Mae'r rhain yn ardaloedd unigol ac unigryw sy'n ardaloedd daearyddol arwahanol o gymeriad tirwedd penodol. Mae gan bob un ei chymeriad a'i hunaniaeth unigol ei hun. Mae'r ardaloedd hyn yng Nghymru yn deillio'n bennaf o agweddau LANDMAP. |
| **Ardal Cymeriad Tirwedd Hanesyddol (ACTH)** | Ardal o gymeriad hanesyddol y gellir ei diffinio a'i mapio'n ddaearyddol, fel y'i pennir gan ystod a dosbarthiad nodweddion archaeolegol a hanesyddol sydd wedi goroesi a'r prif fathau o batrymau defnydd tir hanesyddol neu 'themâu' hanesyddol sydd wedi llunio'r ardal. |
| **Ased treftadaeth** | Adeilad, heneb, lle, ardal, tirwedd neu safle dynodedig neu heb ei ddynodi sydd wedi ei gadarnhau fel man ag arwyddocâd hanesyddol ac sy'n haeddu ystyriaeth mewn penderfyniadau cynllunio. Mae asedau treftadaeth dynodedig yn cynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, safleoedd llongddrylliadau gwarchodedig, meysydd brwydrau, adeiladau rhestredig a pharciau a gerddi cofrestredig. |
| **Ased treftadaeth ddiwylliannol** | Gweler ased treftadaeth. |
| **Asesiad** | Term i ddisgrifio'r holl ffyrdd amrywiol o ddadansoddi, gwerthuso, disgrifio ac edrych ar y forwedd/tirwedd neu asesu effeithiau ar dderbynyddion gweledol a'r forwedd/tirwedd. |

| *Term* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Olygfa (AEDO)** | Methodoleg sefydledig a ddefnyddir i asesu effaith datblygiad neu newid defnydd arall ar dirwedd ac amwynder gweledol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw waith adfer neu ôl-ddefnydd. (CAEDO 2002) |
| **Bioamrywiaeth** | Amrywiaeth bywyd gan gynnwys yr holl gynefinoedd a rhywogaethau gwahanol yn y byd. |
| **Brodorol** | Wedi'i adeiladu yn yr arddull leol, o ddeunyddiau lleol. |
| **Cadwraeth** | Amddiffyn a rheoli adnoddau naturiol ac adeiledig a'r amgylchedd yn ofalus. |
| **Cerrig brig** | Yr ardal lle mae creigiau penodol yn ymddangos ar yr wyneb. |
| **Clawdd â pherth** | Banc neu dwmpath o ddaear â pherth arno. |
| **Clawdd/cloddiau** | Banc tir neu dwmpath o ddaear – defnyddir y term hwn am berth ag wyneb creigiog mewn rhai ardaloedd. |
| **Coedlannu** | Y dull traddodiadol o reoli coetiroedd, lle caiff coed eu torri i lawr yn agos at y ddaear i annog egin hir, syth y gellir eu cynaeafu. |
| **Coetir Hynafol** | Tir sydd wedi bod yn goediog ar sail barhaus ers OC 1600. Mae'n adnodd ecolegol hynod werthfawr, sydd fel arfer yn cynnwys cryn amrywiaeth o ffawna a fflora. |
| **Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH)** | Mae cofnod amgylchedd hanesyddol yn darparu gwybodaeth fanwl am amgylchedd hanesyddol ardal benodol yn unol ag Adrannau 35 a 36 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol ranbarthol yng Nghymru yn cynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r CAH yn disodli'r Cofnod Safleoedd a Henebion. |
| **Cyfanrwydd** | Heb ei ddifetha gan ddatblygiadau mawr, gweledol ymyrgar neu amhrydferth. |
| **Cymeriad Tirwedd** | Patrwm unigryw, nodedig a chyson o elfennau, arweddau a rhinweddau sy'n gwneud un dirwedd yn wahanol i'r llall, yn hytrach na'n well neu'n waeth. |
| **Cymeriad Tirwedd Hanesyddol (CTH)** | Cymeriad tirwedd fel y'i pennir gan ystod a dosbarthiad nodweddion archaeolegol a hanesyddol sydd wedi goroesi a'r prif fathau o batrymau defnydd tir hanesyddol neu 'themâu' hanesyddol sydd wedi llunio ardal. Nodir nodweddion hanesyddol allweddol ardal ynghyd ag argymhellion ar gyfer eu rheoli mewn ffordd gadarnhaol. |
| **Cymhlethdod** | Yng nghyd-destun disgrifio nenlinell)<br><br>Pa mor amrywiol neu gymhleth yw'r nenlinell, o linell gwbl wastad gyda llystyfiant cyson ar un pen o'r raddfa i nenlinell fynyddig gyda llystyfiant amrywiol ar y pen arall. |
| **Cynhenid** | Diffiniad y geiriadur – 'bodoli fel rhan annatod'. Yng nghyd-destun sensitifrwydd, golyga sensitifrwydd barth y forwedd/tirwedd ei hun gyda'i holl elfennau ac arweddau cydrannol yn hytrach na'i pherthynas â pharthau cyfagos. |
| **Cyson** | Elfen neu batrwm cymharol ddigyfnewid ar draws ardal benodol o forwedd/tirwedd. |
| **Dadansoddi** | Y broses o rannu'r forwedd/tirwedd yn gydrannau er mwyn cael gwell dealltwriaeth ohoni. |
| **Daeareg** | Astudiaeth o darddiad, strwythur, cyfansoddiad a hanes y Ddaear ynghyd â'r prosesau sydd wedi arwain at ei chyflwr presennol. |
| **Derbynnydd (morwedd/tirwedd)** | Ardaloedd cymeriad morwedd/tirwedd, dynodiadau, elfennau neu arweddau y gallai datblygiadau effeithio arnynt. |

| *Term* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Derbynnydd gweledol** | Pobl mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol a all brofi golygfeydd mewn ardal ac y gallent gael eu heffeithio gan newid neu ddatblygiad. Gall derbynyddion gynnwys defnyddwyr llwybrau cyhoeddus, tir mynediad agored, ffyrdd, rheilffyrdd neu lwybrau beicio neu drigolion ardaloedd trefol neu wledig. |
| **Diogelu** | Amddiffyn rhag niwed. |
| **Dull/ymagwedd** | Y broses gam wrth gam o asesu morwedd/tirwedd. |
| **Effaith** | Fe'i defnyddir fel rhan o derm arall, megis AEA neu AEDO, i helpu i ddisgrifio'r broses o asesu effeithiau a allai fod yn sylweddol – gweler effeithiau. |
| **Effeithiau** | Y term a ddefnyddir mewn asesiad o effaith amgylcheddol (AEA) lle mae effeithiau'n golygu newidiadau sy'n deillio o weithgarwch datblygiad arfaethedig. |
| **Effeithiau anuniongyrchol** | Effeithiau ymhellach oddi wrth y datblygiad megis newid canfyddedig o ran cymeriad neu effeithiau datblygiadau cysylltiedig megis seilwaith trafnidiaeth. |
| **Effeithiau cronnol** | Naill ai'r newidiadau ychwanegol a achosir gan ddatblygiad arfaethedig ar y cyd â datblygiadau tebyg, neu effaith gyfunol cyfres o ddatblygiadau. |
| **Effeithiau gweledol** | Yr effeithiau gweledol tebygol y byddai pobl yn eu profi yn sgil datblygiad arfaethedig neu newid o ran rheolaeth tir. |
| **Effeithiau uniongyrchol** | Lle mae'r datblygiad yn rhan o'r forwedd/tirwedd ac yn diddymu elfen neu arwedd ffisegol e.e. creigiau, clogwyni, llystyfiant arfordirol. |
| **Ffen** | Coetir ar dir dwrlawn. Mae'r rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys gwern a choed helyg. |
| **Ffiniau cae** | Ymyl ddiffiniedig cae, boed yn ffens, perth, clawdd, ffos neu wal. |
| **Ffisiograffeg** | Mynegiant o siâp a strwythur wyneb y tir fel y caiff ei ddylanwadu gan natur y ddaeareg waelodol ac effaith prosesau geomorffaidd. |
| **Garddwriaeth** | Math dwys o gnydio, megis llysiau neu ffrwythau. |
| **Goddrychol** | Dull asesu lle defnyddir safbwyntiau ac ymatebion personol yn y broses nodweddu. |
| **Gorchudd tir** | Cyfuniadau o elfennau naturiol ac artiffisial, gan gynnwys llystyfiant, sy'n gorchuddio wyneb y tir. |
| **Gwasanaethau ecosystem** | Gwasanaethau a ddarperir gan yr amgylchedd naturiol sydd o fudd i bobl. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth bwyd, ffeibr a thanwydd a'r gwasanaethau diwylliannol sy'n darparu budd i bobl drwy gyfleoedd hamdden a gwerthfawrogiad diwylliannol o natur. Mae'r gwasanaethau eraill yn cynnwys rheoleiddio'r hinsawdd, puro aer a dŵr, amddiffyn rhag llifogydd, ffurfio pridd ac ailgylchu maethynnau. |
| **Gweladwy** | Gwrthrych y gellir ei weld yn y forwedd/tirwedd. |
| **Gwell (mewn perthynas â phridd neu dir pori)** | Ychwanegu gwrtaith, ac mewn perthynas â thir pori, ailhadu gyda rhywogaethau glaswellt mwy cynhyrchiol. |
| **Gwerth** | Gweler gwerth tirwedd. |
| **Gwerth tirwedd** | Y gwerth neu bwysigrwydd cymharol a roddir i dirweddau ac agweddau LANDMAP. Mae'r rhain yn mynegi consensws cenedlaethol neu leol e.e. dynodiadau neu gydnabyddiaeth, ansawdd, rhinweddau arbennig gan gynnwys agweddau canfyddiadol megis harddwch golygfaol, llonyddwch neu wylltineb, cysylltiadau diwylliannol neu faterion cadwraeth. Priodolir gwerth hefyd i bob agwedd LANDMAP gan ddefnyddio amrywiaeth o feini prawf. Gellir cael syniad hefyd o sut y caiff ardal ei gwerthfawrogi drwy nodi sut y caiff ei defnyddio – e.e. llwybr poblogaidd at olygfan ar ben bryn. |

| *Term* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Heneb Gofrestredig** | Heneb/arwedd o ddiddordeb hanesyddol a phwysigrwydd cenedlaethol gyda gwarchodaeth statudol, y rhan fwyaf ohonynt heb fawr o obaith o ddefnydd economaidd. Cânt eu llywodraethu gan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 fel y'i diwygiwyd a'i diweddarwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. |
| **Hynodrwydd** | Gweler ymdeimlad o le. |
| **LANDMAP** | LANDMAP yw'r system wybodaeth genedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (SGDd), ac fe'i dyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn ystyried tirweddau wrth wneud penderfyniadau. Mae'n set ddata gyson genedlaethol sydd wedi'i rhannu'n 5 agwedd - tirweddau daearegol, cynefinoedd tirwedd, gweledol a synhwyraidd, tirweddau hanesyddol a thirweddau diwylliannol. |
| **Lleoliad ased treftadaeth** | Yr amgylchedd lle caiff yr ased ei brofi. Nid yw ei faint yn sefydlog, a gall newid wrth i'r ased a'i gyffiniau ddatblygu. Gall elfennau lleoliad wneud cyfraniad cadarnhaol neu negyddol i ased, effeithio ar y gallu i werthfawrogi'r arwyddocâd hwnnw, neu gallant fod yn niwtral. |
| **Llystyfiant lled-naturiol** | Unrhyw fath o lystyfiant sydd wedi'i ddylanwadu gan weithgarwch dynol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Fel arfer, defnyddir y term i ddisgrifio ardaloedd sy'n dychwelyd i natur oherwydd diffyg rheolaeth. |
| **Maint cae** | Mawr – 2 Ha ac uwch, canolig – oddeutu 1.5 Ha, bach – llai nag 1 Ha. |
| **Maint effaith** | Graddfa'r newid. |
| **Math tir** | Mynegiant o'r amgylchedd sy'n ffurfio'r pridd a'i ddylanwad wrth bennu patrwm yr wyneb o ran llystyfiant a defnydd y tir. |
| **Mosäig** | Cymysgedd o wahanol fathau o orchudd tir ar lefel fanwl fel coetir, tir pori a rhostir. |
| **Patrwm aneddiadau** | Prif batrwm yr aneddiadau mewn ardal. |
| **Patrwm diwylliannol** | Mynegiad o batrwm hanesyddol amgaead ac aneddiadau gwledig. |
| **Pellenigrwydd** | Arwahanrwydd ffisegol, heb bresenoldeb pobl, seilwaith (ffyrdd a rheilffyrdd, llwybrau fferïau a llongau) nac aneddiadau. |
| **Perth** | Ffens o lwyni neu goed isel, byw neu farw, neu o dir neu gerrig. Er bod coetrych, a bod yn fanwl gywir, yn cyfeirio at res o lwyni sy'n ffurfio perth, defnyddir y term yn gyfnewidiol â 'perthi'. |
| **Polygon** | Ardal ddigidol arwahanol mewn system gwybodaeth ddaearyddol (SGDd). |
| **Prif (nodwedd)** | Prif nodwedd neu batrwm diffiniol. |
| **Rhinweddau** | Nodweddion esthetig (patrymau gweladwy gwrthrychol) neu nodweddion canfyddiadol (ymatebion goddrychol gan asesydd y forwedd/tirwedd) y forwedd/tirwedd, megis rhai sy'n ymwneud â graddfa neu lonyddwch, yn y drefn honno. |
| **Sensitifrwydd gweledol** | Mae sensitifrwydd gweledol neu 'weledolrwydd' yn fesur o ba raddau y mae newid yn debygol o achosi effaith weledol o fewn morwedd/tirwedd benodol. |
| **Sylweddol** | Mewn asesiad o effaith amgylcheddol - i ddisgrifio pwysigrwydd effaith. Mae angen ystyried effaith sylweddol wrth wneud penderfyniadau. |
| **Synhwyraidd** | Yr hyn a dderbynnir drwy'r synhwyrau h.y. golwg, clyw, arogl, cyffwrdd. |
| **Tir amaeth cymysg** | Cyfuniad o dir âr a thir pori. |

| *Term* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Tir âr** | Tir a ddefnyddir i dyfu cnydau nad yw'n laswellt neu'n rhywogaethau coediog. |
| **Tir pori** | Tir glaswelltog sy'n cael ei bori gan anifeiliaid neu ei dorri. |
| **Tirffurf** | Cyfuniadau o lethrau a thiroedd uchel sy'n cyfuno i roi siâp a ffurf i'r tir. |
| **Tirwedd** | Ardal, fel y'i canfyddir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol. |
| **Tirwedd o ddiddordeb hanesyddol** | Ardal a restrir ac a ddisgrifir yn y Gofrestr anstatudol o Dirweddau o Ddiddordeb Eithriadol neu Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Ionawr 1998 ac a baratowyd gan Cadw mewn cydweithrediad â CCGC, ICOMOS (y DU), CBHC ac eraill. Ystyrir mai'r 58 tirwedd hon yw'r enghreifftiau gorau o'r gwahanol fathau o dirweddau hanesyddol yng Nghymru. |
| **Topograffi** | Term a ddefnyddir i ddisgrifio nodweddion daearegol wyneb y Ddaear e.e. mynyddoedd, bryniau, dyffrynnoedd, gwastadeddau. |
| **Torlannol** | Llystyfiant sy'n gysylltiedig â chrynofa ddŵr, fel arfer afon neu nant. |
| **Undod** | Cysondeb patrwm dros ardal eang h.y. elfennau tebyg, cydbwysedd a chymesuredd, graddfa ac amgaead. |
| **Ymdeimlad o le** | Cymeriad lle sy'n golygu bod modd ei adnabod yn lleol, neu ei fod yn unigryw h.y. yn wahanol i leoedd eraill. Gall rhai arweddau neu elfennau ysgogi ymdeimlad cryf o le e.e. ynysoedd, ceyrydd, pensaernïaeth frodorol. |

* Natural England, Scottish Natural Heritage a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (2014), Dull o gynnal asesiad cymeriad tirwedd.

** AD Hooley (i ddod?)

## Talfyriadau

| | |
|---|---|
| ACA (*SAC*) | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AGA (*SPA*) | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| AGF (*MPA*) | Ardal Gynllunio Forol |
| AHNE (*AONB*) | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| ATA (*SLA*) | Ardal Tirwedd Arbennig |
| ACM (*SCA*) | Asesiad Cymeriad Morwedd/Ardal Cymeriad Morwedd |
| ACT (*LCA*) | Asesiad Cymeriad Tirwedd *neu* Ardal Cymeriad Tirwedd |
| AEA (*EIA*) | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| AEDO (*LVIA*) | Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Olygfa |
| AEFO (*SVIA*) | Asesiad o'r Effaith ar y Forwedd a'r Olygfa |
| AEFDO (*SLVIA*) | Asesiad o'r Effaith ar y Forwedd, y Dirwedd a'r Olygfa |
| AEGDO (*CLVIA*) | Asesiad o'r Effaith Gronnol ar y Dirwedd a'r Olygfa |
| APCAP (*PCNPA*) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| CAEDO (*GLVIA*) | Canllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Olygfa |
| km | cilometrau |
| CAH (*HER*) | Cofnod Amgylchedd Hanesyddol |
| CNC (*NRW*) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CBSCNPT (*NPT*) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| CBSP (*BCBC*) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| CCGC (*CCW*) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| CSC (*CCC*) | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| CDLl (*LDP*) | Cynllun Datblygu Lleol |
| CGB (*BAP*) | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| CGBLl (*LBAP*) | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol |
| DPM (*MPS*) | Datganiad Polisi Morol |
| DSA (*CCS*) | Dinas a Sir Abertawe |
| Dll (*LW*) | Distyll |
| HG (*SM*) | Heneb Gofrestredig |
| MDll (*LWM*) | Marc Distyll |

| | |
|---|---|
| MPll (*HWM*) | Marc Penllanw |
| MCM (*SCT*) | Math Cymeriad Morwedd |
| m | metrau |
| mf (*nm*) | milltir forol |
| NHM (*HSC*) | Nodweddion Hanesyddol Morwedd |
| PCAP (*PCNP*) | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| PCMGI (*HPMCZ*) | Parth Cadwraeth Morol Gwarchodedig Iawn |
| Pll (*HW*) | Penllanw |
| RhIBA (*ICZM*) | Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol |
| SBCN (*SINC*) | Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur |
| SoDdGA (*SSSI*) | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SGDd (*GIS*) | System Gwybodaeth Ddaearyddol |
| UDO (*AOD*) | Uwch Datwm Ordnans |
| yACA (*cSAC*) | ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig |